Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>28 HYDREF 2019<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>28 OCTOBER 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

# R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Medi 2019.

**4 COFNODION – PANEL RHIANT CORFFORAETHOL** (Tudalennau 13 - 18)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, cofnodion drafft y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019.

**5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6 POLISI GOSOD TAI CYNGOR (CYSWLLT LLEOL)** (Tudalennau 33 - 132)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**7 ADRODDIADAU BLYNYDDOL A CHYFRIFON YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN 2018/19** (Tudalennau 133 - 154)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD** (Tudalennau 155 - 296)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol.

**9 GOSTWNG OED MYNEDIAD I YSGOL LLANDEGFAN** (Tudalennau 297 - 302)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

**10 FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL DRAFFT** (Tudalennau 303 - 326)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**11** **CWRS GOLFF LLANGEFNI** (Tudalennau 327 - 340)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol.

**12** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono ym Mharagraff 16, Atodlen 12A y Ddeddf".

**13** **DIWEDDARIAD YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN** (Tudalennau 341 - 352)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

This page is intentionally left blank

**Y PWYLLGOR GWAITH**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2019**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 7)<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (ar gyfer eitem 10)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitemau 9 a 18)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ar gyfer eitem 5)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Prif Swyddog Datblygu (Datblygu ac Adfywio Economaidd) (TJ) (ar gyfer eitem 10)<br>Swyddog Effeithiolrwydd Ysgolion (MH) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Glyn Haynes, Shaun Redmond. |

DRAFT

---

**1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO.**

Dim i'w hadrodd

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2019 i'w cymeradwyo ganddo.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2019 fel rhai cywir.**

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH.

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng mis Hydref, 2019 a mis Mai, 2020 i'w ystyried a nodwyd yr eitemau newydd a ganlyn -

**• Ar gyfer cyfarfod 28 Hydref, 2019**

- Eitem 4 - Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd)
- Eitem 7 - Gostwng yr oedran derbyn plant i Ysgol Llandegfan

**• Ar gyfer cyfarfod 25 Tachwedd, 2019**

- Eitem 14 - Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2020/21
- Eitem 15 - Bargen Twf Gogledd Cymru

**• Ar gyfer cyfarfod 17 Chwefror, 2020**

- Eitemau 19 i 32 - Cyllideb 2020/21 ac eitemau sy'n gysylltiedig â Chyllid
- Eitem 34 - Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 i 2024

**Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Hydref, 2019 i Mai, 2020 fel y'i cyflwynwyd.**

## 5. ADRODDIAD PERFFORMIO BLYNYDDOL (CYNLLUN GWELLA) 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn; mae'r adroddiad yn ddogfen statudol sy'n dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliant a'r blaenoriaethau yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol a Chynllun y Cyngor. Mae ffurf Adroddiad Perfformiad Blynyddol eleni ychydig yn wahanol i rai'r blynyddoedd diwethaf gan ei fod yn edrych ar gynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran cyflawni yn erbyn ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2018/19 fel yr amlinellwyd o dan y 3 amcan blaenoriaeth a nodir ym mharagraff 1.3 yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn falch o allu adrodd, ar sail ei berfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol, a elwir yn Fesurau Atebolrwydd Perfformiad (MAP), fod safle'r Cyngor trwy'r wlad wedi gwella unwaith eto yn 2018/19. Er y bu rhai siomedigaethau yn 2018/19 gydag atal datblygu gorsaf Wylfa Newydd a'r llithriad ar Raglen Moderneiddio Ysgolion yn ardaloedd Llangefni a Seiriol, bu nifer o lwyddiannau nodedig hefyd gan gynnwys cwblhau Ffordd Gyswllt Llangefni, adfywio Neuadd y Farchnad yng Nghaergybi sydd bellach yn gartref i'r llyfrgell leol, cwblhau ac agor yr Ysgol Santes Dwynwen newydd yn Niwbwrch ynghyd â chwblhau a phrydlesu 7 uned fusnes newydd yn Llangefni gydag 8 uned arall yng Nghaergybi yn cael caniatâd cynllunio a'r gwaith adeiladu yn cychwyn yn 2019/20. Llwyddodd y Gwasanaeth Tai i ddod â 78 o dai gwag yn ôl i ddefnydd ledled yr Ynys ac adeiladwyd cyfanswm o 48 o gartrefi newydd yn ystod y flwyddyn. Wrth dynnu sylw at y cyflawniadau hyn a rhai eraill, diolchodd yr Aelod Portffolio i staff y Cyngor gan na fyddai'r llwyddiannau hyn wedi bod yn bosib heb eu hymroddiad a'u gwaith caled. Wrth edrych ymlaen, er bod y Cyngor yn parhau i wynebu her ac ansicrwydd wrth ddarparu ei

wasanaethau, roedd yn hyderus serch hynny y gallai, gyda chefnogaeth ei staff a'i bartneriaid, wneud gwelliannau pellach a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor Sgriwtini, wrth ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 11 Medi, yn falch o nodi perfformiad y Cyngor fel y meincnodwyd ef yn erbyn perfformiad Cynghorau eraill yng Nghymru a'r gwelliant yn ei safle cenedlaethol o ganlyniad. 'Roedd yn ddiolchgar i'r Arweinydd a'r Swyddogion a fynychodd y cyfarfod am ymateb yn eglur i'r cwestiynau a godwyd ar yr adroddiad. Roedd y Pwyllgor Sgriwtini yn falch o argymell yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith y llwyddiannau lu y mae'r adroddiad yn dyst iddynt a chytunwyd bod y llwyddiant hwnnw i'w briodoli i arweinyddiaeth glir, gweithlu ymroddedig a system rheoli perfformiad, asesu ac adrodd effeithiol.

**Penderfynwyd argymell y dylid cyhoeddi'r fersiwn derfynol o Adroddiad Perfformiad 2018/19 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref, a bod Swyddogion yn cwblhau hyn mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio fel y gellir cyflwyno'r Adroddiad i'r Cyngor llawn ar 7 Hydref, 2019.**

## 6. ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2019/20 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol fod cerdyn sgorio cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20 yn dangos bod mwyafrif y dangosyddion a gafodd eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn targedau gydag ychydig iawn o feysydd yn dangos yn goch ar y cerdyn sgorio. Os yw meysydd yn tanberfformio, mae camau lliniaru yn cael eu rhoi ar waith i wella'r perfformiad yn Chwarter 2 (adran 4 yr adroddiad).

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod rhai newidiadau wedi'u gwneud i'r cerdyn sgorio er mwyn darparu trosolwg mwy strategol o berfformiad, a hynny'n dilyn gweithdy yn yr haf gydag aelodau o'r UDA, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol; mae'r newidiadau hefyd wedi arwain at aliniad agosach rhwng y Dangosyddion Perfformio Allweddol sy'n ymwneud â monitro perfformiad a thri amcan strategol y Cyngor fel y nodir hwy ym mharagraff 2.1 yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, fod y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 11 Medi wedi trafod y meysydd lle bu dirywiad mewn agweddau ar berfformiad yn Chwarter 1 yn y meysydd tai, cynllunio a gwasanaethau plant. Roedd y Pwyllgor, wrth nodi'r camau lliniarol yr oedd y gwasanaethau hynny'n eu cymryd i wella perfformiad yn y meysydd dan sylw, fel yr eglurwyd gan y Swyddogion yn y cyfarfod, wedi derbyn y sicrwydd a roddwyd ynghylch y cynnydd a oedd yn cael ei wneud.

**Penderfynwyd derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 1 2019/20, gan nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Rheoli yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i dderbyn y mesurau lliniaru fel maent wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.**

## 7. FFEDERALEIDDIO YSGOL GORONWY OWEN AC YSGOL MOELFRE

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar ffederaleiddio Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.



DRAFT

Yn dilyn cais gan gyrff llywodraethu Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre ym mis Mawrth, 2019 i gynnal ymgynghoriad ar sefydlu trefniant ffederasiwn rhwng y ddwy ysgol, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod cyfarfodydd wedi eu cynnal ym mis Ebrill a mis Mai yn Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre yn y drefn honno er mwyn ystyried yr opsiynau a'r broses ymgynghori. Yn dilyn y cyfarfodydd hyn, daethpwyd i'r casgliad mai ffederaleiddio oedd yr opsiwn gorau i'r ddwy ysgol dan sylw ac ym mis Mai, 2019 awdurdodwyd swyddogion gan y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i ffederaleiddio. Rhedodd y broses ymgynghori am gyfnod o 6 wythnos rhwng 3 Mehefin a 15 Gorffennaf, 2019 ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau. Roedd yr ymateb cadarnhaol iawn a gafwyd gan rieni plant yn y ddwy ysgol yn canmol yr arweinyddiaeth, y staff a'r ethos yn y ddwy ysgol (Roedd crynodeb yn yr adroddiad ac yn Atodiad 2).

Mewn ymateb i gwestiynau am fanteision posib ffederaleiddio o ran gwell effeithlonrwydd ariannol ac ansawdd gwell y ddarpariaeth addysg, eglurodd y Swyddog Effeithiolrwydd Ysgolion fod Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre eisoes yn gweithio mewn partneriaeth wirfoddol sy'n cael ei monitro gan grŵp partneriaeth. Er na fydd y trefniant ffederaleiddio yn arwain at unrhyw newidiadau mawr, bydd yn golygu parhad y cydweithredu llwyddiannus sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd y ddwy ysgol yn rhedeg eu cyllidebau eu hunain ac er na ragwelir y bydd ffederaleiddio yn cynhyrchu arbedion sylweddol, daw â manteision ar ffurf cydgysylltu’r defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd addysgu’r ddwy ysgol. Bydd y newid mwyaf yn sgil ffederaleiddio yn golygu bod y ddwy ysgol yn cael eu rheoli o dan un corff llywodraethu a fydd yn golygu llai o bwysau ar y Pennaeth a sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r cynghorau ysgol hefyd yn gweld manteision i'r cynnig o safbwynt rhannu teithiau a gweithgareddau allgyrsiol, gwneud ffrindiau newydd ac effaith gadarnhaol ar chwaraeon, cystadlaethau a gemau.

**Penderfynwyd awdurdodi Swyddogion i symud ymlaen gyda’r broses ffederaleiddio rhwng Ysgol Goronwy Owen ac Ysgol Moelfre.**

## 8. ADRODDIAD CYNNYDD CHWARTEROL Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar y cynnydd a’r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaeth i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddatblygiadau yn y cyfnod ers y diweddariad chwarterol blaenorol gan gyfeirio'n benodol at y canlynol -

- Meysydd y gwnaed cynnydd ynddynt o dan y Cynllun Datblygu Gwasanaeth 3 blynedd newydd (sydd wedi disodli'r Cynllun Gwella Gwasanaeth blaenorol).
- Gwaith ac effaith y Tîm Teuluoedd Gwydn sy'n camu i mewn pan fo gan deuluoedd anghenion uchel, a hynny er mwyn darparu ymyrraeth a chefnogaeth ddwys i gynnig cymorth pan fo teuluoedd yn chwalu, i atal plant rhag gorfod derbyn gofal ac i ddychwelyd plant sydd wedi bod yn derbyn gofal i’w teuluoedd.
- Prosiect Lleisiau o Ofal Cymru sy'n ceisio hwyluso ymgysylltiad gwell â phlant lleol sy’n derbyn gofal a phobl ifanc sydd wedi gadael gofal, a hynny trwy wrando ar eu profiadau a gwella gwasanaethau ar eu rhan trwy ddatblygu Grŵp Cyfranogi ar gyfer plant sydd yn derbyn gofal neu sydd wedi bod yn derbyn gofal. Bydd y grŵp yn helpu i gydgynhyrchu strategaeth ar gyfer plant mewn gofal a gadawyr gofal yn Ynys Môn ynghyd â Siarter Rhianta Corfforaethol.

- Maethu a Recriwtio Gofalwyr Maeth. Ym mis Mehefin cynhaliwyd y Pythefnos Maethu sy'n ddigwyddiad blynyddol i godi proffil gofalwyr maeth ac i gynorthwyo i recriwtio rhai newydd. Mae recriwtio darpar ofalwyr maeth wedi cael hwb gan y pecyn gofal maeth newydd a gyflwynwyd ym mis Ebrill, 2019 ac mae'r ymgyrch recriwtio wedi arwain at y posibilrwydd y bydd 24 o welyau gofal maeth newydd ar gael yn Ynys Môn erbyn mis Hydref, 2019.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd y bydd y Gwasanaeth yn cynnal adolygiad o'r sefyllfa yn ystod y chwe mis nesaf drwy'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wrth i flwyddyn gyntaf y Cynllun Datblygu Gwasanaeth ddod i ben.

Adroddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fod y Pwyllgor wedi cael diweddariad tebyg yn ei gyfarfod ar 11 Medi ac yn ogystal â chadarnhau ei fod yn fodlon â'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud o fewn y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a chyflymder y cynnydd, roedd y Pwyllgor hefyd wedi ailgadarnhau ei gefnogaeth i Arweinydd y Cyngor wrth iddi beidio â gosod targed ar gyfer gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor ei adroddiad cyntaf gan y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol sydd newydd ei sefydlu (ac sydd wedi disodli'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant).

Wrth ystyried yr adroddiad, cododd y Pwyllgor Gwaith y materion canlynol -

- Bod yr adroddiadau cynnydd chwarterol a gyflwynir dros amser yn dangos, wrth i'r Gwasanaeth barhau ar ei daith wella, fod y gwelliannau y mae wedi'u gwneud hyd yma yn gwreiddio ac yn arwain at newid cadarnhaol. Yn wyneb hynny, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith a ddylid ystyried gostwng amlder adroddiadau cynnydd i bob 6 mis, ac a ddylent gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cyfanrwydd yn y dyfodol yn unol â'r drefn gyda'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol newydd. Ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Sgrwiini Corfforaethol, cytunwyd y dylid cyflwyno'r mater i'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol am sylw.
- P'un ai oherwydd y sylwadau a wnaed gan Brif Weithiwr Cymdeithasol Lloegr (Plant a Theuluoedd) nad yw ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol o reidrwydd yn ddatrysiad ar gyfer gostwng nifer y plant sy'n dod i ofal oherwydd nid y teuluoedd sy'n cael cymorth cynnar yw'r teuluoedd sy'n dod i ofal yn draddodiadol, mae angen i'r Awdurdod fyfyrio ar y pwyslais y mae'n ei roi ar fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ei fod wedi cael sgwrs gyffredinol gyda Phrif Weithiwr Cymdeithasol Lloegr (Plant a Theuluoedd) mewn cynhadledd yn ddiweddar a oedd yn cynnwys trafod y gwahanol fathau o deuluoedd y mae'r Awdurdod yn gweithio gyda nhw. 'Roedd yn ymwybodol bod gan Benaethiaid Gwasanaeth yng Nghymru ddiddordeb mewn cael sgwrs fanylach gyda Phrif Weithiwr Cymdeithasol Lloegr ar y mater hwn ac efallai mai'r man cychwyn fyddai ei gwahodd i ymgysylltu ar lefel ranbarthol.

**Penderfynwyd –**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud hyd yma yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**
- **Gofyn i'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried amlder yr adroddiadau cynnydd, ac ystyried p'un a ddylai'r adroddiadau hynny ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cyfanrwydd**.

DRAFT

## 9. CAIS CROESO MENAI I FOD YN NODDWYR CYMUNEDOL I ADSEFYDLU TEULU O FFOADURIAID O SYRIA

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gofyn i’r Pwyllgor Gwaith gefnogi cais Croeso Menai i’r Swyddfa Gartref i fod yn noddwyr cymunedol i deulu o ffoaduriaid sydd angen eu hailsefydlu.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod Grŵp Croeso Menai yn cynnwys 12 aelod ag arbenigedd mewn amrywiol feysydd sy'n gweithio'n galed i lunio cais i'r Swyddfa Gartref i ddod yn noddwr cymunedol fel y gellir ailsefydlu teulu bregus arall o Syria yn ardal Menai (mae 5 teulu bregus o Syria eisoes wedi cael eu croesawu gan Ynys Môn). Gan nad yw'r Grŵp wedi dod o hyd i gartref addas i'r teulu hyd yma a allai fod ar y naill ochr neu’r llall i’r Fenai, mae angen cefnogaeth Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd er mwyn cyflwyno'r cais.

Noddir Croeso Menai gan Dinasyddion Cymru sy'n rhan o Citizens UK; Bydd Dinasyddion Cymru yn gweithredu fel gwarantwr ar gyfer Croeso Menai pe bai'r grŵp yn methu â chyflawni yn y dyfodol ac o dan amgylchiadau o'r fath, byddent yn cymryd drosodd y gwaith o gefnogi unrhyw deuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth gan y noddwyr cymunedol. Amlinellir gofynion y Swyddfa Gartref o ran Noddwyr Cymunedol yn yr adroddiad ynghyd â rôl yr Awdurdodau Lleol. Gall yr Awdurdod Lleol wrthod cefnogi cais os oes ganddo bryderon am addasrwydd yr ardal ailsefydlu arfaethedig neu am allu'r noddwr cymunedol i ddarparu cefnogaeth i'r teulu sydd wedi'i ailsefydlu. Gall hefyd wrthod derbyn teulu os yw'n teimlo na ellir cwrdd ag anghenion y teulu yn yr ardal leol. Cadarnhaodd y Swyddog ei fod yn hyderus bod y trefniadau i alluogi Croeso Menai i symud ymlaen wedi eu sefydlu.

**Penderfynwyd cefnogi cais Croeso Menai i’r Swyddfa Gartref i fod yn Noddwyr Cymunedol i dderbyn teulu o ffoaduriaid o Syria petaent yn cael eu lleoli ar Ynys Môn.**

## 10. CYNLLUN ADFYWIO ECONOMAIDD GOGLEDD MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol sy'n ymgorffori Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd fod Cynllun Lle Gogledd Ynys Môn wedi'i greu o ganlyniad uniongyrchol i'r ymatebion a gafwyd gan aelodau'r cyhoedd ar sail eu blaenoriaethau ar gyfer adfywio'r ardal. Amcanion y cynllun yw darparu cyfeiriad teithio clir a darparu sylfaen i sicrhau swyddi cynaliadwy, buddsoddiad a chyfleoedd i ardal Gogledd Ynys Môn yn erbyn cefndir o Hitachi yn atal gwaith ar Wylfa Newydd a chau ffatri Rehau yn Amlwch. Cynhaliwyd proses ymgynghori gychwynnol gyda’r cyhoedd a rhanddeiliaid dros haf 2018 i nodi safbwyntiau, problemau, syniadau a blaenoriaethau. Cafwyd dros 600 o ymatebion i’r broses hon, gan adlewyrchu pryder pobl leol am ddyfodol eu hardal a'u hawydd i weld rhywbeth yn cael ei wneud i'w gwella. Cyhoeddwyd y cynllun drafft ym mis Ebrill, 2019 ac yn sgil ymgynghoriad ar y cynllun gyda’r cyhoedd a rhanddeiliaid, fe gafwyd 48 o ymatebion a oedd yn eithriadiol o gefnogol i'r cynllun a'i gynnwys. Gan fod yr adnoddau sydd ar gael gan y Cyngor yn gyfyngedig, datblygwyd cais cyllido allanol i sicrhau cymorth allanol ychwanegol gan gronfa economaidd-gymdeithasol yr Asiantaeth Datgomisiynu Niwclear (ADN). Gan gydnabod effaith cyhoeddiadau Hitachi a Rehau, addawodd yr ADN gymorth ariannol o £ 450k i helpu i ddatblygu Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn y Cyngor ac i gefnogi creu cyfleoedd economaidd newydd ar yr Ynys. Defnyddir yr arian i ddatblygu rhai o'r cysyniadau a'r syniadau yn y Cynllun i’r cam nesaf ac i ddenu cyllid / grantiau o ffynonellau eraill. Fodd bynnag, rhaid nodi y bwriedir i'r Cynllun ffurfio un rhan fach yn unig o strategaeth homogenaidd gyffredinol i adfywio ac ailddatblygu ardal Gogledd Ynys Môn mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid.

DRAFT

Er mwyn medru rhyddhau'r cyllid, (tua £165k y flwyddyn am 3 blynedd) dywedodd y Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol fod yn rhaid i'r Cyngor gyflwyno rhaglen yn flynyddol y mae'n rhaid i'r ADN ei chymeradwyo. O ystyried bod nifer o grwpiau ac unigolion wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn i ofyn am arian ar gyfer eu prosiectau / syniadau, bydd yn rhaid i'r Cyngor gymryd agwedd gadarn a disgybledig o ran sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio a rhaid blaenoriaethu'r prosiectau / gweithgareddau hynny a fydd yn cael effaith hirdymor ar yr ardal o ran denu cyfleoedd cyflogaeth a buddsoddi.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a'r Cynllun fel un sy'n darparu sylfaen dda ar gyfer ailddatblygu Gogledd yr Ynys gyda'r nod o greu swyddi a ffyniant i'r ardal ar adeg pan fo'r rhanbarth wedi dioddef ergydion economaidd difrifol. Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i gymunedau Gogledd yr Ynys am eu hymateb i'r ymgynghoriad a'r Cynllun Adfywio ac am ymrwymo i weithio gyda'r Cyngor i wireddu'r cynllun.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo a chefnogi Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn.**
- **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol a'r Aelod Portffolio i –**
    - **Ddiweddaru'r Cynllun fel y bydd angen**
    - **Gwneud ceisiadau am gyllid, derbyn cynigion cyllid, a dyfarnu cyllid ar gyfer prosiectau fydd yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r cynllun, yn amodol ar fod y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) yn cytuno.**
- **Adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn flynyddol.**

## 11. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1 blwyddyn ariannol 2019/20 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, yn seiliedig ar y wybodaeth ariannol sydd ar gael am dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hyd at ddiwedd mis Mehefin, 2019, mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2019/20 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £ 1.60m (1.18% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2019/20) a hynny yn bennaf oherwydd yr un math o bwysau ar y gyllideb ag a fu yn 2018/19, sef yn benodol mewn perthynas â Chludiant Ysgol a Gwasanaethau Oedolion. Rhoddwyd y system Drafnidiaeth "One" ar waith yn 2018/19 ac mae hynny, ynghyd ag ymarfer aildendro, wedi arwain at ostyngiad o tua £230k yn y gorwariant cyffredinol ar drafnidiaeth ysgol o gymharu â'r gorwariant a fyddai wedi digwydd fel arall. Ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, mae trosglwyddo un lleoliad cost uchel cymhleth iddo o'r Gwasanaeth Plant wedi cyfrannu at y gorwariant o £ 599k a ragwelir yn y maes Anableddau Dysgu. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei bod yn anodd proffwydo'n gywir yn gynnar yn y flwyddyn ariannol ond mae profiadau yn y gorffennol wedi dangos bod y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn tueddu i fod yn well na'r amcangyfrif yn y chwarter cyntaf.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, er bod yr adroddiad yn dangos yn Atodiad 1 fod gwariant ysgolion yn unol â'r gyllideb a ddirprwywyd iddynt, nid yw'n rhoi arwydd o beth fydd yr effaith gyffredinol ar falansau ysgolion. Rhagwelir y bydd balansau ysgolion yn parhau i ostwng, ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol y byddant yn sylweddol is na'r balans o £600k a oedd yn sefyll ar ddiwedd 2018/19.



DRAFT

Mewn ymateb i gwestiwn am ôl-effeithiau ymosodiadau olew Saudi Arabia ar brisiau ynni a'r effaith bosib ar gyllideb refeniw'r Cyngor, eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod gan y Cyngor sawl contract tymor hir lle mae'r pris yn sefydlog am nifer o flynyddoedd. Felly, os bydd pris olew yn codi yn y tymor byr ac wedyn yn gostwng eto, ni fydd yn cael effaith sylweddol ar y Cyngor. Fodd bynnag, os bydd pris olew yn parhau i fod yn uchel pan ddaw'r amser i'r Cyngor aildrafod ei gontractau, yna mae'r Cyngor yn debygol o deimlo'r effeithiau bryd hynny.

- **Penderfynwyd –**

  - **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiad A a B yr adroddiad yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2019/20.**
  - **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2019/20 fel y manylir yn Atodiad C.**
  - **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad Ch yr adroddiad a chymeradwyo defnyddio unrhyw falans sy'n weddill ar y cyfalaf / datblygu'r system cynllunio a phridiannau tir awtomataidd newydd i ariannu'r gwaith o sganio a digideiddio ffeiliau hanesyddol.**
  - **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2019/20 fel y caiff ei nodi yn Atodiad D yr adroddiad.**
  - **Nodir costau asiantaeth ac ymgynghorwyr ar gyfer 2019/20 fel y cânt eu nodi yn Atodiadau DD, E ac F.**
  - **Cymeradwyo'r ffioedd a'r prisiau newydd ar gyfer Canolfan Fusnes Ynys Môn fel y'u nodir yn Atodiad FF yr adroddiad.**

## 12. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y gwariant gwirioneddol hyd at 30 Mehefin 2019 yn £3.076m o gymharu â phroffil o £4.623m. Mae mwyafrif y prosiectau ar darged i gael eu cwblhau o fewn y gyllideb. Gan dynnu sylw at Gynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares, dywedodd yr Aelod Portffolio fod y contractwr newydd ar y cynllun (a benodwyd i gymryd lle'r contractwr a fethodd, sef Dawnus) wedi cyflwyno tendr diwygiedig yn seiliedig ar y wybodaeth newydd am y gwaith yr oedd angen ei wneud. Cafodd y ffigwr hwn ei gynnwys mewn cais newydd i Lywodraeth Cymru i gwrdd â'r holl gostau newydd a chostau oedd yn gysylltiedig â'r ffaith bod Dawnus wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Er bod y cais wedi'i gymeradwyo, gwelwyd cynnydd o £0.22m yn yr ymrwymiad y byddai angen i'r Cyngor ei wneud o ran cyllid cyfatebol. Oherwydd costau uwch y cynllun gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ailddyrannu £ 200k o arian cyfatebol o Gynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Traeth Coch i Gynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares gan nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa i symud ymlaen â chynllun Traeth Coch yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd y £0.222m ychwanegol yn cael ei ariannu gan y gwasanaeth o'i gyllidebau cyfredol.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2019/20 yn Chwarter 1.**
- **Cymeradwyo ailddyrannu'r cyllid cyfatebol o £200k o Gynllun Lliniaru Lifogydd Traeth Coch i Gynllun Lliniaru Lifogydd Biwmares.**

## 13. MONITRO’R GYLLIDEB CRT – CHWARTER 1 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2019/20 i’w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y sefyllfa refeniw ar gyfer y chwarter cyntaf yn dangos gorwariant o £4k. Mae'r rhagolwg incwm bellach £75k yn well na'r gyllideb wreiddiol, a rhagwelir y bydd y gwariant yn unol â’r gyllideb. Mae’r gwariant cyfalaf £342k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ac mae'r gwariant a ragwelir yn £142k yn uwch na'r gyllideb. Felly mae'r diffyg a ragwelir (gan gynnwys refeniw a chyfalaf) £67k yn uwch na'r gyllideb a hynny’n bennaf oherwydd y gwariant cyfalaf uwch na'r gyllideb.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod yr Awdurdod yn parhau i ddefnyddio balansau CRT i ariannu gwariant cyfalaf yn y lle cyntaf ond wrth i'r balansau hynny gael eu defnyddio, bydd yr Awdurdod yn edrych ar fenthyca’n allanol. Yn dilyn newidiadau i reolau Llywodraeth Cymru sy'n caniatáu mwy o gyfle i fenthyca, bydd yr Awdurdod yn adolygu ei gynlluniau tai i sefydlu faint o dai cyngor newydd y gall eu datblygu trwy fenthyca, tra hefyd yn sicrhau bod y swm benthyca yn fforddiadwy i'r CRT.

**Penderfynwyd nodi’r canlynol –**

- **Y sefyllfa a amlinellir o ran perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1, 2019/20.**
- **Yr alldro tybiedig ar gyfer 2019/20.**

## 14. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOL 2020/21 I 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 oedd yn ymgorffori'r Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC) ar gyfer 2020/21 i 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r CATC yn nodi anghenion adnoddau tebygol y Cyngor am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn manylu ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofynion hynny gyda’r cyllid sydd ar gael.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid fod y CATC wedi'i gwblhau yn ystod cyfnod o ansicrwydd ynghylch economi'r DU a'r effaith ar lefelau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol. Mae'r ansicrwydd yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cyhoeddiad mewn da bryd ynghylch ei setliad ariannol dangosol ar gyfer awdurdodau lleol am y flwyddyn nesaf a thu hwnt, yn enwedig nawr bod ei sefyllfa ei hun yn eglurach yn dilyn Adolygiad Gwariant y Llywodraeth Ganolog y cyhoeddwyd ei ganlyniad ar 4 Medi, 2019. O ystyried y pwysau parhaus ar lywodraeth leol mae hefyd yn hanfodol fod y setliad cyllido ar gyfer cynghorau yn un teg.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai bwriad y Llywodraeth Ganolog oedd cynnal Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr 3 blynedd yn ystod haf 2019 ond gohiriwyd hynny o blaid Adolygiad Gwariant blwyddyn a gynhaliwyd ar 4 Medi pan wnaed cyhoeddiad y bydd £600m o arian ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2020/21. Fodd bynnag, pan fo Llywodraeth Ganolog yn addo cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion ac ati, nid yw o reidrwydd yn golygu y bydd yr arian ychwanegol yn ffeindio ei ffordd i ysgolion yng Nghymru gan fod y ffordd y mae'r arian yn cael ei ddyrannu yn dibynnu ar gynlluniau a blaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru. Hyd nes y bydd y rheini'n hysbys mae'n anodd cynllunio ymlaen llaw gydag unrhyw sicrwydd. Felly mae'r CATC wedi ei seilio ar y wybodaeth sydd ar gael ar ddiwedd yr haf, ond o gofio y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol, gall y sefyllfa newid er gwell. Mae Llywodraeth Leol yn wynebu pwysau cyllidebol mewn nifer o feysydd ac mae’r Cyngor yn Ynys Môn yn wynebu ei bwysau unigryw ei hun ar ei gyllidebau (cyfeirir at hyn ym mhara 5.1 (i) i (x) o’r adroddiad). Yn

DRAFT

ddiweddar, cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adroddiad o'r enw "Sicrhau Adnoddau ar gyfer Gwasanaethau Lleol yn 2020/21 " sy'n manylu ar effaith llymder ar lywodraeth leol yng Nghymru ac sy'n amlinellu'r pwysau cyllidebol y mae cynghorau yn gyffredinol yn ceisio mynd i'r afael â nhw ledled Cymru ( Atodiad 2 i'r adroddiad). O ystyried y cyd-destun ariannol, mae'n anochel y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion sylweddol yn 2020/21 oni bai bod Llywodraeth Cymru yn rhyddhau arian ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol i helpu i gau'r bwlch cyllido. Mae'r CATC yn Nhabl 6 yn cynnwys amlinelliad o'r senario orau a'r senario waethaf lle byddai'n rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i gyfanswm o £6m neu £8.4m o arbedion yn y drefn honno dros y 3 blynedd nesaf. Mae'r broses hon eisoes wedi cychwyn a chafwyd hyd i arbedion o £1m eisoes. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi llwyddo i osod cyllideb gytbwys heb orfod dibynnu ar ddefnyddio balansau cyffredinol trwy ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd ar draws cyllidebau gwasanaeth ond gan barhau i amddiffyn y cyllidebau ar gyfer ysgolion a chynyddu'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Plant. Fodd bynnag, yn ystod y tair blynedd nesaf, mae'r sgôp i ddarganfod yr arbedion gofynnol trwy fesurau effeithlonrwydd gryn dipyn yn llai ac felly mae toriadau i wasanaethau yn fwy tebygol.

Wrth ystyried yr adroddiad, cydnabu'r Pwyllgor Gwaith fod y rhagolygon ariannol i'r Cyngor yn parhau i fod yn heriol a bod sicrhau arbedion o'r maint y bydd ei angen yn dod yn fwyfwy anodd heb gael effaith uniongyrchol ar wasanaethau a heb godi'r Dreth Gyngor yn sylweddol. Ni fyddai'n dymuno i'r un o'r ddau beth hynny ddigwydd. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn gytûn y dylai cynghorau lobïo Llywodraeth Cymru ar y cyd i gael cyfran deg o'r arian ychwanegol gan Lywodraeth Ganolog er mwyn helpu i barhau i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt - gan gynnwys ar gyfer ysgolion, ar gyfer pobl fregus a'r rheini sydd angen gofal neu'r rheini y mae pethau'n anodd arnynt.

**Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ynddo.**

## 15. ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 yn ymgorffori'r Adolygiad Blynyddol o ran Rheoli'r Trysorlys am 2018/19 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid mai'r Adolygiad Blynyddol yw'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cyhoeddi yn unol â'r gofynion ar gyfer adrodd ar reoli trysorlys – y ddau arall yw'r Strategaeth Rheoli Trysorlys Flynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor cyn y flwyddyn ariannol a'r Adolygiad Canol Blwyddyn. Archwiliwyd yr Adolygiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf, 2019 a chafodd ei dderbyn gan y pwyllgor heb wneud sylw pellach. Cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor Llawn ar ôl iddo gael ei dderbyn gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, oherwydd cyfraddau llog sy'n gyffredinol isel, nad oedd y Strategaeth Rheoli Trysorlys wedi newid rhyw lawer o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, o ganlyniad i falansau arian parod isel yn ystod y flwyddyn (roedd yr Awdurdod yn defnyddio arian parod lle bo modd er mwyn ariannu gwariant cyfalaf), penderfynwyd benthyca'n allanol ac wrth wneud hynny ad-dalodd y Cyngor £5m a chymerodd fenthyciad tymor hir newydd o £25m gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mae monitro llif arian y Cyngor bob dydd yn rhan o'r strategaeth ac yn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o arian parod ar gael pan fydd ei angen arno.

**Penderfynwyd –**



DRAFT

- **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn ffigyrau dros dro tan fod y gwaith o archwilio Datganiad Cyfrifon 2018/19 wedi'i gwblhau a bod y cyfrifon wedi eu harwyddo; bydd unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yn cael eu hadrodd fel bo'n briodol.**
- **Nodi'r dangosyddion pwyllog a rheoli trysorlys dros dro ar gyfer 2018/19 sydd yn yr adroddiad.**
- **Derbyn yr adroddiad blynyddol ar reoli'r trysorlys ac anfon yr adroddiad ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau.**

## 16. DATGANIAD AR Y POLISI RHEOLI RISG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn ymgorffori Datganiad ar y Polisi Rheoli Risg i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Adroddodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, fel rhan o'i drefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol da, fod angen i'r Cyngor gael datganiad clir ar ei bolisi cyffredinol mewn perthynas â rheoli risgiau wrth iddo gyflawni ei amcanion a darparu ei wasanaethau. Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Risg yn amlinellu'r cyfrifoldebau am nodi, rheoli a monitro'r risgiau hynny.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Polisi ar Reoli Risg fel y cafodd ei gyflwyno.**

## 17. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail ei bod yn golygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A i'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd.**

## 18. TAI CYNGOR NEWYDD – DATBLYGIAD O 10 NEU FWY O UNEDAU YN LLAINGOCH, CAERGYBI

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i symud ymlaen i ddatblygu cynllun tai newydd o 26 uned ar hen safle Ysgol Llaingoch yng Nghaergybi.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Gwaith fod y safle gerllaw stad Waenfawr y Cyngor ac y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys cymysgedd o unedau tai. Mae'r angen am dai rhent cymdeithasol a thai rhent canolraddol yng Nghaergybi wedi'i hen sefydlu ac mae 84 o ymgeiswyr sydd angen tai fforddiadwy wedi'u cofrestru ar wefan Tai Teg. Yn ogystal â darparu cartrefi newydd lle mae gwir angen amdanynt, mae'r datblygiad yn cynnig buddion o ran sicrhau refeniw ar gyfer cynllun busnes yr ysgolion a chefnogi busnesau lleol a'r economi leol. Byddai'r cynnig yn seiliedig ar gytundeb dylunio ac adeiladu gyda'r datblygwr fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith a'r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio, rhagwelir y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau yng Ngwanwyn 2020 ar y cynharaf.

Trafododd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad ac wrth groesawu'r cynnig am dai newydd, gofynnodd am eglurder a sicrwydd pellach ynghylch y cytundeb adeiladu. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai at fanteision "pecynnau dylunio ac adeiladu" a gymeradwywyd fel proses ar gyfer datblygu tai cymdeithasol newydd gan y Pwyllgor Gwaith yn 2017 ac sy'n ddull sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor ar gyfer cynlluniau eraill.

DRAFT

**Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen i ddatblygu cynllun tai cyngor newydd o 26 o unedau ar safle Ysgol Llaingoch, Caergybi.**

*Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf y Prif Weithredwr o'r Pwyllgor Gwaith cyn iddo ymddeol, diolchodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn unigol ac ar y cyd i Dr Gwynne Jones am ei ymroddiad yn y swydd ac am yr arweiniad cadarn a roddodd i'r Awdurdod fel Prif Weithredwr.*

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

# PANEL RHIANT CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2019

**YN BRESENNOL:** Dr Gwynne Jones (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol)
Y Cynghorydd Alun Mummery (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau)
Y Cynghorydd Margaret M. Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)
Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)
Liz Fletcher (BIPBC)
Fôn Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd)
Huw Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)
Dawn Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol)
Llŷr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Plant)
Dawn Hutchinson (Arweinydd Ymarfer – Tîm Teuluoedd Gwydn)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid), Cynghorydd Richard Griffiths (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10 MEHEFIN, 2019**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2019 yn gywir.

**3 MATERION YN CODI**

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Plant fod y Panel, yn ei gyfarfod blaenorol ym mis Mehefin, wedi gofyn iddo ddilyn i fyny ymholiad i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am argaeledd arian enillion trosedd er mwyn helpu i ariannu'r prosiect Voices from Care Cymru er mwyn sefydlu grŵp cyfranogiad misol ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal i helpu i gyd-gynhyrchu Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Gadael Gofal Ynys Môn. Roedd hyn yn dilyn cais a wnaed yn wreiddiol gan y Gwasanaethau Plant i Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fel rhan o geisiadau cyffredinol am arian ar gyfer y prosiect a gyflwynwyd i bartneriaid mewnol ac allanol y Cyngor. Roedd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi gwrthod y cais ar y sail y byddai gwneud cyfraniad yn gosod cynsail ar gyfer cyfrannu at brosiectau gan awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru ac am ei fod yn datblygu ei broses ei hun ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru. Cyflwynwyd ymholiad arall ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio arian enillion trosedd yn lle hynny. Dywedodd y Swyddog nad oedd ymateb wedi'i dderbyn pan

gyfarfu'r Panel ym mis Mehefin a chadarnhaodd **nad oedd unrhyw ymateb wedi ei dderbyn i'r ymholiad dilyn i fyny chwaith**.

Nododd y Panel y sefyllfa ac, er ei fod yn siomedig, cytunodd ei bod yn bwysig i'r Gwasanaeth barhau gyda'r gwaith o ddatblygu'r prosiect. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fod gwaith wedi dechrau ar y prosiect ac y byddai cynrychiolwyr o Voices from Care Cymru yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol ym mis Rhagfyr i gyflwyno diweddariad ar gynnydd.

## 4 ADRODDIAD Y SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd i'r Panel ei ystyried, adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol (Uned Diogelu ac Ansawdd) ar y cynnydd a wnaed ar faterion a godwyd ers cyflwyno adroddiad yr Uned Ddiogelu ac Ansawdd yn y diwyg hwn am y tro cyntaf i'r Panel ym mis Mawrth, 2018.

Tynnodd y Swyddogion Adolygu Annibynnol sylw at brif bwyntiau'r adroddiad, fel a ganlyn -

- Bod anghysondeb yn ansawdd yr asesiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i fod yn broblem – o'r archwiliad o 15 achos, roedd yr asesiadau achosion ar gyfer 9 o blant yn gyfredol (60%), er y gwelwyd enghreifftiau o asesiadau ardderchog hefyd, gyda chamau gweithredu clir i wella'r canlyniadau ar gyfer y plentyn.
- O'r 70 o adolygiadau statudol a gynhaliwyd yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf, 2019, dim ond mewn 30 o adolygiadau (44.2%) y cafwyd dogfen Rhan 6. Roedd y ddogfen wedi cael ei diweddaru mewn 30 o adolygiadau (42.8%). Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ymwybodol o'r ymdrech fawr a wnaed i baratoi'r dogfennau angenrheidiol ar gyfer adolygiadau ac yn cydnabod ymateb y Gwasanaeth bod y cyfnod hwnnw wedi bod yn un heriol o safbwynt absenoldebau staff, a bod hynny yn ôl pob tebyg wedi effeithio ar berfformiad.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn ystyried bod y ddogfen Gofal a Chefnogaeth Adran 6 yn aneffeithiol o ran hwyluso'r broses adolygu ac yn falch bod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i wneud newidiadau i'r ddogfen.
- Ar gyfer y ddau adroddiad blaenorol i'r Panel, cynhaliwyd archwiliad o achosion er mwyn mesur i ba raddau y mae nodiadau'r achos yn gyfredol. Amlygodd y ddau archwiliad bod nodiadau achos cyfredol ar gael ar gyfer pob achos y craffwyd arno. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol o'r farn fod y cynnydd rhagorol wedi ei gynnal mewn perthynas ag ansawdd a chysondeb y nodiadau achos a gedwir, gydag enghreifftiau o nodiadau'n cael eu hychwanegu sawl gwaith y dydd. O ganlyniad, ni chynhaliwyd archwiliad penodol ar gyfer yr adroddiad hwn.
- Gwahoddir y Swyddogion Adolygu Annibynnol i gyfarfodydd cynllunio gofal parhaol gan eu galluogi i fynegi barn ar lafar neu ar e-bost ymlaen llaw. Croesewir y datblygiad hwn yn fawr. Mae cyfarfodydd chwarterol yn cael eu cynnal hefyd rhwng y Swyddogion Adolygu Annibynnol a Rheolwyr y Gwasanaeth i drafod materion penodol – mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r materion a'r pryderon a godwyd yn yr ail o'r cyfarfodydd hynny a gynhaliwyd ers sefydlu'r broses newydd hon, ynghylch absenoldebau staff a newid mewn gweithwyr cymdeithasol, llwyth gwaith a disgwyliadau a materion ynghylch ymarfer (cyfeirir ato ym Mharagraff 5 (a) i (f) yr adroddiad).
- Roedd sampl o 6 o achosion lle'r oedd angen Cynllun Dysgu Ôl-16 yn dangos nad oedd y cynlluniau wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu anghenion presennol y plentyn.
- Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn parhau i ymateb i'r her o safbwynt sicrhau effeithlonrwydd y broses adolygu ac i ddefnyddio dulliau gwahanol i



DRAFT

gynnwys ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn adolygu eu gwaith presennol yng nghyd-destun Safonau a Chanllawiau Ymarfer Swyddogion Adolygu Cymru. Mae'r Rheolwr Gwasanaeth wedi paratoi adroddiad sydd yn ystyried goblygiadau'r safonau hyd, sydd yn cynyddu'r disgwyliadau ar adeg pan mae nifer y plant mewn gofal yn cynyddu hefyd. Efallai y byddai'r Panel yn dymuno gofyn am gael trafod yr adroddiad hwn.
- Ym marn y Swyddogion Adolygu Annibynnol, y prif faterion yn codi o'u hadroddiad diweddaraf yw'r angen i sicrhau cysondeb o ran cyflwyno dogfennau Rhan 6 ym mhob achos ar gyfer Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac, yn yr un modd, y dylai'r Cynlluniau Llwybr adlewyrchu anghenion presennol y plant.

Wrth ymateb i'r adroddiad, cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth yr eglurhad a'r sicrwydd canlynol -

- **Adolygiadau statudol/Cynllun Gofal a Chefnogaeth Rhan 6 –** mae disgwyl i weithwyr cymdeithasol gwblhau a diweddaru'r cynllun ar blant mewn gofal ar gyfer adolygiad gofal pob plentyn ac, os nad yw hyn mewn lle, teimlir y dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol ohirio ac aildrefnu'r adolygiad er mwyn sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei diweddaru a thrafod y mater gyda'r Arweinydd Ymarfer er mwyn eu hatgoffa o'r disgwyliad hwn.

  Bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn trafod yr archwiliad o adolygiadau statudol a gynhaliwyd ym mis Mehefin a Gorffennaf gyda'r Swyddogion Adolygu Plant mewn Gofal i sicrhau fod cynllun gweithredu mewn lle i ymateb yn briodol i'r canfyddiadau.

- **Materion eraill yn ymwneud ag Ymarfer –** amlinellodd y Swyddog drefniadau'r Gwasanaeth i sicrhau parhad mewn gofal plant sy'n derbyn gofal pan fydd staff yn absennol oherwydd salwch neu ar absenoldeb estynedig. Er bod newidiadau staff yn anorfod, mae'r Gwasanaeth yn ceisio sicrhau fod plant mewn gofal yn cael sefydlogrwydd ac yn parhau i fyw gyda'r un gofalwr maeth. Os nad yw Cynlluniau Llwybr yn adlewyrchu anghenion presennol y plentyn, teimlir y dylai'r Swyddog Adolygu Annibynnol ohirio ac aildrefnu'r adolygiad er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei diweddaru a thrafod y mater gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol a'r Arweinydd Ymarfer i'w hatgoffa o'r disgwyliad bod cynlluniau'n cael eu diweddaru. Bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn trafod y Cynllun Llwybr gyda'r Swyddogion Adolygu i sicrhau fod prosesau ar gyfer uwchgyfeirio materion i'r Gwasanaeth yn glir. Mewn perthynas â gwaith Stori Bywyd, sy'n helpu plant mewn gofal i gael persbectif o'u bywydau, mae staff wedi derbyn hyfforddiant ar y gwaith hwn a bydd trafodaethau pellach yn digwydd gyda staff i geisio deall a goresgyn y rhwystrau sy'n atal y gwaith rhag cael ei gwblhau yn gyson ac yn amserol.

Wrth drafod yr adroddiad, nododd y Panel y materion a godwyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol mewn perthynas ag anghysonderau mewn rhai meysydd ymarfer, llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol, a newid mewn gweithwyr cymdeithasol, boed hynny oherwydd absenoldebau dros dro neu drosiant staff, ac effaith bosib hynny ar les plant sy'n derbyn gofal, a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y materion hynny. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddogion ymhellach -

- Mae llwyth gwaith Gweithwyr Cymdeithasol yn cael ei arolygu a'i oruchwylio'n rheolaidd gan reolwyr a dyrennir llwyth achosion ysgafnach i weithwyr cymdeithasol llai profiadol na'r rhai sydd â mwy o brofiad. Mae pwysau o ran llwyth gwaith yn anorfod weithiau oherwydd natur y gwaith. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth yn ceisio rheoli'r llwyth gwaith ac mae'n fodlon â llwyth achosion ei garfan o weithwyr cymdeithasol llai profiadol.
- Mae newid mewn staff yn gallu bod yn fwy heriol i'w reoli mewn perthynas â chael y bobl gywir sy'n meddu ar y sgiliau cywir i lenwi'r bwlch. Pan fydd staff yn absennol,

gwneir trefniadau interim i sicrhau fod yr un lefel o wasanaeth yn parhau ar gyfer plant mewn gofal. Mae'r Arweinydd Ymarfer yn gyfrifol am sicrhau fod y trefniadau hynny mewn lle er mwyn cefnogi'r plant a'r lleoliadau.

Mewn trafodaeth bellach ar y materion yn codi, cydnabu'r Panel y pwysau ar weithwyr cymdeithasol plant ac roedd yn derbyn bod amserlenni'r llysoedd yn gallu ychwanegu at y pwysau hynny. Nododd y Panel fod y Gwasanaeth yn defnyddio staff dros dro i ddatrys problemau tymor byr mewn perthynas â phwysau gwaith a swyddi gwag a bod newid staff yn gallu achosi amrywiaeth yn safon yr ymarfer. **Mae'r Panel yn derbyn ac yn nodi adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol ac yn argymell -**

- **Pan fydd staff yn gadael neu'n absennol, bod gan y Gwasanaeth drefniadau mewn lle i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosib, bod trosglwyddiad effeithiol a llyfn yn digwydd rhwng gweithwyr cymdeithasol er mwyn lleihau unrhyw darfu neu effaith ar y plentyn. Yn ddelfrydol, dylid cyflwyno'r gweithiwr cymdeithasol i'r plentyn a'r teulu mewn da bryd cyn y trosglwyddiad.**
- **Bod y Panel yn derbyn adborth ar y 15 achos a archwiliwyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol i wirio a oedd yr asesiadau yn gyfredol, gyda dadansoddiad yn dangos a oedd staff dros dro neu barhaol yn delio â'r achosion.**
- **Bod y Rheolwr Gwasanaeth yn trafod y materion ymarfer sy'n codi gyda'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ac yn diweddaru'r Panel am unrhyw newidiadau/datblygiadau mewn ymarfer o ganlyniad i hynny.**
- **Bod yr adran yn adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol dan y pennawd "Llwyddiant ein Plant" yn cael ei ailenwi gan y gallai wneud i blant/pobl ifanc sydd ddim yn rhannu'r un cyflawniadau deimlo nad ydynt yn llwyddiannus.**

## 5 TÎM TEULUOEDD GWYDN

Cyflwynodd Dawn Hutchinson, Arweinydd Ymarfer, adroddiad cynnydd i'r Panel ar waith y Tîm Teuluoedd Gwydn ers ei sefydlu yn 2017. Sefydlwyd y tîm mewn ymateb i ddyletswyddau a osodwyd ar awdurdodau lleol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddarparu dulliau ataliol i ddarparu llesiant. Mae'r tîm yn gweithio ar sail egwyddorion Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu h.y. –

- *Atal* plant rhag dod i ofal pan fod hynny'n ddiangen;
- *Dychwelyd* plant adref yn ystod yr 8 wythnos gyntaf o ofal a gwaith gyda theuluoedd sydd wedi eu hadnabod er mwyn ailuno eu plant o ofal;
- *Lleihau* lefel y llety / gofal sydd ei angen (e.e. o ofal preswyl i ofal maeth i ddirymu teuluol); ac
- *Adolygu* dychweliad diogel plant sydd mewn gofal tymor hir.

Er mwyn gweithio tuag at a bodloni'r amcanion craidd Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu, mae'r Tîm yn grŵp o weithwyr â sgiliau uchel, amlddisgyblaethol sy'n ymyrryd â theuluoedd sy'n arddangos lefel uchel o angen sy'n rhoi eu plant mewn perygl o fynd i ofal, neu sydd wedi achosi i'w plant ddod i ofal, neu sy'n atal eu plant rhag cael eu dychwelyd i ofal eu rhieni. Mae'r tîm yn cynnwys Arweinydd Ymarfer, 2 Weithiwr Cymdeithasol, 2 Weithiwr Ymyrraeth/Cefnogi, gweithiwr Prosiect Adlewyrchu a 0.3 Swyddog Cymorth Busnes. Mae'r tîm hefyd yn darparu gwasanaeth ymgynghori, hyfforddi a chyngor ac arweiniad i'r gweithlu ehangach ac yn gwneud gwaith ymyrraeth ddwys gyda theuluoedd mewn argyfwng.

Esboniodd yr Arweinydd Ymarfer fod y Tîm yn defnyddio model ymyrraeth yn seiliedig ar dystiolaeth wedi'i strwythuro yn gamau penodol ac yn lefelau o gefnogaeth er mwyn bod yn fwyaf effeithiol wrth alluogi rhieni i newid. Mae'r model 2 gam o ymyrraeth angen 15-20

awr yr wythnos o ymyrraeth ddwys strwythuredig wyneb yn wyneb yn ystod yr 8 wythnos gyntaf (Cam 1), wedi'i ddilyn gan hyd at flwyddyn o gynnal unrhyw newidiadau a wnaed (Cam 2). Yn seiliedig ar hyn, mae Gweithiwr Ymyrraeth Teuluoedd Gwydn yn gallu gweithio gydag oddeutu 6 theulu'r flwyddyn.

Yn ystod y ddwy flynedd ers ei sefydlu, mae'r Tîm Teuluoedd Gwydn **wedi gweithio gyda chyfanswm o 57 teulu a 123 o blant** a fyddai o bosib, oni bai am yr ymyrraeth ddwys a ddarparwyd, wedi dod i mewn i ofal. Yn ogystal â darparu ymyraethau dwys gyda theuluoedd, mae'r tîm hefyd yn trefnu ac yn cynnal Cynadleddau Grŵp Teulu; cyfarfodydd ydynt rhwng aelodau o'r teulu agosaf a'r teulu estynedig a hwylusir gan berson sy'n annibynnol o gyfrifoldebau rheoli achos, gyda'r nod o ddefnyddio rhwydweithiau cefnogaeth y teulu ei hun i ddiogelu plant y teulu er mwyn eu hatal rhag dod i mewn i ofal. Yn ystod y ddwy flynedd y bu'n gweithredu, **mae'r tîm wedi cynnal 32 Cynhadledd Grŵp Teulu, mewn perthynas â 79 o blant.**

Ariennir swydd prosiect "Adlewyrchu" y tîm drwy gyllid ar wahân gan Lywodraeth Cymru (a ymgorfforwyd yn y Grant Cefnogi Refeniw yn 2019/20) ac mae'n rhan o brosiect cenedlaethol sydd â'r nod o wella llesiant, gwydnwch a sefydlogrwydd merched y mae un neu fwy o'u plant wedi cael eu cymryd o'u gofal yn barhaol drwy'r broses fabwysiadu, er mwyn lleihau nifer yr achosion o ail-feichiogi sy'n arwain at ddod â mwy o blant i'r system ofal. Mae'r Gweithiwr Prosiect Adlewyrchu wedi bod yn y swydd ers canol Mai 2019, yn ogystal â datblygu proffil y prosiect a sefydlu cysylltiadau gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol allweddol, mae'r gweithiwr wedi dechrau gweithio gyda 2 ddynes.

Wrth roi enghreifftiau o achosion unigol lle arweiniodd ymyrraeth y tîm at ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant a'u teuluoedd, pwysleisiodd yr Arweinydd Ymarfer fod rhaid i'r ymyrraeth fod yn amserol a'r hwyraf y mae'n digwydd y lleiaf effeithiol ydyw; rhaid nodi teuluoedd a fyddai'n elwa o dderbyn ymyrraeth cyn i'w problemau waethygu. Fodd bynnag, yn yr achosion hynny pan mae'n rhaid i'r tîm ymyrryd yn ddiweddarach, pan nad oes modd atal plentyn rhag dod i mewn i ofal, mae modd iddo ddarparu cefnogaeth er mwyn atal y plentyn rhag cael eu rhoi mewn lleoliad preswyl costus.

Wrth ddiolch i'r Arweinydd Ymarfer am ei hadroddiad a'i chyflwyniad, nododd y Panel y pwyntiau canlynol -

- Bod y tîm wedi cynorthwyo nifer o deuluoedd mewn argyfwng y byddai eu plant wedi mynd i ofal fel arall, ond bod llwyddiant y model yn ddibynnol ar ymyrraeth gynnar - helpu'r teuluoedd cywir gan roi'r gefnogaeth gywir iddynt ar yr adeg gywir. O ganlyniad, mae angen i'r systemau lleol ar gyfer adnabod teuluoedd a fyddai'n elwa o dderbyn cefnogaeth gan y tîm fod yn gadarn.
- Bod gan y tîm sgiliau uchel a'i fod yn rhoi pwyslais ar ddatblygu sgiliau ac yn gosod disgwyliadau uchel ar ei staff.
- Byddai'r Panel yn croesawu derbyn diweddariad/adroddiad cynnydd ar y prosiect Adlewyrchu pan fydd hynny'n ymarferol.

**Nododd y Panel yr adroddiad a diolchwyd i'r Tîm Teuluoedd Gwydn am ei waith o ddarparu gwasanaeth ataliol gwerthfawr i deuluoedd a'u plant.**

## 6 CYFARFOD NESAF

Nodwyd fod cyfarfod nesaf y Panel Rhiant Corfforaethol wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 9 Rhagfyr, 2019 am 10:00yb.

## 7 MATERION ERAILL

Tynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Plant y materion canlynol i sylw'r Panel -

- Llwyddiant Siân Morgan, Swyddog Cymorth/Ymyrraeth gyda'r Tîm Teuluoedd Gwydn, a dderbyniodd gydnabyddiaeth am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle pan gyflwynwyd



DRAFT

gwobr Gofalu trwy'r Gymraeg Gofal Cymdeithasol Cymru iddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ym mis Awst, 2019.

- Trefniadau'r Gwobrau Seren sy'n dathlu cyflawniadau pob un o'r plant a'r bobl ifanc y mae'r Awdurdod yn gofalu amdanynt ac a gynhelir eleni ar ffurf diwrnod hwyl yn Ysgol Bodedern ar 21 Medi, 2019.

Llongyfarchodd y Panel Siân Morgan ar ei gwobr a nododd ei fod yn edrych ymlaen at y Gwobrau Seren.

*Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf Dr Gwynne Jones fel Cadeirydd y Panel Rhiant Corfforaethol, diolchodd y Panel iddo am ei gadeiryddiaeth a'i arweiniad drwy gydol ei gyfnod yn y rôl a dymunwyd yn dda iddo ar ei ymddeoliad.*

**Dr Gwynne Jones (Cadeirydd)**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Hydref 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2019 – Mehefin 2020;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe’i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a’r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

* *Allwedd i’r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2019 - Mehefin 2020** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd 2019** | | | | | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 2 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>21 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 3 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

Tudalen 23

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 6 | **Sail y Dreth Gyngor 2020/21**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2020/21 | Mae hyn yn fater dirprwyiedig i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn dod o fewn fframwaith y Cyngor ar gyfer gosod y Gyllideb a'r Dreth Gyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid 25 Medi a 12 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 7 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu ail-strwythuro mewnol** | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Busnes y Cyngor | Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | Cyngor Sir 10 Rhagfyr 2019 |
| 8 | **Bargen Twf Gogledd Cymru** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Hwb Economaidd Llywodraeth Cymru** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Dylan Williams<br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 10 | **Codi Tâl Galw Gofal – Tenantiaid Tai Cyngor**<br><br>Cadarnhau'r cynigion ac awdurdod i ymgysylltu. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>21 Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| **Rhagfyr 2019** | | | | | | | |
| 11 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>16 Rhagfyr 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Rhagfyr 2019 | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Rhagfyr 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019



| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ionawr 2020** | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ionawr 2020 | |
| | | | | **Chwefror 2020** | | | |
| 14 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid –<br>6 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 15 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid –<br>6 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 16 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2019/20 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid –<br>6 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |

** Allwedd:* *S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Polisi Rhyddhad Dewisol rhag y Dreth Fusnes**<br><br>Mabwysiadu fframwaith newydd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan y Pwyllgor Gwaith o ran manylu ar y rhyddhad ychwanegol rhag y dreth fusnes i'w ddyrannu i elusennau a sefydliadau sydd ddim yn gwneud elw | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 18 | **Ffioedd a Thaliadau 2020/21** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>11 Gorffennaf 2019;<br>25 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 19 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 20 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2020/21**<br><br>Cymeradwyaeth. | Mae angen penderfyniad cyfunol gan fod y mater yn ymwneud ag ystyriaethau ariannol materol berthnasol. | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 22 | **Rhenti a ffioedd ar gyfer y Gwasanaeth Tai yn 2020/21** | | Gwasanaethau Tai | Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 23 | **Arian Wrth Gefn**<br><br>Diweddariad o'r sefyllfa mewn perthynas ag Arian Wrth Gefn. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |
| 24 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 10 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |

*Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| 26 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| 27 | **Cyllideb Gyfalaf 2020/21** | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| | | | | | | | |
| 28 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**<br><br>Cymeradwyo'r Cynllun a gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br>4 Chwefror 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Chwefror 2020 | 25 Chwefror 2020 |
| **Mawrth 2020** | | | | | | | |
| 30 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| 31 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |
| 32 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd 6 mis** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol<br>18 Chwefror 2020<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>9 Mawrth 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>23 Mawrth 2020 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 30

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Tachwedd 2019 – Mehefin 2020

Diweddarwyd 17 Hydref 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Ebrill 2020** | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |
| 34 | **Codi Tâl Galw Gofal – Tenantiaid Tai Cyngor**<br><br>Ystyried canlyniadau'r ymgysylltu a chymeradwyo polisi. | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Wyn Mummery | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>6 Ebrill 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>27 Ebrill 2020 | |
| | | | | **Mai 2020** | | | |
| 35 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2020 | |
| | | | | **Mehefin 2020** | | | |
| 36 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2020 | |

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 28 Hydref, 2019 |
| **Pwnc:** | Polisi Gosod – adolygiad i gynnwys cysylltiad lleol o fewn system bandio |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elliw Llŷr, Rheolwr Strategol, Polisi a Chomisynu, Gwasnaethau Tai<br>01248752137 |
| **Aelodau Lleol:** | Dd/b |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1** Polisi Gosod Cyffredin diwygiedig

**Cefndir**

Mae yna 4734 o unedau o dai cymdeithasol ar Ynys Môn. Dyma'r ganran o'r stoc y mae pob landlord yn berchen arni:

| Landlord | Nifer yr Unedau | Canran o'r Stoc |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3819 | 81% |
| Grŵp Cynefin | 524 | 11% |
| Tai Gogledd Cymru | 143 | 3% |
| Clwyd Alyn | 248 | 5% |

Ar gyfartaledd mae Tîm Opsiynau Datrysiadau yn gosod tua 260 o dai Cyngor y flwyddyn.

Yn ystod 2015/16 adolygwyd a diwygiwyd y Polisi Gosod Tai Cyffredin o fod yn system sy'n seiliedig ar bwyntiau i fod yn system sy'n seiliedig ar fandiau. Daeth y Polisi newydd i rym ar yn ffurfiol yn mis Gorffennaf 2016.

Mae'r drefn yn seiliedig ar system fandio sef:

- Brys - Cysylltiad lleol ac angen brys am dŷ
- Band 1 - Angen a chysylltiad lleol
- Band 2 - Angen brys ond dim Cysylltiad lleol

- Band 3 - Angen ond dim Cysylltiad Lleol.

Cyflwynwyd y Polisi Gosod Tai diwygiedig i gael gwared ar aneffeithlonrwydd yn y broses gosod tai, gan sicrhau bod tai cymdeithasol yn cael eu gosod i'r unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf am dai, ac i sicrhau cysondeb o ran sut mae pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn gweithredu pan fo eiddo ar gael i'w osod.

Mae nifer o newidiadau wedi eu cyflwyno yn dilyn gweithrediad y Polisi Gosod Cyffredin, yn 2016, mae'r newidiadau fel a ganlyn:

a) Rhaid i ymgeiswyr ddarparu 'prawf' yn y cyfweliad asesiad am lety.
b) Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gosod tai eu hunain.
c) Ymgeisydd ddim yn gallu dewis strydoedd mwyach.
d) Dim ond un ymgeisydd y byddwn yn ei dderbyn ar y Ffurflen Gais am lety.
e) Defnydd o Orchard.
f) Defnyddio bandio er mwyn lleihau'r rhestr aros.
g) Ymgeiswyr ddim yn gallu cofrestru os nad oes ganddynt anghenion tai.

Mae Gwasanaethau Tai yn awyddus i gyfrannu tuag at gymunedau cynaliadwy drwy sicrhau bod cysylltiadau teuluoedd a chymunedol yn cael eu cynnal. Ein bwriad oedd adolygu y Polisi Cofrestr Tai Cyffredin er mwyn gweld os yw ein Polisi cyfredol yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy.

Er mwyn gallu bod yn gymwys i fod ar y Gofrestr Tai Cyffredin mae angen i berson fod mewn angen tai, mae hyn yn cael ei ddiffinio o fewn Deddf Tai 1996 ac mae cyswllt o ran cysylltiad lleol yn rhan o Ddeddf Tai, 2014.
Ar hyn o bryd mae gofyn bod gan unrhyw ymgeisydd gysylltiad o isafswm o 5 mlynedd o gysylltiad gyda'r Ynys. Os nad oes gan berson gysylltiad gyda'r Ynys ond mae ganddynt angen am dy byddent o fewn band is.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr gael cysylltiad gyda plwyf / pentref neu dref benodol, gallent cael eu hystyried am unrhyw ardal mae gennym stoc cymdeithasol ac y maent wedi nodi eu bod eisiau byw.

Wrth adolygu y Polisi mae rhoi cyfle i newid rhai elfennau'r Polisi er mwyn sicrhau ei fod yn addas i bwrpas wrth symud ymlaen.

**Ymgynghori â phartneriaid lleol a rhanddeiliaid allweddol**

Fe gytunodd y Pwyllgor Gwaith i gynllun cyfathrebu a oedd yn cynnwys gwaith ymchwil pellach ar ddifnio cysylltiad lleol ynghyd ag derbyn adborth ar sut gellir cyflawni hyn yn mis Mai, 2019.

**Cynulleidfa Darged:**

a) Drwy gynnal ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Landlordiaid Cymdeithasol; Tai Gogledd Cymru, Pennaf a Grŵp Cynefin
- Darparwyr Cefnogi Pobl; y Wallich, Digartref Ynys Môn, CAIS acyb
- Rhai sydd yn darparu gwasanaeth cynghori
- Llywodraeth Cymru

b) Cwsmeriaid sy'n debygol o gael eu heffeithio
c) Aelodau Etholedig
d) Cynghorau Tref a chymuned
e) Grŵp Tasg o Swyddogion perthnasol

Cafwyd 114 o ymatebion gyda chefnogaeth i gynnwys cysylltiad lleol fel ystyriaeth yn y Polisi. Cafwyd hefyd ymateb da i gwestiynau eraill o ran gweithrediad y Polisi.

Cafodd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol,11.9.19, gyfle i sgrwtineiddio canlyniadau yr ymgynghoriad a bu iddynt argymell bod y Pwyllgor Gwaith gymeradwyo y Polisi Gosod Cyffredin

Yn seiliedig ar hyn mae **Atodiad 1** yn cyflwyno Polisi Gosod Cyffredin diwygiedig sydd yn cynnwys y prif newidiadau isod:

Cysylltiad lleol:

Byddai ymgeisydd yn cael ei asesu yn ôl cyswllt gydag ardal Cyngor Tref neu Chymuned y maent wedi nodi byw ynddo lle mae yr eiddo gwag. Bydd ymgeisydd yn cael eu hystyried o fewn y Band hwnnw yn ôl dyddiad bod ar y rhestr. Bydd dal angen cysylltiad o 5 mlynedd gyda'r Ynys er mwyn bod yn gymwys, oni bai am fod mewn angen brys am eiddo yn unol a'r Ddeddf Tai.

Mae'r adolygiad wedi rhoi cyfle i edrych ar faterion eraill megis:

- Gallu cynnig trosglwyddiad i rai sydd a phlant dan 11 oed symud o fflat cymdeithasol
- Tynnu o'r Polisi yr angen i fod dros 35 oed i gael pwyntiau rhannu o fewn Band 1 gan nad yw lefel lwfans tai yn cael effaith bellach
- Cryfhau yr elfen o fod angen symud oherwydd dianc rhag trosedd neu drosedd casineb
- Creu Band ar gyfer rhai sydd a chysylltiad lleol ond dim angen tai er mwyn cynyddu nifer sydd ar y rhestr aros a rhoi opsiynau pellach pan nad yw'n bosib gosod eiddo o fewn bandiau blaenoriaeth

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i sut byddem yn diffinio cyswllt gydag ardal benodol gan edrych ar:

1. Dalgylch Cynghorau Thref a Chymuned
2. Dalgylch Cynghorwyr Sir
3. Dalgylch Ysgolion Uwchradd

Daethpwyd i'r canlyniadau byddai cynnwys opsiwn 1 yn ymateb i'r angen cyswllt lleol yn cyd-fynd gyda'r ymateb i'r ymgynghoriad.

| |
|---|
| |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Mae’r broses ymgynghori yn rhoi cyfle i ystyried newidiadau i weithrediad y Polisi Gosod Cyffredin. Heb newid y polisi ni fyddai yn bosib newid unrhyw drefniadau ar sut mae tai cymdeithasol yn cael eu gosod. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Newidiadau i’r Polisi Gosod Cyffredin yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith. |

| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| ydi |

| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| ydi |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Dim sylwadau pellach dilyn trafodaeth yn UDA 27.8.19 |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel uchod |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Fel uchod |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dd/b |
| 5 | **Eiddo** | Dd/b |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Dd/b |
| 7 | **Caffael** | Dd/b |
| 8 | **Sgriwtini** | 11.9.19 argymell bod y Pwyllogr Gwaith yn cymeradwyo y Polisi |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Dd/b |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Gweler linc yn FF i ganlyniadau'r ymynghoriad |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | dim |
| 2 | **Gwrthdlodi** | dim |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | dim |
| 4 | **Amgylcheddol** | dim |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Asesiad Effiath wedi ei gynnal- heb andabod risgiau |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | dim |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 Polisi Gosod Cyffredin diwygiedig |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Linc i Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol: http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=153&MId=3461&Ver=4&LLL=1 |

# POLISI CYFFREDIN AR OSOD TAI

## PARTNERIAETH YNYS MÔN AR OSOD TAI CYMDEITHASOL

**Drafft Awst 2019**

Caiff y polisi hwn ei rannu'n dair adran ac mae ar ffurf 'cwestiwn ac ateb'. A fyddech cystal â throi at rhestr y penodau (tudalen 3) a'r cynnwys (tudalen 4 i 10) i gael yr adran y mae ei hangen arnoch.

Mae Crynodeb o’r polisi ar gael ar wefan y Cyngor: http://www.ynysmon.gov.uk/tai/

Tîm Opsiynau Tai Cyngor Sir Ynys Môn sy’n rheoli’r Gofrestr Tai Gyffredin ar ran Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, Thai Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Tŷ Glas.

Tîm Opsiynau Tai
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai: (01248) 752200
ADRANTAI@ynysmon.gov.uk

www.ynysmon.gov.uk/gosodtai  www.ynysmontai.co.uk

## PENODAU

1. Cyflwyniad

2. Sut mae gwneud cais am dŷ cymdeithasol?

3. Beth sydd angen i mi ei wneud unwaith y bydd fy nghyfweliad wedi'i drefnu?

4. Pa ddewisiadau sydd gennyf a phe dŷ wyf yn gymwys a rei gyfer?

5. Pa bryd y gwneir penderfyniad ar fy nghais?

6. A fyddaf yn cael caniatâd i fynd ar y gofrestr tai?

7. Pa Flaenoriaeth fydd gennyf am dŷ?

8. Beth fydd yn digwydd unwaith y byddaf wedi fy nghofrestru ar y rhestr aros?

9. Sut Mae'r sustem bandio yn gweithio?

10. Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu pwy sydd yn cael cynnig llety?

11. Beth fydd yn digwydd pan gynigir eiddo i mi?

12. Eich hawl i ofyn am i benderfyniadu gael eu hadolygu?

13. Beth fydd yn digwydd os bydd angen eiddo wedi'i addasu neu eiddo addas arnaf neu os oes angen meddygol arnaf am dŷ?

14. Polisïau gosod lleol a sensitive

15. Eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth

16. Beth sydd gan y gyfraith i'w ddweud ynghylch sut dylid gosod tai?

17. Sut mae landloriaid cymdeithasol yn monitor gwaith gosod tai ?

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – Ffyrdd o gael tŷ cymdeithasol nad ydynt yn cyfrif fel dyraniad

Atodiad 2 – Ardaloedd gosod

Atodiad 3 – Anghymwyster oherwydd statws mewnfudo a chenedligrwydd

Atodiad 4 – Anghymwyster oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol

## CYNNWYS


**1. CYFLWYNIAD**

a) Y polisi

b) Oes crynodeb o'r polisi hwn?

c) Ydi'r polisi hwn yn cynnwys eiddo sy'n cael ei osod gan bob landlord cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn?

d) Ydi'r polisi hwn yn berthnasol i bobl sydd eisoes yn denantiaid tŷ cymdeithasol yn ogystal ag i'r rhai nad oes ganddynt denantiaeth gymdeithasol?

e) Ydi'r polisi hwn yn cynnwys yr holl reolau y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu defnyddio wrth osod tŷ cymdeithasol?

f) Beth yw 'gosod' tŷ?

g) Oes ffyrdd eraill y medraf gael tŷ cymdeithasol ac eithrio trwy osod?

h) Oes gennych restr o bobl y mae ganddynt hawl i gael eu hystyried am dŷ?

i) Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai?

**2. SUT MAE GWNEUD CAIS AM DŶ CYMDEITHASOL?**

a) Oes modd i mi wneud cais am dŷ cymdeithasol?

b) Sut mae gwneud cais am dŷ cymdeithasol?

c) Rwyf yn 16 neu'n 17 mlwydd oedd. Oes rheolau arbennig?

d) Oes modd i mi wneud cais gyda rhywun arall?

e) Gwnes gais o'r blaen ond cafodd ei wrthod. Oes modd i mi wneud ail gais?

f) Oes rhaid i mi fynd am gyfweliad opsiynau tai?

g) Fydd fy nghais am gyfweliad yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig?

h) Oes gennyf ddewis ynghylch pryd gaf fy nghyfweld?

i) Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu am golli fy nghartref? 2.10 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar restr cais rhywun arall am dŷ?

2.11 Beth fydd yn digwydd os oes angen cymorth arnaf i wneud cais am dŷ?

**3. BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD UNWAITH Y BYDD FY NGHYFWELIAD WEDI'I DREFNU?**

a) Beth fydd yn digwydd os na fedraf ddod i'r cyfweliad opsiynau tai?

b) Oes angen i mi ddod â rhywbeth i'r cyfweliad opsiynau tai?

c) Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dod â’r dogfennau i fy nghyfweliad opsiynau tai?

d) Beth fydd yn digwydd os byddaf dro ar ôl tro yn methu dod â’m dogfennau i’m cyfweliad?

e) Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael anhawster cael hyd i’r dogfennau y gofynnwyd i mi ddod â nhw i’m cyfweliad?

f) Beth fydd yn digwydd mewn cyfweliad opsiynau tai?

g) Fydd angen i’r Cyngor gysylltu â rhywun arall cyn prosesu fy nghais?

h) Ydi’r Cyngor yn ystyried pob cais am dŷ?

i) Beth sydd yn rhaid i mi ei wneud i sicrhau y caiff fy nghais ei ystyried?

j) Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cwrdd â’r ‘gofynion trefniadaethol’ a restrir yn **3.9**?

k) Beth fydd yn digwydd os nad oes gennyf gyfeiriad sefydlog?

l) Fydd rhywun yn ymweld â mi yn fy nghartref?

## 4. PA DDEWISIADAU SYDD GENNYF A PHA DŶ WYF I’N GYMWYS AR EI GYFER?

a) Oes modd i mi ddewis yr ardaloedd yr wyf yn dymuno byw ynddynt?

b) Oes modd i mi ddewis pa ffordd neu stad yr wyf yn ei dymuno o fewn ardal osod?

c) Pa ardaloedd gosod oes modd i mi eu dewis?

d) Sut medraf gael gwybod pa dai sydd ar gael ym mhob ardal?

e) Sut medraf gael gwybod faint o eiddo sy’n debygol o fod ar gael yn fy newis ardaloedd?

f) Oes sefyllfaoedd lle na fydd fy newis ardaloedd yn cael eu derbyn?

g) Rwy’n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar fy newis o ardal?

h) Oes modd i mi ddewis mathau’r eiddo yr wyf yn eu dymuno?

i) Rwy’n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar y mathau o eiddo y medraf eu dewis?

j) Sut mae’r Cyngor yn penderfynu beth yw maint yr eiddo y mae gennyf hawl iddo?

k) Pwy sy’n medru cael ei gofrestru fel rhan o’m haelwyd?

l) Sawl ystafell wely sydd gennyf hawl iddi?

m) Rwyf yn feichiog. Pa bryd fydd gennyf hawl i ystafell wely ychwanegol?

n) Oes sefyllfaoedd lle byddai modd i mi gael cynnig eiddo mwy na’r hyn y mae gennyf hawl iddo?

o) Oes modd i mi ddewis pa landlord yr wyf yn ei ddymuno?

p) Oes modd i'r Cygnor a- chymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?

## 5. PA BRYD Y GWNEIR PENDERFYNIAD AR FY NGHAIS?

a) Pa bryd gaf i benderfyniad ar fy nghais?

b) Beth fydd y llythyr penderfynu yn ei ddweud wrthyf?

c) Beth fydd yn digwydd os byddaf yn dymuno cael gwybod beth yw'r sefyllfa ynghylch fy nghais?

d) Os byddaf yn anghytuno gyda phenderfyniad y Cyngor, oes modd i mi ofyn iddynt ei hailystyried?

## 6. A FYDDAF YN CAEL MYND AR Y GOFRESTR TAI ?

a) Oes gan bawb hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?

b) Sut fydd y Cyngor yn fy helpu os nad oes gennyf hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?

c) Pam fyddwch chi'n edrych ar statws mewnfudo a chenedligrwydd?

d) Sut medraf gael gwybod a yw fy statws mewnfudo yn fy niarddel rhag cael tŷ?

e) Nid wyf yn gymwys ar gyfer dŷ oherwydd fy statws mewnfudo. Oes modd i mi gael tenantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall?

f) Pobl a gyfyngir

g) Nid yw fy mhlant yn gymwys oherwydd eu statws mewnfudo. Fyddwch chi'n rhoi ystyriaeth i'w hanghenion?

h) Oes sefyllfaoedd lle na fydd y Cyngor yn cofrestru rhywun ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?

i) Pa bryd nad oes gan rywun hawl mynd ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?

j) Fydd y Cyngor yn gofyn am dystlythyrau tenantiaeth?

k) Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw rhywun yn fy aelwyd yn gymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, oes modd rhoi iddo/iddi denantiaeth ar y cyd gyda mi?

## 7. PA FLAENORIAETH FYDD GENNYF AM DŶ?

a) Sut mae'r Cyngor yn penderfynu pa flaenoriaeth sydd gennyf am dŷ?

b) Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cymhwyso am unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth?

c) Fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i fy incwm a fy sefyllfa ariannol?

d) Beth fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth iddo wrth benderfynu a fedraf fforddio tŷ yn y sector preifat?

e) Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar y Gofrestr Tai pan fydd y polisi hwn yn dod i rym?

f) A fyddaf yn cael mwy o flaenoriaeth os gwnaf gais fel person digartref?

## 8. BETH FYDD YN DIGWYDD UNWAITH Y BYDDAF WEDI FY NGHOFRESTRU AR Y RHESTR AROS?

a) Lle fyddaf yn cael fy rhoi pan fyddaf yn mynd ar y rhestr am y tro cyntaf?

b) A fedraf golli fy nyddiad amser aros?

c) Oes modd ôl-ddyddio fy nyddiad amser aros?

d) Pa bryd fyddaf yn cyrraedd brig y rhestr aros?

e) A fyddaf yn bendant yn cael cynnig tŷ cymdeithasol?

f) Beth fydd yn digwydd os bydd fy sefyllfa'n newid?

g) Oes sefyllfaoedd lle bydd angen i mi ddarparu gwybodaeth efallai neu fynychu cyfweliad er mwyn parhau i fod yn gymwys am gynnig o dŷ?

h) Oes sefyllfaoedd lle bydd fy nghais yn cael ei ohirio fel na fyddaf yn gymwys i gael tŷ?

i) A fedraf ofyn am ohirio fy nghais am dŷ, er enghraifft, os nad wyf eisiau cynnig o dŷ tan rywbryd yn y dyfodol?

j) Oes sefyllfaoedd lle gallai fy nghais gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai?

k) Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu mewn perygl o golli fy nghartref?

l) Oes angen i mi adnewyddu fy nghais yn rheolaidd?

## 9. SUT MAE'R SYSTEM BANDIO'N GWEITHIO?

a) Beth yw bandio?

b) Sut mae bandio'n gweithio?

c) Sut mae fy mlaenoriaeth yn cymharu â blaenoriaeth pobl eraill y dyfarnwyd yr un band iddynt?

d) Ar gyfer pa fandiau y mae angen cysylltiad lleol arnaf?

e) Beth sy'n cyfrif fel cysylltiad lleol?

f) Pwy sy'n cymhwyso am y band 'Brys'?

g) Pwy sy'n cymhwyso am Fand 1?

h) Oes modd i mi gymhwyso am Fand 1 os wyf yn fwriadol ddigartref?

i) Pwy sy'n cymhwyso am Fand 2? 9.10 Pwy sy'n cymhwyso am Fand 3?

9.11 Oes modd i fy mlaenoriaeth ostwng?

9.12 Os bydd y Cyngor yn penderfynu gostwng fy mlaenoriaeth, sut byddwch yn ei gostwng?

9.13 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a ddylid gostwng fy mlaenoriaeth?

9.14 Fydd y Cyngor yn dweud wrthyf os bydd fy mlaenoriaeth yn gostwng?

9.15 Oes modd i mi ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad i ostwng fy mlaenoriaeth dan 9.11?

9.16 Oes sefyllfaoedd pryd gellid rhoi blaenoriaeth uwch i mi na than y rheolau arferol?

## 10. SUT MAE'R LANDLORDIAID YN PENDERFYNU PWY SY'N CAEL CYNNIG LLETY?

a) Oes ffyrdd gwahanol y gallai ymgeiswyr gael eu dewis am dŷ?

b) Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu pa ddull a ddefnyddir i osod eiddo?

c) Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu i ba ymgeisydd y gosodir tŷ?

d) A fedr landlord 'fynd heibio' yr ymgeisydd ar frig y rhestr?

e) Pa bryd y byddwch yn dewis ymgeisydd am dŷ ac yn gosod eiddo?

f) Beth fydd yn digwydd os bydd y person y gosodir tŷ iddo'n ei wrthod?

g) Rwyf wedi ymddwyn yn anghymdeithasol yn y gorffennol yn yr ardal y mae eiddo gwag ar gael. Oes modd i mi gael fy ystyried ar gyfer yr eiddo?

h) Fyddwch chi'n adolygu fy sefyllfa os ydych yn ystyried gosod eiddo i mi?

i) Beth fydd yn digwydd os oes gennyf yr un flaenoriaeth a'r amser aros ag ymgeisydd arall?

## 11. BETH FYDD YN DIGWYDD PAN GYNIGIR EIDDO I MI?

a) Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael cynnig eiddo?

b) Os yw'r Cyngor yn cynnig tenantiaeth i mi ar lafar oes modd i mi fynnu fod y cynnig yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig cyn i mi dderbyn neu wrthod y cynnig?

c) Oes modd i mi gael cynnig tenantiaeth ar y cyd gyda fy mhartner neu aelod arall o'r aelwyd?

d) Oes modd i mi fynd i weld yr eiddo?

e) Oes rhaid i mi dderbyn eiddo a gynigir i mi?

f) Faint o amser a gaf i dderbyn neu wrthod cynnig o denantiaeth?

g) Sawl cynnig oes modd i mi ei dderbyn?

h) Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwrthod dau gynnig?

i) Beth sy'n digwydd os credaf fod yr eiddo a gynigiwyd i mi yn anaddas?

j) Credaf na ddylai gwrthod tŷ gael ei gyfrif fel un o'm dau gynnig. Beth fedraf ei wneud?

k) Oes yna unrhyw sefyllfaoedd lle gellir tynnu'n ôl y cynnig o dŷ?

l) Mae fy nghais wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr tai oherwydd fy mod wedi gwrthod dau gynnig. Oes modd i mi wneud ail gais a mynd yn ôl ar y rhestr aros?

## 12. EICH HAWL I OFYN AM I BENDERFYNIADAU GAEL EU HADOLYGU

a) Pa benderfyniadau oes modd i mi i ofyn i'r Cyngor eu hailystyried

b) Beth yw ystyr categori 12.1(h)?

c) Sut medraf gael gwybod a oes gennyf hawl i adolygu penderfyniad penodol?

d) Pa bryd fydd y Cyngor yn dweud wrthyf am fy hawl i ofyn am adolygiad?

e) Beth fydd y Cyngor yn ei ddweud wrthyf am fy hawl am adolygiad pan fyddaf yn cael penderfyniad ynghylch fy nghais?

f) Sut wyf yn gofyn am adolygiad?

g) Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn y llythyr penderfynu? Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?

h) Rwyf wedi methu'r cyfyngiad amser 21 diwrnod. Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?

i) Oes rhaid i mi roi rhesymau dros ofyn am adolygiad?

j) Pa broses fydd y Cyngor yn ei dilyn os byddaf yn gofyn am adolygiad?

k) Oes modd i mi ofyn am gopi o'm ffeil tai?

l) Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad i adolygu?

m) Sut fydd y penderfyniad ynghylch fy adolygiad yn cael ei wneud?

n) Sut byddwch yn dweud wrthyf am y penderfyniad i adolygu?

o) Pa bryd byddaf yn cael y penderfyniad ynghylch yr adolygiad?

p) Rwyf yn anfodlon gyda'r penderfyniad ynghylch yr adolygiad. Oes modd i mi apelio?

q) Oes modd i mi gwyno am y penderfyniad ynghylch yr adolygiad?

## 13. BETH FYDD YN DIGWYDD OS BYDD ANGEN EIDDO WEDI'I ADDASU NEU EIDDO ADDAS ARNAF NEU OS OES ANGEN MEDDYGOL ARNAF AM DŶ?

a) Mae gennyf gyflwr meddygol. Ydi hyn yn golygu y byddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am dŷ?

b) Pwy sy'n cael blaenoriaeth am resymau meddygol?

c) Sut wyf yn gwneud cais am flaenoriaeth feddygol?

d) Oes rhaid i mi ddarparu tystiolaeth?

e) Pwy sy'n penderfynu a fyddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am resymau meddygol?

f) Mae gennyf gyflwr meddygol difrifol ac rwyf wedi cyflwyno llythyrau sy'n cefnogi hyn. Pam nad wyf wedi cael blaenoriaeth ychwanegol oherwydd fy afiechyd?

g) Beth fydd yn digwydd os bydd angen ystafell wely ychwanegol arnaf am resymau meddygol?

h) Beth fydd yn digwydd os bydd angen eiddo arnaf sydd wedi'i addasu'n ffisegol?

i) Beth fydd yn digwydd nesaf?

j) Rwy'n anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi asesu fy anghenion. Beth fedraf ei wneud?

k) Ydych yn cadw eiddo penodol ar gyfer pobl y mae angen cartref arnynt sy'n addas neu sydd wedi'i addasu?

l) Sut byddwch yn penderfynu pa ymgeisydd sy'n cael eiddo penodol sydd wedi'i addasu?

m) A fydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch cael tai hygyrch ar gael yn eang?

## 14. POLISÏAU GOSOD LLEOL A SENSITIF

a) Cyflwyniad

b) Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gwybod fod angen polisi gosod lleol?

c) Sut mae polisïau gosod lleol yn cael eu cymeradwyo?

d) Beth yw polisïau gosod sensitif a pha bryd y cânt eu defnyddio?

e) Cytundebau Adran 106

## 15. EIDDO SYDD AR GAEL I'W GOSOD YN SYTH

a) Cyflwyniad

b) Sut medraf gael gwybod am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?

c) Sut wyf yn gwneud cais i gael fy ystyried am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?

d) Sut byddwch yn penderfynu i bwy y caiff eiddo sydd ar gael yn syth eu gosod?

e) Pa wybodaeth fydd yn rhaid i mi ei chyflwyno?

## 16. BETH SYDD GAN Y GYFRAITH I'W DDWEUD YNGHYLCH SUT Y DYLID GOSOD TAI?

a) Pa ofynion cyfreithiol sydd yna yng nghyswllt polisïau gosod?

b) Gweithwyr amaethyddol sydd wedi eu dadleoli

c) Cydraddoldeb ac amrywiaeth

d) Cyfrinachedd a gwarchod data personol

e) Pa rôl sydd gan aelodau etholedig (cynghorwyr) yn y broses gosod?

f) Pa wybodaeth sydd gennyf hawl gyfreithiol i ofyn amdani?

## 17. SUT MAE LANDLORDIAID CYMDEITHASOL YN MONITRO GWAITH GOSOD TAI?

a) Sut caiff y polisi hwn ei fonitro?

b) Ydi tai a osodir y tu allan i'r rheolau gosod arferol yn cael eu monitro?

c) Ydi'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gosod targedau ar gyfer pwy sy'n cael tŷ cymdeithasol?

**ATODIADAU**

Atodiad 1 – Ffyrdd o gael tŷ cymdeithasol nad ydynt yn cyfrif fel dyraniad

Atodiad 2 – Ardaloedd gosod

Atodiad 3 – Anghymwyster oherwydd statws mewnfudo a chenedligrwydd

Atodiad 4 – Anghymwyster oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol

# 1. CYFLWYNIAD


1.1 Y polisi

1.2 Oes crynodeb o'r polisi hwn?

1.3 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys eiddo sy'n cael eu gosod gan bob landlord cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn?

1.4 Ydi'r polisi hwn yn berthnasol i bobl sydd eisoes yn denantiaid tai cymdeithasol yn ogystal ag i'r rhai hynny nad oes ganddynt denantiaeth gymdeithasol?

1.5 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys yr holl reolau y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu defnyddio wrth osod tai cymdeithasol?

1.6 Beth yw 'gosod' tŷ?

1.7 Oes ffyrdd eraill y medraf gael tŷ cymdeithasol ac eithrio trwy osod ?

1.8 Oes gennych restr o bobl y mae ganddynt hawl i gael eu hystyried am dŷ ?

1.9 Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai ?


### 1.1 Y polisi

Mae'r polisi hwn yn egluro sut caiff tai cymdeithasol ym Môn eu gosod. Ynddo ceir rheolau yr ydym yn eu dilyn wrth asesu ceisiadau am dai a phenderfynu pwy sy'n cael cynnig tŷ cymdeithasol.

### 1.2 Oes crynodeb o'r polisi hwn?

Oes. Mae ar gael ar wefan y Cyngor yn www.ynysmon.gov.uk/gosodtai neu gofynnwch i ni anfon copi atoch.

### 1.3 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys eiddo sy'n cael eu gosod gan bob landlord cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn?

Ydi. Mae pob eiddo a osodir gan landlordiaid sy'n bartneriaid yn cael eu cynnwys yn y polisi hwn, yn amodol yn unig ar yr eithriadau sydd yn y polisi hwn. Y landlordiaid sy'n bartneriaid yw Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ynys Môn, Tai Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Tŷ Glas.

### 1.4 Ydi'r polisi hwn yn berthnasol i bobl sydd eisoes yn denantiaid tai cymdeithasol yn ogystal ag i'r rhai hynny nad oes ganddynt denantiaeth gymdeithasol?

Ydi.

### 1.5 Ydi'r polisi hwn yn cynnwys yr holl reolau y mae landlordiaid cymdeithasol yn eu defnyddio wrth osod tai cymdeithasol?

Mae'r polisi hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rheolau y mae landlordiaid sy'n bartneriaid eu defnyddio. Ceir hefyd weithdrefnau ac arweiniad sy'n helpu swyddogion tai i weinyddu'r polisi hwn. Ewch i **16.6** i weld eich hawl cyfreithiol i ofyn am gopi o'r cynllun gosod cyfan.

### 1.6 Beth yw 'gosod' tŷ?

Bydd tŷ'n cael ei osod pan gewch eich dewis oddi ar Gofrestr Tai i gael cynnig tenantiaeth o eiddo y mae un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn berchen arno.

### 1.7 Oes ffyrdd eraill y medraf gael tŷ cymdeithasol, ac eithrio trwy osod?

Oes. Weithiau daw pobl yn denant tŷ cymdeithasol ond nid oherwydd bod y tŷ am gael ei osod. Gweler **Atodiad 1** am fanylion yr eithriadau hyn. Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys y ffyrdd eraill hyn o gael tŷ cymdeithasol.

### 1.8 Oes gennych restr o bobl y mae ganddynt hawl i gael eu hystyried am dŷ?

Oes. Caiff ei alw'n 'Cofrestr Tai. Hon yw'r rhestr aros am dŷ. Yn **Adrannau 2** a **3** ceir eglurhad ar sut mae modd i chi wneud cais i gael eich cynnwys ar y Gofrestr. Yn **Adrannau 6** i **10** ceir eglurhad ar sut byddwn yn asesu ceisiadau a sut byddwn yn penderfynu pwy sy'n cael cynnig tŷ cymdeithasol.

### 1.9 Pwy sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai?

Mae'r Cyngor yn rheoli ac yn cynnal y Gofrestr ar ran yr holl landlordiaid cymdeithasol sydd ag eiddo ym Môn. Mae gan yr holl landlordiaid sy'n bartneriaid fynediad at y Gofrestr Tai fel bod modd iddynt osod tŷ ac i gofnodi cyswllt gyda chwsmeriaid pan gaiff eiddo eu gosod a thenantiaethau eu cynnig.

## 2. SUT WYF YN GWNEUD CAIS AM DŶ CYMDEITHASOL?


2.1 Oes modd i mi wneud cais am dŷ cymdeithasol?

2.2 Sut wyf yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol?

2.3 Rwyf yn 16 neu 17 mlwydd oed. Oes rheolau arbennig?

2.4 Oes modd i mi wneud cais gyda rhywun arall?

2.5 Gwnes gais o'r blaen a chafodd ei wrthod. Oes modd i mi wneud ail gais?

2.6 Oes rhaid i mi fynd am gyfweliad opsiynau tai?

2.7 Fydd fy nghais am gyfweliad yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig?

2.8 Oes gennyf ddewis ynghylch pryd y caf fy nghyfweld?

2.9 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu am golli fy nghartref?

2.10 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar restr cais rhywun arall am dŷ ?

2.11 Beth fydd yn digwydd os bydd angen cymorth arnaf i wneud cais am dy?


### 2.1 Oes modd i mi wneud cais am dŷ cymdeithasol?

Os ydych yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn medrwch wneud cais i gael eich cynnwys ar y Gofrestr Tai.

### 2.2 Sut wyf yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol?

Os ydych yn dymuno gwneud cais ewch i'r Gwasanaethau Tai yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni neu ffonio Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai'r Cyngor ar (01248) 752200. Bydd y Gwasanaethau Cwsmeriaid yn:

- Rhoi cyngor i chi
- Trefnu apwyntiad cyngor ar opsiynau tai ac yn
- Cadarnhau'r wybodaeth a'r dogfennau y mae angen i chi ddod gyda chi i'ch cyfweliad.

### 2.3 Rwyf yn 16 neu'n 17 mlwydd oed. Oes rheolau arbennig?

Oes. Os ydych yn 16 neu'n 17 mae modd i chi wneud cais am dŷ fel pawb arall. Fodd bynnag, os ydych yn cael cynnig tŷ cyn yr ydych yn 18 bydd y landlord yn disgwyl i chi gael gwarantwr ac ymddiriedolwr. Bydd yn rhaid i'r landlord fod yn fodlon fod y person (neu'r mudiad) hwn yn briodol ac yn medru gweithredu fel eich gwarantwr a'ch

ymddiriedolwr. Er enghraifft, mae'n rhaid iddynt fedru fforddio i dalu'r rhent am unrhyw denantiaeth a roddir i chi (rhag ofn na fyddwch chi'n talu'r rhent). Os ydych yn methu cael gwarantwr ac ymddiriedolwr, efallai byddai'r landlord yn gwrthod cynnig y denantiaeth i chi. Os ydych dros 16 neu 17 byddwn yn rhoi cyngor i chi ynghylch cael gwarantwr ac ymddiriedolwr yn ystod eich cyfweliad opsiynau tai.

### 2.4 Oes modd i mi wneud cais gyda rhywun arall?

Pan fyddwch yn gwneud cais, byddwn yn gofyn i chi a fyddech yn dymuno tenantiaeth un person ynteu denantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall yn eich cartref. Un person yn unig fedr fod y prif ymgeisydd. Hwn fydd y person y byddwn yn cysylltu ag o yng nghyswllt y cais. Gweler **11.3** ar gyfer pan fo'r landlordiaid yn rhoi tenantiaethau ar y cyd.

Os ydych yn gwneud cais ac yn meddwl gofyn am denantiaeth ar y cyd, mae'n bwysig iawn bod yn ymwybodol:

- Y bydd gan denant ar y cyd yr un hawliau â chi dan y denantiaeth gan gynnwys yr hawl i fyw yn y cyfan o'r eiddo (oherwydd mai un denantiaeth fyddai yno, a byddech chi'n dal honno ar y cyd)
- Nad oes hawl cyfreithiol i 'droi' tenantiaeth ar y cyd yn denantiaeth un person, e.e. os yw eich cyd-denant yn symud allan ac rydych chi'n dymuno tenantiaeth un person yn eich enw eich hun yn unig
- Y gall cyd-denant ddod â'ch tenantiaeth i ben heb eich caniatâd chi gan roi i'r landlord hysbysiad ymadael. Nid oes yn rhaid i'ch cyd-denant hyd yn oed ddweud wrthych cyn iddo/iddi wneud hyn
- Os bydd eich cyd-denant yn dod â'ch tenantiaeth ar y cyd i ben ac rydych wedi'ch gadael yn byw yn yr eiddo heb denantiaeth, ni fydd wastad yn bosib rhoi tenantiaeth newydd i chi e.e. os oes gennych fwy o ystafelloedd gwely nag y mae eu hangen arnoch
- Bod cyd-denantiaid yn 'gyfrifol ar y cyd ac yn unigol' am y cyfan o'r rhent a'r holl ymrwymiadau eraill dan y cytundeb tenantiaeth hyd oni bydd y denantiaeth yn dod i ben. Os ydych yn gyd-denant, byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am rent a holl ymrwymiadau'r denantiaeth, hyd yn oed os byddwch yn symud allan o'r eiddo, cyhyd ag y bydd y denantiaeth yn parhau
- Os ydych yn gyd-denant, byddwch yn parhau i fod yn gyfrifol am rent a holl ymrwymiadau'r denantiaeth, hyd yn oed os ydych yn symud allan o'r eiddo, cyhyd ag y bydd y denantiaeth yn parhau.
- Os bydd eich cyd-denant yn marw byddwch yn dod yn denant un person yn awtomatig. Fodd bynnag, os byddwch chi yna'n marw nid oes modd i'ch teulu 'olynu' i'r denantiaeth. Mae'r sefyllfa'n wahanol pe byddech wedi cael tenantiaeth un person: gall aelodau o'ch teulu sy'n byw gyda chi olynu'r denantiaeth pan fyddwch yn marw.

### 2.5 Gwnes gais o'r blaen a chafodd ei wrthod. Oes modd i mi wneud ail gais?

Os cafodd eich cais ei wrthod dan y polisi blaenorol, gallwch wneud ail gais. Byddwn yna'n penderfynu a ydych yn gymwys i fynd ar y Gofrestr Tai dan y polisi hwn.

Os ydych wedi cael gwrthod cais dan y polisi hwn mae modd i chi wneud ail gais os yw eich sefyllfa wedi newid. Efallai y byddwn yn gwrthod ystyried eich cais os na fu newid perthnasol yn eich amgylchiadau ers y penderfyniad diwethaf.

### 2.6 Oes rhaid i mi fynd am gyfweliad opsiynau tai?

**2.7** Fe allwn ofyn wrthych ddwad i gyfweliad os rydych wedi eich derbyn yn gychwynol i fod mewn angen tai sydd yn eich rhoi mewn Band Brys neu Band 1. Mae hyn er mwyn gwneud yn siwr eich bod yn derbyn cyngor tai da.**Fydd fy nghais am gyfweliad yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig?**

Bydd. Byddwn yn anfon llythyr neu e-bost atoch i:

- Gadarnhau dyddiad ac amser eich cyfweliad opsiynau tai
- Dweud wrthych pa wybodaeth a dogfennau y mae'n rhaid i chi ddod â nhw i'ch cyfweliad
- Dweud wrthych lle gallech gael crynodeb o'r polisi hwn ar lein

### 2.8 Oes gennyf ddewis ynghylch pryd y caf fy nghyfweld?

Oes. Byddwn yn ceisio trefnu amser sy'n gyfleus i chi.

### 2.9 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu am golli fy nghartref?

Os ydych yn ddigartref neu o bosib am fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod byddwn yn trefnu apwyntiad fel bod modd i ni benderfynu a oes gan y Cyngor ddyletswydd tuag atoch dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Byddwn hefyd yn eich helpu i wneud cais am dŷ cymdeithasol os yw hyn yn briodol yn eich sefyllfa briodol chi.

### 2.10 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar restr cais rhywun arall am dŷ ?

Os ydych eisoes wedi'ch cofrestru ar gais rhywun arall am dŷ byddwn yn gofyn i chi gadarnhau nad ydych yn dymuno symud i dŷ arall hefo nhw. Unwaith y byddwch wedi cadarnhau hyn byddwch yn medru gwneud ar eich cyfer chi yn unig. Byddwn hefyd yn cysylltu gyda'r ymgeisydd arall ac efallai'n gohirio'i gais (gweler **8.8**).

### 2.11 Beth fydd yn digwydd os bydd angen cymorth arnaf i wneud cais am dy?

Byddwn yn sicrhau eich bod yn cael cymorth os ydych angen cymorth i wneud cais am dŷ. Er enghraifft, byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn cael unrhyw gymorth y mae ei angen arnoch oherwydd anabledd neu broblem llythrennedd neu os oes angen gwasanaethau cyfieithu arnoch.

## 3. BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD UNWAITH Y BYDD FY NGHYFWELIAD WEDI'I DREFNU?

3.1 Beth fydd yn digwydd os na fedraf ddod i'r cyfweliad opsiynau tai?

3.2 Oes angen i mi ddod â rhywbeth i'r cyfweliad opsiynau tai?

3.3 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dod â'r dogfennau i fy nghyfweliad opsiynau tai?

3.4 Beth fydd yn digwydd os byddaf dro ar ôl tro yn methu dod â'm dogfennau i'm cyfweliad?

3.5 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael anhawster cael hyd i'r dogfennau y gofynnwyd i mi ddod â nhw i'm cyfweliad?

3.6 Beth fydd yn digwydd mewn cyfweliad opsiynau tai?

3.7 Fydd angen i'r Cyngor gysylltu â rhywun arall cyn prosesu fy nghais?

3.8 Ydi'r Cyngor yn ystyried pob cais am dŷ?

3.9 Beth sydd yn rhaid i mi ei wneud i sicrhau y caiff fy nghais ei ystyried?

3.10 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cwrdd â'r 'gofynion trefniadaethol' a restrir yn 3.9?

3.11 Beth fydd yn digwydd os nad oes gennyf gyfeiriad sefydlog?

3.12 Fydd rhywun yn ymweld â mi yn fy nghartref?

### 3.1 Beth fydd yn digwydd os na fedraf ddod i'r cyfweliad opsiynau tai?

Byddwn yn ceisio trefnu dyddiad ac amser sy'n gyfleus i chi. Os cewch na fedrwch ddod i'r cyfweliad a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni er mwyn trefnu amser arall. Os na fedrwch yn wirioneddol ddod i gyfweliad opsiynau tai, byddwn yn cynnig cyfweliad i chi dros y ffôn, er enghraifft, os ydych yn byw yn bell i ffwrdd. Os na fedrwch ddod am gyfweliad i'n swyddfeydd oherwydd eich bod yn anabl, mae modd i ni ymweld â chi yn eich cartref.

### 3.2 Oes angen i mi ddod â rhywbeth i'm cyfweliad opsiynau tai?

Oes. Pan fyddwn yn gwneud yr apwyntiad byddwn yn dweud wrthych beth i ddod gyda chi. Byddwn hefyd yn cadarnhau hyn yn eich llythyr apwyntiad (neu e-bost). Fel arfer, byddwn yn gofyn i chi ddod â dogfennau i brofi:

- Pwy ydych.
- Eich incwm, eich cyfalaf ac a ydych yn berchen ar unrhyw eiddo ▪ Eich man preswylio cyfredol.
- Pwy yw'r bobl sy'n byw gyda chi (neu a fydd o bosib yn byw gyda chi) a lle maent yn byw

Os oes gennych unrhyw lythyrau neu ddogfennau sy'n berthnasol i pam bod angen tŷ arnoch a fyddech cystal â dod â'r rhain gyda chi e.e. rhybudd ymadael gan eich landlord.

### 3.3 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dod â'r dogfennau hyn i'm cyfweliad opsiynau tai?

Os na fyddwch yn dod â'r dogfennau yr ydym wedi gofyn i chi eu cyflwyno (gweler **3.2**) ni fedrwn gymryd eich cais. Byddwn yn trefnu apwyntiad arall i chi.

### 3.4 Beth fydd yn digwydd os byddaf dro ar ôl tro yn methu dod â'm dogfennau i'm cyfweliad?

Os na fyddwch yn dod â'r dogfennau yr ydym wedi gofyn i chi eu darparu (gweler **3.2**) i gyfweliad sydd wedi'i aildrefnu (gweler **3.3**), byddwn yn gofyn i chi anfon y dogfennau atom. Ni fyddwn yn trefnu cyfweliad arall ac yn cytuno i gymryd eich cais ond pan fyddwn wedi derbyn y dogfennau.

### 3.5 Beth fydd yn digwydd os wyf yn cael anhawster cael hyd i'r dogfennau y gofynnwyd i mi ddod â nhw i'm cyfweliad?

Os ydych yn meddwl y cewch, o bosib, drafferth cael y dogfennau yr ydym wedi gofyn i chi ddod â nhw i'ch cyfweliad, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym cyn diwrnod eich cyfweliad fel bod modd i ni eich cynghori.

### 3.6 Beth fydd yn digwydd mewn cyfweliad opsiynau tai?

Mae'r cyfweliad yn rhoi cyfle i chi drafod eich sefyllfa'n fanwl. Byddwn yn dweud wrthych a fyddwch yn debygol o gymhwyso am dŷ cymdeithasol ai peidio. Byddwn hefyd yn dweud wrthych a fydd aros am dŷ cymdeithasol yn realistig yn eich sefyllfa benodol chi. Yn ystod y cyfweliad:

- Byddwch yn cael gwybod am droseddau y mae'n rhaid i chi eu hosgoi pan fyddwch yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol.
- Byddwch yn cael gwybod sut bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio ac am eich hawliau cyfreithiol yng nghyswllt eich gwybodaeth bersonol.
- Gofynnir i chi roi caniatâd i'r ffordd y caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio (e.e. trwy roi caniatâd i ni gysylltu â mudiadau eraill os bydd angen i ni wneud hynny).
- Gofynnir i chi roi eich manylion cyswllt a'ch dewis ynghylch a ydych yn dymuno cael gohebiaeth trwy e-bost neu lythyr.
- Gofynnir i chi roi gwybodaeth am eich sefyllfa a math y tŷ y mae ei angen arnoch. Gofynnir I chi hefyd am fath y tŷ y byddai'n well gennych, gan gynnwys ei fath, ei faint a'i leoliad.
- Gofynnir i chi gadarnhau a oes angen math arbennig o dŷ arnoch chi neu aelodau eich aelwyd neu a oes gennych/ganddynt unrhyw anghenion penodol e.e. llety llawr gwaelod oherwydd nad ydynt yn gallu symud yn rhwydd neu addasiadau oherwydd anabledd corfforol.

- Rhoddir gwybod i chi sut y byddir yn debygol o ymdrin â'ch cais, gan gynnwys pa flaenoriaeth y byddwch yn debygol o'i chael (gweler **adran 9**), ac a ydych yn debygol o gael cynnig tŷ cymdeithasol.
- Dywedir wrthych beth fydd yn digwydd nesaf. Fel arfer, byddwn yn ysgrifennu atoch ar ôl y cyfweliad yn cadarnhau'r penderfyniad y byddwn wedi'i wneud ynghylch eich cais (gweler **5.1** a **5.2**).
- Fe'ch cynghorir ynghylch cadw'ch llety presennol neu ynghylch ffyrdd eraill o gael hyd i dŷ (os yw'n briodol, e.e. os byddwch, o bosib, yn colli eich tŷ cyfredol neu os ydych mewn perygl o fod yn ddigartref).

### 3.7 Fydd angen i'r Cyngor gysylltu ag unrhyw un arall cyn prosesu fy nghais?

Efallai y bydd angen i ni gysylltu â mudiadau eraill i gael gwybodaeth y bydd ei hangen arnom cyn prosesu eich cais. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ni wirio gwybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni e.e. gofyn am dystlythyrau tenantiaeth. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd i gysylltu â thrydydd parti pan fyddwch yn cyflwyno cais am dŷ.

### 3.8 Ydi'r Cyngor yn ystyried pob cais am dŷ?

Ydi. Rydym yn ystyried pob cais, ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol penodol (gweler **3.9** am y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' hyn). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw cael asesu eich cais o reidrwydd yn golygu y bydd gennych hawl i fynd ar y Gofrestr Tai. Gweler **6.1** am bwy nad oes ganddo hawl i gael ei gofrestru ar y rhestr aros.

### 3.9 Beth sydd yn rhaid i mi ei wneud i wneud yn siŵr y caiff fy nghais ei ystyried?

Os ydych yn dymuno i'ch cais gael ei ystyried rhaid i chi:

- Fynd i gyfweliad opsiynau tai neu gymryd rhan ynddo
- Cydweithredu trwy ateb y cwestiynau y gofynnwn ynghylch eich sefyllfa ac ynghylch amgylchiadau'r bobl yn eich aelwyd
- Cyflwyno tystiolaeth dderbyniol o bwy ydych.
- Cyflwyno tystiolaeth dderbyniol o'ch cenedligrwydd a'ch statws mewnfudo - os ydym angen tystiolaeth i'n bodloni ein hunain eich bod yn gymwys am dŷ (gweler **6.3 i 6.7** ac **Atodiad 3** am y rheolau ynghylch mewnfudo a chenedligrwydd).
- Darparu cyfeiriad post.
- Darparu tystiolaeth dderbyniol o bwy yw'r bobl sy'n aros gyda chi yn eich aelwyd a lle maent yn byw.
- Caniatáu i ni ymweld â chi yn eich cartref (os ydym yn penderfynu bod angen ymweld â'ch cartref).

Efallai y bydd gofyn i chi wneud pethau eraill. Gelwir y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' yn 'ofynion gweithdrefnol'. Efallai y bydd gofynion gweithdrefnol eraill yn cael eu cynnwys yn yr arweiniad i staff sy'n mynd law yn llaw â'r polisi hwn.

### 3.10 Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cyrraedd y 'gofynion gweithdrefnol' a restrir yn 3.9?

Os na fyddwch yn gwneud y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' a restrir uchod yn **3.9** byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig na fedrwn wneud penderfyniad ynghylch eich cais. Byddwn yn rhoi amser rhesymol i chi unioni hyn. Os ydych yn parhau i beidio ag unioni hyn byddwn yn canslo'ch apwyntiad. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig.

### 3.11 Beth fydd yn digwydd os nad oes gennyf gyfeiriad sefydlog?

Os mai tŷ dros dro sydd gennych, dylech roi'r cyfeiriad hwnnw i ni. Os nad oes gennych lety o gwbl, bydd yn rhaid i chi roi cyfeiriad d/o i ni fel bod modd i ni ysgrifennu atoch. Gall hwn fod yn gyfeiriad aelod o'r teulu neu ffrind sy'n fodlon derbyn post ar eich rhan. Os byddwch yn rhoi cyfeiriad d/o bydd angen i chi wneud yn siŵr fod rhywun yn y cyfeiriad yn dweud wrthych pan fyddwch yn cael llythyrau. Gallwch ofyn i ni anfon gohebiaeth drwy e-bost.

### 3.12 Fydd rhywun yn ymweld â mi yn fy nghartref?

Efallai y bydd angen i ni ymweld â chi yn eich cartref i gadarnhau eich sefyllfa fel bod modd i ni wneud penderfyniad a ydych yn gymwys ac a oes gennych flaenoriaeth i symud tŷ. Er enghraifft, efallai y byddwn yn ymweld â chi yn eich cartref os oes angen i ni edrych a oes gormod o bobl yn byw yno, edrych ar amodau eiddo gwael, a yw eiddo'n cyrraedd y safon (os oes gennych denantiaeth gyda landlord sy'n bartner), neu am unrhyw reswm arall. Efallai y byddwn hefyd yn ymweld â chi yn eich cartref os ydym yn fodlon bod angen gwneud hynny oherwydd eich bod ag anabledd sy'n effeithio'n andwyol ar eich gallu i ymweld â Swyddfeydd y Cyngor neu gymryd rhan mewn cyfweliad dros y ffôn.

## 4. PA DDEWISIADAU SYDD GENNYF, A PHA DŶ YDW I'N CYMHWYSO AMDANO?

4.1 Oes modd i mi ddewis yr ardaloedd yr wyf yn dymuno byw ynddynt?

4.2 Oes modd i mi ddewis pa ffordd neu stad yr wyf yn ei dymuno o fewn ardal osod?

4.3 Pa ardaloedd gosod oes modd i mi eu dewis?

4.4 Sut medraf gael gwybod pa dai sydd ar gael ym mhob ardal?

4.5 Sut medraf gael gwybod faint o eiddo sy'n debygol o fod ar gael yn fy newis ardaloedd?

4.6 Oes sefyllfaoedd lle na fydd fy newis ardaloedd yn cael eu derbyn?

4.7 Rwy'n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar fy newis o ardal?

4.8 Oes modd i mi ddewis mathau'r eiddo yr wyf yn eu dymuno?

4.9 Rwy'n ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar y mathau o eiddo y medraf eu dewis?

4.10 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu beth yw maint yr eiddo y mae gennyf hawl iddo?

4.11 Pwy sy'n medru cael ei gofrestru fel rhan o'm haelwyd?

4.12 Sawl ystafell wely sydd gennyf hawl iddi?

4.13 Oes sefyllfaoedd lle byddai modd i mi gael cynnig eiddo mwy na'r hyn y mae gennyf hawl iddo?

4.14 Oes modd i mi ddewis pa landlord yr wyf yn ei ddymuno?

4.15 Oes modd i'r Cyngor a chymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?

4.16 Oes modd i'r Cyngor a'r cymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?

### 4.1 Oes modd i mi ddewis yr ardaloedd yr wyf yn dymuno byw ynddynt?

Oes. Mae modd i chi ddewis cyn lleied neu gymaint o ardaloedd ag y dymunech (oni bai eich bod yn ddigartref, gweler **4.7** isod). Ni ddylech ddewis ardal oni bai eich yn wirioneddol dymuno byw yno. Y rheswm am hyn yw y byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y Gofrestr os byddwch yn gwrthod dau gynnig o dŷ (gweler **11.8**). Yn anffodus, ychydig iawn o dai cymdeithasol sydd mewn rhai ardaloedd neu mae llawer o bobl yn dymuno byw yno. Byddwn yn dweud wrthych os yw'n realistig dewis ardal benodol yn ystod eich cyfweliad opsiynau tai.

### 4.2 Oes modd i mi ddewis ffordd neu stad yr wyf yn ei dymuno mewn ardal osod?

Nac oes. Os ydych yn dewis ardal mae'n bosib y medrwch gael cynnig eiddo mewn unrhyw ran o'r ardal osod honno.

### 4.3 Pa ardaloedd gosod fedraf i eu dewis?

Gweler **Atodiad 2** am fap sy'n dangos pob ardal osod.

### 4.4 Sut medraf gael gwybod faint o dai sydd ar gael ym mhob ardal?

Rydym fel mater o drefn yn cyhoeddi pa dai sydd gennym ym mhob ardal osod. Mae'n bwysig nodi mai <u>cyfanswm</u> nifer yr eiddo yw hyn ac efallai mai ychydig o eiddo yn unig a ddeuai'n wag bob blwyddyn (neu ddim o gwbl). O'r herwydd, rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth isod:

(a) Faint o eiddo oedd wedi bod ar gael i'w gosod yn flaenorol ym mhob ardal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

(b) Pa fand blaenoriaeth oedd gan yr ymgeisydd llwyddiannus, ac

(c) Am faint oedd yn rhaid iddo aros yn y band hwnnw cyn cael yr eiddo y bu iddynt ei dderbyn

Mae'r wybodaeth uchod ar gael ar wefan y Cyngor ac yn cael ei rhoddi i unrhyw gwsmer sy'n gofyn amdani.

Ni fydd y wybodaeth yn (a) a (b) uchod ar gael hyd oni fydd y polisi wedi bod mewn grym am chwe mis.

### 4.5 Sut medraf gael gwybod faint o eiddo sy'n debygol o ddod ar gael yn fy newis ardaloedd?

Nid ydym yn gwybod ymlaen llaw pa eiddo a ddaw ar gael. Yr oll y gallwn ei wneud yw rhoi gwybodaeth gyffredinol i chi, e.e. faint o eiddo o'r math a'r maint y mae ei angen arnoch sydd wedi dod ar gael yn flaenorol mewn ardal osod dros gyfnod penodol o amser a faint o bobl sydd o'ch blaen ar y rhestr aros honno (gweler **4.4**). Mae hyn yn rhoi syniad bras i chi o ba mor hir y mae'n debygol o fod cyn y medrwch gael eiddo (gweler hefyd **16.6** am eich hawl i ofyn am wybodaeth).

### 4.6 Oes sefyllfaoedd lle na fydd fy newis ardaloedd yn cael eu derbyn?

Oes. Efallai y byddwn yn gwrthod eich cofrestru ar gyfer ardal os credwn ei bod yn annhebygol y cewch gynnig tŷ yn yr ardal honno. Er enghraifft, efallai na fyddai fawr ddim tai neu ddim tai o gwbl o'r math a'r maint y mae eu hangen arnoch mewn ardal benodol. Neu efallai nad ydych yn cwrdd â meini prawf gosod y landlord.

### 4.7 Rwyf yn ddigartref. Fydd hyn yn cael effaith ar fy newis o ardal?

Bydd. Os oes gan y Cyngor un o'r dyletswyddau digartref isod tuag atoch bydd yn rhaid i chi ddewis o leiaf chwe ardal osod. Yr unig eithriad yw pe byddem yn penderfynu nad oes chwe ardal lle byddai llety'n gyfreithiol addas i chi (yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth digartrefedd). Dyma'r dyletswyddau digartrefedd:

- Dyletswydd adran 66 dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (y ddyletswydd i helpu i'ch atal rhag colli llety os byddwch o bosib yn dod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod)
- Dyletswydd Adran 68 dan Ddeddf 2014 (y ddyletswydd i sicrhau bod llety dros dro ar gael ar eich cyfer os oes gennym reswm i gredu y gallech fod yn gymwys i dderbyn cymorth, eich bod efallai'n ddigartref ac efallai mewn angen â blaenoriaeth)
- Dyletswydd adran 73 dan Ddeddf 2014 (y ddyletswydd i'ch helpu i ganfod llety os ydych yn ddigartref), a
- Dyletswydd adran 75 dan Ddeddf 2014 (y ddyletswydd i sicrhau bod llety ar gael ar eich cyfer os ydych yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen â blaenoriaeth ac na chafodd eich digartrefedd ei ddatrys pan oedd gan y Cyngor ddyletswydd adran 73 tuag atoch).

Os oes gan y Cyngor un o'r dyletswyddau uchod tuag atoch bydd gennych ddau fis i fynegi eich dewis ynghylch yr ardaloedd gosod y dymunech symud iddynt. Ar ddiwedd y ddau fis, gan ddechrau gyda derbyn un o'r dyletswyddau, medrwn ehangu'r ardaloedd gosod yr ydych wedi'ch cofrestru ar eu cyfer. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei wneud oni bai y credwn y byddai llety yn yr ardaloedd gosod ychwanegol yn fwyaf tebygol o fod yn addas i chi wrth orffen y ddyletswydd ddigartrefedd.

### 4.8 Oes modd i mi ddewis mathau'r eiddo yr wyf yn eu dymuno?

Oes. Medrwch ddewis mathau'r eiddo (tŷ, fflat ac ati) a lefelau llawr yr ydych yn eu dymuno ac y dymunech gael eich ystyried ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yr hyn yr ydych yn ei ddymuno yw'r unig beth sy'n penderfynu pa fath o eiddo yr ydych yn gymwys ar gyfer amdano, ond hefyd math eich aelwyd (gweler **4.12** isod).

Os ydych yn 55 oed neu'n hŷn, gallwch ddweud eich bod eisiau cael eich ystyried ar gyfer eiddo a chynlluniau tai sydd wedi eu neilltuo ar gyfer pobl hŷn.

### 4.9 Rwy'n ddigartref. Oes modd i hyn gael effaith ar fathau'r eiddo y medraf eu dewis?

Oes. Os oes gan y Cyngor un o'r dyletswyddau tuag atoch a restrir yn **4.7** efallai y bydd eich dewisiadau'n cael eu trechu. Efallai y byddwn yn dewis mathau'r eiddo yr ydych yn gymwys i gael eu cynnig, yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei ystyried sy'n addas i chi.

### 4.10 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu eiddo o ba faint y mae gennyf hawl iddo?

Rydym yn asesu maint y cartref y mae ei angen arnoch yn ôl nifer a chyfansoddiad aelodau eich aelwyd. Byddwn yn asesu nifer yr ystafelloedd gwely y bydd eu hangen arnoch. Gweler **4.11** a **4.12** isod

### 4.11 Pwy sy'n medru cael ei gofrestru fel rhan o fy aelwyd?

Byddwn yn penderfynu pwy sydd â'r hawl i gael ei gynnwys ar eich cais am dŷ fel rhan o'ch aelwyd Fel arfer, rhaid i'r bobl sy'n cyfrif fel y rhai y mae angen iddynt fyw gyda chi:

- Fyw gyda chi fel aelod o'r teulu, neu
- Fod yn blentyn i chi a bod yn ddibynnol arnoch.

Os oes gennych blentyn sy'n ddibynnol arnoch chi a rhywun arall (e.e. cynbartner) byddwn yn ystyried a ddylid ei drin fel rhan o'ch aelwyd. Os oes trefniant i rannu gwarchodaeth efallai y byddem yn penderfynu na ddylid trin y plentyn fel rhan o'ch aelwyd e.e. oherwydd bod ganddo eisoes lety gyda'i riant/warchodwr arall.

## 4.12 Sawl ystafell wely sydd gennyf hawl iddynt?

Caiff nifer yr ystafelloedd gwely y mae gennych hawl iddynt ei hasesu gan ddefnyddio'r rheolau a ganlyn. Rydych yn gymwys ar gyfer un ystafell wely am bob un o'r bobl isod sydd yn eich aelwyd:

- Un person sengl neu gwpl sy'n 16 oed neu hŷn
- Dau blentyn o'r un rhyw, os yw'r ddau blentyn dan 16
- Dau blentyn dan 10 oed, waeth beth yw eu rhyw ▪ Unrhyw blentyn arall.

Efallai eich bod yn gymwys ar gyfer un ystafell wely ychwanegol os:

- Ydych chi neu eich partner yn anabl a bod angen gofalwr nad yw'n byw gyda chi i aros dros nos, neu
- Ei fod yn afresymol i ddau berson rannu ystafell wely oherwydd salwch neu anabledd ar yr amod bod tystiolaeth am yr angen hwn a'n bod yn fodlon y byddech yn medru fforddio'r llety.

Yn y tabl isod, ceir arweiniad i faint yr eiddo y caiff y mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd eu cofrestru ar eu cyfer fel arfer

***AELWYD A MAINT YR EIDDO***

| | Nifer yr Ystafelloedd Gwely | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfansoddiad yr Aelwyd** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** |
| Un person | | | | | |
| Cwpl | | | | | |
| Dynes feichiog (sengl neu mewn cwpl) | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwpl neu un rhiant gydag un plentyn dan 16 | | ■ | | | |
| Cwpl neu un rhiant gyda dau o blant o'r un rhyw dan 16 neu â dau blentyn o wahanol ryw ac sydd ill dau dan 10 | | ■ | | | |
| Cwpl neu un rhiant gyda dau o blant o wahanol ryw dan 16 lle mae un plentyn yn o leiaf 10 | | | ■ | | |
| Cwpl neu un rhiant gyda thri o blant dan 16 | | | ■ | | |
| Cwpl neu un rhiant gyda phedwar o blant dan 16, yn unrhyw un o'r categorïau a ganlyn:<br>▪ i gyd o'r un rhyw;<br>▪ Dau fachgen a dwy ferch;<br>▪ Tri o'r un rhyw, lle mae o leiaf ddau o'r plant sydd o wahanol ryw dan 10. | | | ■ | | |
| Cwpl neu un rhiant gyda phedwar o blant dan 16, tri o'r un rhyw, lle mae un ai'r tri sydd o'r un rhyw i gyd dros 10 neu mae'r plentyn sydd o'r rhyw arall dros 10 | | | | ■ | |
| Cwpl neu un rhiant gyda phump o blant dan 16 | | | | ■ | |
| Cwpl neu un rhiant gyda mwy na phump o blant dan 16 | | | | | ■ |

Bydd ymgeiswyd sydd hefo plant sydd yn dibynnu arnynt (dependent children) rhwng 17 ac 21 oed yn cael eu hystyried hefo'r criteria uchod ar gyfer aelwyd ac maint yr eiddo **.4.13 Rwyf yn feichiog. Pryd fydd gennyf hawl i ystafell wely ychwanegol?**

Byddwch yn cael eich trin fel petai eich plentyn wedi cael ei eni'n barod (i bwrpas gweithio allan maint yr eiddo y mae gennych hawl iddo) unwaith y byddwch wedi bod yn feichiog am 26 wythnos. Efallai y byddwn yn defnyddio ein disgresiwn i newid eich hawliau o ran ystafelloedd gwely yn gynt na'r dyddiad hwn os byddwn yn teimlo bod hynny'n briodol ac wedi ystyried materion megis:

- A yw eich amgylchiadau'n eithriadol;
- Y galw gan ymgeiswyr eraill am eiddo o'r math a'r maint y byddai gennych chi hawl iddo os penderfynir y bydd gennych hawl i ystafell wely ychwanegol;
- Bod neb ar ôl ar y rhestr aros ar gyfer eiddo o faint mwy yn yr ardal(oedd) yr ydych wedi ei/eu dewis;
- Eich gallu i fforddio'r rhent a'r costau uwch sy'n gysylltiedig ag eiddo mwy.

### 4.14 Oes sefyllfaoedd lle medrwn gael cynnig eiddo mwy na'r hyn y mae hawl gennyf iddo?

Fel arfer, dim ond maint yr eiddo y mae gennych hawl iddo y cewch ei gynnig (gweler **4.12** uchod). Weithiau byddem yn medru cynnig eiddo mwy, ond fel arfer, ni fydd hyn yn digwydd oni bai:

- Nad oes neb ar ôl ar y rhestr aros, a
- Bod y landlord yn fodlon y byddech yn medru fforddio'r rhent

### 4.15 Oes modd i mi ddewis pa landlord yr wyf yn ei ddymuno?

Nac oes. Os cewch eich derbyn ar y Gofrestr Tai, gallwch gael cynnig tenantiaeth gydag unrhyw un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid.

### 4.16 Oes modd i'r Cyngor a'r cymdeithasau tai osod meini prawf cymhwyso ar gyfer eiddo neu gynlluniau tai penodol?

Oes. Er enghraifft, mae modd i rai eiddo gael eu cadw ar gyfer pobl dros oed penodol.

## 5. PA BRYD Y GWNEIR PENDERFYNIAD AR FY NGHAIS?


5.1 Pa bryd gaf i benderfyniad ar fy nghais?

5.2 Beth fydd y llythyr penderfynu yn ei ddweud wrthyf?

5.3 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn dymuno cael gwybod beth yw'r sefyllfa ynghylch fy nghais?

5.4 Os wyf yn anghytuno gyda phenderfyniad y Cyngor, oes modd i mi ofyn iddynt ei hailystyried?


### 5.1 Pa bryd gaf i benderfyniad ar fy nghais?

Byddwn yn prosesu'ch cais unwaith y byddwch yn cwrdd â'r holl ofynion trefniadaethol (ceir eglurhad ar y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' hyn yn **3.9**). Byddwn yn ysgrifennu atoch o fewn 21 diwrnod calendr i ddiwrnod eich cyfweliad opsiynau tai neu o fewn 21 diwrnod i ni dderbyn yr holl wybodaeth a'r dogfennau y mae eu hangen arnom (os yw hyn yn hwyrach). Os ydych wedi cytuno i dderbyn e-byst, efallai y byddwn yn anfon y penderfyniad atoch mewn e-bost.

### 5.2 Beth fydd y llythyr penderfynu yn ei ddweud wrthyf?

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthych:

- a ydych wedi'ch derbyn ar y rhestr aros.

Os ydych wedi'ch derbyn ar y rhestr aros, byddwn yn dweud wrthych:

- pa flaenoriaeth (band) a ddyfarnwyd i chi (gweler **9.6** i **9.10**)
- dyddiad eich amser aros (gweler **8.1**)
- math (neu fathau) y tŷ yr ydych wedi'ch cofrestru ar ei gyfer (gweler **4.8**), a ▪ maint yr eiddo yr ydych yn gymwys ar ei gyfer (gweler **4.10** i **4.14**).

Byddwn hefyd yn dweud wrthych os byddwn yn gwneud unrhyw un o'r mathau o benderfyniadau a ganlyn:

- Penderfyniad nad ydych yn gymwys i gael eich cynnwys ar y Gofrestr Tai gweler **adran 6**). Byddwn yn dweud y rhesymau pam wrthych
- Penderfyniad fod statws eich band blaenoriaeth wedi'i ostwng (gweler **9.11**) ac os felly, pa fand a ddyfarnwyd i chi. Byddwn yn dweud y rhesymau pam wrthych.

Byddwn yn dweud wrthych am eich hawl i ofyn am adolygiad os ydych yn anfodlon gyda'n penderfyniad ar eich cais (gweler **adran 12.5**).

Bydd y llythyr penderfyniad yn egluro bod copi o'r hysbysiad o benderfyniad ar gael i'w gasglu o swyddfa'r Cyngor am gyfnod rhesymol. Mae'r llythyr hefyd yn egluro os na fyddwch yn derbyn y llythyr (neu'r e-bost) o benderfyniad, byddwch yn cael eich trin fel petaech wedi cael gwybod pan gafodd y llythyr ei anfon i'r cyfeiriad post neu e-bost a gawsom gennych.

### 5.3 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn dymuno cael gwybod beth yw'r sefyllfa ynghylch fy nghais?

Os oes gennych gwestiynau ynghylch eich cais, a fyddech cystal â ffonio Gwasanaethau Cwsmeriaid yr Adran Tai ar (01248) 752200 neu anfon e-bost atynt yn tai@ynysmon.gov.uk. Os oedd eich cyfweliad yn y 21 diwrnod diwethaf ac nid ydych wedi cael penderfyniad, awgrymwn eich bod yn disgwyl am ein llythyr neu ein neges ebost yn cadarnhau canlyniad eich cais.

### 5.4 Os wyf yn anghytuno gyda phenderfyniad y Cyngor oes modd i mi ofyn iddynt ei ailystyried?

Oes.  Pan fyddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthych beth yw'r penderfyniad ar eich cais, byddwn hefyd yn dweud wrthych am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am fwy o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

## 6. A FYDDAF YN CAEL MYND AR Y GOFRESTR TAI?

6.1 Oes gan bawb hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?

6.2 Sut fydd y Cyngor yn fy helpu os nad oes gennyf hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?

6.3 Pam fyddwch chi'n edrych ar statws mewnfudo a chenedligrwydd?

6.4 Sut medraf gael gwybod a yw fy statws mewnfudo yn fy niarddel rhag cael tŷ?

6.5 Nid wyf yn gymwys ar gyfer dŷ oherwydd fy statws mewnfudo. Oes modd i mi gael tenantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall?

6.6 Pobl a gyfyngir

6.7 Nid yw fy mhlant yn gymwys oherwydd eu statws mewnfudo. Fyddwch chi'n rhoi ystyriaeth i'w hanghenion?

6.8 Oes sefyllfaoedd lle na fydd y Cyngor yn cofrestru rhywun ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?

6.9 Pa bryd nad oes gan rywun hawl mynd ar y rhestr aros oherwydd ei ymddygiad yn y gorffennol?

6.10 Fydd y Cyngor yn gofyn am dystlythyrau tenantiaeth?

6.11 Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw rhywun yn fy aelwyd yn gymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, oes modd rhoi iddo/iddi denantiaeth ar y cyd gyda mi?

## 6.1 Oes gan bawb hawl i fynd ar y Gofrestr Tai?

Nac oes. Nid oes gan rai pobl yr hawl i gael eu cofrestru ar y rhestr aros. Er enghraifft, ni fyddwch yn cael eich rhoi ar y Gofrestr Tai:

- Os nad ydych wedi cwrdd â'r 'gofynion gweithdrefnol' (gweler **3.9** am y 'pethau y mae'n rhaid chi eu gwneud').
- Os oes gennych ddigon o adnoddau ariannol i gwrdd â'ch anghenion tŷ (gweler **7.3** a **7.4** am fwy o fanylion).
- Os nad ydych yn gymwys oherwydd eich statws mewnfudo (gweler **6.3** i **6.7** ac **Atodiad 3** am y rheolau ynghylch mewnfudo a chenedligrwydd)
- Os nad ydych yn gymwys oherwydd ymddygiad yn y gorffennol (gweler **6.8** i **6.9** ac **Atodiad 4** am y rheolau ynghylch bod yn anaddas i fod yn denant).
- Os ydych wedi gwneud cais o'r blaen, eich cais wedi'i wrthod ac nad yw eich cais wedi newid yn sylweddol ers y penderfyniad gwreiddiol (gweler **2.5**).

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthych os byddwn yn penderfynu nad ydych yn gymwys i gael eich cynnwys ar y Gofrestr. Byddwn yn dweud wrthych am ein rhesymau dros wneud y penderfyniad ac yn dweud wrthych am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am fwy o fanylion ynghylch eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

### 6.2 Sut fydd y Cyngor yn fy helpu os nad oes gennyf hawl mynd ar y Gofrestr Tai

Byddwn yn eich cynghori ynghylch eich opsiynau tai eraill.

### 6.3 Pam ydych yn edrych ar statws mewnfudo a chenedligrwydd?

Trwy gyfraith, ni chawn osod tai i bobl sydd wedi'u diarddel oherwydd eu statws mewnfudo. Ni fyddwn yn cofrestru ceisiadau gan unrhyw un nad yw'n gymwys ar gyfer tŷ dan adran 160A(1)(a) Deddf Tai 1996 a'r rheoliadau cysylltiedig.

### 6.4 Sut medraf gael gwybod a yw fy statws mewnfudo yn fy niarddel rhag cael tŷ?

Yn **Atodiad 3** ceir rhestr o'r grwpiau nad ydynt yn gymwys i gael tŷ oherwydd eu statws mewnfudo neu eu cenedligrwydd. A fyddech cystal â chysylltu â ni os oes angen cyngor arnoch ar sut y gallai hyn gael effaith ar eich cais.

### 6.5 Nid wyf yn gymwys ar gyfer tŷ oherwydd fy statws mewnfudo. Oes modd i mi gael tenantiaeth ar y cyd gyda rhywun arall?

Nac oes. Ni all aelod o aelwyd, nad yw'n gymwys, gael tenantiaeth un person na thenantiaeth ar y cyd gydag ymgeisydd cymwys yn sgil cael gosod tŷ.

### 6.6 Pobl a gyfyngir

Ni fyddwn yn cofrestru cais unrhyw un sydd yn syrthio i grŵp 'ffafriaeth resymol' (gweler **16.1**) oherwydd digartrefedd dim ond oherwydd bod eu haelwyd yn cynnwys 'person a gyfyngir'. Person a gyfyngir yw rhywun:

- nad yw'n gymwys ar gyfer cymorth dan Bennod 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, ac
- sy'n destun rheolaeth mewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, ac
- un ai:
    - Nad oes ganddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, neu
    - Bod ganddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno gyda'r amod ei fod yn cynnal ei hun a'i ddibynyddion ac yn cael llety i'w hun a'i ddibynyddion heb orfod troi at y pwrs cyhoeddus

### 6.7 Nid yw fy mhlant yn gymwys oherwydd eu statws mewnfudo. Fyddwch chi'n cymryd eu hanghenion i ystyriaeth?

Byddwn. Os ydych chi'n gymwys ond bod gennych ddibynyddion sydd ddim yn gymwys, byddwn yn cymryd eu hanghenion tai i ystyriaeth, e.e. wrth benderfynu ar eich blaenoriaeth a math a maint y tŷ yr ydych yn gymwys ar ei gyfer. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn cymryd statws mewnfudo perthnasau i ystyriaeth wrth benderfynu a ydynt yn rhan o'ch aelwyd. Os yw eich aelod yn cynnwys 'person a gyfyngir' efallai na fyddwn yn rhoi blaenoriaeth am dŷ i chi (gweler **6.6**).

### 6.8 Oes sefyllfaoedd lle na fydd y Cyngor yn cofrestru rhywun ar y rhestr aros oherwydd ymddygiad yn y gorffennol?

Oes. Os ydym yn penderfynu fod eich statws mewnfudo a chenedligrwydd yn golygu eich bod yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Tai byddwn wedyn yn ystyried a ydych o bosib yn anghymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol.

### 6.9 Pa bryd nad oes gan rywun hawl mynd ar y Gofrestr Tai oherwydd ymddygiad yn y gorffennol?

Rydym yn ystyried:

- a ydych chi neu aelod a'ch aelwyd wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol ac, os dyma'r achos
- a yw'r ymddygiad yn ddigon difrifol i'ch gwneud yn anaddas i fod yn denant tŷ cymdeithasol ac, os dyma'r achos
- a ydych yn parhau'n anaddas i fod yn denant ar yr adeg y byddwn yn ystyried eich cais

Mae **Atodiad 4** yn rhoi mwy o wybodaeth am sut y gwnawn y penderfyniad hwn ac am y rheolau y byddwn yn eu defnyddio.

### 6.10 Fydd y Cyngor yn gofyn am dystlythyrau tenantiaeth?

Bydd. Os ydych yn denant ar hyn o bryd neu wedi bod â thenantiaeth yn y gorffennol byddwn yn cysylltu â'ch landlord(iaid) ac yn gofyn iddynt am fanylion am y modd y cynhaliwyd eich tenantiaeth. Mae hyn o gymorth i ni benderfynu a ydych yn addas i fod yn denant (gweler **6.9**).

### 6.11 Os yw'r Cyngor yn penderfynu nad yw rhywun yn fy aelwyd yn gymwys oherwydd ymddygiad annerbyniol, oes modd rhoi iddo/iddi gyd-denantiaeth gyda mi?

Nac oes. Nid oes modd rhoi i rywun nad yw'n gymwys oherwydd ymddygiad blaenorol gyd-denantiaeth gydag ymgeisydd cymwys yn sgil gosod tŷ.

## 7. PA FLAENORIAETH FYDD GENNYF AM DŶ?

7.1 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu pa flaenoriaeth sydd gennyf am dŷ?

7.2 Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cymhwyso am unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth?

7.3 Fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i fy incwm a fy sefyllfa ariannol?

7.4 Beth fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth iddo wrth benderfynu a fedraf fforddio tŷ yn y sector preifat?

7.5 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar y Gofrestr Tai pan fydd y polisi hwn yn dod i rym?

7.6 A fyddaf yn cael mwy o flaenoriaeth os gwnaf gais fel person digartref?

### 7.1 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu pa flaenoriaeth sydd gennyf am dŷ?

Os ydych yn gymwys i fynd ar y Gofrestr Tai (gweler adran **6**), byddwn wedyn yn mynd ymlaen i benderfynu a oes angen tŷ arnoch. Ceir pedwar 'band'. Mae'r band a ddyferniri i chi'n seiliedig ar a oes gennych gysylltiad lleol ai peidio, a beth yw eich brys am dŷ. Dyma'r bandiau, gyda'r flaenoriaeth yn gostwng wrth fynd i lawr y tabl :

| Band | Rydych os oes gennych: |
|---|---|
| Urgent | a) Angen tai brys a chysylltiad Ynys Mon<br>b) Angen tai brys (heb gysylltiad Ynys Mon) |
| Band 1 | Angen tai a chysylltiad Ynys Mon |
| Band 2 | Angen tai heb gysylltiad Ynys Mon |
| Band 3 | Heb angen tai gyda cysylltiad Ynys Mon |

*Mae rhai eithriadau i'r rheol gyffredinol hon. Ym Mand 3, mae angen cysylltiad lleol ar gyfer categorïau angen tŷ 28 a 30.

Ceir eglurhad llawn ar feini prawf y bandiau yn **adran 9**.

### 7.2 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cymhwyso ar gyfer unrhyw un o'r bandiau blaenoriaeth?

Os nad ydych yn cymhwyso ar gyfer unrhyw un o'r bandiau ni chewch fynd ar y Gofrestr Tai. Bydd hyn yn golygu na fyddwch yn cael eich ystyried am dŷ. Byddwn yn anfon ein penderfyniad atoch yn ysgrifenedig ac yn egluro pam nad ydych yn gymwys ar gyfer y rhestr aros. Byddwn hefyd yn dweud wrthych am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am ragor o fanylion am ofyn i ni ailystyried penderfyniadau). Os nad oes gennych angen tai a dim cysylltiad gyda Ynys Mon ni fyddwch yn cael eich cofrestru neu bydd eich cais cyfredol yn cael ei ganslo. Medrwn eich cynghori ar eich opsiynau tai eraill os oes ei angen arnoch.

### 7.3 A fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'm hincwm a'm sefyllfa ariannol?

Bydd. Fel arfer, ni fydd tai cymdeithasol yn cael eu darparu onid ydych yn cael trafferth i gael tŷ addas oherwydd eich sefyllfa ariannol. Efallai y byddwn yn penderfynu nad oes modd eich cynnwys ar y Gofrestr Tai os medrwch fforddio cael tŷ yn y sector preifat. Efallai y byddwn yn eich diarddel os na allwch fforddio tŷ yn y man y dymunech fyw, ond yn gallu fforddio tŷ addas yn rhywle arall ym Môn.

### 7.4 Beth mae'r Cyngor yn ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a fedraf fforddio tŷ yn y sector preifat?

Byddwn yn ystyried amryfal ffactorau, gan ddibynnu ar eich sefyllfa. Er enghraifft:

- Eich adnoddau ariannol ac adnoddau aelodau o'ch aelwyd. Mae adnoddau ariannol yn golygu incwm gros o £75,000 bob blwyddyn ac / neu asedau cyfalaf neu gynilion sydd dros £50,000. Golyga hyn gallwch gael eich cynnwys ar y rhestr ond ddim yn cael eich cofrestru hyd nes na fydd yr adnodd ariannol yn mynd dros y trothwy uchod.
- Bod yn berchen ar dir neu eiddo a bod ag ecwiti ynddynt
- Eich gwariant a'ch ymrwymiadau rhesymol
- Cyflenwad a chost tai marchnad breifat ym Môn a fyddai'n addas i chi
- A fyddai modd gwerthu eich eiddo presennol a rhyddhau'r ecwiti a ddaw yn sgil hynny i brynu neu rentu'n breifat
- Y posibilrwydd i chi gael morgais
- A yw addasu eich eiddo presennol yn opsiwn ymarferol (os yn berthnasol).

Mae'r arweiniad gweithdrefnol ar gyfer swyddogion tai (gweler **1.5**) yn cynnwys arweiniad ar sut i asesu achosion unigol, gan gynnwys ffigyrau i'ch helpu gyda maint yr incwm, cynilion a chyfalaf y byddai modd, yn nodweddiadol, ei ystyried yn dderbyniol ar gyfer mathau penodol o aelwyd. Wrth lunio'r canllawiau hyn, bydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn cymryd i ystyriaeth Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol a'r data mewn perthynas â chostau tai.

Bydd y taliadau isod yn cael eu diystyru yn yr asesiad ariannol:

i. Lwmp swm, taliadau dyfarniad pensiwn sydd yn parhau ac neu Taliadau Incwm wedi ei Warantu gan y Fyddin Brydeinig neu Lluoedd Adfyddin fel iawndal am anaf, gyflwr meddygol neu anabledd gafwyd tra ar wasanaeth weithredol. Mae hyn yn cynnwys symiau o'r Cynllun Pensiwn Rhyfel ac Cynllun Iawndal Fyddin Brydeinig.
ii. Taliadau iawndal sydd wedi eu derbyn drwy hawliadau dioddefwr trosedd neu drwy anaf personol
iii. Taliadau budd dal sydd ar gyfer helpu pobl gyda cost ychwanegol sydd yn cael ei achosi gan iechyd gwael neu anabledd gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i:
    - Taliadau Personol Annibynnol
    - Lwfans Byw Anbaledd
    - Lwfans Presenoldeb
    - Taliad Lluoedd Annibynnol

### 7.5 Beth fydd yn digwydd os wyf eisoes ar y Gofrestr Tai pan ddaw'r polisi hwn i rym?

Os oes gennych gais gweithredol am dŷ pan fo'r polisi hwn yn dod i rym, byddwn yn ailasesu pa mor gymwys ydych am dŷ gan ddefnyddio'r rheolau newydd. Os nad ydych yn gymwys ar gyfer un o'r bandiau, bydd eich cais yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr.

Byddwn yn ysgrifennu atoch yn dweud wrthych a yw eich cais wedi'i gynnwys ar y Gofrestr ai peidio. Os ydych yn gymwys dan y polisi newydd, byddwn yn cadarnhau statws eich band blaenoriaeth a dyddiad eich amser aros. Os oes gennych gais gweithredol pan fo'r polisi hwn yn dod i rym, dyddiad eich amser aros fydd y dyddiad y byddech wedi cymhwyso ar gyfer eich statws band pe byddai'r cynllun bandio wedi bod yn weithredol yn flaenorol. Os tynnir eich cais oddi ar y Gofrestr, byddwn yn cadarnhau'r rhesymau am y penderfyniad. Byddwn hefyd yn dweud wrthych am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **adran 12** am ragor o fanylion ynghylch eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

### 7.6 Oes modd i mi gael mwy o flaenoriaeth os wyf yn gwneud cais fel person digartref?

Os yw'r Cyngor yn derbyn eich bod yn ddigartref dyfernir i chi statws band sy'n adlewyrchu'ch blaenoriaeth ar gyfer symud tŷ (gweler **9.6** i **9.10** am y categorïau bandio). Fodd bynnag, nid yw gwneud cais fel person digartref fel arfer yn ei gwneud yn fwy tebygol y ceir cynnig o dŷ cymdeithasol. Y rheswm am hyn yw y medrwn ddod â dyletswyddau digartrefedd i ben trwy drefnu tŷ rhent yn breifat. Hefyd, os oes dyletswydd ddigartrefedd yn ddyledus i chi, bydd gennych lai o ddewis ynghylch:

- Lle cynigir tŷ i chi (gweler **4.7**), a
- Math yr eiddo a gynigir i chi (gweler **4.9**).

## 8. BETH FYDD YN DIGWYDD UNWAITH YR WYF WEDI'M COFRESTRU AR Y RHESTR AROS?


8.1 Lle fyddaf yn cael fy rhoi pan fyddaf yn mynd ar y rhestr am y tro cyntaf?
8.2 A fedraf golli fy nyddiad amser aros?
8.3 Oes modd ôl-ddyddio fy nyddiad amser aros?
8.4 Pa bryd fyddaf yn cyrraedd brig y rhestr aros?
8.5 A fyddaf yn bendant yn cael cynnig tŷ cymdeithasol?
8.6 Beth fydd yn digwydd os bydd fy sefyllfa'n newid?
8.7 Oes sefyllfaoedd lle bydd angen efallai i mi ddarparu gwybodaeth neu fynychu cyfweliad er mwyn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cynnig o dŷ?
8.8 Oes sefyllfaoedd lle bydd fy nghais yn cael ei ohirio fel na fyddaf yn gymwys i gael tŷ?
8.9 A fedraf ofyn i fy nghais gael ei atal os nad wyf eisiau cynnig o dŷ tan rhywbryd yn y dyfodol?
8.10 Oes sefyllfaoedd lle mae modd tynnu fy nghais oddi ar y Gofrestr Tai?
8.11 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu mewn perygl o golli fy nghartref?
8.12 A oes rhaid i mi adolygu fy nghais yn rheolaidd?


### 8.1 Lle fyddaf yn cael fy rhoi pan fyddaf yn mynd ar y rhestr am y tro cyntaf?

Os ydych yn ymgeisydd newydd bydd eich cais yn cael ei roi ar waelod y band y mae gennych hawl iddo gweler Adran 9 am fanylion am y system fandio). Y rheswm am hyn yw y rhoddir i bob ymgeisydd 'ddyddiad amser aros'.

**Eich dyddiad amser aros yw'r dyddiad pryd rhoddwyd i chi eich statws band cyfredol.** Byddwch yn cael eich rhoi dan ymgeiswyr eraill yn eich band (y mae angen yr un math a maint o dŷ arnynt ) oherwydd eu bod wedi bod yn disgwyl yn hirach i gael symud i dŷ arall. Bydd y rhai hynny sy'n gwneud cais ar eich ôl chi oddi tanoch (gan gymryd bod angen yr un math o dŷ arnynt yn yr un ardal).

### 8.2 A fedraf i golli fy nyddiad amser aros?

Medrwch, gall hyn ddigwydd:

- Os yw eich cais wedi cael ei dynnu oddi ar y gofrestr dai (gweler **8.10**)
- Os yw eich cais yn cael ei ganiatáu oherwydd bod eich blaenoriaeth yn gostwng (gweler **9.11**)
- Os nad ydych yn rhoi gwybod i ni am newid yn eich amgylchiadau a allai effeithio eich blaenoriaeth am dŷ (o fewn un mis calendr o'r newid, os nad ydych yn cysylltu â ni, ee nid ydym yn y broses o osod tŷ i chi) (gweler **8.6**)
- Os nad ydych yn ymateb i gais am gadarnhad o'ch amgylchiadau cyfredol (gweler **8.7**);
- Os nad ydych yn ymateb i gais i adnewyddu eich cais (gweler **8.12**): neu
- Os ydych yn cael eich rhoi yn y band blaenoriaeth 'brys' ac yn gwrthod cynnig o denantiaeth (gweler **11.7**).

Os ydym ni wedi gostwng eich blaenoriaeth am dŷ drwy atal eich cais (gweler **9.12**) bydd eich dyddiad amser aros yn cael ei ddiwygio i'r dyddiad y byddwch unwaith eto'n gymwys i gael cynnig tŷ (gan dybio y bydd eich cais yn cael ei 'ddi-atal'). Mae hyn yn golygu y bydd eich cais yn mynd i waelod y band perthnasol pan gaiff eich cais ei ddiatal.

### 8.3 Oes modd ôl-ddyddio fy nyddiad amser aros?

Mae modd i ni roi dyddiad amser aros gwahanol i chi os oes amgylchiadau eithriadol. Er enghraifft, gallem roi dyddiad cynt i chi os bu oedi afresymol wrth i ni brosesu eich cais ac nad oedd hyn a wnelo â dim yr oeddech chi wedi'i wneud, e.e. methu rhoi gwybodaeth neu ddogfennau.

### 8.4 Pa bryd fyddaf yn cyrraedd brig y rhestr aros?

Byddwch yn symud i fyny'r rhestr aros yn raddol wrth i ymgeiswyr eraill sydd â'r un band blaenoriaeth a dyddiadau amser aros cynt symud i dŷ arall neu fynd oddi ar y rhestr. Medrwn roi cyngor i chi ar faint o eiddo o'r math y mae ei angen arnoch oedd eisoes ar gael a faint o bobl sydd o'ch blaen ar y rhestr mewn ardal benodol (gweler **4.4**). Gall hyn fod o gymorth i chi benderfynu a ydych yn dymuno aros am dŷ cymdeithasol, ystyried opsiynau eraill neu ystyried ardaloedd gosod eraill (gweler **4.1**) neu fathau eraill o dai (gweler **4.8**).

### 8.5 A fyddaf yn bendant yn cael cynnig tŷ cymdeithasol?

Na fyddwch. Ni allwn warantu y cewch gynnig tŷ, hyd yn oed os cewch eich derbyn ar y rhestr aros. Yn anffodus, mae mwy o bobl yn dymuno tai nag sydd yno dai ar gael.

### 8.6 Beth fydd yn digwydd os yw fy sefyllfa'n newid?

Os yw eich sefyllfa'n newid, rhaid i chi roi gwybod i ni. Os dowch yn ymwybodol o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a allai gael effaith ar eich blaenoriaeth am dŷ, a fyddech cystal â dweud wrth Dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Adran Tai'r Cyngor. Er enghraifft, rhaid i chi ddweud wrthym os:

- Ydych yn symud cartref
- Yw rhywun yn gadael eich aelwyd neu'n ymuno â hi ▪ Yw eich incwm neu eich sefyllfa ariannol yn newid.

Os nad ydych yn dweud wrthym fod eich sefyllfa'n newid efallai y byddwn yn canslo'ch cais (gweler **8.10**). At hyn, efallai na fyddem yn medru cynnig eiddo i chi pan gyrhaeddwch frig y rhestr (gweler **10.8**). Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddod am gyfweliad opsiynau tai a chyflwyno gwybodaeth a dogfennau cefnogol os bydd eich sefyllfa'n newid.

**8.7** **Oes sefyllfaoedd lle y bydd angen efallai i mi ddarparu gwybodaeth neu fynychu cyfweliad er mwyn parhau i fod yn gymwys i dderbyn cynnig o dŷ?**

Oes. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth neu fynychu cyfweliad:

- Os ydym yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu y bydd angen i ni efallai dynnu eich cais oddi ar y gofrestr tai.
- Os ydym yn derbyn gwybodaeth yn awgrymu y bydd angen i ni efallai ostwng eich blaenoriaeth ar y rhestr aros.

Nid yw'r rhestr uchod yn un derfynol.

Gallwn dynnu eich cais oddi ar y gofrestr tai os nad ydych yn darparu'r wybodaeth yr ydym ei hangen neu os nad ydych yn mynychu cyfweliad (gweler **8.10**).

**8.8** **Oes sefyllfaoedd lle bydd fy nghais yn cael ei ohirio fel nad wyf yn cymhwyso am gynnig o dŷ?**

Oes. Efallai y byddwn yn gohirio eich cais neu'n tynnu achos o osod yn ei ôl os:

- Ydym wedi derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu bod eich sefyllfa o bosib wedi newid ac na fedrwch mwyach fod yn gymwys ar gyfer tŷ, nac am eich statws blaenoriaeth band.
- Os ydych yn denant tŷ cymdeithasol a heb godi cyflwr eich cartref neu eich gardd i'r safon ofynnol.
- Nid ydych mewn sefyllfa i gymryd llety e.e. oherwydd eich bod yn yr ysbyty, yn y ddalfa neu mewn sefydliad.
- Credwn fod modd o bosib i un o'r sefyllfaoedd yn **8.10** fod yn berthnasol ond nad ydym wedi penderfynu eto

Byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn dweud wrthych os byddwn yn gohirio'ch cais (neu'n tynnu'n ôl achos o osod). Byddwn yn rhoi gwybod i chi'r rhesymau am y penderfyniad. Byddwn hefyd yn dweud wrthych os bydd gofyn i chi roi gwybodaeth neu wneud rhywbeth cyn bod modd i'ch cais fynd yn weithredol unwaith eto.

**8.9** **A fedraf ofyn i fy nhais gael ei atal os nad wyf eisiau cynnig o dŷ tan rhywbryd yn y dyfodol?**

Nid yw hyn yn cael ei ganiatáu fel arfer. Mae'r gofrestr tai ar gyfer pobl sydd angen tŷ *rŵan*. Efallai y byddwn yn gwneud eithriad os nad oes modd i chi dderbyn cynnig o dŷ oherwydd sefyllfa *dros dro* sy'n eich rhwystro rhag derbyn tŷ ond eich bod yn parhau i fod angen llety, e.e.:

- Rydych wedi gorfod mynd i'r ysbyty.
- Rydych yn y ddalfa.

### 8.10 Oes sefyllfaoedd lle mae modd tynnu fy nghais oddi ar y Gofrestr Tai?

Oes. Medrwn o bosib dynnu eich cais oddi ar y rhestr aros os:

- Ydych yn gwrthod dau gynnig rhesymol o lety (gweler **11.8**).
- Ydych yn gofyn i ni dynnu'ch cais yn ei ôl
- Ydi'ch sefyllfa'n newid ac nid oes gennych hawl i aros ar y Gofrestr Tai (gweler **6.1**).
- Ydych yn dal gwybodaeth yn ei hôl neu'n methu rhoi gwybodaeth i ni yr ydym wedi gofyn i chi ei rhoi yng nghyswllt eich cais.
- Nad ydych yn cydymffurfio â'n 'gofynion gweithdrefnol' (gweler **3.9** am y 'pethau y mae'n rhaid i chi eu gwneud' hyn).
- Nad ydych yn ymateb i ni pan ydym wedi ceisio cysylltu â chi e.e. cais i chi gadarnhau eich amgylchiadau a'ch bod yn dymuno aros ar y Gofrestr Tai (gweler **8.12**).
- Ydych yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yng nghyswllt eich cais, a hynny'n fwriadol neu'n fyrbwyll
- Nad ydych yn gymwys i gael tŷ (gweler **adran 6**).
- Rydych yn derbyn cynnig o lety wedi i lety gael ei ddyrannu.

### 8.11 Beth fydd yn digwydd os wyf yn ddigartref neu mewn perygl o golli fy nghartref?

Os ydych o bosib yn colli eich cartref, mae'n bwysig cysylltu â ni cyn gynted â phosib. Byddwn yn medru rhoi cymorth a chyngor i chi. Efallai bod gennych hawl i gymorth dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Os byddwch yn dod yn ddigartref efallai y bydd angen i ni drefnu llety dros dro i chi. Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar (01248) 752200 cyn gynted ag y credwch y byddech yn ddigartref. Fel arfer, byddant yn gwneud apwyntiad gyda swyddog opsiynau tai.

### 8.12 A oes rhaid i mi adolygu fy nghais yn rheolaidd?

Oes. Bydd angen i chi adnewyddu'ch cais neu wneud ail gais yn rheolaidd. Mae angen i ni gadw cofnod cywir o bobl sy'n dymuno tŷ cymdeithasol ac sy'n parhau i fod yn gymwys. Byddwn yn cysylltu gyda chi os oes angen i chi adnewyddu'ch cais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yr ydych wedi eu rhoddi i ni. Gofynnir i chi gadarnhau eich sefyllfa gyfredol pan fyddwn yn adolygu'ch cais.

Os na fyddwch yn ymateb neu'n peidio â rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen arnom, byddwn yn eich tynnu oddi ar y Gofrestr. Os byddwn yn gwneud hyn, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi gwybod i chi. Gallwch ofyn i ni adolygu unrhyw benderfyniad i'ch tynnu oddi ar y rhestr aros (gweler **adran 12** am ychwaneg o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

## 9. SUT MAE'R SYSTEM BANDIO'N GWEITHIO?


9.1 Beth yw bandio?

9.2 Sut mae bandio'n gweithio?

9.3 Sut mae fy mlaenoriaeth yn cymharu â blaenoriaeth pobl eraill y dyfarnwyd yr un band iddynt?

9.4 Ar gyfer pa fandiau y mae angen cysylltiad lleol arnaf?

9.5 Beth sy'n cyfrif fel cysylltiad lleol?

9.6 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer y Band 'Brys'?

9.7 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 1?

9.8 Oes modd i mi gymhwyso am Fand 1 os wyf yn fwriadol ddigartref?

9.9 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 2?

9.10 9.10 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 3?

9.11 Oes modd i fy mlaenoriaeth ostwng?

9.12 Os bydd y Cyngor yn penderfynu gostwng fy mlaenoriaeth, sut byddwch yn ei gostwng?

9.13 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a ddylid gostwng fy mlaenoriaeth?

9.14 Fydd y Cyngor yn dweud wrthyf os bydd fy mlaenoriaeth yn gostwng?

9.15 Oes modd i mi ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad i ostwng fy mlaenoriaeth dan 9.11?

9.16 Oes sefyllfaoedd pryd gellid rhoi blaenoriaeth uwch i mi na than y rheolau arferol?


### 9.1 Beth yw bandio?

Rydym yn defnyddio bandio i benderfynu pa flaenoriaeth sydd gennych am dŷ. Mae bandio'n ein helpu i sgorio'ch cais yn erbyn cais pawb arall y mae ganddynt hawl mynd ar y Gofrestr Tai. Mae'r flaenoriaeth y mae hawl gennych iddi'n dibynnu ar y canlynol:

- Oes brys mawr am dŷ arnoch ;
- Oes gennych gysylltiad lleol; a
- Pa mor hir yr ydych wedi'i dreulio'n aros am dŷ cymdeithasol.
- Dim angen am dy – os nad oes gennych angen am dy ond mae gennych gysylltiad gydag Ynys Mon mae'n bosib i chi gael ei cofrestru a'ch rhoi yn Band 3. Os nad oes gennych angen am dy a dim cysylltiad gydag Ynys Mon ni fyddwch yn cael ei cofrestru neu bydd eich cais yn cael ei ganslo maes o law.

  Bydd tai yn cael eu gosod i ymgeiswyr yn Band Brys i gychwyn. Os nad oes ymgeiswyr cymwys yn Band Brys bydd y ty yn ei osod i Band 1 ac yn y blaen. Os

rydych yn cael ei rhoi yn Band 3 mae'n bosib byddwch yn cael eich ystyried ar gyfer 'eiddo barod i'w osod lle nad oes ymgeiswyr cymwys yn Bandiau Brys i 2.

### 9.2 Sut mae bandio'n gweithio?

Ceir pedwar band. Os ydych yn gymwys i gael eich cynnwys ar y Gofrestr byddwn yn dyfarnu band i chi sy'n adlewyrchu eich sefyllfa benodol chi.

Dyma'r bandiau, gyda'r flaenoriaeth yn gostwng wrth fynd i lawr:

- Band Brys
- Band 1
- Band 2
- Band 3

Mae modd i chi ganfod pa fand yr ydych yn gymwys ar ei gyfer trwy edrych ar **9.6** i **9.10**.

### 9.3 Sut mae fy mlaenoriaeth yn cymharu â blaenoriaeth pobl eraill y dyfarnwyd yr un band iddynt?

Ym mhob band blaenoriaethir ceisiadau wrth yr amser y mae pawb wedi'i dreulio'n disgwyl am dŷ cymdeithasol (yn unol â 'dyddiad amser aros' ymgeiswyr; gweler **8.1**).

### 9.4 Ar gyfer pa fandiau y mae angen cysylltiad lleol arnaf?

Mae angen cysylltiad lleol arnoch i chi gael eich dyfarnu â blaenoriaeth Band Brys a, Band 1 a Band 3 (gweler **7.1**, **9.5**, **9.6** a **9.10**).

### 9.5 Beth sy'n cyfrif fel cysylltiad gydag Ynys Mon?

Mae gennych gysylltiad gydag ardal Môn os ydych chi neu aelod o'ch aelwyd:

- Yn byw yn yr ardal fel arfer am bum mlynedd (ar unrhyw adeg), neu
- Â chysylltiadau teuluol â'r ardal. Cyfyd cysylltiadau teuluol fel arfer pan fo gan rywun riant, plentyn sy'n oedolyn, brawd neu chwaer sydd yn byw yn yr ardal ers o leiaf bum mlynedd adeg dyddiad y cais ac rydych chi a'r perthyn agos dan sylw sy'n byw'n agos yn datgan dymuniad i chi fod yn agos i'r perthyn, neu
- Yn rhoi cefnogaeth angenrheidiol neu'n ei dderbyn gan berson neu ddarparwr arbenigol yn yr ardal, neu
- Wedi bod yn gweithio yn yr ardal am bum mlynedd (ar unrhyw adeg), neu
- Wedi cael cynnig gwaith yn yr ardal ond eich bod chi neu'r aelod ag anabledd yn methu derbyn y cynnig oherwydd anhawster cael tŷ yn yr ardal sy'n ddigon addas (rhaid dangos tystiolaeth o'r anabledd a'r cynnig o waith), neu
- Angen symud i'r ardal fel bod aelod o'r aelwyd sydd ag anabledd yn medru mynd i'r ysgol neu gael cefnogaeth arbenigol, ond ei fod yn methu gwneud hynny oherwydd yr anhawster cael tŷ yn yr ardal sy'n ddigon addas (rhaid i'r angen fod

yn ganlyniad i'r anabledd a rhaid dangos tystiolaeth o'r anabledd a'r angen i symud i'r ardal), neu

- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac yn un ai gweithio neu'n byw yn yr ardal;
- Yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog neu'n gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog sydd ddim yn gweithio nac yn byw yn yr ardal ar hyn o bryd ond wedi bod yn byw yn yr ardal yn y gorffennol, gan gynnwys byw yno yn sgil cael eich/ei anfon yno yn y gorffennol pan oeddech/oedd yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog.
- O fewn Band lle mae cysylltiad âg Ynys Mon ei angen byddwch yn cael eu blaenoriaethu ar sail y canlynol:Rydych chi, neu aelodau'r teulu, wedi preswylio am 5 mlynedd neu fwy yn ardal Cyngor Cymuned ymhle y mae'r ty sydd i'w osod wedi'i leoli. Bydd pob cais wedyn yn ymddangos yn ôl trefn dyddiad, gyda'r cais â'r dyddiad cofrestru (neu) ddyddiad perthnasol) cynharaf yn cael ei ystyried gyntaf, ac felly ymlaen.
- Os nad oes unrhyw un o'r ceisiadau yn cyrraedd y meini prawf uchod, bydd ceisiadau lle mae'r ymgeisydd wedi preswylio llai na 5 mlynedd (neu heb breswylio o gwbl) yn ardal y Cyngor Cymuned lle mae'r eiddo sydd i'w osod wedi'i leoli yn cael eu hystyried. Bydd pob cais wedyn yn ymddangos yn ôl trefn dyddiad, gyda'r cais â'r dyddiad cofrestru (neu ddyddiad perthnasol) cynharaf yn cael ei ystyried gyntaf, ac felly ymlaen.
- Mewn rhai amgylchiadau efallai na fyddwch wedi byw mewn cymuned gyfagos gario eich preswyliaeth i gymuned arall. Gall hyn ddigwydd dim ond pan fo angen llety arbenigol nad yw ar gael yn eu cymuned bresennol ac mae ar gael mewn cymuned gyfagos. Byddai llety arbenigol yn cynnwys tai gwarchod,tai hygyrch neu dai sy'n darparu gwasanaeth penodol ac arbenigol.
- Os nad oes eiddo o fewn eich cymuned rydych wedi ei ddewis bydd sgwrs yn digwydd i drafod gario eich preswyliaeth i gymuned arall, e.e.,os nad oes fflat un stafell o fewn stoc un cymuned bydd y cymuned cyfagos yn cael ei ystyried.

## 9.6 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer y band 'Brys'?

Rydych yn cymhwyso ar gyfer band 'Brys' os oes:

- Angen tŷ ar frys arnoch (fel y nodir yn y blwch isod), a bod
- Gennych gysylltiad gydag Ynys Mon (gweler **9.5** am yr hyn sy'n cyfrif fel cysylltiad gydag Ynys Mon)
- Angen tŷ ar frys arnoch (fel y nodir yn y blwch isod) a dim cysylltiad gydag Ynys Mon (gweler **9.5** am yr hyn sy'n cyfrif fel cysylltiad gydag Ynys Mon)

Cedwir y Band Brys ar gyfer achosion brys mawr. Ychydig iawn o ymgeiswyr sy'n debygol o gael y statws hwn.

***BAND BRYS***

1) **Angen brys sy'n gysylltiedig ag achos meddygol, lles neu anabledd**

Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys rhywun sydd:

(a) Â chyflwr meddygol sy'n rhoi bywyd yn y fantol neu sy'n debygol o wneud hynny ac mae'r llety cyfredol (neu'r ffaith nad oes llety) yn cael effaith andwyol sylweddol ar y cyflwr, neu mae symud tŷ am wella'r cyflwr yn sylweddol;

(b) Wedi cael ei asesu fel rhywun y mae angen ei symud ar frys i eiddo addas;

(c) Â salwch corfforol neu feddyliol, anabledd, cyflwr meddygol neu anhwylder ymddygiadol difrifol, sy'n peri problem iddo ef neu i uned yr aelwyd, fel ei fod yn methu'n llwyr ag ymdopi â'i lety presennol a byddai symud yn lliniaru'r broblem. Er enghraifft, salwch terfynol neu gyflwr datblygedig sy'n gwaethygu;

(d) Yn yr ysbyty ac yn methu dychwelyd adref oherwydd bod y llety'n gwbl anaddas i'w anghenion tymor hir oherwydd dyluniad, lleoliad a/neu yn anaddas ar gyfer addasiadau sy'n ofynnol oherwydd anabledd;

(e) Yn anabl ac yn methu cael cyfleusterau hanfodol yn yr eiddo, er enghraifft lle mae'n anaddas ar gyfer cael bath neu fynd i'r toiled neu fynd i mewn i'r eiddo ei hun. Nid oes modd addasu'r eiddo'n economaidd i gwrdd â'i anghenion.

(f) Angen symud i roi cefnogaeth i berson â salwch, anabledd neu gyflwr meddygol difrifol ac nid oes modd i'r person hwnnw ymdopi yn ei lety presennol heb gefnogaeth yr ymgeisydd; neu

(g) Sy'n byw mewn llety sy'n orlawn sy'n gadael y person yn agored i haint a fyddai o bosib yn angheuol neu'n ddifrifol iawn, er enghraifft lle mae'n dioddef o gyfnod hwyr HIV.

Yn yr achosion hyn, bydd gofyn cael tystiolaeth i ddangos bod yr hawliad yn ddilys.

2) **Colli cartref yn sgil trychineb**

Ymgeiswyr sy'n colli eu cartref yn sydyn ac yn barhaol yn sgil trychineb ac sydd â chyfle rhesymol o gael tŷ mewn cyfnod byr.

3) **Gadael y lluoedd arfog neu gael anaf difrifol wrth wasanaethu yn y lluoedd arfog**

(a) Ymgeisydd y mae angen iddo symud i lety sydd wedi'i addasu'n addas oherwydd salwch, anabledd neu gyflwr meddygol difrifol y bu iddo neu aelod o'i aelwyd ei gael yn sgil gwasanaethu yn y lluoedd arfog

(b) Ymgeisydd y mae angen llety arno oherwydd ei fod yn gadael y lluoedd arfog ac yn colli llety milwrol. Caiff pobl sydd wedi gadael y lluoedd arfog dan y drefn 'Rhyddhau

yn ôl ei Hawl' (DAOR) eu heithrio o'r ddarpariaeth hon ac ni roddir iddynt statws band angen brys am dŷ.

4) **Pobl sy'n cael llety gan lywodraeth leol mewn gofal neu dŷ â chymorth cymeradwy ac yr ystyrir eu bod yn barod i 'symud ymlaen'**

5) **Mae angen tŷ cymdeithasol ar frys ar yr aelwyd i atal plentyn rhag gorfod mynd i ofal neu aros mewn gofal**

Ymhlith esiamplau mae:

(c) Rhieni maeth y mae angen llety arnynt ar frys er mwyn cymryd plentyn.

(d) Achosion lle mae cynllun gofal plentyn wedi nodi bod angen llety i atal y plentyn rhag gorfod cael gofal llywodraeth leol (er enghraifft, plentyn mewn angen / plentyn sy'n derbyn gofal / amddiffyn plant).

6) **Tenantiaid sydd gan un ystafell wely neu fwy yn ormod i nifer y bobl yn y tŷ ac sy'n dymuno trosglwyddo i eiddo llai neu sy'n byw mewn eiddo sydd wedi'i addasu nad oes ei angen arnynt, ar yr amod bod un o'r isod yn berthnasol:**

(e) Maent yn dioddef caledi ariannol (yn achos tenantiaid tai cymdeithasol sy'n byw mewn tai sy'n rhy fawr); neu

(f) Wrth iddynt symud byddai'n debygol o ryddhau eiddo i rywun sydd mewn angen (yn achos tenantiaid sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n rhy fawr a thenantiaid sydd ddim angen eu heiddo wedi ei addasu mwyach).

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â thenantiaeth tŷ cymdeithasol ym Môn gyda landlord sy'n bartner.

7) **Digartref oherwydd camdriniaeth neu fygythiad o gamdriniaeth**

Y rhai hynny mae gan Gyngor Sir Ynys Môn un o'r dyletswyddau digartrefedd isod tuag atynt:

(g) Dyletswydd adran 73 dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014; neu

(h) Dyletswydd adran 75 dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ac y mae angen tŷ ar frys arnynt oherwydd:

(aa) camdriniaeth y tu mewn i ystyr 58 Deddf 2014 (yn achos dyletswyddau adran 73 a 75).

Mae hyn yn cynnwys

- dioddefwyr trais yn y cartref neu drais arall (achosion hynny sydd yn cael eu trafod yn MARAC)
- dioddefwyr digwyddiadau casineb
- tystion trosedd,neu dioddefwyr trosedd, fyddai mewn risg o gael eu brawychu sydd yn golygu trais neu bygythiad o drais os busech yn aros yn eich cartref

8) **Achos eithriadol o angen brys lle na ymdrinnir ag amgylchiadau na brys yr amgylchiadau yn unman arall yn y cynllun hwn**

Ymgeisydd sydd wedi'i asesu fel un sydd ag angen eithriadol am dŷ a lle mae statws band brys wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaet

## 9.7 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 1?

Rydych yn cymhwyso ar gyfer Band 1 os oes:

(i) Angen tŷ ar frys arnoch (fel y nodir yn y blwch isod), a bod

(ii) Gennych gysylltiad gydag Ynys Mon (gweler **9.5** am yr hyn sy'n cyfrif fel cysylltiad gydag Ynys Mon).

### *BAND 1*

9) **Ymgeiswyr sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014, ac eithrio lle mae rheswm i gredu eu bod mynd yn ddigartref yn fwriadol, fel y diffinnir yn adran 77 Deddf 2014.**

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr digartref sydd ag angen â blaenoriaeth ac sydd â ddim angen â blaenoriaeth, ar yr amod nad oes rheswm i gredu eu bod wedi mynd yn ddigartref yn fwriadol (hyd yn oed mewn achos lle nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto dan Ran 2 Deddf 2014 ynghylch a yw'r ymgeisydd yn fwriadol ddigartref).

Mae'r diffiniad o ddigartrefedd a ddefnyddir wedi'i gynnwys yn adrannau 55 i 57 Deddf Tai (Cymru) 2014. Dan y diffiniad hwn mae person yn ddigartref os nad oes ganddo lety y mae ganddo hawl byw ynddo ac sy'n ffisegol ac yn gyfreithiol ar gael iddo fyw ynddo ac sy'n rhesymol iddo barhau i fyw ynddo. Mae hyn yn cynnwys yr isod:

(a) Person nad oes ganddo lety i fyw ynddo yn y Deyrnas Unedig nac yn unman arall, y mae

(i) ganddo hawl i fyw ynddo oherwydd diddordeb ynddo neu oherwydd gorchymyn llys;

(ii) ganddo drwydded bendant neu ymhlyg i fyw ynddo; neu

(iii) y mae'n byw ynddo fel man preswylio yn sgil unrhyw ddeddf neu reol cyfraith sy'n rhoi i'r person yr hawl i aros yn y tŷ, neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adfer meddiant.

(b) Mae person yn ddigartref hefyd os oes ganddo lety ond

(i) Ni all sicrhau mynediad iddo, neu

(ii) Mae'n cynnwys strwythur, gerbyd neu gynhwysydd a fwriadwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac nid oes man lle mae gan y person hawl neu mae ganddo ganiatâd i'w roi yn rhywle a byw ynddo.

Ni ymdrinnir â pherson fel bod ganddo lety, oni bai ei fod yn llety y byddai'n rhesymol iddo barhau i fyw ynddo, fel y diffinnir dan adran 57 Deddf 2014.

Ni chaiff llety ei ystyried fel llety sydd ar gael i fyw ynddo onid yw ar gael i'r person hwnnw fyw ynddo ynghyd â:

(aa) Person sydd fel arfer yn byw gydag o fel aelod o'i deulu, neu

(bb) Unrhyw berson arall y byddai o bosib yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gydag o.

Fel arfer, rhoddir y statws hwn gan Swyddog Opsiynau Tai yn sgil asesiad digartrefedd dan adran 62 Deddf 2014 (neu adolygiad o asesiad o'r fath).

Mewn achos lle mae ymgeisydd yn ddigartref a bod rheswm i gredu ei fod efallai'n fwriadol ddigartref, efallai y bydd yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth is dan gategorïau **18** neu **19** ym Mand 3.

10) **Ymgeiswyr y mae, oherwydd eu bod yn ddigartref neu wedi'u bygwth gyda digartrefedd:**

- **ddyletswydd iddynt dan adran 66 Deddf 2014 a bod dim rheswm i gredu eu bod wedi cael eu bygwth gyda digartrefedd yn fwriadol;**
- **dyletswydd iddynt dan adran 73 Deddf Tai (Cymru) 2014 a bod dim rheswm i gredu eu bod yn fwriadol ddigartref; dyletswydd iddynt dan adran 75 Deddf 2014**
- **dyletswydd i sicrhau eiddo i ymgeiswyr mewn angen ac iddo flaenoriaeth (pan mae'r ddyletswydd yn adran 73 wedi dod i ben).**

---

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr sydd:

(a) dan fygythiad o fod yn ddigartref ac mae dyletswydd tuag atynt dan adran 66 i helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael iddynt, ar yr amod nad oes rheswm i gredu bod yr ymgeisydd yn fwriadol wedi'i fygwth â digartrefedd (er nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto o ran y cais digartrefedd ynghylch a yw'r ymgeisydd yn fwriadol ddigartref ai peidio). Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd.;

(b) yn ddigartref ac y mae dyletswydd tuag atynt dan adran 73 i'w helpu i gael llety ar yr amod nad oes rheswm i gredu bod yr ymgeisydd yn fwriadol ddigartref (er nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto o ran y cais digartrefedd ynghylch a yw'r ymgeisydd yn fwriadol ddigartref ai peidio). Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;

(c) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddynt dan adran 75. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;

(d) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddynt dan adran 193(2). Yn yr achos hwn, cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn yw cyflawni'r ddyletswydd.

Lle mae ymgeisydd yn un ai ddigartref neu wedi'i fygwth gyda digartrefedd o fewn 56 diwrnod a bod rheswm i gredu bod yr ymgeisydd yn ddigartref (neu wedi ei fygwth â digartrefedd yn fwriadol) efallai y bydd yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth lai dan gategorïau **18** a **19** Band 2.

11) **Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu sydd, fel arall, yn byw mewn amgylchiadau tai anfoddhaol**

Mae'r categori hwn yn cynnwys yr isod:

(a) Ymgeiswyr nad oes yr isod yn eu heiddo:

(i) Ystafell ymolchi gyda chyfleusterau neu mae'r cyfleusterau mewn lleoliad afiach, er enghraifft mewn cegin;

(ii) Cegin a/neu gyfleusterau coginio priodol;

(iii) Toiled yn y tŷ;

(iv) Cyflenwad dŵr oer neu boeth oherwydd nam yn yr eiddo;

(v) Cyflenwad trydan oherwydd nam gyda'r eiddo;

(vi) Cyflenwad nwy oherwydd nam gyda'r eiddo lle mae cyflenwad o'r fath yn ofynnol i weithredu gwasanaethau sydd eisoes yno neu wasanaethau angenrheidiol megis gwres.

(b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tŷ gorlawn. Ystyrir bod llety'n orlawn os oes o leiaf un ystafell wely yn brin dan y diffiniad a ganlyn ar sail barhaol. Cymerir bod angen un ystafell wely ar gyfer pob un o'r isod yn aelwyd yr ymgeisydd:

(i) Un person neu gwpl 16 oed neu'n hŷn; a

(ii) Dau blentyn o'r un rhyw, lle mae'r ddau blentyn dan 16; a

(iii) Dau blentyn dan 10, waeth beth yw eu rhyw; ac

(iv) Unrhyw blentyn arall

At hyn, ystyrir y bydd ystafell wely'n angenrheidiol lle:

(v) Mae'r tenant neu ei bartner yn anabl a bod angen gofalwr nad yw'n byw gydag ef i aros dros nos, neu ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol; neu

(vi) Ei fod yn afresymol fod dau berson yn rhannu ystafell wely oherwydd salwch neu anabledd, ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol.

(c) Ymgeiswyr sydd wedi'u cyfeirio at Dîm Gorfodi 'r Cyngor i gael tŷ arall oherwydd eu bod yn byw mewn llety yn y sector preifat lle ceir peryglon Categori 1 dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, y mae'r Cyngor yn fodlon y dylai'r landlord neu'r trwyddedwr eu hunioni ond sy'n annhebygol o gael eu hunioni.

Bydd yr holl ymgeiswyr sy'n byw mewn llety afiach neu beryglus yn y sector preifat yn cael eu cyfeirio at Dîm Gorfodi'r Cyngor (rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fel bod modd datrys y broblem a'i gwneud yn bosib i'r ymgeisydd barhau i fyw yno lle bynnag y bo'n bosib.

Caiff peryglon Categori 1 a Chategori 2 eu hasesu dan Ran 1 Deddf Tai 2004 gan ddefnyddio'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Bydd swyddog ymchwilio Tîm Gorfodi'r Gwasanaethau Tai yn asesu'r eiddo i weld a oes ynddo beryglon Categori 1 a Chategori 2.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ymdrinnir â pheryglon yn anffurfiol drwy negodi gyda'r landlord. Oni fydd modd negodi ac oni cheir gwared â'r peryglon o fewn cyfnod rhesymol, bydd rhaid i Dîm Gorfodi'r gymryd unrhyw gamau gorfodaeth sydd, yn eu barn nhw, yn briodol lle mae perygl Categori 1 yn yr eiddo (er enghraifft, drwy gyflwyno rhybudd gorfodaeth neu rybudd ymwybyddiaeth o berygl). Yn achos perygl Categori 2, gall Tîm Gorfodi'r gymryd camau priodol.

Mewn achosion lle mae ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio i Dîm Gorfodi oherwydd bod rheswm i gredu y gall fod amodau anfoddhaol yn yr eiddo a bod y Tîm Gorfodi o'r farn bod perygl Categori 1 yn yr eiddo a hynny i'r graddau bod **risg o niwed yn fuan iawn neu niwed difrifol** i'r sawl sy'n byw yn yr eiddo sy'n golygu bod angen cyflwyno un o'r mathau isod o Rybudd Gorfodaeth:

(i) Camau Unioni Brys;

(ii) Gorchymyn Gwahardd Brys; neu

(iii) Orchymyn Gwahardd,

yna bydd y Tîm Gorfodi'n cyfeirio'r achos gydag argymhelliad y dylid rhoi blaenoriaeth iddo os, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, eu bod o'r farn y bodlonir y diffiniad uchod ac nad oes modd datrys y broblem o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Mae ymrwymiad cyfreithiol ar y Tîm Gorfodi i gysylltu gyda landlordiaid sector preifat lle mae problemau gyda chyflwr eiddo a cheisio eu datrys.

(d) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n afiach neu ymgeiswyr sy'n byw mewn amodau anfoddhaol mewn tai cymdeithasol

Bydd swyddog tai yn ymweld ag unrhyw ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar Ynys Môn mewn amodau afiach neu anfoddhaol. Fel arfer, gwneir ymholiadau gyda'r landlord fel y gellir datrys y broblem fel y gall yr ymgeisydd, os yw hynny'n bosibl, aros yn eu llety presennol.

Os bydd y Tîm Gorfodi'n fodlon na fydd yr amodau'n cael eu gwella o fewn cyfnod rhesymol o amser, gellir dyfarnu blaenoriaeth.

## 12. Pobl sy'n rhannu llety

Mae'r categori hwn yn cynnwys:

(a) Ymgeiswyr sy'n rhannu cyfleusterau gyda deiliaid nad ydynt yn rhan o aelwyd yr ymgeisydd ar sail barhaol. Mae hyn yn golygu rhannu cegin, ystafell ymolchi/cawod neu doiled.

## 13. Pobl sydd yn rhentu yn breifat ar Ynys Mon ac yn cael materion fforddiadwyedd

Bydd angen i chi ddangos nad yw ty preifat cyfredol yn fforddiadwy ac nad oes dewis arall fforddiadwy yn y sector breifat.

## 14. Pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu les

Mae'r categorïau isod o ymgeiswyr yn gymwys:

(a) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys rhywun â chyflwr meddygol sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â thŷ anaddas a lle mae'n angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'r iechyd yn sylweddol.

(b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn llety sy'n creu anhawster i aelod o'r aelwyd gyda mynediad i'r eiddo - anawsterau a fyddai'n cael effaith andwyol ar les person fel nad oes modd eu datrys yn yr eiddo cyfredol ac y caent eu lliniaru'n sylweddol pe byddent yn cael tŷ arall addas.

Bydd achosion o'r fath yn cael eu hasesu yn sgil cyngor gan ymarferwr perthnasol i ganfod a oes angen i'r person symud i eiddo addas o fewn y diffiniad uchod.

(c) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys person sydd ag anghenion gofal cymdeithasol nad ydynt yn cael eu bodloni a'i bod yn angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'i ofal yn sylweddol.

15. **Tenantiaid sydd eisoes yn byw mewn tai cymdeithasol ond sydd ag un ystafell wely neu fwy yn ormod ac sy'n dymuno symud i eiddo llai**

Rhaid i ymgeiswyr fod â thenantiaeth tŷ cymdeithasol ar Ynys Môn gyda landlord sy'n bartner. Efallai y bydd tenantiaid tai cymdeithasol sydd yn dioddef caledi ariannol oherwydd eu bod yn byw mewn tŷ sydd yn rhy fawr yn gymwys am flaenoriaeth uwch yn y band 'Brys' os ydynt ag angen tŷ dan **gategori 6**.

16. **Pobl y mae angen iddynt symud i fan penodol yn yr ardal, lle bydd methiant i gwrdd â'r angen hwnnw'n peri caledi (iddyn nhw eu hunain ac i eraill)**

Ymhlith enghreifftiau mae:

a. Bydd methiant i symud i'r ardal benodol yn peri caledi ariannol eithriadol

b. Mae'r ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd mewn perygl o fynd i ofal preswyl neu i ysbyty oni fydd yn symud i dŷ arall yn yr ardal benodol honno.

c. Mae angen i'r ymgeisydd symud i'r ardal benodol oherwydd bod perthynas wedi torri i lawr a bod angen diogelu a hyrwyddo lles plentyn (plant) cysylltiedig

d. Mae'r ymgeisydd yn 'blentyn perthnasol' dan Ddeddf Plant yn Gadael Gofal 2000, wedi gadael gofal, yn fregus ac mae ganddo angen uchel am dŷ ac y bodlonir hynny orau trwy ddarparu tŷ sefydlog, tymor hir yn yr ardal benodol.

e. Mae gan yr ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd gyflogaeth barhaol sy'n parhau, neu gynnig o gyflogaeth barhaol na fedr ei dderbyn oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.

f. Mae'r ymgeisydd yn rhoi neu'n derbyn cefnogaeth hanfodol ac nid oes modd cyflawni'r gefnogaeth hon oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.

g. Mae yr ymgeisydd wedi bod yn byw mewn fflat hyd at 2 dwy flynedd ac hefo 1 plentyn neu fwy sydd dan 11 mlwydd oed

17. **Achos eithriadol o angen am dŷ ar frys lle na ymdrinnir â'r amgylchiadau yn unman arall yn y cynllun hwn**

Ymgeisydd sydd wedi'i asesu fel un y mae ei angen am dŷ yn eithriadol a lle mae statws band 1 wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

## 9.8 Oes modd i mi gymhwyso ar gyfer Band 1 os wyf yn fwriadol ddigartref?

Nac oes. Os ydym wedi penderfynu eich bod yn ddigartref ond eich bod wedi mynd yn ddigartref yn fwriadol, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer Band 1. Dyma yw'r achos hyd yn oed os caiff y sefyllfa ei diogelu gan un o'r categorïau Band 1 eraill ac mae gennych gysylltiad lleol. Yn lle hynny, byddwch yn cael statws Band 2 (gweler categorïau **18** i **19** Band 2 yn **9.10**). Byddwch yn cael eich diarddel o fod â blaenoriaeth dan unrhyw un o'r categorïau Band 1 am chwe mis. Mae'r chwe mis yn dechrau pan fyddwn yn penderfynu eich bod wedi mynd yn ddigartref yn fwriadol. Efallai y bydd Pennaeth y Gwasanaethau Tai'n penderfynu na ddylid mynnu ar hyn os oes amgylchiadau eithriadol.

Os byddwch yna'n cael tŷ a ddim yn ddigartref mwyach ni fyddwch yn gymwys ar gyfer blaenoriaeth Band 3 dan gategori **22** neu **23** mwyach. Os yw eich cais yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai ac rydych yn gwneud ail gais am dŷ ar ôl 6 mis, efallai y cewch

statws blaenoriaeth Band 1 os yw eich sefyllfa wedi'i diogelu gan un o'r categorïau angen am dŷ a bod gennych gysylltiad lleol.

Os ydym ni wedi penderfynu eich bod yn ddigartref neu'n debygol o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod ond bod gennym reswm i gredu eich bod wedi dod yn ddigartref (neu wedi eich bygwth gyda digartrefedd) yn fwriadol, ni fyddwch yn cymhwyso ar gyfer Band 1. Dyma fydd yr achos hyd yn oed os yw eich sefyllfa wedi ei chynnwys gan unrhyw un o'r categorïau eraill ym Mand 1 a bod gennych gysylltiad lleol. Yn lle hynny, byddwch yn cael statws Band 2 (gweler categorïau **18** a **19** ym Mand 3 yn **9.10**). Fodd bynnag, ni fyddwch o angenrheidrwydd yn cael eich gwahardd rhag cael blaenoriaeth dan unrhyw un o'r categorïau Band 1 am 6 mis (sef yr hyn a fyddai'n digwydd petai penderfyniad yn cael ei wneud yn ffurfiol ar adeg cynnal adolygiad o asesiad digartrefedd nad ydych yn gymwys i dderbyn y ddyletswydd ddigartrefedd 'lawn' dan adran 75 oherwydd eich bod yn fwriadol ddigartref).

## 9.9 Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band 2?

Rydych yn cymhwyso ar gyfer Band 2 os:

*Oes angen tŷ ar frys arnoch (fel y nodir yn y blwch isod), ac

*Nad oes gennych gysylltiad (gweler **9.5** am yr hyn sy'n cyfrif fel cysylltiad lleol).

*Mae rhai eithriadau i'r rheol gyffredinol hon gyda Band 2. Rydych hefyd yn cymhwyso ar gyfer Band 23 os:

(a) Rydych:

(i) angen tŷ oherwydd digartrefedd neu'r bygythiad o ddigartrefedd (fel y nodir yn **22** neu **23** isod), a

(ii) Mae gennych gysylltiad lleol, ond

(iii) Nid ydych yn gymwys ar gyfer band uwch oherwydd eich bod wedi dod yn ddigartref yn fwriadol neu oherwydd bod rheswm i gredu eich bod wedi dod yn ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref, yn fwriadol (gweler **9.8**).

(b) Rydych:

(i) yn 55 oed neu'n hŷn ac wedi dweud yn benodol y byddai'n well gennych fyw mewn tŷ i berson hŷn (fel y nodir yn **25** isod), ac (iii) mae gennych gysylltiad lleol.

(c) Rydych yn weithiwr amaethyddol sydd wedi cael ei dadleoli (gweler **24** isod), p'un a oes gennych gysylltiad lleol ai peidio.

## BAND 2

### 18. Ymgeiswyr sy'n ddigartref o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae'r diffiniad o ddigartrefedd a ddefnyddir wedi'i gynnwys yn adrannau 55 i 57 Deddf Tai (Cymru) 2014. Dan y diffiniad hwn mae person yn ddigartref os nad oes ganddo lety y mae ganddo hawl byw ynddo ac sy'n ffisegol ac yn gyfreithiol ar gael iddo fyw ynddo ac sy'n rhesymol i barhau i fyw ynddo. Mae hyn yn cynnwys yr isod:

(a) Person nad oes ganddo lety i fyw ynddo yn y Deyrnas Unedig nac yn unman arall, y mae

- (i) ganddo hawl i fyw ynddo oherwydd diddordeb ynddo neu oherwydd gorchymyn llys;
- (ii) ganddo drwydded bendant neu ymhlyg; neu
- (iii) y mae'n byw ynddo fel man preswylio yn sgil unrhyw ddeddf neu reol cyfraith sy'n rhoi i'r person yr hawl i aros yn y tŷ, neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adfer meddiant.

(b) Mae person yn ddigartref hefyd os oes ganddo lety ond

- (i) Ni all sicrhau mynediad iddo, neu
- (ii) Mae'n cynnwys strwythur, gerbyd neu gynhwysydd a fwriadwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo ac nid oes man lle mae gan y person hawl neu mae ganddo ganiatâd i'w roi yn rhywle a byw ynddo.

Ni ymdrinnir â pherson fel bod ganddo lety, oni bai ei fod yn llety y byddai'n rhesymol iddo barhau i fyw ynddo, fel y diffinnir dan adran 57 Deddf 2014.

Ni chaiff llety ei ystyried fel llety sydd ar gael i fyw ynddo onid yw ar gael i'r person hwnnw fyw ynddo ynghyd â:

(cc) Person sydd fel arfer yn byw gydag fel aelod o'i deulu, neu

(dd) Unrhyw berson arall y byddai o bosib yn rhesymol ddisgwyl iddo fyw gydag o.

Fel arfer, rhoddir y statws hwn gan Swyddog Opsiynau Tai yn sgil asesiad digartrefedd dan adran 62 Deddf 2014 (neu adolygiad o asesiad o'r fath).

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr digartref sydd ag angen â blaenoriaeth a'r

sawl nad ydynt ag angen â blaenoriaeth (gan gynnwys y rheiny nad yw eu statws o ran blaenoriaeth yr angen wedi ei sefydlu), ac achosion lle mae gan yr awdurdod reswm dros gredu fod yr ymgeisydd efallai wedi dod yn ddigartref (neu wedi ei fygwth â digartrefedd) yn fwriadol).

### 19. Ymgeiswyr y mae, oherwydd eu bod yn ddigartref neu wedi'u bygwth gyda digartrefedd:

- **ddyletswydd iddynt dan adran 66 Deddf Tai (Cymru) 2014;**
- **dyletswydd iddynt dan adran 73 Deddf 2014;**
- **dyletswydd iddynt dan adran 75 Deddf 2014; neu**
- **mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd iddynt dan adran 193(2) Deddf Tai 1996.**

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr sydd:

a) dan fygythiad o fod yn ddigartref ac mae dyletswydd tuag atynt dan adran 66 i helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael iddynt. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd.;

b) yn ddigartref ac y mae dyletswydd tuag atynt dan adran 73 i'w helpu i gael llety. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;

c) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r ddyletswydd 'lawn' yn ddyledus iddynt dan adran 75 i sicrhau llety parhaus. Gall unrhyw awdurdod tai lleol fod yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd;

d) yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaeth a'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddynt dan adran 193(2) Deddf 1996. Yn yr achos hwn, cyfrifoldeb Cyngor Sir Ynys Môn yw cyflawni'r ddyletswydd.

Fel arfer, bydd ymgeiswyr yn cael y statws hwn gan swyddog opsiynau tai yn dilyn asesiad digartrefedd dan adran 62 Deddf 2014 (neu adolygiad o asesiad o'r fath).

Mae'r categori hwn yn cynnwys ymgeiswyr digartref sydd mewn angen blaenoriaeth a'r rhai nad ydynt mewn angen blaenoriaeth (gan gynnwys y rheini nad yw eu statws blaenoriaeth wedi cael ei sefydlu eto), ac achosion lle mae gan yr awdurdod reswm i gredu bod yr ymgeisydd efallai yn ddigartref (neu dan fygythiad o fod yn ddigartref) yn fwriadol.

### 20. Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai afiach neu orlawn neu sydd, fel arall, yn byw mewn amgylchiadau tai anfoddhaol

Mae'r categori hwn yn cynnwys yr isod:

a) Ymgeiswyr nad oes yr isod yn eu heiddo:

(i) Ystafell ymolchi gyda chyfleusterau neu mae'r cyfleusterau mewn lleoliad afiach, er enghraifft mewn cegin;

(ii) Cegin a/neu gyfleusterau coginio priodol;

(iii) Toiled yn y tŷ;

(iv) Cyflenwad dŵr oer neu boeth oherwydd nam yn yr eiddo;

(v) Cyflenwad trydan oherwydd nam gyda'r eiddo;

(vi) Cyflenwad nwy oherwydd nam gyda'r eiddo lle mae cyflenwad o'r fath yn ofynnol i weithredu gwasanaethau sydd eisoes yno neu wasanaethau angenrheidiol megis gwres.

b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tŷ gorlawn. Ystyrir bod llety'n orlawn os oes o leiaf un ystafell wely'n brin dan y diffiniad a ganlyn ar gyfer pob un o'r personau a ganlyn yn aelwyd yr ymgeisydd:

(i) Un person neu gwpl 16 oed neu'n hŷn; a

(ii) Dau blentyn o'r un rhyw, lle mae'r ddau blentyn dan 16; a

(iii) Dau blentyn dan 10, waeth beth yw eu rhyw; ac

(iv) Unrhyw blentyn arall

At hyn, ystyrir y bydd ystafell wely'n angenrheidiol lle:

(v) Mae'r tenant neu ei bartner yn anabl a bod angen gofalwr nad yw'n byw gydag ef i aros dros nos, neu ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol; neu

(vi) Ei fod yn afresymol fod dau berson yn rhannu ystafell wely oherwydd salwch neu anabledd, ar yr amod fod y Cyngor yn fodlon y byddai modd i'r ymgeisydd fforddio llety o'r maint perthnasol.

(c) Ymgeiswyr sydd wedi'u cyfeirio at Dîm Gorfodi'r Cyngor i gael tŷ arall oherwydd eu bod yn byw mewn llety lle ceir peryglon Categori 1 dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, y mae'r Cyngor yn fodlon y dylai'r landlord neu'r trwyddedwr eu hunioni ond sy'n annhebygol o gael eu hunioni.

Bydd yr holl ymgeiswyr sy'n byw mewn llety afiach neu beryglus yn y sector preifat yn cael eu cyfeirio at Dîm Gorfodi'r Cyngor (rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) fel bod modd datrys y broblem a'i gwneud yn bosib i'r ymgeisydd barhau i fyw yno lle bynnag y bo'n bosib.

Caiff peryglon Categori 1 a Chategori 2 eu hasesu dan Ran 1 Deddf Tai 2004 gan ddefnyddio'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Bydd swyddog ymchwilio Tîm Gorfodi yn asesu'r eiddo i weld a oes ynddo beryglon Categori 1 a Chategori 2.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ymdrinnir â pheryglon yn anffurfiol drwy negodi gyda'r landlord. Oni fydd modd negodi ac oni cheir gwared â'r peryglon o fewn cyfnod rhesymol, bydd rhaid i Dîm Gorfodi gymryd unrhyw gamau gorfodaeth sydd, yn eu barn nhw, yn briodol lle mae perygl Categori 1 yn yr eiddo (er enghraifft, drwy gyflwyno rhybudd gorfodaeth neu rybudd ymwybyddiaeth o berygl). Yn achos peryglo Categori 2, gall Tîm Gorfodigymryd camau priodol.

Mewn achosion lle mae ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio i Dîm Gorfodi oherwydd bod rheswm i gredu y gall fod amodau anfoddhaol yn yr eiddo a bod y Tîm Gorfodi o'r farn bod perygl Categori 1 yn yr eiddo a hynny i'r graddau bod **risg o niwed yn fuan iawn neu niwed difrifol** i'r sawl sy'n byw yn yr eiddo sy'n golygu bod angen cyflwyno un o'r mathau isod o Rybudd Gorfodaeth:

(i) Camau Unioni Brys;

(ii) Gorchymyn Gwahardd Brys; neu

(iii) Orchymyn Gwahardd,

yna bydd y Tîm Gorfodi'n cyfeirio'r achos gydag argymhelliad y dylid rhoi blaenoriaeth iddo os, er gwaethaf eu hymdrechion gorau, eu bod o'r farn y bodlonir y diffiniad uchod ac nad oes modd datrys y broblem o fewn cyfnod rhesymol o amser.

Mae ymrwymiad cyfreithiol ar y Tîm Gorfodi i gysylltu gyda landlordiaid sector preifat lle mae problemau gyda chyflwr eiddo a cheisio eu datrys.

(d) Ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol sy'n afiach neu ymgeiswyr sy'n byw mewn amodau anfoddhaol mewn tai cymdeithasol

Bydd swyddog tai yn ymweld ag unrhyw ymgeiswyr sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar Ynys Môn mewn amodau afiach neu anfoddhaol. Fel arfer, gwneir ymholiadau gyda'r landlord fel y gellir datrys y broblem fel y gall yr ymgeisydd, os yw hynny'n bosibl, aros yn eu llety presennol.

Os bydd y Tîm Gorfodi'n fodlon na fydd yr amodau'n cael eu gwella o fewn cyfnod rhesymol o amser, gellir dyfarnu blaenoriaeth.

## 21. Pobl sy'n rhannu llety

Ymgeiswyr sy'n rhannu cyfleusterau gyda deiliaid nad ydynt yn rhan o aelwyd yr ymgeisydd ar sail barhaol. Mae hyn yn golygu rhannu cegin, ystafell ymolchi/cawod neu doiled.

## 22. Pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu les

Mae'r categorïau isod o ymgeiswyr yn gymwys:

(a) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys rhywun â chyflwr meddygol sydd yn uniongyrchol gysylltiedig â thŷ anaddas a lle mae'n angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'r iechyd yn sylweddol.

(b) Ymgeiswyr sy'n byw mewn llety sy'n creu anhawster i aelod o'r aelwyd gyda mynediad i'r eiddo - anawsterau a fyddai'n cael effaith andwyol ar les person fel nad oes modd eu datrys yn yr eiddo cyfredol ac y caent eu lliniaru'n sylweddol pe byddent yn cael tŷ arall addas.

Bydd achosion o'r fath yn cael eu hasesu yn sgil asesiad gan ymarferwr perthnasol i ganfod a oes angen i'r person symud i eiddo addas o fewn y diffiniad uchod.

(c) Ymgeiswyr y mae eu haelwyd yn cynnwys person sydd ag anghenion gofal cymdeithasol nad ydynt yn cael eu bodloni a'i bod yn angenrheidiol symud tŷ er mwyn gwella'i ofal yn sylweddol.

## 23. Pobl y mae angen iddynt symud i fan penodol yn yr ardal, lle bydd methiant i gwrdd â'r angen hwnnw'n peri caledi (iddyn nhw eu hunain ac i eraill)

Ymhlith enghreifftiau mae:

(d) Bydd methiant i symud i'r ardal benodol yn peri caledi ariannol eithriadol

(e) Mae'r ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd mewn perygl o fynd i ofal preswyl neu i ysbyty oni fydd yn symud tŷ i dŷ arall yn yr ardal benodol honno.

(f) Mae angen i'r ymgeisid symud i'r ardal benodol oherwydd bod perthynas wedi torri i lawr a bod angen diogelu a hyrwyddo lles plentyn (plant) cysylltiedig

(g) Mae'r ymgeisydd yn 'blentyn perthnasol' dan Ddeddf Plant yn Gadael Gofal 2000, wedi gadael gofal, yn fregus ac mae ganddo angen uchel am dŷ ac y bodlonir hynny orau trwy ddarparu tŷ sefydlog, tymor hir yn yr ardal benodol.

(h) Mae gan yr ymgeisydd neu aelod o'i aelwyd gyflogaeth barhaol sy'n parhau, neu gynnig o gyflogaeth barhaol na fedrant ei dderbyn oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.

(i) Mae'r ymgeisydd yn rhoi neu'n derbyn cefnogaeth hanfodol ac nid oes modd cyflawni'r gefnogaeth hon oni bai ei fod yn byw yn yr ardal benodol.

### 24. Gweithwyr Amaethyddol sydd wedi eu dadleoli

Mae'r categori hwn yn berthnasol mewn achosion lle mae'r Tîm Opsiynau Tai, gan gymryd I ystyriaeth unrhyw gyngor a geir gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Anheddau Amaethyddol, yn fodlon:

(j) Bod yr ymgeisydd yn weithiwr amaethyddol sy'n cael ei ddadleoli o annedd ar Ynys Môn,

**b)** Bod angen yr annedd y mae'r gweithiwr yn cael ei ddadleoli ohoni i ddarparu llety ar gyfer gweithiwr amaethyddol arall,

**c)** Ni fedr y ffermwr ddarparu llety arall addas ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli, a

**d)** Mae angen canfod llety arall ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli er budd amaethyddiaeth effeithlon.

### 25. Ymgeiswyr sydd yn 55 oed neu'n hŷn sydd wedi mynegi y byddai'n well ganddynt fyw mewn cynlluniau tai sydd wedi eu neilltuo ar gyfer pobl hŷn ac sydd â chysylltiad lleol

Efallai y bydd ymgeiswyr sydd yn 55 oed neu'n hŷn yn gymwys am flaenoriaeth uwch dan gategori arall o angen am dŷ.

### 26. Achos o angen eithriadol am dŷ lle na ymdrinnir â'r amgylchiadau yn unman arall yn y cynllun hwn

Ymgeisydd sydd wedi'i asesu fel un y mae ei angen am dŷ yn eithriadol a lle mae statws band 2 wedi'i gymeradwyo gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai neu uwch-reolwr.

9.11 **Pwy sy'n cymhwyso ar gyfer Band Dim Angen Tai**

Rydych yn cymhwyso ar gyfer Band dim angen tai os oes

- Gennych dim angen brys na angen am dy
- Mae gennych gysylltiad gydag Ynys Mon (gweler 9.5 am yr hyn sydd yn cyfrif fel cysylltiad lleol

***DIM ANGEN AM DY***

**27.** Bydd Ymgeiswyr yn Band 3 yn cael eu hystyried am unhryw eiddo barod I'w osod pan na fydd ymgeiswyr cwmwys yn Band Brys i Band 2

9.12 **Oes modd i fy mlaenoriaeth ostwng ?**

Oes. Medrwn ostwng eich blaenoriaeth os ydym yn fodlon:

- Bod gennych ddigon o adnoddau ariannol i gwrdd â'ch anghenion tai (gweler **7.3** a **7.4**), neu
- Bod eich ymddygiad neu ymddygiad aelod o'ch aelwyd yn golygu eich bod yn anaddas i fod yn denant (gweler **Atodiad 4**);
- Bod gennych ddyledion sy'n gysylltiedig ag eiddo (megis ôl-ddyledion rhent, ôlddyledion treth y Cyngor, gordaliad budd-dal tai, dyled yn sgil difrod i'r eiddo ac ati) sydd dros £100 ac sydd un ai'n gysylltiedig â'ch cartref presennol neu hen gartref, ar yr amod bod modd adfer y ddyled yn gyfreithlon; neu
- Eich bod yn fwriadol wedi gwaethygu eich sefyllfa o safbwynt tai.

**9.12 Os bydd y Cyngor yn penderfynu gostwng fy mlaenoriaeth, sut byddwch yn ei ostwng?**

Efallai y byddwn yn gostwng eich blaenoriaeth trwy:

- Ddyfarnu i chi flaenoriaeth band is nag y byddai gennych, fel arall, hawl iddi (gweler **9.6** i **9.10** am y bandiau blaenoriaeth)
- Addasu eich dyddiad amser aros (gweler **8.1**)
- Eich atal dros dro rhag bod â hawl i gael tŷ (felly bydd eich cais yn cael ei 'basio heibio' pan fyddwn yn gosod tŷ y byddai gennych, fel arfer, hawl cael eich ystyried ar ei gyfer), neu
- Cyfuniad o'r uchod.

Er enghraifft, byddwn o bosib yn penderfynu fod gohirio dros dro'n briodol oherwydd bod arnoch ddyled i landlord sy'n bartner a bydd y gohirio'n rhoi cyfle i chi glirio'r

ddyled neu gytuno ar gynllun ad-dalu ac amser i ddangos y gallwch lynu wrth y cytundeb.

Os ydym yn addasu eich dyddiad amser aros efallai y byddwn yn penderfynu ei fod yn briodol dyfarnu dyddiad sy'n adlewyrchu pryd cafodd y mater 'tramgwyddus' ei ddatrys neu pryd codwyd gohiriad (gweler **8.2**).

### 9.13 Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a ddylid gostwng fy mlaenoriaeth?

Wrth benderfynu caniatáu cais ai peidio (dan **9.11**) a beth ddylai'r amodau fod (dan **9.12**) rydym yn trin pob achos yn ôl ei haeddiant ac yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Rydym hefyd yn ystyried bod angen cyflawni nodau polisi ehangach megis yr angen i gael tegwch rhwng ymgeiswyr, cydraddoldeb cyfle, cynhwysiad cymdeithasol, a bod angen symud tenantiaid sy'n byw mewn tai sy'n rhy fawr iddynt ac sy'n dibynnu ar fudd-daliadau tai i lety o faint addas.

Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y byddem yn penderfynu na ddylid gosod amod er bod un o'r meini prawf yn **9.11** yn berthnasol. Os oes gennych ddyled sy'n gysylltiedig ag eiddo ac sydd dros £100 gallem benderfynu peidio â gostwng eich blaenoriaeth os ydych wedi cytuno i ostwng y ddyled trwy wneud taliadau rheolaidd ac wedi cadw at y cytundeb am gyfnod sylweddol. Mae'r arweiniad gweithdrefnol i swyddogion tai yn cynnwys arweiniad ar sut y gwneir penderfyniadau i ostwng blaenoriaeth (gweler **1.5**).

### 9.14 Fydd y Cyngor yn dweud wrthyf os bydd fy mlaenoriaeth yn gostwng?

Bydd. Byddwn yn cadarnhau'n ysgrifenedig benderfyniad i ostwng eich blaenoriaeth ac yn gosod dyddiad pryd y byddwn yn adolygu'r gostyngiad mewn blaenoriaeth. Byddwn yn ysgrifennu atoch eto os byddwn, wrth adolygu'r gostyngiad mewn blaenoriaeth, yn penderfynu y dylai'r gostyngiad mewn blaenoriaeth barhau. Pryd bynnag y byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych am benderfyniad ynghylch gostwng eich blaenoriaeth, byddwch hefyd yn dweud wrthych am eich hawl i ofyn am adolygiad (gweler **9.15** ac adran **12**).

### 9.15 Oes modd i mi ofyn i'r Cyngor adolygu penderfyniad i ostwng fy mlaenoriaeth dan **9.11**?

Oes. Os ydych yn dymuno i ni ailystyried y penderfyniad rhaid i ni dderbyn eich cais am adolygiad o fewn 21 diwrnod i'r penderfyniad (gweler **12.6**).

### 9.16 Oes sefyllfaoedd lle gellid rhoi blaenoriaeth uwch i mi na than y rheolau arferol?

Pur anaml y mae hyn yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Er enghraifft, efallai y byddwn yn rhoi rhywun mewn band uwch neu ddyfarnu amser aros cynt oherwydd bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi argymell hyn neu oherwydd disgwyliad cyfreithlon (addewid sy'n rhwymo mewn cyfraith) (gweler hefyd

## 10 SUT MAE'R LANDLORDIAID YN PENDERFYNU PWY SY'N DERBYN CYNIGION O LETY

10.1 Oes ffyrdd gwahanol y gallai ymgeiswyr gael eu dewis am dŷ?

10.2 Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu pa ddull a ddefnyddir i osod eiddo?

10.3 Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu i ba ymgeisydd y mae eiddo am gael ei osod?

10.4 A fedr landlord 'basio heibio' yr ymgeisydd sydd ar frig y rhestr aros?

10.5 Pa bryd y byddwch yn dewis ymgeisydd am dŷ ac yn gosod eiddo?

10.6 Beth fydd yn digwydd os bydd y person y gosodir tŷ iddo'n ei wrthod?

10.7 Rwyf wedi ymddwyn yn anghymdeithasol yn y gorffennol yn yr ardal y mae eiddo gwag ar gael. Oes modd i mi gael fy ystyried ar gyfer yr eiddo?

10.8 Fyddwch chi'n adolygu fy sefyllfa os ydych yn ystyried gosod eiddo i mi?

10.9 Beth fydd yn digwydd os oes gennyf yr un flaenoriaeth a'r amser aros ag ymgeisydd arall?

### 10.1 Oes gwahanol ffyrdd y gall ymgeiswyr gael eu dewis i gael tŷ?

Oes. Er enghraifft efallai bod eiddo penodol wedi'u cadw ar gyfer rhywun:

- Sydd â chysylltiad penodol â'r ardal y mae'r eiddo ynddi (gweler **adran 14**)
- Y mae angen eiddo arno sydd wedi'i addasu neu sy'n addas oherwydd anabledd corfforol (gweler **adran 13**)
- Sy'n cwrdd â meini prawf sy'n berthnasol i'r eiddo neu'r cynllun tai penodol hwnnw (gweler **4.16**), neu
- Sydd wedi gwneud cais penodol am eiddo penodol.

Nid oes gan rai eiddo feini prawf gosod penodol ac mae modd eu gosod i unrhyw un ar y rhestr aros (ar yr amod eu bod wedi dewis yr ardal osod honno ac yn cymhwyso ar gyfer math a maint yr eiddo).

### 10.2 Sut mae landlordiaid yn penderfynu pa ddull a ddefnyddir i osod eiddo?

Pan ddaw eiddo ar gael byddwn yn penderfynu ar y dull i'w ddefnyddio i'w osod. Os yw eiddo wedi'i gadw ar gyfer math penodol o ymgeisydd (gweler **4.15** a **10.1**) byddwn yn defnyddio'r dull hwnnw i ddewis i bwy y dylai'r tŷ gael ei osod.

Mae modd i'r landlordiaid sy'n bartneriaid newid y dulliau gosod a ddefnyddir i osod cynlluniau tai neu eiddo penodol, ond byddant yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Tai

fel y gellir rhoi cyngor priodol i gwsmeriaid ac fel bod modd diwygio'r canllawiau gweithdrefnol.

### 10.3 Sut mae'r landlordiaid yn penderfynu i ba ymgeisydd y mae eiddo am gael ei osod?

Ni sy'n penderfynu:

(a) Pa ddull gosod a gaiff ei ddefnyddio (gweler **10.1**).

(b) Pa ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r meini prawf gosod penodol (os oes rhai).

(c) Pa ymgeiswyr sy'n cymhwyso ar gyfer y math a'r maint hwnnw o eiddo. Mae modd i landlordiaid sy'n bartneriaid nodi'n benodol a yw'r ystafelloedd gwely'n addas ar gyfer un person ynteu ddau.

(d) Pa ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth uchaf.  Ar gyfer eiddo nad oes iddynt feini prawf penodol golyga hyn, fel arfer, mai'r ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth band uchaf ac sydd wedi bod yn disgwyl y cyfnod hwyaf (yn ôl ei ddyddiad amser aros, gweler **8.1** a **9.3**) yw hwn.

### 10.4 A fedr landlord 'basio heibio' yr ymgeisydd sydd ar frig y rhestr aros?

Gall. Fodd bynnag, ni fedr landlord ond gwneud hyn os caniateir hynny dan delerau'r cynllun gosod. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Nid yw maint yr ystafelloedd gwely yn yr eiddo'n addas ar gyfer maint aelwyd yr ymgeisydd (gweler **10.3c**)).
- Mae'r Tîm Opsiynau Tai'n penderfynu gohirio cais fel y gellir adolygu ei flaenoriaeth (gweler **8.8**).

Mae rhestr lawn o'r amgylchiadau lle gellir 'pasio heibio' ymgeiswyr a manylion am y weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn wedi eu cynnwys yn y callawiau ar gyfer staff sydd ar gael gyda'r polisi hwn (gweler **1.5**).

### 10.5 Pa bryd y byddwch yn dewis ymgeisydd am dŷ ac yn gosod eiddo?

Mae modd i ni benderfynu gosod eiddo un ai cyn i'r eiddo ddod yn wag i'w osod neu wedi hynny. Weithiau rydym yn neilltuo'r eiddo cyn y bydd y tenant blaenorol wedi symud allan.

### 10.6 Beth fydd yn digwydd os yw'r person y gosodir tŷ iddo'n ei wrthod?

Os yw'r ymgeisydd yr ydym yn ei ddewis ar gyfer eiddo yn ei wrthod, byddwn yn dewis rhywun arall oddi ar y Gofrestr Tai i gael yr eiddo. Ar gyfer eiddo nad oes iddynt feini prawf gosod penodol golyga hyn, fel arfer, mai'r ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth uchaf nesaf yn ôl statws band ac amser aros yw hwn.

### 10.7 Rwyf wedi ymddwyn yn anghymdeithasol yn y gorffennol yn yr ardal y mae eiddo ar gael. Oes modd i mi gael fy ystyried ar gyfer yr eiddo?

Efallai na fyddem yn ystyried eich cais wrth benderfynu pwy ddylai gael ei ddewis. Efallai y byddem yn gwneud hyn os oeddech chi, aelod o'ch aelwyd, neu ymwelydd â'ch cartref, yn y gorffennol, yn gyfrifol am ymddwyn yn anghymdeithasol yn yr ardal y mae'r eiddo ynddo. Gallwn benderfynu eich 'pasio heibio' ar y rhestr aros wrth greu rhestr fer ar gyfer yr eiddo, hyd yn oed os credwn eich bod yn addas i fod yn denant (gweler **6.9**). Efallai y byddem yn eich cynghori i ystyried dewis ardaloedd gosod eraill os yw'r rheol hon yn debygol o gael effaith arnoch.

### 10.8 Fyddwch chi'n adolygu fy sefyllfa os ydych yn ystyried rhoi tŷ i mi?

Byddwn. Gallwn adolygu ein hasesiad o'ch cais cyn y gosodir tŷ i chi neu y cynigir i chi denantiaeth. Os nad ydych wedi dweud wrthym am newid yn eich sefyllfa, efallai na allwn gynnig i chi denantiaeth, hyd yn oed os byddwn wedi gosod tŷ i chi. (gweler **8.6**).

### 10.9 Beth fydd yn digwydd os oes gennyf yr un flaenoriaeth ac amser aros ag ymgeisydd arall?

Os oes gennych yr un statws band blaenoriaeth ac amser aros ag ymgeisydd arall, byddwn yn defnyddio'n disgresiwn wrth benderfynu i bwy ddylid gosod yr eiddo. Byddwn yn ystyried amryfal ffactorau. Er enghraifft, efallai y caiff rhywun ei ffafrio oherwydd ei fod wedi treulio mwy o amser yn disgwyl am dŷ cymdeithasol cyn i'w statws band cyfredol gael ei ddyfarnu neu, efallai, oherwydd y byddai'n medru rhyddhau llety mwy neu oherwydd bod ganddo gysylltiad cryfach â'r ardal osod. Nid yw hon yn rhestr gyflawn. Byddai modd i ni gymryd ffactorau eraill i ystyriaeth, gan ddibynnu ar y sefyllfa.

## 11 BETH FYDD YN DIGWYDD PAN GAF GYNNIG EIDDO?

11.1 Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael cynnig eiddo?

11.2 Os yw'r Cyngor yn cynnig tenantiaeth i mi ar lafar oes modd i mi fynnu fod y cynnig yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig cyn i mi dderbyn neu wrthod y cynnig?

11.3 Oes modd i mi gael cynnig tenantiaeth ar y cyd gyda fy mhartner neu aelod arall o'r aelwyd?

11.4 Oes modd i mi fynd i weld yr eiddo?

11.5 Oes rhaid i mi dderbyn eiddo a gynigir i mi?

11.6 Faint o amser a gaf i dderbyn neu wrthod cynnig o denantiaeth?

11.7 Sawl cynnig oes modd i mi ei dderbyn?

11.8 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwrthod dau gynnig o eiddo?

11.9 Beth sydd yn digwydd os credaf fod yr eiddo a gynigiwyd i mi yn anaddas?

11.10 Credaf na ddylai gwrthod tŷ gael ei gyfrif fel un o'm dau gynnig. Beth fedraf ei wneud?

11.11 A oes unrhyw sefyllfaoedd lle y gellir tynnu'n ôl gynnig o dŷ?

11.12 Mae fy nghais wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr tai oherwydd fy mod wedi gwrthod dau gynnig. Oes modd i mi wneud ail gais a mynd yn ôl ar y rhestr aros?

### 11.1 Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cael cynnig eiddo?

Os byddwn yn gosod eiddo i chi, fel arfer bydd un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn dweud wrthych am hyn yn ysgrifenedig. Efallai y byddwn yn dweud wrthych trwy lythyr neu e-bost.

Efallai y byddwn yn dweud wrthych ar lafar i ddechrau (ee drwy eich ffonio). Os ydych yn gwrthod y cynnig bydd hyn yn cyfrif tuag at eich dau wrthodiad (gweler **11.7** a **11.8**) ar yr amod bod gennych hawl i'r eiddo.

### 11.2 Os yw'r Cyngor yn cynnig tenantiaeth i mi ar lafar oes modd i mi fynnu fod y cynnig yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig cyn i mi dderbyn neu wrthod y cynnig?

Oes. Yna mae modd i chi ddewis a ydych yn dymuno derbyn neu wrthod y cynnig o denantiaeth.

### 11.3 Oes modd i mi gael cynnig tenantiaeth ar y cyd gyda fy mhartner neu aelod arall o'r aelwyd?

Os chi yw'r ymgeisydd, mae modd i chi ofyn am gael tenantiaeth ar y cyd gyda'ch partner neu rywun arall yn eich aelwyd os ydyw'n:

- Gymwys ar gyfer dŷ (gweler **6.5** a **6.11**)
- yn 16 oed neu'n hŷn (os ydynt yn 16 neu'n 17 oed, bydd angen i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn)
- wedi'i gynnwys ar eich cais
- bwriadu byw yn yr eiddo a'i ddefnyddio fel ei unig dŷ a'i brif dŷ.

Os ydych wedi gofyn am denantiaeth ar y cyd, bydd y landlord yn penderfynu a fydd yn rhoi tenantiaeth ar y cyd i chi ai peidio. Os yw landlord yn penderfynu peidio â rhoi tenantiaeth ar y cyd i chi, bydd yn rhoi'r rhesymau am hyn i chi'n ysgrifenedig.

### 11.4 Oes modd i mi fynd i weld yr eiddo?

Oes. Bydd y landlord yn rhoi amser i chi i fynd i weld yr eiddo Bydd swyddog tai'n bresennol i ateb unrhyw gwestiynau a fyddo gennych am yr eiddo. Fel arfer, byddai disgwyl i chi dderbyn neu wrthod bryd hynny.

### 11.5 Oes rhaid i mi dderbyn eiddo a gynigir i mi?

Nac oes. Rydych yn rhydd i dderbyn neu wrthod unrhyw eiddo a gynigir i chi. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, y gallai gwrthod eiddo arwain at:

- Dynnu eich enw oddi ar y Gofrestr Tai (gweler **11.8**), ac
- Y cyngor yn penderfynu bod unrhyw ddyletswydd sydd ganddo tuag atoch dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd wedi dod i ben

### 11.6 Faint o amser a gaf i dderbyn neu wrthod cynnig o denantiaeth?

Rhaid i ni wneud yn siŵr fod eiddo'n cael eu gosod yn sydyn. O'r herwydd, bydd yn rhaid i chi benderfynu'n sydyn a ydych yn dymuno derbyn y cynnig o denantiaeth. Byddwn yn rhoi amser i chi erbyn pryd y bydd angen i chi roi gwybod i ni. Fel arfer pan fyddwch yn mynd i weld yr eiddo fydd hyn. Os na fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn dymuno derbyn neu wrthod o fewn yr amser yr ydym wedi'i roi i chi, efallai y byddwn yn penderfynu eich bod wedi gwrthod y cynnig (hy cymryd yn ganiataol o'ch ymddygiad, eich bod wedi gwrthod y cais).

### 11.7 Sawl cynnig y mae modd i mi ei dderbyn?

Mae modd i chi dderbyn hyd at <u>ddau</u> gynnig o lety os ydych wedi'ch dyfarnu â blaenoriaeth Band 1, 2, neu 3.

Os dyfarnwyd i chi'r Band Brys byddwch yn derbyn <u>un</u> cynnig cyn colli'r dyfarniad Band Brys. Os ydych yn gwrthod y cynnig hwnnw, byddwch yna'n cael eich rhoi ym Mand 1 ac yn gymwys ar gyfer un cynnig arall. Bydd eich dyddiad amser aros (gweler **8.1**) yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r band newydd a ddyfarnwyd i chi .

### 11.8 Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gwrthod dau gynnig o eiddo?

Os byddwch yn gwrthod dau gynnig byddwch yn cael eich rhoi yn Band 3 ar gyfer ceisiadau dim blaenoriaeth am gyfnod o 6 mis. Gwneir hyn i sicrhau tegwch ag ymgeiswyr eraill sydd hefyd angen tŷ.  Chi fydd yn rhoi gwybod I'r Tim Opsiynau tan pan fydd y 6 mis wedi dwad i ben. Os rydych yn gwrthod dau gynnig pellach ym Mand 3

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd y Rheolwr Opsiynau Tai neu uwch reolwr yn y Gwasanaethau Tai yn penderfynu peidio a'ch rhoi eich cais yn Band 3 a chymeradwyo cynigion pellach. Fodd bynnag, ni wneir hyn ond mewn amgylchiadau eithriadol.

### 11.9 Beth sydd yn digwydd os credaf fod y llety a gynigiwyd i mi'n anaddas?

Os ydych yn gwrthod eiddo o'r math yr ydych yn gymwys ar ei gyfer, mewn ardal o'ch dewis, bydd y gwrthodiad yn cyfrif fel un o'ch dau gynnig. Byddai'n rhaid cael amgylchiadau eithriadol i hyn beidio â bod yr achos.

### 11.10 Credaf na ddylai gwrthod tŷ gael ei gyfrif  fel un o'm dau gynnig. Beth fedraf ei wneud?

Efallai y bydd sefyllfaoedd lle credwch na ddylai gwrthod eiddo gyfrif yn eich erbyn. Er enghraifft, os nad oedd yr eiddo yn un o'ch dewis ardaloedd, neu os ydych o'r farn na ddylech fod wedi cael cynnig y math hwnnw o eiddo. Os ydych yn anhapus gyda phenderfyniad eich bod wedi gwrthod cynnig neu y dylai gwrthodiad gyfrif yn eich erbyn, mae modd i chi ofyn i ni adolygu'r penderfyniad hwnnw.

Os eich <u>cynnig cyntaf</u> oedd hwn, rhaid i chi ofyn am adolygiad o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y gofynnwyd i chi dderbyn neu wrthod y cynnig.

Os eich <u>ail gynnig</u> oedd hwn, rhaid i chi ofyn am adolygiad o fewn 21 diwrnod i ni roi gwybod i chi am y penderfyniad bod eich enw wedi cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai (gweler **adran 12** am fwy o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau.

### 11.11 A oes unrhyw sefyllfaoedd lle y gellir tynnu'n ôl gynnig o dŷ?

Oes. Gall fod sefyllfaoedd lle byddwn yn tynnu'n ôl gynnig o dŷ (neu gynnig tenantiaeth yn dilyn gosod tŷ). Er enghraifft, gellir tynnu'n ôl achos o osod neu gynnig o dŷ:

- Gall asesiad fforddiadwyedd ddangos eich bod yn cael eich asesu fel risg uchel o beidio allu fforddio'r ty, ar sail hyn gall y cynnig ei dynnu yn ol. Ni fydd hyn yn golygu na fyddwch yn derbyn cynnig arall am math o dai eraill.
- Os yw eich sefyllfa wedi newid ers y tro diwethaf i ni adolygu eich cais am dŷ ac nad oes hawl gennych mwyach i'r un flaenoriaeth ar y rhestr aros neu nad oes hawl gennych mwyach i fod ar y gofrestr tai.
- Os ydych yn denant tŷ cymdeithasol a heb godi cyflwr eich cartref neu eich gardd i'r safon ofynnol.

- O oes arnoch chi rent neu mae gennych ddyled sy'n gysylltiedig ag eiddo (gweler **9.11**).
- Os ydym yn dod yn ymwybodol eich bod chi, neu aelod o'ch aelwyd, wedi ymddwyn mewn modd sy'n eich gwneud yn anaddas i fod yn denant (gweler **6.8** a **6.9**).
- Os cafodd y tŷ ei osod neu'r cynnig ei wneud mewn camgymeriad.

## 12 EICH HAWL I OFYN AM I BENDERFYNIADAU GAEL EU HADOLYGU


12.1 Pa benderfyniadau oes modd i mi i ofyn i'r Cyngor eu hadolygu?

12.2 Beth yw ystyr categori 12.1(g)?

12.3 Sut medraf gael gwybod a oes gennyf hawl i adolygu penderfyniad penodol?

12.4 Pa bryd fydd y Cyngor yn dweud wrthyf am fy hawl i ofyn am adolygiad?

12.5 Beth fydd y Cyngor yn ei ddweud wrthyf am fy hawl am adolygiad pan fyddaf yn cael penderfyniad ynghylch fy nghais?

12.6 Sut wyf yn gofyn am adolygiad?

12.7 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn y llythyr penderfynu? Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?

12.8 Rwyf wedi methu'r cyfyngiad amser 21 diwrnod. Oes modd i mi ddal gofyn am adolygiad?

12.9 Oes rhaid i mi roi rhesymau dros ofyn am adolygiad?

12.10 Pa weithdrefn fydd y Cyngor yn ei dilyn os gofynnaf am adolygiad?

12.11 Oes modd i mi ofyn am gopi o'm ffeil tai?

12.12 Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad adolygu?

12.13 Sut fydd y penderfyniad ynghylch fy adolygiad yn cael ei wneud?

12.14 Sut byddwch yn rhoi gwybod i mi am benderfyniad yr adolygiad?

12.15 Pa bryd byddaf yn cael y penderfyniad ar yr adolygiad?

12.16 Rwyf yn anfodlon gyda phenderfyniad yr adolygiad. Oes modd i mi apelio?

12.17 Oes modd i mi gwyno am benderfyniad yr adolygiad?

## 12.1 Pa benderfyniadau y mae modd i mi ofyn i'r Cyngor eu hadolygu?

Mae modd i chi ofyn i'r Cyngor adolygu'r penderfyniadau a ganlyn:

(a) Penderfyniad ynghylch y statws band blaenoriaeth uwch yr ydych â'r hawl iddo (gweler **9.6 i 9.10** am y grwpiau band)

(b) Penderfyniad am eich dyddiad amser aros (gweler **8.1**)

(c) Penderfyniad nad oes gennych hawl mynd ar y Gofrestr Tai (gweler **Adran 6** am y rheolau ynghylch pwy gaiff fynd ar y Gofrestr Tai)

(d) Penderfyniad y bydd eich cais yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Tai (gweler **8.10**)

(e) Penderfyniad bod eich blaenoriaeth wedi'i ostwng (gweler **9.11** a **9.12**)

(f) Penderfyniad eich bod wedi gwrthod cynnig o dŷ (gweler **11.10**)

(g) Penderfyniad y dylai gwrthod tŷ gyfrif fel un o'ch dau gynnig (gweler **11.10**)

(h) Penderfyniad am ffeithiau eich cais sy'n debygol o gael eu hystyried neu wedi cael eu hystyried, wrth ystyried gosod tŷ ai peidio (gweler **12.2**).

Gweler **5.2** am fanylion ynghylch yr hyn y bydd ein llythyr cychwynnol yn ei gynnwys.

### 12.2 Beth yw ystyr categori 12.1(h)?

Mae categori **12.1(h)** yn cynnwys amryfal benderfyniadau negyddol posib na fyddwch o bosib yn cael gwybod amdanynt. Fel arfer, mae'r penderfyniadau hyn yn rhan o benderfyniad arall y *byddwch* wedi cael gwybod amdano. Er enghraifft, efallai eich bod yn dymuno i ni adolygu penderfyniad nad yw rhywun yn rhan o'ch aelwyd, penderfyniad am eich adnoddau ariannol neu benderfyniad am natur ac effaith cyflwr meddygol sydd gennych. Efallai na fyddwn yn dweud wrthych am y penderfyniadau hyn am eu bod yn rhan o benderfyniad arall e.e. pa flaenoriaeth band y mae gennych hawl iddi neu a oes gennych hawl mynd ar y Gofrestr Tai. Os ydych yn dymuno i ni edrych eto ar benderfyniad o'r math a ddisgrifir yn 12.1(h), fel arfer mae'n syniad da i chi ofyn i ni'n gyntaf gadarnhau'r wybodaeth yr ydym wedi'i hystyried. Bydd hyn yn eich helpu i ddefnyddio'n effeithiol eich hawl am adolygiad.

### 12.3 Sut medraf gael gwybod a oes gennyf hawl i adolygu penderfyniad penodol?

Cyfeiriwch at **12.1** uchod os gwelwch yn dda. Os nad ydych yn siŵr o hyd a oes modd i chi ofyn i ni adolygu penderfyniad, cysylltwch â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Gwasanaethau Tai a byddwn yn eich helpu. Mae modd i chi gysylltu â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid trwy ffonio (01248) 752200 neu anfon e-bost at ADRANTAI@ynysmon.gov.uk.

### 12.4 Pa bryd fydd y Cyngor yn dweud wrthyf am fy hawl i ofyn am adolygiad?

Byddwn yn dweud wrthych am eich hawl i ofyn am adolygiad pryd bynnag y byddwn yn rhoi gwybod i chi am benderfyniad sy'n ymwneud â'r hawl am adolygiad.

### 12.5 Beth fydd y Cyngor yn ei ddweud wrthyf am fy hawl am adolygiad pan fyddaf yn cael penderfyniad ar fy nghais?

Byddwn yn dweud wrthych:

- Am eich hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.
- Am fathau'r penderfyniadau y gallwch ofyn i ni eu hadolygu (gweler **12.1**)
- Os ydych yn dymuno gofyn am adolygiad, bod yn rhaid i ni dderbyn y cais o fewn 21 diwrnod i chi'n cael gwybod am y penderfyniad (oni bai fod y penderfyniad yn ymwneud â gwrthod y cynigion, gweler **11.10**) ▪ Lle gallwch gael cyngor annibynnol.

Mae'r llythyr penderfynu yn egluro fod copi o'r penderfyniad ar gael i'w gasglu o swyddfeydd y Cyngor am gyfnod rhesymol. Yn y llythyr hefyd ceir eglurhad os na fyddwch yn derbyn y llythyr penderfynu (neu'r e-bost), y byddir yn ymdrinnir â chi fel pe bai y rhoddwyd gwybod i chi yr adeg y cafodd y llythyr ei anfon i'r cyfeiriad post (neu e-bost) a roesoch i ni.

### 12.6 Sut wyf yn gofyn am adolygiad?

Os ydych yn dymuno i ni adolygu penderfyniad rhaid i chi ofyn i ni o fewn 21 diwrnod i gael gwybod am y penderfyniad (yn amodol ar **11.10** lle mae'r adolygiad yn ymwneud â gwrthod cynigion). Os na fyddwch yn derbyn y llythyr penderfynu rhaid i chi ofyn i ni

o fewn 21 diwrnod i'r adeg y lluniwyd y llythyr a'i anfon i'r cyfeiriad post neu e-bost a roesoch i ni. Nid oes yn rhaid i chi gwblhau ffurflen arbennig i ofyn am adolygiad (er y gallwch ddewis defnyddio'r ffurflen a roddwn i chi). Mae modd i chi ein ffonio neu anfon e-bost atom a gofyn am adolygiad. Rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn gofyn yn glir am adolygiad ac yn dweud wrthym pa benderfyniad(au) yr ydych yn dymuno i ni edrych arno(arnynt) eto.

Neu gallwch gwblhau'r ffurflen adolygu sydd ar gael ar-lein yn:

www.ynysmon.gov.uk/adolygiadcaisamdŷ

### 12.7 Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn derbyn y llythyr penderfynu? Oes modd i mi dal gofyn am adolygiad?

Oes. Mae modd i chi dal gofyn am adolygiad os nad ydych yn derbyn copi o'r penderfyniad Fodd bynnag, mae rheolau arbennig. Rhaid i chi ofyn i ni ailystyried y penderfyniad o fewn 21 diwrnod i'r adeg yr ymdrinnir â chi'n gyfreithiol o ran bod wedi derbyn y penderfyniad (gelwir hyn yn 'dyddiad y gwasanaeth tybiedig').

Mae dyddiad y gwasanaeth tybiedig yn dibynnu ar sut y bu i ni anfon y penderfyniad atoch, a hwn yw'r:

- Ail ddiwrnod busnes ar ôl i'r llythyr gael ei bostio, os cafodd ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf, neu
- Y dyddiad yr anfonwyd y penderfyniad atoch neu y'i rhoddwyd i chi os gafodd ei anfon â llaw, ei gyflwyno'n bersonol neu ei e-bostio atoch ar ddiwrnod busnes cyn 4.30 pm, neu os oedd ar ôl 4.30 pm, ar y diwrnod busnes nesaf.

Os na fyddwch yn gofyn i ni ailystyried y penderfyniad o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y gwasanaeth tybiedig, byddwch yn colli eich hawl i adolygiad. Fodd bynnag, mae modd i chi dal gofyn a ydym yn fodlon ymestyn y cyfyngiad amser (gweler **12.8**).

### 12.8 Rwyf wedi methu'r cyfyngiad amser 21 diwrnod. Oes modd i mi dal gofyn am adolygiad?.

Bydd cais am adolygiad a ddaw i law ar ôl i'r cyfnod 21 diwrnod ddod i ben yn cael ei gyfeirio at Reolwr y Tîm Opsiynau Tai neu at uwch-swyddog arall yn y Cyngor. Byddant yn ystyried pam oedd eich cais yn hwyr ac yn penderfynu a ddylem ymestyn y cyfyngiad amser a chynnal adolygiad.

### 12.9 Oes angen i mi roi rhesymau dros ofyn am adolygiad?

Oes. Mae'n well gennym os byddwch yn rhoi eich rhesymau pan fyddwch yn cyflwyno eich cais am adolygiad. Mae hyn yn ein helpu i ddod i benderfyniad yn gynt. Fodd bynnag, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi dyddiad i chi erbyn pryd y mae'n rhaid i chi roi eich rhesymau a rhoi unrhyw wybodaeth gefnogi yr ydych yn dymuno i ni ei hystyried (gweler **12.10** am fanylion y weithdrefn adolygu).

### 12.10 Pa weithdrefn fydd y Cyngor yn ei dilyn os gofynnaf am adolygiad?

Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais am adolygiad byddwn, o fewn 21 diwrnod, yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig:

- Bod modd i chi, neu rywun sy'n gweithredu ar eich rhan, wneud sylwadau ysgrifenedig i'r Tîm Opsiynau Tai yng nghyswllt yr adolygiad
- Am y weithdrefn y byddwn yn ei dilyn yng nghyswllt yr adolygiad, gan gynnwys y dyddiadau erbyn pryd
    - Y mae'n rhaid i ni dderbyn unrhyw wybodaeth gefnogi (ni chaiff hyn fod dim cynharach na 14 diwrnod i'n llythyr sy'n cadarnhau'r weithdrefn)
    - Y dyddiad erbyn pryd y cewch wybod am y penderfyniad
- Pwy fydd yn cynnal yr adolygiad
- Manylion cyswllt y swyddog adolygu
- Y bydd y penderfyniad adolygu'n cael ei roi i chi'n ysgrifenedig
- Y bydd yr hysbysiad penderfynu'n cynnwys y rhesymau am unrhyw ganfyddiadau andwyol
- Bod modd i chi ofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw benderfyniad a wneir am ffeithiau eich cais (gweler **12.1(h)**).

Efallai y bydd y swyddog adolygu'n cynnig cyfle i chi wneud sylwadau llafar yng nghyswllt yr adolygiad. Mae'n bosib, hefyd, y bydd yn gofyn i swyddogion eraill yn y Tîm Opsiynau Tai wneud tasgau yng nghyswllt yr adolygiad, e.e. gwneud ymholiadau.

Os byddwch yn gofyn am ragor o wybodaeth am unrhyw benderfyniad sy'n berthnasol i'r penderfyniad sy'n cael ei adolygu (gan gynnwys materion sy'n cael eu cynnwys dan **12.1(h)**) ac yn gwneud hyn cyn diwrnod olaf derbyn sylwadau, bydd y swyddog adolygu'n sicrhau y rhoddir ymateb ac, os yw'n deg gwneud hynny, yn ymestyn y cyfnod derbyn sylwadau.

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad a wnaed ar eich adolygiad o fewn wyth wythnos o'r dyddiad y bu i chi ofyn am adolygiad (oni bai fod angen estyniad i'r dyddiad hwn; gweler **12.15**).

## 12.11 Oes modd i mi ofyn am gopi o'm ffeil tai?

Oes. Efallai y byddwn yn codi £10 arnoch am hon. Gweler hefyd **16.6** ynghylch eich hawl gyfreithiol i gael gwybodaeth.

## 12.12 Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad adolygu?

Bydd Swyddog Gwasanaethau Tai nad oedd a wnelo â'r penderfyniad gwreiddiol ac sy'n uwch na'r swyddog a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol yn gwneud y penderfyniad ar eich adolygiad.

## 12.13 Sut bydd y penderfyniad ar fy adolygiad yn cael ei wneud?

Bydd y swyddog adolygu'n ystyried y wybodaeth a roesoch ac yn ailystyried yr holl ffeithiau perthnasol ar yr adeg y penderfynir ar yr adolygiad, yn wyneb y polisi hwn ac unrhyw ofynion cyfreithiol. Efallai y byddwn yn ystyried gwybodaeth a dderbyniwyd ers gwneud y penderfyniad gwreiddiol os yw'n berthnasol.

### 12.14 Sut byddwch yn rhoi gwybod i mi am benderfyniad yr adolygiad?

Byddwn yn cadarnhau'r penderfyniad ar yr adolygiad yn ysgrifenedig trwy lythyr neu e-bost.

### 12.15 Pa bryd byddaf yn cael y penderfyniad ar yr adolygiad?

Fel arfer, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad o fewn wyth wythnos i ni dderbyn eich cais am adolygiad. Mae'n bosib y byddwn yn cymryd mwy o amser os:

- Oes angen rhagor o amser arnom i wneud y penderfyniad
- Ydi'r estyniad amser yn rhesymol, o gofio ffeithiau eich achos penodol, ac os
- Ydym wedi rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig am ein rhesymau am fod angen estyniad.

### 12.16 Rwyf yn anfodlon gyda phenderfyniad yr adolygiad. Oes modd i mi apelio?

Nac oes. Nid oes gennych hawl statudol i apelio yn erbyn penderfyniad adolygiad negyddol. Efallai bod modd i chi fynd i'r llys gan ddefnyddio proses o'r enw adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, er mwyn gwneud cais i'r llys byddai angen rhesymau arnoch am honni fod y Cyngor wedi gweithredu'n anghyfreithlon. Dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

### 12.17 Oes modd i mi gwyno am benderfyniad yr adolygiad?

Oes. Mae modd i chi gwyno dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor os ydych yn anfodlon gyda phenderfyniad adolygiad neu gyda'r modd y cafodd ei wneud. Mae modd hefyd i chi gwyno os ydych yn anfodlon gydag unrhyw agwedd arall o sut yr ymdriniwyd â'ch cais am dŷ. Mae copi o Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor.

Oes oes eich cwyn a wnelo â rhywbeth y mae Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartner (cymdeithas tai) wedi'i wneud (nad oes a wnelo â rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i wneud neu y mae'n gyfrifol amdano) gallwch gwyno gan ddefnyddio polisi cwyno'r landlord hwnnw) (mae manylion eu polisïau cwyno ar wefan pob landlord).

Os ydych yn dymuno cwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rhaid i chi, fel arfer, fod wedi bod trwy'r drefn gwyno ffurfiol.

## 13 BETH FYDD YN DIGWYDD OS OES ANGEN EIDDO WEDI'I ADDASU NEU EIDDO ADDAS ARNAF NEU FOD GENNYF GYFLWR MEDDYGOL?

13.1 Mae gennyf gyflwr meddygol. Ydi hyn yn golygu y byddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am dŷ?

13.2 Pwy sy'n cael blaenoriaeth am resymau meddygol?

13.3 Sut wyf yn gwneud cais am flaenoriaeth feddygol?

13.4 Oes rhaid i mi gyflwyno tystiolaeth?

13.5 Pwy sy'n penderfynu a fyddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am resymau meddygol?

13.6 Mae gennyf gyflwr meddygol difrifol ac rwyf wedi cyflwyno llythyrau sy'n cefnogi hyn. Pam nad wyf wedi cael blaenoriaeth ychwanegol oherwydd fy afiechyd?

13.7 Beth fydd yn digwydd os bydd angen ystafell wely ychwanegol arnaf am resymau meddygol?

13.8 Beth fydd yn digwydd os bydd angen eiddo arnaf sydd wedi'i addasu'n ffisegol?

13.9 Beth fydd yn digwydd nesaf?

13.10 Rwy'n anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi asesu fy anghenion. Beth fedraf ei wneud?

13.11 Ydych yn cadw eiddo penodol ar gyfer pobl y mae angen cartref arnynt sy'n addas neu sydd wedi'i addasu?

13.12 Sut byddwch yn penderfynu pa ymgeisydd sy'n cael eiddo penodol sydd wedi'i addasu?

13.13 A fydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch cael tai hygyrch ar gael yn eang?

### 13.1 Mae gennyf gyflwr meddygol. Ydi hyn yn golygu y byddaf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am dŷ?

Nid yw bod â chyflwr meddygol o reidrwydd yn golygu y rhoddir i chi flaenoriaeth am dŷ (na chael band uwch).

### 13.2 Pwy sy'n cael blaenoriaeth am resymau meddygol?

I gael blaenoriaeth oherwydd cyflwr meddygol, rhaid i'ch sefyllfa fod wedi'i chynnwys yn un o'r grwpiau blaenoriaeth yn y cynllun bandio (gweler **adran 9**). Yn y tabl isod, rhestrir y grwpiau lle gall cyflwr meddygol roi blaenoriaeth i chi am dŷ:

| Band | Categori | Adran | I'w weld ar dudalen… |
|---|---|---|---|
| Brys | 1 | 9.6 | 41 |
| Brys | 3 | 9.6 | 41 |
| 1 | 14 | 9.7 | 46 |
| 2 | 22 | 9.9 | 52 |

### 13.3 Sut wyf yn gwneud cais am flaenoriaeth feddygol?

Byddwn yn gofyn i chi yn eich cyfweliad opsiynau tai a oes gennych gyflyrau meddygol. Byddwn yn trafod gyda chi sut mae eich sefyllfa tai yn cael effaith ar eich cyflwr meddygol. Os byddech yn gymwys ar gyfer flaenoriaeth oherwydd eich cyflwr meddygol dan y categorïau bandio, byddwn yn cymryd manylion eich cyflwr meddygol a sut mae'n cael effaith ar eich angen am dŷ.

### 13.4 Oes angen i mi gyflwyno tystiolaeth?

Oes. Bydd angen i ni weld tystiolaeth o'ch cyflwr meddygol a pham fod hyn yn golygu bod angen tŷ arnoch. Mae modd i chi ddefnyddio llythyr gan eich Meddyg Teulu (neu unrhyw swyddog proffesiynol arall). Fodd bynnag, rhaid i'r llythyr:

- Gadarnhau natur eich cyflwr meddygol
- Roi manylion am y driniaeth a'r feddyginiaeth (os o gwbl) yr ydych yn eu derbyn, a
- Ddweud sut mae'r llety cyfredol yn cael effaith niweidiol ar eich cyflwr meddygol (neu sut byddai cael llety addas yn lliniaru'r cyflwr).

Ni fydd y llythyr yn debygol o'ch helpu oni fydd yn cynnwys y wybodaeth uchod.

### 13.5 Pwy sy'n penderfynu a wyf yn cael blaenoriaeth ychwanegol am resymau meddygol?

Ni fydd yn penderfynu a oes gennych hawl i flaenoriaeth dan y system bandio oherwydd eich cyflwr meddygol. Bydd hyn yn seiliedig ar y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi. Os oes rhywun wedi rhoi gwybodaeth i gefnogi'ch cais (e.e. meddyg) bydd hon yn cael ei hystyried hefyd. Os na fedrwn wneud penderfyniad heb ragor o wybodaeth efallai y gwnawn ymholiadau a/neu gysylltu â'ch meddyg. Efallai y byddwn hefyd yn cael cyngor ar yr hyn y mae ei angen arnoch gan rywun sydd â chymwysterau meddygol cyn i ni wneud ein penderfyniad.

### 13.6 Mae gennyf gyflwr meddygol difrifol ac rwyf wedi cyflwyno llythyrau s'yn cefnogi hyn. Pam nad wyf wedi cael blaenoriaeth ychwanegol oherwydd fy afiechyd?

Ni ddyfernir blaenoriaeth feddygol oni bai bod eich sefyllfa wedi ei chynnwys yn un o'r categorïau bandio (gweler **adran 9** a **13.2**). Fel arfer, golyga hyn bod yn rhaid i'ch tŷ (neu ddiffyg tŷ addas) fod yn cael effaith andwyol sylweddol ar eich cyflwr meddygol. Waeth pa mor ddifrifol yw eich problem feddygol, ni allwn roi blaenoriaeth i chi onid ydym yn fodlon bod eich tŷ'n gwaethygu'ch cyflwr. Am yr un rhesymau, ni fyddwch o reidrwydd yn cael blaenoriaeth dim ond oherwydd eich bod wedi cyflwyno llythyrau cefnogi. Os na fyddwn yn dyfarnu blaenoriaeth (neu flaenoriaeth uwch) i chi oherwydd eich afiechyd, nid yw'n golygu nad ydym yn derbyn bod gennych gyflwr meddygol.

### 13.7 Beth fydd yn digwydd os oes angen ystafell wely ychwanegol arnaf am resymau meddygol?

Ni fyddwn yn penderfynu a oes angen ystafell wely ychwanegol arnoch oni bai bod amgylchiadau eithriadol.  Gweler **4.12** os gwelwch yn dda am y rheolau ynghylch nifer yr ystafelloedd gwely y mae hawl gennych iddynt.

Fel arfer, byddem yn disgwyl tystiolaeth bod ystafell wely'n hanfodol i iechyd a lles aelod o'r aelwyd neu fod angen gofal dros nos arnoch yn rheolaidd ac yn barhaus. Os oes gan eich plentyn ymddygiad heriol byddwn yn ystyried eich sefyllfa a'r hyn y mae ei angen arnoch.  Fodd bynnag, ni fyddwch yn gymwys fel person sydd angen ystafell wely ychwanegol oni bai ein bod yn fodlon eich bod yn cwrdd â'r meini prawf yn **4.12**.

### 13.8 Beth os bydd angen eiddo arnaf sydd wedi'i addasu'n ffisegol?

Byddwn yn trafod unrhyw angen a fyddo arnoch am addasiadau yn eich cyfweliad opsiynau tai. Os byddwch efallai angen addasiadau, byddwn yn asesu'r hyn y mae ei angen arnoch.

### 13.9 Beth fydd yn digwydd nesaf?

Efallai y byddwn yn trefnu i therapydd galwedigaethol ymweld â chi yn eich cartref er mwyn cynnal asesiad manwl o'ch anghenion. Byddwn yn gwneud penderfyniad unwaith yr ydym yn fodlon bod gennym yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom. Yna byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniad yr asesiad a pha fand a roddwyd i chi.

### 13.10 Rwyf yn anhapus gyda'r ffordd y mae'r Cyngor wedi asesu fy anghenion. Beth fedraf ei wneud?

Mae modd i chi ofyn i ni adolygu'r penderfyniad os ydych yn anghytuno gyda'r ffordd yr ydym wedi asesu eich anghenion (gweler **adran 12** am ragor o fanylion am eich hawl i ofyn i ni ailystyried penderfyniadau).

### 13.11 Ydych yn cadw eiddo penodol ar gyfer pobl y mae angen cartref arnynt sy'n addas neu sydd wedi'i addasu arnynt?

Ydym.  Efallai y bydd eiddo'n cael eu heithrio o'r gronfa gyffredinol a'u clustnodi i'w gosod i ymgeiswyr y mae angen addasiadau arnynt oherwydd anabledd corfforol. Rydym yn gosod eiddo sydd wedi'u haddasu i aelwydydd a fydd yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau sydd yn eu lle. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r eiddo sydd gennym ac yn osgoi gwariant diangen. Efallai y byddwn, hefyd, yn eithrio eiddo o'r gronfa dai gyffredinol os nad ydynt wedi'u haddasu ar y pryd ond eu bod yn addas i'w haddasu.

### 13.12 Sut byddwch yn penderfynu pa ymgeisydd sy'n cael eiddo penodol sydd wedi'i addasu?

Rydym yn cadw cofnod o:

- Yr addasiadau y mae eu hangen arnoch

- Pa addasiadau sydd gan bob eiddo sy'n dod ar gael.

Efallai y byddwn hefyd yn cadw cofnod o addasiadau ychwanegol y gellid eu gwneud i eiddo penodol.

Pan ddaw eiddo yn y 'gronfa eiddo sydd wedi'u haddasu' ar gael, rydym yn cyfatebu ymgeiswyr â'r eiddo ac yn penderfynu pa ymgeisydd ddylai gael y tŷ. Cyn cadarnhau hyn, efallai y byddwn yn ceisio rhagor o wybodaeth gan swyddogion proffesiynol ac efallai yn gofyn i therapydd galwedigaethol ymweld â'r eiddo i roi cyngor i ni ar ba mor addas ydyw.

### 13.13 A fydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn sicrhau bod gwybodaeth ynghylch cael tai hygyrch ar gael yn eang?

Byddant. Trwy wneud hyn, byddwn yn cynyddu'r dewisiadau sydd ar gael i bobl o ran tai ac yn cydymffurfio gyda'n dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 14 POLISÏAU GOSOD LLEOL A SENSITIF


14.1 Cyflwyniad

14.2 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gwybod fod angen polisi gosod lleol?

14.3 Sut mae polisïau gosod lleol yn cael eu cymeradwyo?

14.4 Beth yw achosion sensitive o osod tai a pha bryd y cânt eu defnyddio?

14.5 Cytundebau Adran 106


### 14.1 Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn cydnabod y byddai landlordiaid sy'n bartneriaid o bosib yn dymuno mabwysiadu polisïau sydd wedi'u llunio i fynd i'r afael â materion tai lleol trwy ddefnyddio polisïau gosod lleol a sensitif. Defnyddir polisïau gosod lleol i gyflawni amrywiaeth eang o amcanion polisi rheoli tai a pholisïau eraill sy'n ymwneud â thai. Fel

arfer, cânt eu datblygu pan fyddwn yn penderfynu bod angen i ni reoli cydbwysedd y gymuned.

Rhaid i'r holl bolisïau gosod lleol fod â sylfaen dystiolaeth gadarn a chânt eu datblygu yn sgil asesiad cadarn o'r dystiolaeth hon. Pan yn cynnig polisi gosod lleol newydd, rhaid i'r landlord sy'n bartner gyflwyno manylion ynghylch:

(a) Y mater penodol sy'n cael effaith ar y gymuned y mae'n ofynnol iddi gael polisi gosod lleol.

(b) Yr ardal neu'r anheddau i'w cynnwys (c) Cyfnod arfaethedig

y polisi.

(d) Yr amcanion y mae'r landlord yn gobeithio'u cyflawni (e)

Darpariaethau'r polisi.

(f) Yr effaith y mae'r polisi'n debygol o'i chael ar y grwpiau hynny o ymgeiswyr y mae eu cyfle i gael symud tŷ wedi'i ostwng, gan gynnwys personau gyda nodweddion sydd wedi'u gwarchod dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

## 14.2 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gwybod bod angen polisi gosod lleol?

Bydd yr holl bolisïau lleol wedi'u seilio ar angen sydd wedi'i ddynodi a'i amlygu. Ymhlith materion tai lleol y byddai polisi lleol o bosib yn ofynnol ar eu cyfer mae:

(a) Ardaloedd lle mae pocedi o amddifadedd

(b) Tŷ sy'n rhy fawr i nifer y bobl sy'n byw ynddo

(c) Tŷ gorlawn

(d) Angen i hwyluso cyflogaeth tenant trwy achosion o symud tŷ sy'n ymwneud â gwaith

(e) Anghenion a chynaliadwyedd cymunedau gwledig, er enghraifft lle mae'r gallu i dalu am lety'n broblem

(f) Caniatáu i denantiaid tai cymdeithasol drosglwyddo hyd yn oed pan nad ydynt yn syrthio i gategori rhesymol a ffafrir

(g) Sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau cynllunio dan adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

(h) Eiddo sy'n cael eu rhoi mewn ardal adfywio

(i) Datblygiadau newydd mawr

## 14.3 Sut mae polisïau gosod lleol yn cael eu cymeradwyo?

Wrth ffurfio polisïau lleol, byddir yn dilyn protocol y cytunodd Is-grŵp Gosod Tai Partneriaeth Tai Ynys Môn arno (gweler **17.1**). Rhaid i gynnig ar gyfer polisi gosod lleol:

(a) Gynnwys meini prawf manwl sy'n rheoli'r gweithdrefnau a ddefnyddir i osod tai

(b) Cael ei gymeradwyo gan yr Is-grŵp Gosod Tai, a

(c) Gwneud darpariaeth i'r polisi gael ei adolygu ar ôl amser penodol

Wrth ystyried cymeradwyo'r polisi lleol ai peidio rhaid i'r is-grŵp wahodd barn y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio gweinyddiaeth y gwaith gosod tai a rhaid iddo roi ystyriaeth benodol i ba mor hawdd fydd gwaith gweinyddu'r meini prawf arfaethedig.

### 14.4 Beth yw achosion sensitif o osod tai a pha bryd y cânt eu defnyddio?

Efallai y bydd adegau pan fydd landlordiaid sy'n bartneriaid yn dymuno gosod tŷ y tu allan i'r rheolau gosod arferol i warchod diddordebau trigolion cyfredol. Er enghraifft, efallai yr ystyrir y byddai'n briodol mynd ati mewn modd sensitif i ailosod eiddo os yw cymuned wedi gorfod dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol hir a difrifol.

Bydd landlordiaid sy'n bartneriaid yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Opsiynau Tai am unrhyw achosion sensitif o osod tŷ, ynghyd â'r wybodaeth a ganlyn:

- Y rhesymau pam fod angen gosod yn yr achos sensitif hwn, a
- Sefyllfa'r person y gosodir y tŷ iddo ar y rhestr aros (os yw'n berthnasol).

### 14.5 Cytundebau adran 106

Mae cytundebau adran 106 yn rheoli'r modd y gosodir tai a godir ar ddatblygiadau newydd. Mabwysiedir y cytundebau hyn i gael ffyrdd o gyfyngu'r bobl sy'n byw yn yr anheddau i'r rhai hynny sydd ag angen cymunedol lleol am dŷ fforddiadwy, pan fyddant yn symud i mewn am y tro cyntaf a hyd dragwyddoldeb. Bydd eiddo a godir ar safleoedd sy'n ymgorffori cytundeb adran 106 yn cael eu gosod dan delerau'r cytundeb hwnnw.

# 15 EIDDO SYDD AR GAEL I'W GOSOD YN SYTH


15.1 Cyflwyniad

15.2 Sut medraf gael gwybod am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?

15.3 Sut medraf wneud cais i gael fy ystyried am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?

15.4 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn penderfynu i bwy y gosodir yr eiddo sydd ar gael yn syth?

15.5 Pa wybodaeth fydd yn rhaid i mi ei chyflwyno?


## 15.1 Cyflwyniad

Efallai bod nifer fach o eiddo ar gael i'w gosod ar unrhyw adeg benodol. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd pan nad oes neb ar y Gofrestr Tai'n gymwys i gael cynnig eiddo penodol, neu lle mae pawb ar y gofrestr wedi cael tŷ.

Mae modd i nifer a math yr eiddo sydd ar gael amrywio'n fawr a chânt eu gosod achos wrth achos, gan ystyried math yr eiddo ac unrhyw feini prawf gosod arall sydd o bosib yn berthnasol i'r annedd benodol honno h.y. polisi gosod lleol, meini prawf dynodi eiddo ac ati.

## 15.2 Sut medraf gael gwybod am eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth?

Rydym yn rhoi manylion unrhyw eiddo sydd ar gael i'w gosod yn syth ar cyfryngau cymdeithasol y Cyngor neu gallwch gysylltu gyda Tim Gwasanaeth Cwsmer ar 01248 752200.

## 15.3 Sut medraf wneud cais i gael fy ystyried am eiddo sydd ar gael i'w osod yn syth?

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried am eiddo yr ydych wedi gweld hysbyseb yn ei gylch, dylech gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Gwasanaeth Tai (gweler tudalen 2) neu ddilyn yr arweiniad yn yr hysbyseb.

## 15.4 Sut mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn penderfynu i bwy y gosodir eiddo sydd ar gael yn syth?

Bydd unrhyw achos o osod yn seiliedig ar amgylchiadau ymgeisydd gan gynnwys materion megis:

- Eich angen am dŷ
- Eich cysylltiad lleol (un ai â'r ardal neu â'r lleoliad y mae'r eiddo ynddo)
- Eich sefyllfa ariannol
- Hanes eich tenantiaeth flaenorol a/neu
- Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r nod o osod yr eiddo i berson y mae angen tŷ arno.

### 15.5 Pa wybodaeth fydd yn rhaid i mi ei chyflwyno?

Bydd angen i chi gyflwyno dogfennau i gadarnhau pwy ydych a'ch amgylchiadau. Yn ogystal, efallai y bydd y landlord yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth a dogfennau eraill er mwyn bodloni eu hunain am eich amgylchiadau.

## 16 BETH MAE'R DDEDDFWRIAETH YN EI DDWEUD YNGHYLCH SUT Y DYLID GOSOD TAI?

16.1 Pa ofynion cyfreithiol sydd yna yng nghyswllt polisïau gosod?
16.2 Gwieithwyr amaethyddol sydd wedi eu dadleoli.
16.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth.
16.4 Cyfrinachedd a gwarchod eich data personol.
16.5 Pa rôl sydd gan aelodau etholedig (cynghorwyr) yn y broses gosod?
16.6 Pa wybodaeth sydd gennyf hawl gyfreithiol i ofyn amdani?

### 16.1 Pa ofynion cyfreithiol sydd yna yng nghyswllt polisïau gosod?

Mae'r amryfal ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â gosod tai cymdeithasol i'w gweld yn bennaf yn Rhan 6 Deddf Tai 1996.

Mae gofyn i gynghorau gael cynllun gosod i bennu'r blaenoriaethau a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth osod tai cymdeithasol. Mae modd i'r Cyngor fabwysiadu ei bolisi ei hun, ar yr amod bod y cynllun yn cydymffurfio â gofynion statudol penodol ac ag egwyddorion cyfreithiol sylfaenol tegwch a rhesymeg. Rhaid i'r Cyngor weithredu'n unol â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae'r tai cymdeithasol sy'n bartneriaid yn Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus. Mae nodau elusennol pob cymdeithas yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi llety i bobl y mae angen cymorth arnynt gyda thai a llety oherwydd caledi ariannol (oherwydd bod eu modd ariannol mor gyfyngedig fel eu bod yn methu cael llety addas ar y farchnad agored) neu oherwydd anghenion sy'n ymwneud â'u hoed neu eu salwch.

Rhaid i'r cynllun gosod ddatgan pa swyddog sy'n gwneud pa benderfyniadau (nid wrth ei enw ond trwy ddisgrifiad). Mae'r wybodaeth hon yn y gweithdrefnau sy'n mynd law yn llaw â'r polisi hwn ac sy'n helpu swyddogion tai i weinyddu'r polisi hwn (gweler **1.5**).

Rhaid i'r cynllun gosod sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol (mantais) i bobl sy'n syrthio i un o'r categorïau a ganlyn:

(a) Pobl sy'n ddigartref oddi mewn i ystyr Rhan 2 Deddf Tai 2014.

(b) Pobl y mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd tuag atynt dan adrannau 66, 73 neu 75 Deddf 2014.

(c) Pobl sydd mewn tai afiach neu orlawn neu sydd, fel arall, yn byw mewn amgylchiadau tai anfoddhaol.

(d) Pobl y mae angen iddynt symud am resymau meddygol neu les

(e) Pobl y mae angen iddynt symud i leoliad penodol yn yr ardal, lle byddai methiant i gwrdd â'r angen hwnnw'n achosi caledi.

Nid yw cofrestru ymgeisydd a dyfarnu iddo ffafriaeth resymol yn gwarantu y byddai'n cael tŷ. Nid oes hawl cyfreithiol i osod tŷ cymdeithasol yn y tymor hir.

Mae'r polisi hwn yn sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol i'r grwpiau uchod trwy fabwysiadu categorïau blaenoriaeth yn seiliedig ar y grwpiau statudol a ffafrir a thrwy eithrio pobl nad oes angen tai arnynt. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu ffafriaeth ychwanegol (neu roi mwy o bwys) i bobl ag anghenion brys am dŷ a phobl â chysylltiad lleol, ac mae'r polisi hwn yn darparu hyn. Mae'r polisi hwn hefyd yn cymryd mantais o'r grym cyfreithiol er mwyn rhoi ystyriaeth, wrth ddiffinio blaenoriaeth ar gyfer symud tŷ, i adnoddau ariannol ymgeisydd ac ymddygiad ymgeisydd neu aelod o'r aelwyd sy'n cael effaith ar ba mor addas y bydd fel tenant. At hyn, rydym wedi defnyddio'r grym i wneud darpariaeth i eithrio ymgeiswyr neu ostwng blaenoriaeth ymgeisydd oherwydd ymddygiad annerbyniol difrifol. Ceir rhagor o fanylion ar sut caiff ymgeiswyr eu blaenoriaethu yn **adran 9**.

Rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth i arweiniad statudol a gyflwynir gan Weinidogion Cymru dan adran 169 Deddf Tai 1996, a hynny wrth lunio'r cynllun gosod ac wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau unigolion am dŷ.  Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau yn Rhan 1 *Côd Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd* (Llywodraeth Cymru, Ebrill 2015), ac unrhyw welliannau neu ganllawiau statudol wedi hynny.

Rhaid i'r Cyngor roi i'w landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid iddo gyfle i wneud sylwadau ar y cynllun gosod newydd, ac mae wedi gwneud hynny. At hyn, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i dynnu'r polisi i sylw'r rhai hynny y byddai'n cael effaith arnynt, gan gynnwys pobl oedd wedi'u cofrestru dan y polisi blaenorol a thenantiaid landlordiaid sy'n bartneriaid.  Ymgynghorwyd â mudiadau sy'n bartneriaid, gan gynnwys asiantaethau cynghori. Mae'r cyngor hefyd wedi cadw mewn cof ei strategaeth tai leol a'i adolygiad a'i strategaeth ddigartrefedd wrth lunio'r polisi hwn.

## 16.2 Gweithwyr amaethyddol sydd wedi eu dadleoli

Yn unol â Deddf Rhent (Amaethyddiaeth) 1976, rhaid i'r Cyngor wneud ei orau glas i ddarparu llety ar gyfer gweithwyr amaethyddol cymwys sydd wedi cael eu dadleoli. Yn ôl Adran 27 Deddf 1976, rhaid i'r Cyngor fodloni ei hun:

(a) Bod angen yr annedd y mae'r gweithiwr yn cael ei ddadleoli ohoni i ddarparu llety ar gyfer gweithiwr amaethyddol arall,

(b) Ni fedr y ffermwr ddarparu llety arall addas ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli, a

(c) Dylai'r Cyngor ddarparu llety addas er budd amaethyddiaeth effeithlon.

Wrth wneud penderfyniad, gall y Cyngor gymryd cyngor y Pwyllgor Ymgynghorol Anheddau Amaethyddol (ADHAC) i ystyriaeth. Rôl ADHAC yw cynghori a ddylid ailletya'r gweithiwr er budd amaethyddiaeth effeithlon ac ar frys yr ymgeisydd. Os yw'r Cyngor yn fodlon bod achos yr ymgeisydd yn deilwng, mae dyletswydd arnynt dan adran 28 Deddf 1976 i wneud eu gorau glas i ddarparu llety arall addas ar gyfer y gweithiwr sydd wedi ei ddadleoli. Wrth asesu blaenoriaeth y cais, rhaid i'r Cyngor ystyried:

(d) Brys y cais

(e) Pwy sy'n cystadlu am y llety; a

(f) Eu hadnoddau

Nod y polisi yw sicrhau y diwellir gofynion Deddf 1976 drwy roddi blaenoriaeth i weithwyr amaethyddol cymwys (gweler Band 3, **categori** angen **29**).

Os ystyrir na fyddai dyfarnu blaenoriaeth Band 3 yn ddigon o flaenoriaeth, rhaid cael caniatâd i ddyfarnu band uwch (gweler categorïau **8**, **16** a **21** o ran yr angen am dŷ).

## 16.3 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rydym wedi ymroi i roi'r un cyfle i bawb sy'n dymuno gwneud cais am dŷ. Mae'r partneriaid yn fodlon nad yw'r polisi hwn yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, rhyw, rhywiaeth, oedran, anabledd, dosbarth, edrychiad, crefydd neu gredoau crefyddol, cyfrifoldeb am ddibynyddion, gweithgaredd troseddol digyswllt, statws HIV neu AIDS neu unrhyw fater arall a allai achosi i berson gael cam. Mae asesiad effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal ar y polisi hwn. Mae'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn fodlon bod y polisi hwn yn cydymffurfio â'u polisïau cydraddoldeb nhw.

Byddwn yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb a'r codau ymarfer perthnasol. Bydd gweithrediad y polisi hwn yn cael ei fonitro i sicrhau fod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg a bod cydymffurfiaeth gyfreithiol ar waith, gan gynnwys yr ymrwymiad i beidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol am resymau sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Pan fyddwn yn ymwybodol y bydd ymgeiswyr yn cael anhawster deall cyfathrebiadau a bod hynny'n debygol o effeithio ar eu gallu i ymgeisio am dŷ neu gwrdd â gofynion gweithdrefnol, byddwn yn cofnodi'r ffaith hon ac yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau y gallant ddeall unrhyw gyfathrebiadau yn y dyfodol. Gall hyn, er enghraifft,

gynnwys trefnu i drydydd parti dderbyn gohebiaeth ysgrifenedig ar ran yr ymgeisydd neu ffonio ymgeisydd i egluro natur a chynnwys llythyrau a anfonwyd atynt.

Mae Cynllun Iaith y Cyngor yn berthnasol i gynnal a chadw'r Gofrestr Tai a'r swyddogaethau hynny a weinyddir gan y Cyngor. Bydd y cymdeithasau tai sy'n bartneriaid yn cydymffurfio gyda'r polisïau ac/neu'r safonau iaith Gymraeg sy'n berthnasol iddynt. Byddwn yn cyfathrebu â'r cwsmeriaid yn eu dewis iaith. Mae'r holl ddeunydd a chyngor ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

## 16.4 Cyfrinachedd a gwarchod eich data personol

Os ydych yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol, mae gennych hawl i gyfrinachedd. Ni chaniateir i'r ffaith eich bod wedi gwneud cais am dŷ gael ei gwneud yn gyhoeddus heb eich caniatâd.

Gofynnir i chi ganiatáu i'r Cyngor ofyn i bobl neu fudiadau eraill am wybodaeth os oes angen i ni wneud hyn i weinyddu'ch cais.  Byddwch yn cael gwybod am eich hawliau statudol a sut caiff eich data personol ei ddefnyddio.

Bydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn rhannu gwybodaeth berthnasol am geisiadau am dŷ at ddibenion gweinyddu ceisiadau, gosod tai a rheoli tenantiaethau.  O'r herwydd, amod o wneud cais am dŷ yw eich bod yn fodlon caniatáu i'ch data personol gael ei rannu gyda landlordiaid sy'n bartneriaid.

Bydd pob partner yn sicrhau bod ganddo bolisïau a threfniadau yn eu lle i sicrhau y caiff data personol cwsmeriaid ei ddal yn ddiogel a'i brosesu'n gyfreithlon.

Bydd y landlordiaid sy'n bartneriaid yn cytuno ar brotocol sy'n rheoli gwaith rhannu gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr am dŷ a bydd hwn yn cydymffurfio â safon Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI).

## 16.5 Pa rôl sydd gan aelodau etholedig (cynghorwyr) yn y broses osod?

Mae modd i aelodau etholedig y Cyngor eich cynghori a'ch cynrychioli os ydych wedi gwneud cais am dŷ. Mae ganddynt rôl bwysig i sicrhau y caiff y polisi hwn ei ddilyn a'i weithredu'n deg ac yn gyson. Medrwch gysylltu â'ch cynghorydd lleol os ydych yn dymuno iddynt wneud sylwadau neu ymholiadau ar eich rhan.

Ni chaniateir yn gyfreithiol i gynghorwyr gymryd rhan mewn penderfyniad gosod os yw'r llety neu eich unig neu brif breswylfa yn eu ward. Mae'n bwysig nad yw landlordiaid yn cael eu rhoi (na chael eu gweld fel petaent) dan ormod o ddylanwad.

Rhaid i Gynghorwyr sy'n gwneud ymholiadau ar eich rhan am statws eich cais am dŷ, gyflwyno eich caniatâd ysgrifenedig. Efallai y byddwn yn gofyn am eglurhad ysgrifenedig gennych os nad yw'n glir a yw'r caniatâd yn parhau'n weithredol. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn am dystiolaeth i ddangos fod y caniatâd yn gyfredol neu'n ymwneud â'r mater y ceisir gwybodaeth yn ei gylch.

Mae modd i aelod etholedig ofyn am statws eiddo. Byddwn yn dweud wrtho a yw dan denantiaeth ar hyn o bryd ynteu'n 'wag' (heb denantiaeth), ac os yw'n wag, a yw wedi'i neilltuo i ymgeisydd arall. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â Deddf Gwarchod Data 1998 nid oes modd datgelu gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â darpar denant neu denant newydd.

### 16.6 Pa wybodaeth sydd gennyf hawl gyfreithiol i ofyn amdani?

Mae landlordiaid sy'n bartneriaid yn rhoi cyngor a gwybodaeth gyffredinol i aelodau'r cyhoedd am yr hawl i wneud cais am dŷ cymdeithasol. Os ydych yn dymuno gwneud cais am dŷ cewch eich cynghori i gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Gwasanaethau Tai'r Cyngor (gweler **2.2**).

Mae copi a chrynodeb o'r polisi hwn ar gael ar wefan y Cyngor. Mae gennych hawl i gael copi o'r crynodeb hwn yn rhad ac am ddim.

Mae modd i chi, hefyd, ofyn am gopi o'r cynllun gosod tai. Mae hwn yn gopi llawn o'r holl reolau, sy'n cynnwys holl agweddau'r broses osod, gan gynnwys y gweithdrefnau a'r canllawiau y byddwn yn eu darparu ar gyfer staff. Codir £10 amdano. Mae modd i chi hefyd gael golwg ar gopi o'r cynllun gosod tai yn Adran Gwasanaethau Tai'r Cyngor yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Os ydych yn gwneud cais am dŷ cymdeithasol mae gennych hawl gyfreithiol i ofyn am wybodaeth benodol. Mae hawl gennych ofyn am yr isod a'i chael:

(a) Y cyfryw wybodaeth gyffredinol fydd yn eich helpu i asesu:

- (i) Sut mae'n debygol yr ymdrinnir â'ch cais dan y polisi hwn, gan gynnwys a ydych yn debygol o gael eich trin fel aelod o grŵp y rhoddir blaenoriaeth iddo
- (ii) A yw llety priodol yn debygol o fod ar gael i chi ac, os yw, faint o amser fydd hi'n ei gymryd cyn y bydd llety ar gael i'w osod i chi

(b) Gwybodaeth am unrhyw benderfyniad ynghylch ffeithiau eich achos sydd wedi'i chadw mewn cof neu'n debygol o gael ei chadw mewn cof wrth ystyried gosod llety ai peidio

(c) Manylion y wybodaeth yr ydych eisoes wedi'i chyflwyno amdanoch eich hun neu am eich teulu ac yr ydym wedi'i chofnodi fel gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais.

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth sydd yn (a)(i) i chi yn ystod eich cyfweliad opsiynau tai. Bydd hyn yn eich helpu i werthuso eich cyfleoedd i gael tŷ cymdeithasol. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth sydd yn (a)(ii), (b) a (c) os byddwch yn gofyn amdani.

Rhoddir y wybodaeth sydd yn (a)(ii) trwy ddweud wrthych faint o dai gwag oedd mewn cyfnod (neu gyfnodau) blaenorol ar gyfer maint a math yr eiddo yn yr ardaloedd gosod yr ydych wedi'ch cofrestru ar eu cyfer (neu ar gyfer yr ardal osod lle byddwch yn debygol o orfod aros yr amser byrraf i gael llety), a thrwy gadarnhau faint o ymgeiswyr eraill sydd â mwy o flaenoriaeth na chi (gweler hefyd **4.4** a **4.5**).

Os byddwch yn gofyn am wybodaeth am agweddau penodol o'r broses gosod tai, byddwn yn ei chyflwyno i chi os bydd ymrwymiad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Mae'r hawliau uchod yn ychwanegol at eich hawl i gael gweld eich gwybodaeth bersonol dan adran 7 Deddf Gwarchod Data 1988. Mae rhagor o wybodaeth am bolisïau gwarchod data'r landlordiaid sy'n bartneriaid ac am sut i gael gweld eich gwybodaeth bersonol ar gael ar wefan pob landlord.

# 17 SUT MAE LANDLORDIAID CYMDEITHASOL YN MONITRO GWAITH GOSOD TŶ?

17.1 Sut caiff y polisi hwn ei fonitro?

17.2 A yw tai sy'n cael eu gosod tu allan i'r rheolau gosod arferol yn cael eu monitro?

17.3 Ydi'r landlordiaid sy'n bartneriaid yn gosod targedau ar gyfer pwy sy'n cael tŷ cymdeithasol?

## 17.1 Sut caiff y polisi hwn ei fonitro?

Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ynys Môn, Tai Gogledd Cymru a Chymdeithas Tai Tŷ Glas yn rhan o Bartneriaeth Tai Ynys Môn. Mae is-grŵp o'r bartneriaeth yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn monitro gwaith gosod tai a pha mor effeithiol yw'r polisi hwn wrth gwrdd ag amcanion strategol y Cyngor. Mae o leiaf un uwch-reolwr o bob un o'r landlordiaid sy'n bartneriaid ar yr Is-grŵp Gosod Tai. At hyn, mae'r Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid hefyd yn adrodd i'w pwyllgorau/byrddau eu hunain fel bo'n briodol.

Bydd yr Is-grŵp yn:

- Cytuno ar eu cylch gorchwyl.
- Cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, neu'n amlach os bydd gofyn
- Gofyn i'r Rheolwr Opsiynau Tai a landlordiaid sy'n bartneriaid gyflwyno gwybodaeth ystadegol reolaidd am waith gweinyddu'r ceisiadau am dai a gosod eiddo.
- Cytuno ar restr o'r dangosyddion ystadegol y mae'n rhaid i'r Tîm Opsiynau Tai a'r landlordiaid sy'n bartneriaid eu cyflwyno, gan ystyried pa mor hawdd yw cynhyrchu'r dangosyddion
- Ystyried effeithlonrwydd trefniadau i weinyddu ceisiadau am dŷ.
- Monitro cydymffurfiaeth landlordiaid sy'n rhan o'r bartneriaeth gyda thelerau'r cynllun gosod

- Ystyried yr angen am ddiwygio’r polisi a’r gweithdrefnau yn wyneb newidiadau i:
  - □ Y gyfraith
  - □ Arweiniad statudol
  - □ Amcanion strategol
  - □ Canlyniadau adolygiadau ac apeliadau, neu
  - □ Unrhyw faterion perthnasol eraill
- Ystyried cynigion i gyflwyno polisïau gosod lleol ac adlewyrchu eu heffaith.
- Monitro’r defnydd y mae landlordiaid sy’n bartneriaid yn ei wneud o ddulliau sensitif o osod tai
- Monitro’r defnydd y mae landlordiaid sy’n bartneriaid yn ei wneud o waith rheoli symudiadau.
- Monitro nifer yr ymgeiswyr na chawsant gynnig tenantiaethau gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig oherwydd y byddai cynnig yn tynnu’n groes i’w hamcanion elusennol.

### 17.2 A yw tai sy’n cael eu gosod y tu allan i’r rheolau gosod arferol yn cael eu monitro?

Ydyn. Mae’r Is-grŵp Gosod Tai (gweler **17.1**) yn monitro nifer y symudiadau rheoli a gosodiadau sensitif. Rhaid i bob landlord sy’n bartner roi gwybod i’r Rheolwr Opsiynau Tai pa bryd y maent yn bwriadu gosod tŷ sy’n achos sensitif a chadarnhau:

- Y rheswm pam eu bod yn credu bod modd cyfiawnhau gosod y tŷ
- Safle’r ymgeisydd sy’n cael ei ystyried ar y Gofrestr Tai (os o gwbl)

Bydd y Rheolwr Opsiynau Tai neu uwch reolwr yn y Gwasanaethau Tai yn rhoi gwybod i’r Is-grŵp Gosod Tai am yr isod ac yn cadarnhau:

- Nifer y gosodiadau sensitif a wnaed gan bob landlord sy’n bartner
- Y rhesymau dros ddefnyddio dulliau sensitif o osod tai
- Nifer gyfartalog gymedrig yr ymgeiswyr sy’n cael eu hanwybyddu pan fo gosodiadau sensitif yn cael eu gwneud.

### 17.3 Ydi’r landlordiaid sy’n bartneriaid yn gosod targedau ar gyfer pwy sy’n cael tŷ cymdeithasol?

Efallai y bydd yr Is-grŵp Gosod Tai (gweler **17.1**) yn mabwysiadu targedau (ond nid oes yn rhaid iddo) i sicrhau fod cyfran o dai a osodir (neu gyfran o fathau penodol o eiddo) yn mynd i grwpiau penodol o ymgeiswyr.

## ATODIAD 1 – FFYRDD O GAEL TŶ CYMDEITHASOL NAD YDYNT YN CYFRIF FEL PE BAI'N ACHOS O OSOD

Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys y ffyrdd a ganlyn y mae modd i chi gael llety:

(a) Trosglwyddiad a gychwynnwyd gan y landlord, er enghraifft fel bod modd gwneud gwaith ar yr eiddo neu am resymau rheoli.

(b) Cael llety dros dro dan y ddeddfwriaeth digartrefedd.

(c) Cael tenantiaeth nad yw'n denantiaeth ragarweiniol, ddiogel, byrddaliad sicr na thenantiaeth sicr

(d) Dod yn denant sicr yn awtomatig pan fo tenantiaeth ragarweiniol yn dod i ben neu'n dod yn denant sicr pan fo tenantiaeth fyrddaliad yn dod i ben (e) Olynu tenantiaeth sy'n bodoli pan fo'r tenant blaenorol yn marw.

(f) Dod yn denant trwy aseiniad, e.e. wrth ddefnyddio hawl gyfreithiol i gyfnewid eich tenantiaeth gyda thenant tŷ cymdeithasol arall ('cyfnewidiad cilyddol').

(g) Dod yn denant oherwydd bod llys wedi gorchymyn trosglwyddo tenantiaeth sy'n bodoli i chi.

(h) Rhoi tŷ arall i chi oherwydd pryniant gorfodol.

(i) Cyngor yn rhoi llety i chi dan Ddeddf Digolledu Tir 1973, a.39.

(j) Cael llety sy'n cael ei osod ar rent marchnad gyfryngol.

(k) Cael cynnig tŷ 'gofal ychwanegol'.

## ATODIAD 2 – ARDALOEDD GOSOD

Mae'r map isod a'r allwedd ar y dudalen sydd gyferbyn yn dangos yr ardaloedd gosod y medrwch eu dewis.  Nid yw pob math o eiddo ar gael ym mhob ardal.



## Allwedd yr ardaloedd gosod

| Rhif | Ardal Osod | | Rhif | Ardal Osod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Aberffraw | **34** | Llanfairynghonwy | **2** | Amlwch | |
| **35** | Llanfechell | **3** | Beaumaris | **36** | Llangaffo | **4** |

Benllech 37 Llangefni 5 Bodedern 38
Llangoed
6 Bodffordd 39 Llangristiolus
7 Bodorgan 40 Llansadwrn 8 Bryngwran 41 Llanynghenedl 9
Brynsiencyn 42 Llynfaes 10 Brynteg 43 Malltreath 11 Caergeiliog
44 Moelfre
12 Caergybi / Holyhead 45 Niwbwch / Newborough
13 Capel Coch 46 Parc 14 Carreglefn 47
Penmynydd
15 Cemaes 48 Penrhoslligwy 16 Dwyran 49
Pentraeth
17 Pontrhypont / Four Mile Bridge 50 Pentre Berw
18 Gaerwen 51 Penysarn
19 Gwalchmai 52 Porthaethwy / Menai Bridge
20 Hermon 53 Rhoscolyn 21 Llanbabo 54
Rhosgoch 22 Llanbedrgoch 55 Rhosmeirch 23
Llanddaniel 56 Rhosneigr 24 Llanddeusant 57
Rhostrehwfa 25 Llanddona 58 Rhosybol
26 LLandegfan 59 Rhydwyn
27 Llaneilian 60 Soar
28 Llanerchymedd 61 Star
29 Llanfachraeth 62 Talwrn
30 Llanfaelog 63 Tregele
31 Llanfaes 64 Ty Croes
32 Llanfaethlu 65 Tyn Lôn
33 Llanfairpwll 66 Y Fali / Valley

## ATODIAD 3 – ANGHYMWYSTER OHERWYDD STATWS CENEDLIGRWYDD A MEWNFUDO

### 1. Pa reolau sy'n rhaid i'r Cyngor eu defnyddio wrth benderfynu a wyf yn gymwys i fynd ar y Gofrestr Tai am resymau mewnfudo neu genedligrwydd?

Y Llywodraeth sy'n gosod y rheolau y mae'n rhaid i ni eu defnyddio. Maent i'w gweld yn adran 160A Deddf Tai 1996 ac yn y rheoliadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, os gwnaethoch gais am dŷ 31 Hydref 2014 neu wedi hynny,

Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwyster) (Cymru) 2014 yw'r rheoliadau hyn. Isod o **5** i **6** ceir eglurhad o'r rheolau os bu i chi wneud cais ar y dyddiad hwn neu wedi hynny.

**2. Fydd angen i mi gyflwyno dogfennau i brofi fy statws mewnfudo a fy nghenedligrwydd ?**

Bydd, os ydym eu hangen i fodloni ein hunain eich bod yn gymwys am dŷ (gweler
3. **9**).

**3. Rwyf eisoes yn denant tŷ cymdeithasol ac mae gennyf denantiaeth ddiogel/ragarweiniol/sicr. Cefais fy llety oherwydd achos blaenorol o osod oddi ar restr aros y Cyngor. Ydw i'n gymwys i fynd ar y rhestr aros a chael tŷ cymdeithasol?**

Ydych. Os dyma yw eich sefyllfa, rydych yn gymwys hyd yn oed os na fyddech, fel arfer, yn cymhwyso dan y rheolau sy'n cael eu hegluro isod.

**4. Beth mae 'yn destun rheolau mewnfudo' yn ei olygu?**

Rydych yn destun rheolau mewnfudo os:

- Oes angen caniatâd arnoch i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, ond nid ydych wedi cael y caniatâd hyd yn hyn, neu
- Oes gennych ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno ar yr amod nad ydych yn hawlio budd-daliadau neu ddefnyddio arian cyhoeddus arall, neu
- Rhoddwyd caniatâd i chi ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno o fewn y pum mlynedd diwethaf oherwydd bod rhywun arall wedi llofnodi ymrwymiad cynnal yn cytuno i'ch cynnal.

**5. Rwyf yn destun rheolau mewnfudo. Ydw i'n gymwys ar gyfer tŷ?**

Y rheol arferol yw na fyddwch yn gymwys ar gyfer tŷ os ydych yn destun rheolau ymfudo. Fodd bynnag, mae eithriadau. Os ydych yn destun rheolau mewnfudo ac yn syrthio i un o'r grwpiau a ganlyn, byddwch yn gymwys ar gyfer tŷ os:

(a) Cewch eich cofnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel ffoadur o fewn diffiniad Erthygl 1 y Confensiwn Ffoaduriaid ac mae gennych hawl dod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno.

(b) Os

(i) Oes caniatâd eithriadol gennych i chi ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno y tu allan i ddarpariaethau'r Rheolau Mewnfudo, a

(ii) Nad yw eich caniatâd i ddod i mewn neu i aros dan amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gynnal a chael llety i chi eich hun ac i unrhyw berson sy'n ddibynnol arnoch, heb droi at y pwrs cyhoeddus.

(c) Rydych, fel arfer, yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ac nad oes amodau neu gyfyngiadau ynghlwm wrth eich caniatâd i chi ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, oni bai eich bod:

    (i) Wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno yn sgil ymrwymiad a roddwyd gan eich noddwr, a

    (ii) Rydych yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ers llai na phum mlynedd gan ddechrau ar y dyddiad y daethoch i mewn neu ar y dyddiad y rhoddwyd yr ymrwymiad yn eich cyswllt chi, p'run bynnag ddyddiad a ddaw olaf, a

    (iii) Lle mae eich noddwr neu lle mae mwy nag un noddwr, o leiaf un o'ch noddwyr, yn dal yn fyw.

(d) Rhoddwyd i chi warchodaeth ddyngarol dan y Rheolaeth Mewnfudo.

(e) Rydych, fel arfer, yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon a chaniatâd cyfyngedig sydd gennych i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig fel dinesydd perthnasol o Affganistan dan baragraff 276BA1 y Rheolau Mewnfudo.

## 6. Nid ydw i'n destun rheolau mewnfudo. Ydw i'n gymwys ar gyfer tŷ?

Y rheol arferol yw y byddwch yn gymwys ar gyfer tŷ os nad ydych yn destun rheolau mewnfudo. Fodd bynnag, mae eithriadau. Os ydych yn destun rheolau mewnfudo ac yn syrthio i un o'r grwpiau a ganlyn, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer tŷ:

(a) Onid ydych, fel arfer, yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw, neu yng Ngweriniaeth Iwerddon ac nad ydych yn syrthio i unrhyw un o'r categorïau isod:

    (i) Yn weithiwr

    (ii) Yn hunangyflogedig

    (iii) Yn cael eich trin fel gweithiwr dan y diffiniad o "berson cymwys" yn Rheoliad 6(1) Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewrop) 2013 (hawl preswylio gwladolyn o wlad dramor yn amodol ar awdurdod gweithiwr)

    (iv) Aelod o deulu person sy'n weithiwr, yn hunangyflogedig neu'n cael ei drin fel gweithiwr dan y diffiniad "person cymwys"

    (v) Rhywun sydd â hawl i fyw yn barhaol yn y DU dan Reoliad 15(1)(c), (d) neu (e) Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewrop) 2013, neu

(vi) Yn y DU oherwydd eich bod wedi cael eich alltudio, eich gwahardd neu eich symud drwy gyfraith o wlad arall i'r DU.

(b) Os yw eich unig hawl dros fyw yn y Deyrnas Unedig

(i) Yn dod o'ch statws fel rhywun sy'n chwilio am swydd neu eich bod yn aelod o deulu rhywun sy'n chwilio am swydd, neu

(ii) Yn hawl gychwynnol i breswylio am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis dan reoliad 13 Rheoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2013 neu

(iii) Yn hawl ddeilliadol i breswylio y mae gennych hawl iddo dan Reoliad 15A(1) Rheoliadau Ardal Economaidd Ewropeaidd ond dim ond mewn achos pan fo'r hawl yn bodoli dan y rheoliad hwnnw oherwydd eich bod yn bodloni'r meini prawf yn rheoliad 15A(4A) y rheoliadau hynny, neu

(iv) Yn dod o Erthygl 20 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, os yw eich hawl i fyw yno yn codi oherwydd y byddai dinesydd Prydeinig, fel arall, yn cael ei amddifadu o wir fwynhad sylwedd ei hawl fel dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd.

(c) Os yw eich unig hawl i fyw yn Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu yng Ngweriniaeth Iwerddon:

(i) Yn hawl sy'n cyfateb i un o'r rhai a grybwyllir uchod yn (b)(i), (ii) neu (iii) sy'n deillio o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, lle byddai eich hawl i fyw:

(aa) Yng Ngweriniaeth Iwerddon yn codi oherwydd byddai Dinesydd Gwyddelig, neu

(bb) Yn Ynysoedd y Sianel neu yn Ynys Manaw yn codi oherwydd y byddai dinesydd Prydeinig sydd hefyd â'r hawl i fyw yno

fel arall, yn cael ei amddifadu o wir fwynhad sylwedd ei hawl fel dinesydd o'r Undeb Ewropeaidd.

## ATODIAD 4 – ANGHYMWYSTER OHERWYDD YMDDYGIAD ANNERBYNIOL DIFRIFOL

### 1. Pa effaith y mae penderfyniad ar ymddygiad annerbyniol yn ei chael ar fy nghais?

Os ydym yn penderfynu bod eich ymddygiad neu ymddygiad aelod o'ch cartref, yn eich gwneud yn anaddas i fod yn denant efallai y byddwn yn:

- eich eithrio o'r Gofrestr Tai (gweler **6.8 a 6.9**), neu
- gostwng eich blaenoriaeth (gweler **9.11** a **9.12**).

### 2. Beth sy'n cyfrif fel ymddygiad annerbyniol a fyddai o bosib yn fy niarddel rhag cael fy ystyried am dŷ?

Ymhlith esiamplau o ymddygiad a fyddai o bosib yn cael effaith ar eich addasrwydd i fod yn denant mae:

- Dyledion rhent
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Dyled flaenorol sy'n gysylltiedig ag eiddo ac a ddaw o ddifrod i eiddo, neu
- Gordaliad budd-dal tai

Enghreifftiau'n unig yw'r uchod a gall sefyllfaoedd eraill arwain at i ni benderfynu eich bod yn anaddas i fod yn denant.

### 3. Sut mae'r Cyngor yn penderfynu a yw ymddygiad yn annerbyniol ac yn fy ngwneud yn anaddas i fod yn denant tŷ cymdeithasol?

Trwy gyfraith, rhaid i ni ystyried:

(a) Os oeddech yn denant y Cyngor, a oedd yr ymddygiad yn ddigon difrifol i roi i'r Cyngor orchymyn meddiant llwyr dan adran 84A Deddf Tai 1985 neu dan adran 84 Deddf 1985 am unrhyw un o'r rhesymau a restrir yn Rhan 1 Atodlen 2 y Ddeddf honno (ac eithrio rheswm 8), a

(b) Roedd eich ymddygiad ar y pryd yn ddigon difrifol I wneud chi fel ymgeisydd neu aelod o'ch aelwyd yn anaddas i fod yn denant

(c) A ydych yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad adeg eich cais.

### 4. Os yw'r Cyngor yn penderfynu fy mod wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol fydda i'n bendant yn cael fy eithrio o'r Gofrestr Tai?

Na fyddwch. Rydym yn ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant, gan gymryd pob ffactor perthnasol i ystyriaeth. Rydym hefyd yn ystyried yr angen i gyflawni nodau polisi ehangach megis cydraddoldeb cyfle, cynhwysiad cymdeithasol ac anghenion preswylwyr presennol.

Os yw'r Cyngor yn fodlon bod bob agwedd o'r tri uchod wedi ei gwrdd, byddwn ystyried ein disgresiwn i benderfynu eich ystyried fel person anghymwys ar gyfer gosod tŷ. Wrth gyrraedd y penderfyniad hwnnw bydd rhaid i'r Cyngor ystyried bob achos ar sail ei hun. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau personol (ac amgylchiadau personol aelwyd y teulu), gan gynnwys anghenion iechyd a meddygol, unrhyw ddibynyddion ac unrhyw fater arall sydd yn berthnasol i'r cais. Bydd penderfyniad i dderbyn ymgeisydd fel anghymwys yn cael ei seilio ar Ddeddf a Chod Canllaw.

Bydd cosb o flwyddyn yn cael ei roi os bydd A i C yn berthnasol, bydd eich cais yn cael ei ohirio, sydd yn golygu na fyddwch yn cael eich hystyried ar gyfer tai yn ystod y cyfnod hwn.

Efallai y byddem yn parhau i ddefnyddio'n disgresiwn i beidio â'ch trin fel rhywun sy'n anghymwys am dŷ a chynnwys eich cais ar y Gofrestr Tai. Efallai na wnawn ganiatáu eich cais o gwbl. Neu efallai y gwnawn eich cynnwys ar y rhestr aros, ond dyfarnu i chi fand is na fyddech fel arall yn gymwys ar ei gyfer (gweler **9.11** a **9.12**. Gweler hefyd **9.6** i **9.10** am y categorïau blaenoriaeth).

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | | |
|---|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** | |
| **Dyddiad:** | **28 HYDREF 2019** | |
| **Pwnc:** | **Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2018/19** | |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Robin Williams (Adnoddau)**<br>**Cynghorydd R G Parry OBE FRAgS (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)**<br>**Cynghorydd R Meirion Jones (Dysgu)** | |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **R MARC JONES** | |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Bethan Owen<br>(01248) 752663<br>**BethanOwen2@ynysmon.gov.uk** | |
| **Aelodau Lleol:** | | |
| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** | | |
| • Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am 2018/19 (Atodiad A). | | |
| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | | |
| | | |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | | |
| Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | | |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Ydi | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Ydi | | |
| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)**(mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| • Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2018/19 |
| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

## Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn

### 1. Pwrpas

**1.1** Yn yr adroddiad hwn ceir trosolwg o'r cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae ynddo wybodaeth am statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a'r gwahanol elfennau sy'n gysylltiedig â hi. Ceir crynodeb am berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Pwrpas allweddol yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

### 2. Cefndir

**2.1** Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys 3 cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

**2.1.1 Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**
Mae'r waddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Buddsoddi a reolir gan Reolwyr Cronfa Blackrock Investment. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddi-gyswllt, sef "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm gweddilliol yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn sydd wedi ei rhannu'n ddwy ran.

**2.1.2 Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**
Yn ychwanegol at yr incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan Blackrock mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Caiff traean o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ei neilltuo i ddarparu buddion arbennig o unrhyw fath, sef rhai nad ydynt fel arfer yn cael eu darparu gan yr Awdurdod, a hynny er mwyn cynorthwyo disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi eu pennu yn y cynllyn, y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Ni chafodd unrhyw grantiau eu rhannu yn 2018/19.

**2.1.3 Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**
Mae'r elfen hon o'r ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.2). Mae dwy ran o dair sy'n weddill o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ar gael i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd ac sydd angen cymorth ariannol i fynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch neu hyfforddiant. Rhoddwyd un grant o £5,000 ar gyfer 2018/19.

**2.2 Statws Cyfreithiol**

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn elusen gofrestredig a Chyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr. Nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n dirprwyo cyfrifoleb i'r Cyngor llawn neu swyddog penodol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth, felly, mae'r penderfyniadau hynny wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. Mae rhai swyddogaethau sy'n gysylltiedig â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu dirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad â'r aelod portffolio perthnasol. Mae awdurdod mewn perthynas â grantiau addysgol wedi cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes). Mae awdurdod mewn perthynas â chytuno ar denantiaethau, gosod rhenti a threfnu rhaglen gynnal a chadw ac atgyweirio wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). Mae'r awdurdod i lofnodi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth bob blwyddyn wedi ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Gall y Prif Weithredwr ymarfer unrhyw swyddogaeth sydd wedi cael ei dirprwyo i'r Penaethiaid Gwasanaeth.

## 3. Perfformiad Ariannol

**3.1** Mae'r Ymddiriedolaeth yn ennill incwm o'r rhenti a geir o Bortffolio Eiddo Ymddiriedolaeth Waddol David Hughes, difidendau o fuddsoddiadau ecwiti, llogau eraill a gwerthu buddsoddiadau. Mae'r gwariant yn gysylltgiedig â chynnal a chadw eiddo, cyfleustodau, dibenion elusennol, ffioedd llywodraethiant (archwilio) a ffioedd rheoli eiddo. Mae'r wybodaeth fanwl ynghylch incwm, gwariant ac asedau'r Ymddiriedolaeth ynghlwm yn Atodiad A, sy'n cynnwys cyfrifon ariannol yr Ymddiriedolaeth 2018/19. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cyfrifon hyn.

**3.2** Yn 2018/19, mae cynnydd net o £113,016, mae'r incwm buddsoddi yn cyfateb i £131,010 (sef £125,970 o'r Stad David Hughes a £5,040 o difidendau a llog) a'r enillion ar y buddsoddiadau yn £110,000. Roedd y gwariant am y cyfnod yn £126,589, ac mae £99,943 ohono'n ymwneud â gwaith chynnal a chadw.

**3.3** Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer 2018/19 yn dangos bod cyfanswm o £3,327,050 yng nghronfeydd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2019, ac mai £372,681 o'r swm hwnnw oedd balans ariannol yr Ymddiriedolaeth ar y dyddiad hwnnw.

## 4. Casgliad

**4.1** Rhoddwyd trosolwg ar y cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o statws cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth a pherfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r cyfrifon ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 wedi eu cynnwys yn Atodiad A ar gyfer eu cymeradwyo. Roedd cyfanswm o £3,327,050 yng nghronfeydd yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2019.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

# ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

## ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

## ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

## 2018/19

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.**

**525254**

**CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019**


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad yr Ymddiriedolwyr | 1-5 |
| Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol | 6 |
| Datganiad o Weithgareddau Ariannol | 7 |
| Mantolen | 8 |
| Nodiadau i’r Datganiadau Ariannol | 9-15 |

## ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

### MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

**Rhif Cofrestru Elusen:**

525254

**Cyfeiriad y Brif Swyddfa:**

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Ymddiriedolwr:**

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

**Archwiliwr Annibynnol:**

Mr. Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

## STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

### Dogfen lywodraethu:

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforedig.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun dyddiedig 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, pwerau a'r amodau y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth weithredu arnynt.

### Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Caiff ymddiriedolwyr newydd eu briffio am eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusennol, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol eraill a swyddogion y Cyngor.

### Strwythur y sefydliad:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Mae strwythur y sefydliad wedi bod fel a ganlyn:

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Dysgu Gydol Oes yr awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â'r Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yr awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth ac i osod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:

- Prif Weithredwr – Dr Gwynne Jones
- Dirprwy Prif Weithredwr – Annwen Morgan
- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

### Partïon cysylltiedig:

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr. Cynhelir yr holl drafodion gyda sefydliadau y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich. Mae gan y cyngor bolisi lle bod rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

**Rheoli risg:**

Adolygwyd y prif risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

**Nodau ac amcanion:**

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes; Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 gyda'r nod o ddarparu budd addysgol penodol.

**Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):**

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu neu wariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm sy'n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn:

**Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:**

Dyrennir traean o'r Gronfa Gyffredinol i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant. Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth un dyfarniad yn 2018/19 ond ar hyn o bryd mae cynlluniau a gweithdrefnau ar waith i gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y dyfodol.

**Gwneud grantiau:**

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir ac sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

**Budd cyhoeddus:**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yng nghanllawiau cyffredinol y Comisiynydd Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses o ddyrannu grantiau.

## LLWYDDIANT A PHERFFORMIAD

**Gweithgareddau elusennol:**

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r elusen wedi bod mewn cyfnod o atgyfnerthu ac mae wedi bod yn arbed arian i ail-fuddsoddi yn ei bortffolio eiddo sy'n heneiddio. Bydd ymgymryd â'r cyfnod hwn o atgyfnerthu yn golygu y bydd asedau'r elusen yn gallu darparu incwm am flynyddoedd i ddod i'w dyfodol-fuddiolwyr. I'r pwrpas hwn mae'r elusen wedi ymgymryd â rhaglen sylweddol o atgyweiriadau ac adnewyddiadau i Ystâd David Hughes er mwyn dod â nifer o adeiladau fferm i gyflwr mwy addas. Wedi cwblhad y rhaglen hon mae'r elusen bellach mewn sefyllfa i gynyddu nifer y grantiau a ddyfernir yn y blynyddoedd i ddod.

## ADOLYGIAD ARIANNOL

### Perfformiad ariannol:

Roedd gan yr elusen gynnydd mewn cronfeydd cyffredinol net o £113,016 yn ystod y flwyddyn yn bennaf oherwydd enillion heb eu gwireddu yn ymwneud ag ailbrisiadau Ystâd David Hughes. Heb yr enillion heb eu gwireddu hyn roedd gan yr Ymddiriedolaeth Incwm Net o £3,016 am y flwyddyn.

Cyfanswm y cronfeydd ar 31 Mawrth 2019 oedd £3,237,050, ac mae'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

### Prif ffynonellau ariannu:

Prif ffynonellau ariannu'r elusen yw incwm rhent gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau, llog buddsoddi neu log ar adneuon.

### Polisi ac amcanion buddsoddi:

Mae portffolio eiddo sy'n heneiddio'r elusen wedi bod angen buddsoddiad sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi mynd trwy gyfnod o atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei asedau. Yn ogystal, mae'r elusen yn dal tua 10% o Gyfanswm ei Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

### Cynlluniau ar gyfer y dyfodol:

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn gweithredu fel busnes hyfyw ar gyfer y dibenion elusennol a nodwyd uchod.

## DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifeg Gyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob flwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu gweithredu'n gyson;
- ddilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;

- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ochelgar;
- baratoi’r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei fod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â’r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau’r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r elusen a gan hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Llofnodwyd gan Gyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr ymddiriedolaeth:

**R Marc Jones CPFA** **Dyddiad**

**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

**Adroddiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn**

Rwy'n adrodd i'r Ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 a nodir ar dudalennau 7-14.

**Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad**

Fel ymddiriedolwyr elusen yr Ymddiriedolaeth, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ('y Ddeddf').

Rwy'n adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad oes unrhyw faterion o bwys wedi dod i fy sylw mewn cysylltiad â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi gredu mewn unrhyw fodd perthnasol:

1. Nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
2. Nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
3. Nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

Llofnod: ______________________________ Dyddiad: _____________

**Brian Hughes FCA**
**A. Hughes-Jones, Dyson & Co.**
**Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig**
**Capel Moreia, South Penrallt, Caernarfon, Gwynedd**

## DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU

## 31 MAWRTH 2019

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.2019 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.2018 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm a Gwaddoliadau o:** | | | | | |
| Incwm Buddsoddi | 2 | 5,040 | 125,970 | 131,010 | 128,223 |
| Cyfanswm Incwm | | 5,040 | 125,970 | 131,010 | 128,223 |
| **Gwariant ar:** | | | | | |
| Rheoli Buddsoddiadau | 3 | - | (108,146) | (108,146) | (177,917) |
| Gweithgareddau Elusennol | 4 | (5,000) | - | (5,000) | - |
| Costau Cefnogi | 5 | (1,240) | (12,203) | (13,443) | (13,092) |
| Cyfanswm Gwariant | | (6,240) | (120,349) | (126,589) | (191,009) |
| | | | | | |
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | (1,200) | 5,621 | 4,421 | (62,786) |
| Taliad o 25% o incwm nwt i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 6 | - | (1,405) | (1,405) | - |
| Trosglwyddiad o'r incwm Gwaddol Net sy'n weddill i'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach | | 4,216 | (4,216) | - | - |
| Incwm / (Gwariant) Net cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | | 3,016 | - | 3,016 | (62,786) |
| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | 7 | 2,020 | 107,980 | 110,000 | 350,941 |
| Incwm / (Gwariant) Net | | 5,036 | 107,980 | 113,016 | 288,155 |
| | | | | | |
| Symudiad Net mewn Cronfeydd | | 5,036 | 107,980 | 113,016 | 288,155 |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | | | |
| Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 449,617 | 2,674,417 | 3,124,034 | 2,835,879 |
| Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd | | 454,653 | 2,782,397 | 3,237,050 | 3,124,034 |

## MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019

| | Nodiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Waddol £ | 31.3.2019 Cyfanswm Cronfeydd £ | 31.3.2018 Cyfanswm Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc gydnabyddedig | 7a | 108,334 | 155,146 | 263,480 | 258,579 |
| Eiddo Buddsoddi - Ystâd David Hughes | 7b | - | 2,545,800 | 2,545,800 | 2,599,600 |
| Cyfanswm Asedau Sefydlog | | 108,334 | 2,700,946 | 2,809,280 | 2,858,179 |
| Asedau Cyfredol | | | | | |
| Dyledwyr | 8 | - | 70,516 | 70,516 | 63,109 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 348,004 | 24,677 | 372,681 | 218,570 |
| Cyfanswm Asedau Cyfredol | | 348,004 | 95,193 | 443,197 | 281,679 |
| Rhwymedigaethau | | | | | |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | (1,685) | (13,742) | (15,427) | (15,824) |
| Asedau neu (Rwymedigaethau) Cyfredol Net | | 346,319 | 81,451 | 427,770 | 265,855 |
| Credydwyr: symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer Rhwymedigaethau | | - | - | - | - |
| Cyfanswm Asedau neu (Rwymedigaethau) Net | | 454,653 | 2,782,397 | 3,237,050 | 3,124,034 |
| Cronfeydd yr Elusen | 11 | | | | |
| Cronfeydd Gwaddol | | - | 2,782,397 | 2,782,397 | 2,674,417 |
| Cronfeydd Incwm Cyfyngedig | | 454,653 | - | 454,653 | 449,617 |
| Cyfanswm Cronfeydd Elusennol | | 454,653 | 2,782,397 | 3,237,050 | 3,124,034 |

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig:

____________________________________ ________________________

**Mr R Marc Jones CPFA** **Dyddiad**

**Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2019**

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU

### Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail gwerth y farchnad, fel yr addaswyd drwy ailbrisio asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

### Adnoddau a dderbyniwyd

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir gyda digon o ddibynadwyedd.

### Adnoddau a wariwyd

Cyfrifir gwariant ar sail groniadol ac fe'i dosbarthwyd o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, fe'u dyrannwyd i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

### Costau cynhyrchu arian

Mae costau cynhyrchu arian yn cynnwys costau rheoli buddsoddiad.

### Eiddo buddsoddi

Dangosir eiddo buddsoddi ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff cyfanswm unrhyw warged neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

### Trethiant

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

### Treth ar Werth

Gall yr elusen adennill Treth ar Werth trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn, felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

### Strwythur y gronfa

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gwaddol a dwy cyfyngedig.

### Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'i eiddo buddsoddi a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r stad eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion" er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae’r incwm sy’n weddill yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sy’n cael ei rhannu’n ddwy:

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Dyrennir traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Bellach Ynys Môn i ddarparu budd arbennig, o unrhyw fath na ddarperir gan yr Awdurdod fel arfer, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o’r ysgolion a enwir yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae’r ddwy ran o dair sy’n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael er budd rhai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o’r ysgolion sydd wedi’u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac sydd angen cymorth ariannol ar gyfer Addysg Bellach neu Addysg Uwch neu hyfforddiant.

Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

**Buddsoddiadau asedau sefydlog**

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr enillion a’r colledion net sy’n codi o ailbrisio a gwarediadau yn ystod flwyddyn.

**Enillion a cholledion wedi’u gwireddu**

Mae’r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion wedi’u gwireddu ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Caiff enillion a cholledion heb eu gwireddu eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agoriadol (neu ddyddiad prynu os yw’n hwyrach). Nid yw enillion wedi’u gwireddu ac enillion heb eu gwireddu wedi’u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

## 2. INCWM BUDDSODDI

| **Incwm Buddsoddi** | **Cronfeydd Cyfyngedig £** | **Cronfeydd Gwaddol £** | **Cyfanswm 31.3.19 £** | **Cyfanswm 31.3.18 £** |
|---|---|---|---|---|
| Rhenti a dderbyniwyd | - | 117,043 | 117,043 | 107,184 |
| Trethi dŵr - ad-daliadau | - | 2,523 | 2,523 | 7,682 |
| Incwm arall o Stâd David Hughes | - | 1,332 | 1,332 | 4,639 |
| Difidendau a llog buddsoddiad | 3,444 | 4,938 | 8,382 | 8,243 |
| Llog arall | 1,596 | 134 | 1,730 | 475 |
| Cyfanwm Incwm Buddsoddi | 5,040 | 125,970 | 131,010 | 128,223 |

## 3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

| Investment Management Costs | Restricted Funds £ | Endowment Funds £ | Total 31.3.19 £ | Total 31.3.18 £ |
|---|---|---|---|---|
| Repairs and Maintenance of the David Hughes Estate | - | (99,943) | (99,943) | (119,473) |
| Water Charges | - | (5,860) | (5,860) | (12,375) |
| Professional Services | - | (1,018) | (1,018) | (5,351) |
| Other property expenses | - | - | - | (6,577) |
| Bad Debt provision | - | (1,325) | (1,325) | (34,141) |
| Total Investment Management Costs | - | (108,146) | (108,146) | (177,917) |

## 4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

| Gweithgareddau Elusennol | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.19 £ | Cyfanswm 31.3.18 £ |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau addysgol a ddyfarnwyd | (5,000) | - | (5,000) | - |
| Cyfanswm Gwariant Elusennol | (5,000) | - | (5,000) | - |

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusennau a'r SORP i gadw enwau'r rhai sy'n derbyn grant yn gyfrinachol.

## 5. COSTAU CEFNOGI

| Costau Cefnogi | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.19 £ | Cyfanswm 31.3.18 £ |
|---|---|---|---|---|
| Costau gweinyddu a rheoli eiddo | - | (9,373) | (9,373) | (8,891) |
| Costau cyfrifo a chefnogi | (795) | (2,385) | (3,180) | (3,311) |
| Tâl yr Archwiliwr Annibynnol | (445) | (445) | (890) | (890) |
| Cyfanswm Costau Cefnogi | (1,240) | (12,203) | (13,443) | (13,092) |

## 6. DOSBARTHU INCWM NET Y GRONFA GWADDOL

Mae 25% o incwm net cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau'r gronfa Waddol i'w dalu i elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion. Mae'r gweddill yn cael ei rannu rhwng y Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach gyfyngedig ar sail 1/3 a 2/3:

| Dosbarthu Incwm Net y Gronfa Waddol | Cyfanswm 31.3.19 £ | Cyfanswm 31.3.18 £ |
|---|---|---|
| Incwm / (Gwariant) Net ar gael i'w ddosbarthu cyn Enillion a Cholledion ar Fuddsoddiadau | 5,621 | (65,568) |
| Talu 25% i Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion | 1,405 | - |
| Trosgwlyddo 25% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 1,405 | - |
| Trosgwlyddo 50% i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 2,811 | - |

Yn 2017/18 roedd gan y Gronfa Waddol ddiffyg net cyn enillion a cholledion ar fuddsoddiadau felly doedd dim trosglwyddiad incwm cyfatebol.

## 7. BUDDSODDIADAU

| Enillion / (Colledion) Net ar Fuddsoddiadau | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.19 £ | Cyfanswm 31.3.18 £ |
|---|---|---|---|---|
| Enillion / (Colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd | 2,020 | 2,880 | 4,900 | (2,244) |
| Enillion / (Colledion) ar Eiddo Buddsoddi | - | 105,100 | 105,100 | 353,185 |
| Cyfanswm Enillion / (Colledion) Net | 2,020 | 107,980 | 110,000 | 350,941 |

### a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFNEWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

| Buddsoddiadau a Restrwyd neu a Fasnachwyd ar Gyfnewidfa Stoc Gydnabyddedig | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cronfeydd Gwaddol £ | Cyfanswm 31.3.19 £ | Cyfanswm 31.3.18 £ |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth ar y Farchnad | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 106,313 | 152,266 | 258,579 | 260,824 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailbrisio | 2,021 | 2,880 | 4,901 | (2,245) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 108,334 | 155,146 | 263,480 | 258,579 |

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Cyffredin Charinco a Charishare gyda daliadau bach mewn stociau gilt ac ecwiti.

Dangosir buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad. Eu gwerth hanesyddol yw £67,029.

### b. EIDDO BUDDSODDI

| Eiddo Buddsoddi | 31.3.19 £ | 31.3.18 £ |
|---|---|---|
| Gwerth ar y Frachnad ar 1 Ebrill | 2,599,600 | 2,416,550 |
| Ychwanegiadau | - | - |
| Gwarediadau | (160,000) | (132,500) |
| Amhariad | - | - |
| Enillion / (Colledion) Ailbrisio | 106,200 | 315,550 |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Gwerth Net ar Bapur ar 31 Mawrth | 2,545,800 | 2,599,600 |

Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 13 o anheddau fferm a 2 parsel o dir, gyda chyfanswm arwynebedd o 1,135.03 erw. Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd tyddyn Bryn Llwyd, gan arwain at incwm cyfalaf o £159k. Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth fân golled o £1k ar y gwerthiant hwn oherwydd ei fod wedi cael ei ailbrisio ar sail Ased a Ddelir i'w Werthu ym

mis Mawrth 2018 gan ddisgwyl ei werthu yn ystod 2018/19. Gwnaeth cwblhau'r rhaglen adnewyddu arwain at wariant o £100k ar atgyweirio a chynnal a chadw.

Prisiwyd yr Ystâd ym Mawrth 2019 ar sail defnydd presennol gan Barry Wyn Jones, Prisiwr Mewnol Ystadau Cyngor Sir Ynys Môn a chyfanswm y gwerth oedd £2,545,800.

## 8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Dyledwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 31.3.19<br>£ | 31.3.18<br>£ |
|---|---|---|
| Symiau y gellir eu hadennill ar gontract | 105,982 | 97,250 |
| Darpariaeth ar gyfer drwgddyledion | (35,466) | (34,141) |
| Cyfanswm Dyledwyr | 70,516 | 63,109 |

Penderfynwyd yn 2017/18 y byddai'n ochelgar creu darpariaeth ar gyfer drwg-ddyledion oherwydd cyfanswm y dyledion hanesyddol oedd wedi cronni. Fodd bynnag, mae ymdrechion i gasglu'r symiau sy'n ddyledus gan cyn-denantiaid wedi cynyddu'n ddiweddar.

## 9. ARIAN YN Y BANC

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

| Arian yn y Banc | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3<br>£ | Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3<br>£ | Stâd Elusennol David Hughes<br>£ | Cyfanswm 31.3.19<br>£ | Cyfanswm 31.3.18<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Arian yn y Banc | 206,504 | 141,500 | 24,677 | 372,681 | 218,570 |
| Adneuon Banc | 206,504 | 141,500 | 24,677 | 372,681 | 218,570 |

## 10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN BLWYDDYN

| Credydwyr: Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | Cronfeydd Cyfyngedig<br>£ | Cronfeydd Gwaddol<br>£ | Cyfanswm 31.3.19<br>£ | Cyfanswm 31.3.18<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Credydwyr eraill | (1,685) | (13,742) | (15,427) | (15,824) |
| Cyfanswm Credydwyr | (1,685) | (13,742) | (15,427) | (15,824) |

## 11. SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD

**a.**

| Symudiadau mewn Cronfeydd | 1.4.18<br>£ | Symudiad Net mewn Cronfeydd<br>£ | 31.3.19<br>£ |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 278,672 | 440 | 279,112 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 170,945 | 4,596 | 175,541 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 449,617 | 5,036 | 454,653 |
| Stâd Elusennol David Hughes | 2,674,417 | 107,980 | 2,782,397 |
| Cronfeydd Gwaddol | 2,674,417 | 107,980 | 2,782,397 |
| | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 3,124,034 | 113,016 | 3,237,050 |

**b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod, fel a ganlyn:**

| Symudiadau Net mewn Cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod: | Adnoddau Incwm<br>£ | Gwariant<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Enillion a Cholledion<br>£ | Symudiad mewn Cronfeydd<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 | 3,289 | (5,620) | 1,405 | 1,366 | 440 |
| Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 | 1,751 | (620) | 2,811 | 654 | 4,596 |
| Cronfeydd Cyfyngedig | 5,040 | (6,240) | 4,216 | 2,020 | 5,036 |
| Stâd Elusennol David Hughes | 125,970 | (121,754) | (4,216) | 107,980 | 107,980 |
| Cronfeydd Gwaddol | 125,970 | (121,754) | (4,216) | 107,980 | 107,980 |
| | | | | | |
| Cyfanswm Cronfeydd | 131,010 | (127,994) | - | 110,000 | 113,016 |

## 12. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

### Treuliau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2019 nac y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler Nodyn 13 (Datgeliadau Parti Perthynol) mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol ar gyfer costau eiddo a gweinyddu ariannol.

## 13. DATGELIADAU PARTI PERTHYNOL

### Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi rheoli eiddo o £9,372 (£8,891 yn 2017/18) gan y Cyngor i weinyddu Ystâd David Hughes. Yn ogystal, codwyd ffi rheoli ariannol o £3,180 (£2,986 yn 2017/18) ar yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gweinyddiaeth ariannol a chynhyrchu cyfrifon. Felly, roedd cyfanswm y ffioedd a adenillwyd gan y Cyngor yn £12,552.

Oherwydd natur gweithrediadau'r elusen a gan mai unig ymddiriedolwr yr elusen yw Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i weithwyr.  Cynhelir yr holl drafodion y gall Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt o hyd braich.  Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cynghorydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os bydd trafodyn yn ymwneud â pharti cysylltiedig yn digwydd.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28/10/19** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD AWST 2017 – MAWRTH 2019** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD RICHARD DEW** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **DYLAN J. WILLIAMS** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>2420<br>E-bost:<br>dfjpl@ynysmon.gov.uk | **DEWI FRANCIS JONES** |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'n ofynnol i'r Cynghorau gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2019

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae'n rhaid i bob Cynllun Datblygu Leol gynnwys fframwaith fonitro. Ceir fframwaith fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ym mhennod 7 y Cynllun. Mae fframwaith fonitro wedi ei fabwysiadu i lywio canfyddiadau yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB).

1.2 Mae adroddiad monitro blynyddol yn cofnodi casgliadau gwaith monitro gweithredu strategaeth a pholisïau cynllun rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Mae angen, fel arfer, i gyhoeddi adroddiad monitro blynyddol cyntaf erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn yn dilyn mabwysiadu cynllun datblygu lleol. Ond, ni ellir hynny ddigwydd pan fydd llai na 12 mis rhwng dyddiad mabwysiadu cynllun a 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Mewn achos fel hwn dylid ei gyflwyno erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn ddilynol. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ei fabwysiadu diwedd Gorffennaf 2017. Felly, er mwyn cael blwyddyn ariannol gyflawn, dyma'r cyfle cyntaf i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru. Gellir gweld Cyd-Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol Awst 2017 - Mawrth 2019 (Drafft) yn Atodiad 1.

1.3 Mae monitro'n ddolen adborth allweddol o fewn y broses gylchol o lunio polisïau cynaliadwy. Dros gyfnod o amser fe ddylai'r broses fonitro adnabod yr heriau a'r

cyfleoedd allweddol a’r dulliau posib i adolygu ac addasu polisïau lleol.

1.4 Mae’r gofynion deddfwriaethol allweddol mewn perthynas â monitro ac adolygu fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (Adran 61) | mae’n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol **adolygu'r materion** y gellir disgwyl iddynt effeithio ar ddatblygiad eu hardal. |
| Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (Adran 76) a Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol Adran 37 | maent yn datgan bod rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyhoeddi a chyflwyno ‘**Adroddiad Monitro Blynyddol’** sy'n nodi sut y cyflawnir amcanion y cynllun, neu beidio (erbyn 31 Hydref bob blwyddyn) i Lywodraeth Cymru. |
| Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 (Adran 69 (1)) a Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol Adran 41 (1) | gyda'i gilydd maent yn datgan bod **rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol dim hwyrach na 4 blynedd** o ddyddiad y mabwysiadu. |
| Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol Adran 41 | dywed rhaid wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol gymeradwyo drwy benderfyniad adroddiad am yr adolygiad a baratowyd yn unol ag adran 69(1) a cyn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru yn unol ag adran 69(2). Dylid cyflwyno **'Adroddiad adolygu'** i Lywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddechrau’r broses adolygu. |
| Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol | maent yn ei gwneud yn ofynnol i’r monitro **adnabod effeithiau andwyol** na ragwelwyd a galluogi camau adferol priodol i'w cymryd. |

**2.10 Casgliadau Allweddol yr Adroddiad Monitro Blynyddol (Awst 2017 – Mawrth 2019)**

**Mae Casgliadau Allweddol yr AMB fel a ganlyn:**

a) Defnyddiwyd Polisi PS1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig mewn apêl cynllunio yn gynnar wedi i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gael ei fabwysiadu i

wrthod apêl am 366 o dai ym Mangor gan nad oedd yr Arolygydd Cynllunio'n ystyried bod digon o dystiolaeth wedi'i chyflwyno i brofi na fyddai effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, a hynny'n groes i Bolisi Strategol PS1.

b) Dengys Cyd-astudiaeth ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2019 a 2018 y cwblhawyd 1,010 o gartrefi yn ystod y cyfnod monitro (462 o unedau yn 2017-18 a 548 o unedau yn 2018-19)[1]

c) Mae JHLAS 2019 yn amlinellu bod gan y Cynghorau gyflenwad tir ar gyfer tai o 5.3 mlynedd sy'n uwch na'r pum mlynedd sy'n ofynnol yn Nodyn Cyngor Technegol 1

d) Mae 55% o'r unedau tai[2] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 23% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 22% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored sy'n unol â strategaeth ofodol y Cynllun.

e) Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 543 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod yr AMB h.y. safleoedd nad oedd â chaniatâd ar y diwrnod y mabwysiadwyd y Cynllun.

f) Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 202 o dai fforddiadwy yn ystod cyfnod yr AMB.

g) O'r 56 o unedau tai sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u cwblhau yn ystod cyfnod yr AMB, mae 35 o'r rhain yn unedau fforddiadwy. Mae hyn gyfystyr â 62.5% o'r unedau hyn.

h) Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2017-19), mae 348 o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.

i) Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod y cyfnod AMR yw 29.3 o unedau fesul hectar.

j) Cwblhawyd 254 o unedau tai fforddiadwy yn 2017-19. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2018/19 (193 o unedau) o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.

k) Caniatawyd chwe safle eithrio tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol.

l) Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddwy uned marchnad leol yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. Ni chwblhawyd unrhyw unedau marchnad leol.

m) Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu tri Canllaw Cynllunio Atodol o fewn cyfnod yr AMB, ac mae pump arall yn nesáu at gael eu mabwysiadu neu ar y gweill

n) Derbyniodd y Cynghorau 62 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro. Cafodd 74% o'r rhain eu gwrthod. Nid oedd yr apeliadau a ganiatawyd yn tanseilio polisïau allweddol y Cynllun.

o) Cyflwynwyd cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu gan gwmni Horizon er mwyn datblygu gorsaf niwclear newydd, yn mis Mehefin, 2018 a cynhaliwyd archwiliad cyhoeddus.

p) Cyhoeddodd Hitachi ei bod yn bwriadu oedi gyda'r bwriad o ddatblygu'r Orsaf Niwclear Newydd, fodd bynnag cadarnhaodd Horizon ei fod am barhau i roi

---

[1] Gan bod y data'n cael ei gasglu'n flynyddol, mae'r ffigwr ar gyfer y cyfnod 2017-2018 yn berthnasol ar gyfer 1af Ebrill i 31ain Mawrth. Mae'r ffigwr cyfanswm yn berthnasol felly i'r cyfnod 1af Ebrill 2017 – 31ain Mawrth 2019 sydd yn hwy na chyfnod yr AMB hwn.

[2] Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

adnoddau o’r neilltu i sicrhau bod y broses archwilio’r cais yn cael ei gyflawni a disgwylir penderfyniad diwedd Hydref 2019.

q) Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 54Mw o fewn ardal y CDLl ar y Cyd.

r) Ar y cyfan, mae'r dangosyddion yn awgrymu bod y Cynllun yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau ac yn y cyfnod cynnar hwn ni nodwyd unrhyw bolisïau fel rhai sy'n methu â chyflawni amcanion y Cynllun.

## 3.0 Adolygu’r Cynllun

3.1 Mae tabl isod yn rhoi mwy o ddisgrifiad o drothwyon ar gyfer cynnal adolygiad o’r Cynllun:

Tabl 4: Trothwyon i adolygu’r Cynllun

| | | |
|---|---|---|
| **Adolygiad statudol** | | |
| 1 | Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004 – rhan 69 a Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol rhan 41 (1) | Adolygiad statudol dim mwy na phob 4-blynedd o ddyddiad y mabwysiadu. |
| **Trothwyon i gynnal adolygiad cyn yr adolygiad statudol – mae amgylchiadau’n effeithio ar gadernid y cynllun** | | |
| 2 | Casgliadau’r Adroddiad Monitro Blynyddol dros gyfnod o amser | Pryderon sylweddol yn ymwneud â gweithredu strategaeth y cynllun, gan gynnwys effeithiolrwydd polisi, cyfraddau cynnydd a gweithredu yn unol â thueddiadau a gofnodir. |
| 3 | Newidiadau mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth | Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol a / neu ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y cynllun strategaeth / polisïau allweddol. |
| 4 | Newid cyd-destunol | Newid sylweddol yn y cyd-destun mae’r cynllun gweithredu o'i fewn. |
| 5 | Rhan 61 Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004 | Canlyniadau annisgwyl a sylweddol o dystiolaeth a gasglwyd drwy arolygon a ddiweddarwyd sy’n effeithio ar weithredu strategaeth y cynllun. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

3.2 Ar ôl paratoi cyfres o Adroddiadau Monitro Blynyddol, a fydd yn dangos os ydi'r Cynllun yn, neu beidio, cyflawni ei amcanion, neu os cyrhaeddir 4 mlynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, bydd rhaid i'r Cynghorau ystyried sut maent yn mynd i adolygu'r Cynllun, er mwyn paratoi cynllun amgen. Bydd rhaid cyflwyno'r Adroddiad Adolygu i Lywodraeth Cymru o fewn 6 mis o'r broses adolygu gan ddweud os fydd yr adolygiad yn un llawn, h.y. cynllun newydd, neu broses adolygiad byr.

3.3 Yn achos y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, bydd rhaid i'r ddau Gyngor gydymffurfio gyda'r broses monitro ac adolygiad. Mae'n rhaid i'r ddau Gyngor adolygu'r Cynllun; ni ellir ei wneud ar sail unochrog gan Gyngor unigol.

3.4 Pan benderfynir pa fath o adolygiad sy'n angenrheidiol, **bydd rhaid dilyn camau sydd yn y Rheoliadau, sy'n cynnwys paratoi drafft, ymgynghoriad cyhoeddus ac archwiliad cyhoeddus cyn gellir mabwysiadu cynllun newydd neu gynllun diwygiedig**.

3.5 O ystyried casgliadau allweddol yr AMB cyntaf hwn (gweler para 2.10) **nid oes tystiolaeth sy'n dangos bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun. Felly, bydd yr adolygiad o'r Cynllun yn cael ei gynnal yn 2021 oni bai bod AMB yn y dyfodol yn nodi fel arall**

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| I dderbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a chynnig cyngor arno |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| |

| |
|---|
| Dim yn berthnasol |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd | Rhoddwyd y Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd mewnbwn a chyngor ar yr Adroddiad Monitro ar 06/09/19 |
| **2** | Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Fe dderbyniwyd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar 30-09-19 |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Awst 2017 – Mawrth 2019 |

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Ynys Môn
# 2011-2026

## ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNTAF
## 1 AWST 2017 – 31 MAWRTH 2019

**CYNNWYS**


**Crynodeb Gweithredol**
**Pennod 1: Cyflwyniad**
**Pennod 2: Dadansoddi Newid Cyd-Destunol Arwyddocaol**
**Pennod 3: Dadansoddiad o Ddangosyddion**

- **6.1 Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog**
- **6.2 Byw'n Gynaliadwy**
- **6.3 Economi ac Adfywio**
- **6.4 Cyflenwad ac Ansawdd Tai**
- **6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig**


**Pennod 4: Casgliadau ag Argymhellion**

**Atodiad 1: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd**
**Atodiad 2: Cydymffurfiaeth y CDLl ar y Cyd a'r Deddf Llesiant (2015)**
**Atodiad 3: Dosbarthiad Caniatadau Preswyl**


DRAFFT

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

i. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




ii. Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 69 o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae'n cynnwys cyfres o dargedau hefyd ac yn diffinio trothwyon sy'n sbardunwyr i arwain at weithredu pellach, pan fydd angen hynny. Cafodd y Fframwaith Monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a gafodd ei ystyried yn yr Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLl ar y Cyd.

iii. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu, mae'n rhaid i'r Cynghorau baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Y Fframwaith Monitro yw sylfaen yr AMB. Bydd yr

AMB yn cofnodi'r gwaith o asesu'r dangosyddion ac unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar weithredu'r CDLl ar y Cyd. Dros gyfnod amser mae'n gyfle i'r Cynghorau asesu effaith y CDLl ar y Cyd ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun.

iv. Hwn yw'r AMB cyntaf i gael ei baratoi ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu gan fod angen i'r Cynllun fod yn weithredol am flwyddyn ariannol gyfan cyn paratoi'r AMB cyntaf.

v. Felly, mae'r AMB hwn yn edrych ar gyfnod o ddyddiad mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (31 Gorffennaf 2017) tan 31 Mawrth 2019, ac mae gofyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref 2019. Bydd AMBau dilynol yn cael eu selio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill hyd at 31 Mawrth.

vi. At ei gilydd, oherwydd mai dim ond ychydig dros flwyddyn a hanner sydd wedi mynd heibio ers pryd mae'r CDLl ar y Cyd yn weithredol ar gyfer gwneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, cyfyngedig ei natur yw effaith y CDLl ar y Cyd ar hyn o bryd a rhagarweiniol yw unrhyw gasgliadau mor gynnar â hyn yng nghyfnod gweithredu'r Cynllun. Mae'r AMB hwn yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr ac yn darparu llinell sylfaen i ddadansoddiadau cymharol yn y dyfodol ac ar sail hynny bydd AMBau olynol yn gallu dangos tueddiadau sy'n datblygu dros amser.

vii. Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| Symbol | Disgrifiad | Nifer o Dangosyddion |
|---|---|---|
| ✓ | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 35 |
| – | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 32 |
| X | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 1 |
| ○ | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. | 1 |

DRAFT

viii. Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu’r dangosyddion yn y tabl canlynol:

**Tabl A: Crynodeb o gasgliadau’r asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro**

| Asesiad | Gweithred | Nifer o ddangosyddion yn y categori |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu’n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro | 64 |
| Asesiad o’r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y’i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod | 1 |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i’r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio’n agos gyda’r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble’n berthnasol. | |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. | |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Adolygu’r polisi yn unol â hynny | |
| Asesiad yn awgrymu nad yw’r strategaeth yn cael ei weithredu | Adolygu’r Cynllun | |

ix. Fel y gwelir uchod, nid yw mwyafrif y dangosyddion angen unrhyw weithred pellach ar wahân i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi eu lliwio mewn llwyd gan eu bod wedi eu cyflawni ac felly nid oes angen unrhyw weithredu pellach ac o’r herwydd nid ydynt wedi eu nodi uchod.

x. Mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud â pharatoi’r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), a gweler nad yw’r gyfres o CCA wedi eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, cofnodir rhesymau i gyfiawnhau’r oedi wrth baratoi'r CCA a dangosir byddant yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ble fo dangosydd yn ymwneud â CCA sydd wedi ei fabwysiadu mae’r weithred wedi ei liwio’n llwyd gan nad yw unrhyw weithredu pellach yn angenrheidiol mewn perthynas â’r dangosydd.

xi. Wrth asesu perfformiad y CDLl ar y Cyd, yn ogystal ag ystyried y dangosyddion, mae rhaid i'r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLl ar y Cyd.

xii. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r dogfennau allweddol a gafodd eu hystyried:

| **Dogfen** |
|---|
| **Cenedlaethol** |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 |
| Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg (NCT 20) (Hydref 2017) |
| Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Hydref 2017) |
| Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Datgymhwyso dros dro ym mharagraff 6.2 (Gorffennaf 2018) |
| Polisi Cynllunio Cymru (PCC): Rhifyn 10 (Rhagfyr 2018) |
| CLlC 005/2018: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn |
| Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Mehefin 2018) |
| Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru (Rhagfyr 2017) |
| **Rhanbarthol** |
| Cais Bargen Twf Gogledd Cymru |
| **Lleol** |
| Cynlluniau Llesiant Lleol |
| Ardoll Seilwaith Cymunedol |

DRAFT

**Casgliadau Allweddol yr AMB**

- Defnyddiwyd Polisi PS1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig mewn apêl cynllunio yn gynnar wedi i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu i wrthod apêl am 366 o dai ym Mangor gan nad oedd yr Arolygydd Cynllunio'n ystyried bod digon o dystiolaeth wedi'i chyflwyno i brofi na fyddai effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Dengys Cyd-astudiaeth ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2019 a 2018 y cwblhawyd 1,010 o gartrefi yn ystod y cyfnod monitro (462 o unedau yn 2017-18 a 548 o unedau yn 2018-19)[1]
- Mae JHLAS 2019 yn amlinellu bod gan y Cynghorau gyflenwad tir ar gyfer tai o 5.3 mlynedd sy'n uwch na'r pum mlynedd sy'n ofynnol yn Nodyn Cyngor Technegol 1
- Mae 55% o'r unedau tai[2] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 23% o'r

1 Gan fod y data'n cael ei gasglu'n flynyddol, mae'r ffigwr ar gyfer y cyfnod 2017-2018 yn berthnasol ar gyfer 1af Ebrill i 31ain Mawrth. Mae'r ffigwr cyfanswm yn berthnasol felly i'r cyfnod 1af Ebrill 2017 - 31ain Mawrth 2019 sydd yn hwy na chyfnod yr AMB hwn.

2 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 22% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored sy'n unol â strategaeth ofodol y Cynllun..

- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 543 o unedau tai newydd yn ystod cyfnod yr AMB h.y. safleoedd nad oedd â chaniatâd ar y diwrnod y mabwysiadwyd y Cynllun.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 202 o dai fforddiadwy yn ystod cyfnod yr AMB.
- O'r 56 o unedau tai sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u cwblhau yn ystod cyfnod yr AMB, mae 35 o'r rhain yn unedau fforddiadwy. Mae hyn gyfystyr â 62.5% o'r unedau hyn.
- Yng nghyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol (2017-19), mae 348 o unedau tai wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
- Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod y cyfnod AMB yw 29.3 o unedau fesul hectar.
- Cwblhawyd 254 o unedau tai fforddiadwy yn 2017-19. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2018/19 (193 o unedau) o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.
- Caniatawyd chwe safle eithrio tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddwy uned marchnad leol yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. Ni chwblhawyd unrhyw unedau marchnad leol.
- Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu tri Canllaw Cynllunio Atodol ac mae pump arall yn nesáu at gael eu mabwysiadu neu ar y gweill
- Derbyniodd y Cynghorau 62 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro. Cafodd 74% o'r rhain eu gwrthod. Nis oedd yr apeliadau â ganiatawyd yn tanseilio polisiau allweddol y cynllun.
- Cyflwynwyd cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu gan gwmni Horizon er mwyn datblygu gorsaf niwclear newydd, ym mis Mehefin, 2018 a chynhaliwyd archwiliad cyhoeddus.
- Cyhoeddodd Hitachi ei bod yn bwriadu oedi gyda'r bwriad o ddatblygu'r Orsaf Niwclear Newydd, fodd bynnag cadarnhaodd Horizon ei fod am barhau i roi adnoddau o'r neilltu i sicrhau bod y broses archwilio'r cais yn cael ei gyflawni a disgwylir penderfyniad diwedd Hydref 2019.
- Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 54Mw o fewn ardal y CDLl ar y Cyd.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

Diben CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r

Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Cynllun.

Mae Atodiad 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys tabl o'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi/neu a fydd yn cael eu paratoi ynghyd a'r amserlen a ragwelwyd ar gyfer y gwaith o'i baratoi. Nodir fod yr amserlen yn gysylltiedig â pharatoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi llithro, mae'r rhesymau dros y llithriad yn yr amserlen yn cynnwys:

- Y drefn o adrodd a chymeradwyo'r CCA wedi bod yn destun craffu/sgriwtini o fewn y Cynghorau sydd wedi ychwanegu at yr amserlen.
- Y broses o baratoi (ymgysylltu mewnol ac allanol) wedi cymryd hirach na'r amserlen a ragwelwyd.
- Diffyg adnoddau/capasiti o fewn yr Uned.
- Diffyg galw am y Canllaw yn sgil cyhoeddi arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â thestun y Canllaw.


Mae rhai o'r dangosyddion monitro yn benodol ymwneud a pharatoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol, gweler Pennod 3 er mwyn derbyn ychwaneg o wybodaeth mewn perthynas â statws Canllawiau Cynllunio Atodol penodol.

**Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd**

Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth mwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLl yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLl. Bydd y wybodaeth a gesglir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn darparu gwaelodlin ar gyfer dadansoddi a chymharu mewn Adroddiad Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

## PENNOD 1: CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl ar y Cyd) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun yn ystod oes y CDLl ar y Cyd (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




1.2 Mae Is-adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cynghorau'n cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) am eu CDLl ar y Cyd ar ôl ei fabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ardal y CDLl ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB. Bydd angen cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, cyn belled bod blwyddyn ariannol gyfan (1 Ebrill - 31 Mawrth) wedi mynd heibio ers dyddiad mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd.

1.3 Mae'r AMB cyntaf hwn yn cwmpasu'r cyfnod o ddyddiad mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (31 Gorffennaf 2017) tan 31 Mawrth 2019, ac mae gofyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref 2019. Bydd yr AMBau dilynol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn.

**Beth yw'r AMB?**

1.4 Mae'r AMB yn darparu cyfle i gofnodi asesiadau o faterion pwysig a allai ddylanwadu ar y gallu i gyflawni'r CDLl ar y Cyd a chasgliadau'r gwaith hwnnw, yn ogystal â hygrededd y CDLl ar y Cyd o safbwynt cynaliadwyedd. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLl ar y Cyd. Bydd gofyn bod y Cynghorau'n cynnal adolygiad ffurfiol o'r CDLl ar y Cyd bob 4 blynedd fan bellaf o'r adeg y cafodd y Cynllun ei fabwysiadu gyntaf. Casgliadau'r AMBau fydd sail yr adolygiad o'r CDLl ar y Cyd.

1.5 Y Fframwaith Monitro yw prif sylfaen yr AMB. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 69 o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau.

**Dangosyddion**

1.6 O dan Reoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) Cymru (Diwygiad) 2015, mae'n ofynnol bod yr AMB yn monitro'r dangosyddion craidd canlynol:

Tabl 1: Dangosyddion craidd

| **Dangosydd craidd a ragnodwyd yn Rheoliad 37** | **Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro** |
|---|---|
| Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerir o'r Astudiaeth gyfredol ar Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Mesurir hyn yn ôl y blynyddoedd o gyflenwad. | D43 |
| Nifer y tai fforddiadwy a marchnad agored ychwanegol a adeiladwyd yn ardal y CDLl ar y Cyd. Dylai hyn ddangos lefel y tai newydd a adeiladwyd, llai unrhyw dai a gafodd eu dymchwel, yn ystod cyfnod yr AMB ac ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu. | D44 |

1.7 Mae'r Fframwaith Fonitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cynghorau sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y CDLl ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

1.8 Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r nesaf. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

**Trothwyon**

1.9 Mae gan bob un o'r dangosyddion drothwy penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad

cronnol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith cyrhaeddir trothwy, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).

**Camau gweithredu**

1.10 Mae'r Fframwaith Monitro'n nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg rhifol neu ganlyniadau annisgwyl. Nid yw o reidrwydd yn wir, fodd bynnag, y byddai methiant i gyflawni targed penodol yn cael ei ddehongli fel methiant polisi a fyddai'n awtomatig yn golygu bod y polisi hwnnw (neu'r Cynllun yn gyfan) yn destun adolygiad.

1.11 Mae Tabl 2 isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro ac fe'u nodir yn y Fframwaith Monitro sydd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd. Mae sawl opsiwn posibl i helpu i ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml, a ddangosir yn Nhabl 3 isod, i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

**Tabl 2: Camau gweithredu posibl**

| Asesiad | Gweithred |
|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Arolygu'r polisi yn unol â hynny |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Arolygu'r Cynllun |

DRAFT

**Tabl 3: Symbolau monitro**

| | |
|---|---|
| ✓ | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| — | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| X | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
| | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. |

**Adolygu'r Cynllun**

**1.12** Bydd y Cynghorau'n rhoi ystyriaeth i gasgliadau cyfres o AMBau wrth ddod i benderfyniad yng nghylch a oes angen adolygu'r Cynllun (yn rhannol neu'n llawn) cyn cyfnod statudol o 4 blynedd. Mae Tabl 4 isod yn cyfeirio at esiamplau o drothwyon allai fod yn sbardun ar gyfer cynnal adolygiad cyn y cyfnod adolygiad statudol.

**Tabl 4 – trothwyon i gynnal adolygiad cyn yr adolygiad statudol**

| **Trothwyon i gynnal adolygiad cyn yr adolygiad statudol – mae'r amgylchiadau'n effeithio ar gadernid y cynllun** | | |
|---|---|---|
| 1 | Casgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol | Pryderon sylweddol dros gyfnod o amser yn ymwneud â gweithredu strategaeth y cynllun, gan gynnwys effeithiolrwydd polisi, cyfraddau cynnydd a gweithredu yn unol â thueddiadau a gofnodir. |
| 2 | Newidiadau mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth | Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol a / neu ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y cynllun strategaeth / polisïau allweddol. |
| 3 | Newid cyd-destunol | Newid sylweddol yn y cyd-destun mae'r cynllun yn gweithredu o'i fewn. |
| 4 | Rhan 61 Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004 | Canlyniadau annisgwyl a sylweddol o dystiolaeth a gasglwyd drwy arolygon a ddiweddarwyd sy'n effeithio ar weithredu strategaeth y cynllun. |

DRAFT

**Strwythur a chynnwys**

1.13 Dyma strwythur gweddill yr AMB hwn.

**Tabl 5: Strwythur yr AMB**

| Pennod | | Cynnwys yn fras |
|---|---|---|
| 2 | Dadansoddi newid cyd-destunol sylweddol | Crynodeb ac adolygiad o faterion cyd-destunol ehangach o fewn yr hyn mae'r CDLl yn gweithredu ynddo, e.e. deddfwriaeth/ strategaethau/polisïau allanol. |
| 3 | Dadansoddiad o ddangosyddion | Manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro Dangosyddion y CDLl ar y Cyd (yn nhrefn y CDLl ar y Cyd) |
| 4 | Casgliad ac argymhellion | Adnabod newidiadau gofynnol i'r cynllun yn ystod adolygiad statudol neu a sbardunwyd yn gynharach, os yw'n briodol. |
| 5 | Atodiadau | 1. Canlyniadau dangosyddion Asesiad Cynaliadwyedd - Yn ymwneud â'r Adroddiad AC a'r asesiad integredig.<br>2. Cydymffurfiaeth y CDLl ar y Cyd a'r Ddeddf Llesiant (2015) |

1.14 Dylai strwythur yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn ei gwneud yn rhwydd i gymharu un gyda'r llall. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth ystadegol a ffeithiol a gyrchir gan y Cynghorau a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu beidio bod yn gyfoes. Yn unol â hynny, efallai y bydd AMB dilynol yn gorfod nodi unrhyw ystyriaethau o'r math hwn.

## PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL ARWYDDOCAOL

2.1 Yn ystod y cyfnod monitro, mae nifer o ddogfennau polisi/canllawiau newydd ac wedi'u diweddaru wedi cael eu cyhoeddi, ac mae deddfwriaeth wedi cael ei chyflwyno. Mae'n bwysig deall y gwahanol ffactorau a all effeithio ar berfformiad y CDLl ar y cyd, o'r lefelau byd-eang a chenedlaethol, i lawr i bolisïau a chanllawiau lleol y Cynghorau eu hunain. Mae rhai newidiadau yn amlwg yn hollol allan o reolaeth y Cynghorau. Mae'r Bennod hwn yn rhoi trosolwg cryno o'r deunydd cyd- destunol perthnasol a gafodd ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'n cynnwys deddfwriaeth cenedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl ar gyfer y CDLl ar y cyd yn ei gyfanrwydd lle y bo'n briodol. Mae tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd ers i'r CDLl ar y cyd gael ei fabwysiadu hefyd yn cael eu hadnabod. Rhoddir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLl ar y cyd yn adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac felly nid yw'n cael ei ailadrodd yma.

### Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL

### NEWIDIADAU I DEDDFWRIAETH

#### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.2 Er mai dyddiad y Ddeddf hon yw 2015, daeth i rym ar ôl i'r CDLl ar y Cyd gael ei gyflwyno i'w archwilio (Ebrill 2016). Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1af Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru drwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i waith y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â nifer o nodau llesiant gan gynnwys gwella iechyd, diwylliant, treftadaeth a defnyddio adnoddau mewn dulliau cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol, sy'n disodli'r Cynlluniau Integredig Sengl.

2.3 Gan y cyflwynwyd y CDLl ar y Cyd i Ymchwiliad cyn mis Ebrill 2016, nid oedd yn rhaid iddo gyd-fynd yn uniongyrchol â'r nodau llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn unol â gofyniad yr Arolygydd Cynllunio, dangosodd y Cynghorau yn ystod yr Ymchwiliad bod y CDLl ar y Cyd yn alinio â'r nodau llesiant sydd wedi'u nodi. O ystyried mai datblygiad cynaliadwy yw egwyddor graidd y CDLl ar y Cyd (a'r AAS), mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLl a'r Ddeddf/Cynlluniau Llesiant Lleol. Wrth symud ymlaen, bydd egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r nodau llesiant yn hysbysu'r gwaith o fonitro'r Cynllun ac unrhyw adolygiad diweddarach o'r Cynllun (gweler hefyd 2.34 isod).

#### Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.4 Cafodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 ac fe ddaeth i rym mewn camau rhwng mis Hydref 2015 a mis Ionawr 2016. Er ei bod mewn grym cyn i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu a chyn yr ymchwiliad cyhoeddus, ystyrir ei bod yn ddefnyddiol cyfeirio ati gan ei bod yn darparu'r sail ar gyfer newidiadau cyd-destunol eraill sydd angen eu hystyried yn ystod y camau monitro. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDS). Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gynllun defnydd

tir cenedlaethol, a hwn fydd yn gosod polisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru. Rhagwelir y bydd Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn cael ei gynhyrchu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019. Y nod yw mabwysiadu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol erbyn mis Medi 2020. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod CDLl yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Darperir gwybodaeth bellach yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol dilynol ar unrhyw oblygiadau ar gyfer y CDLl ar y Cyd neu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu cynnig i ymdrin â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol. Ar hyn o bryd, nid oes penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â pharatoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru. Pe byddai Cynllun Datblygu Strategol yn cael ei baratoi ar gyfer ardal Gogledd Cymru, byddai'n rhaid monitro'r gwaith o'i baratoi a'i ystyried mewn perthynas ag adolygiad o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol.

**NEWIDIADAU I BOLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL**

**Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r iaith Gymraeg (NCT 20) (Hydref 2017)**

2.5 Mae NCT 20 yn rhoi arweiniad ar ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan o broses paratoi cynlluniau datblygu lleol. Mae'r NCT 20 yn cynnwys cyngor ar ymgorffori'r iaith Gymraeg mewn cynlluniau datblygu trwy Asesiadau Cynaliadwyedd. Oni bai bod y datblygiad arfaethedig yn rhai mawr annisgwyl, ni ddisgwylir i geisiadau unigol gynnwys asesiad unigol oherwydd bydd materion a themâu allweddol wedi cael eu hystyried adeg paratoi cynllun. Mae'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer datblygiadau mawr annisgwyl mewn mannau lle mae'r iaith yn arbennig o arwyddocaol, ac mae'n cynnwys arweiniad am arwyddion a hysbysebion.

2.6 Yn unol â'r fersiwn blaenorol o'r NCT hwn, fe roddwyd ystyriaeth i'r iaith Gymraeg yn yr Asesiad Cynaliadwyedd ail- adroddol o'r CDLl ar y Cyd. Yn wahanol i ddisgwyliadau'r NCT 20 Hydref 2017, mae Polisi PS 1 yn CDLl ar y Cyd yn gosod disgwyliad priodol i geisiadau unigol sy'n cyrraedd trothwyon penodol gynnwys asesiad unigol a'i gyflwyno ar ffurf Datganiad Iaith Gymraeg efo'r cais cynllunio. Cafodd hynny ei gymeradwyo oherwydd yr angen i sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn gyson gyda'r materion a themâu allweddol a gafodd eu hystyried yn yr Asesiad Cynaliadwyedd adeg paratoi'r CDLl. Yn ogystal â hynny, mae'r dull hwn o weithio yn sicrhau bod effaith datblygiad ar yr iaith Gymraeg yn cael ei ystyried, pan mae'n berthnasol i'r cais cynllunio. Nid oes gan y ddogfen unrhyw effaith uniongyrchol cyfredol ar gyfer y CDLl ar y Cyd, gan fod polisi PS1 sydd yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol yn sicrhau ystyriaeth o'r iaith wrth wneud penderfyniadau, pan fo'n berthnasol i'r cais.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Hydref 2017)**

2.7 Mae TAN 24 yn rhoi arweiniad ar sut mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynllun datblygu a gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Asesiadau Effaith Treftadaeth, cyngor newydd ar Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig a chadarnhau cyngor a gafwyd yn flaenorol mewn amrywiaeth o ddogfennau. Nid oes gan y ddogfen unrhyw oblygiadau uniongyrchol cyfredol ar gyfer y CDLl ar y Cyd, ond mae'n dylanwadu ar gynnwys Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig: Asedau Treftadaeth.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 1: Dad-weithredu paragraff 6.2 (Gorffennaf 2018)**

2.8 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad chwe wythnos ar ddad-weithredu paragraff 6.2 (dros dro) NCT 1, Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai ym mis Mai/Mehefin 2018. Mae paragraff 6.2 yn ymwneud â'r ffigwr cyflenwad tir ar gyfer tai yn

cael ei drin fel ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a lle mae'r cyflenwad tir yn is na phum mlynedd, dylid rhoi pwys sylweddol ar yr angen i gynyddu'r cyflenwad.

2.9 Yn dilyn yr ymgynghoriad, cadarnhawyd dad-weithrediad y paragraff ar 18 Gorffennaf 2018. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar 'Darparu Tai Drwy'r System Gynllunio', gan chwilio am ffyrdd newydd lle y gallai gofynion tai a chyflawni gael eu cyfrifo a'u monitro. Mae NCT 1 a Pholisi Cynllunio Cymru yn parhau i ofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynnal cyflenwad pum mlynedd. Nid yw dad-weithrediad paragraff 6.2 yn cael unrhyw ganlyniadau uniongyrchol ar y CDLl ar y Cyd.

**Polisi Cynllunio Cymru (PCC): Rhifyn 10 (Rhagfyr 2018)**

2.10 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn golygu bod Polisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddaru i ddarparu gofynion y Ddeddf. Mae wedi'i ailstrwythuro i themâu polisi ynghylch nodau llesiant a diweddariadau polisi i adlewyrchu strategaethau a pholisïau newydd Llywodraeth Cymru. Elfen greiddiol ohoni yw'r 7 nod llesiant, ac mae'n nodi mai'r system gynllunio yw un o'r prif offerynnau ar gyfer creu mannau cynaliadwy, a bod egwyddorion creu lle yn offeryn i gyflawni hynny trwy lunio cynlluniau a'r broses o wneud penderfyniadau.

2.11 Nodwyd pedwar prif bennawd thematig, ac mae amrywiaeth o feysydd pwnc oddi mewn iddynt. Dyma'r penawdau thematig: Creu lle, Lleoedd Actif a Chymdeithasol, Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus, Lleoedd Trawiadol a Naturiol.

2.12 Caiff goblygiadau a gofynion sy'n deillio o'r Argraffiad hwn o Bolisi Cynllunio Cymru eu hystyried a'u trafod yn y rhannau sy'n ymwneud â'r meysydd monitro polisïau perthnasol. Bydd darpariaethau a chynnwys yr Argraffiad hwn neu ddiweddariad iddo yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r broses o baratoi CDLl ar y Cyd diwygiedig

**NEWIDIADAU CENEDLAETHOL ERAILL**

**Cylchlythyr 005/2018: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn**

2.13 Mae'r cylchlythyr yn adlewyrchu'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni'r anghenion llety ac yn darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr drwy'r system gynllunio.

2.14 Mae'n amlinellu sut all awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn.

**Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr: Mehefin 2018**

2.15 Mae'r Cynllun 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' wedi'i alinio â Strategaeth Genedlaethol 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru ac yn amlinellu hyd a lled y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod yr anghydraddoldebau sy'n cael eu profi gan y cymunedau hyn yn cael eu gostwng, mynediad i gyfleoedd yn cynyddu, a pherthnasau rhwng y cymunedau hyn a'r gymdeithas ehangach yn cael eu gwella.

2.16 Yn benodol, mae'r Cynllun yn ceisio adeiladu ar y gwaith a wnaed ers 2011 a chyflwyno ymrwymiadau mewn ardaloedd megis cyflogaeth a hyfforddiant, yn ogystal ag adeiladu pontydd â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r asiantaethau cyfiawnder troseddol.

2.17 Bydd angen ystyried cynnwys y cylchlythyr a'r Cynllun Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ynghyd â rôl y CDLl o ran bodloni anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLl Diwygiedig.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru (Rhagfyr 2017)**

2.18 Bwriad Cynllun Morol Cenedlaethol drafft Cymru yw cefnogi datblygiad cynaliadwy'r moroedd o amgylch Cymru, gan gwmpasu'r ardaloedd mewnforol ac oddi ar y lan yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n cyflwyno uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnydd adnoddau naturiol y môr yn y dyfodol, sut dylai amrywiol ddefnyddwyr y moroedd ryngweithio ac ystyried gweithgareddau ei gilydd a'u cynlluniau at y dyfodol. Ymgynghorwyd ar y cynllun drafft rhwng Rhagfyr 2017 ac Ebrill 2018.

**Y CYD- DESTUN RHANBARTHOL**

**Cais Bargen Twf Gogledd Cymru**

2.21 Ym mis Rhagfyr 2017 cyflwynodd Bwrdd Twf Gogledd Cymru (partneriaeth o Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach e.e. Addysg Uwch, Addysg Bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy) gais Bargen Twf i Lywodraethau Cymru a’r DU am arian prosiect £383m ar gyfer Gogledd Cymru.

2.22 Byddai'r cynigion yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad cyfan o £1.3 biliwn yn economi Gogledd Cymru, elw o £3.40 am bob punt gaiff ei wario. Disgwylir y gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu o’r buddsoddiadau posib o fewn y Fargen Twf ar draws Canolfannau Technoleg ac Arloesi, Safleoedd ar gyfer busnes, cysylltedd digidol, Sgiliau, Trafnidiaeth a chefnogaeth Busnes.

2.23 Dros y misoedd diwethaf mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r chwe awdurdod lleol, colegau a phrifysgolion a'r sector preifat - wedi llwyddo i sicrhau ymrwymiad o £240m gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

2.24 Mae’r Bwrdd yn dal i gynnal trafodaethau gyda’r ddwy lywodraeth ac yn eu hannog i fuddsoddi swm cyfalaf cyfatebol mwy i gefnogi Bargen Twf mwy beiddgar ac effeithiol fyth, yn ychwanegol at raglenni sectorau amgen a ffrydiau cyllid.

2.25 Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer rhoi ar waith y naw rhaglen flaenoriaeth - sy'n cynnwys 16 prosiect - a ffurfiodd Cais Twf Gogledd Cymru. Disgwylir y bydd y Fargen Twf derfynol yn ei lle yn ddiweddarach yn 2019 er mwyn i’r gwaith gychwyn ar brosiectau blaenoriaeth o 2020 ymlaen.

2.26 Mae’r CDLl ar y cyd yn cynnwys darpariaeth yn ei bolisïau a’i gynigion ar gyfer datblygiad cynaliadwy, gyda’r economi yn rhan bwysig o’r strategaeth. Bydd y cynnydd yn y Fargen Tŵf a goblygiadau dilynol ar gyfer y CDLl ar y cyd yn cael eu hystyried ymhellach mewn AMB dilynol lle y bo'n briodol.

**Y CYD- DESTUN LLEOL**

**CYNLLUNIAU LLEOL**

**Cynlluniau Llesiant Lleol**



DRAFT

2.27 Dywed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei bod yn ofynnol i'r Cynghorau, fel cynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, baratoi Cynllun Llesiant. Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol, daeth y Bwrdd i gasgliad ar brif negeseuon yn yr asesiad. Mae yna 9 brif neges.

1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach
2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
3. Deall effaith newidiadau demograffeg
4. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
5. Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor
6. Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
7. Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
8. Effaith tlodi ar lesiant
9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo

2.28 Cafodd Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn ei gwblhau gan osod allan y 9 prif neges uchod. Mae'r cynllun yn nodi 2 amcan llesiant sef Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir- dymor a Thrigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da. Mae 6 blaenoriaeth wedi cael eu hadnabod er mwyn gwireddu'r ddau amcan llesiant. Caiff y Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn, gan gynnwys unrhyw gynllun gweithredu ei fonitro i sicrhau cysondeb o ran pwrpas a chynnwys gyda'r CDLl ar y Cyd. Yn y cyswllt hwn, ystyrir a thrafodir y Nodau Llesiant Cenedlaethol a Nodau Llesiant y Cyngor fel rhan o ddadansoddiad cysondeb gyda nodau'r CDLl. Gwneir cyfeiriad yn Atodiad 2 yr AMB hwn at y berthynas hon.

**Ardoll Seilwaith Cymunedol**

2.29 Ym mis Tachwedd 2015, comisiynodd Llywodraeth San Steffan adolygiad cenedlaethol annibynnol o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) er mwyn:

*' Asesu i ba raddau mae CIL yn neu'n gallu darparu mecanwaith effeithiol ar gyfer ariannu seilwaith, ac i argymell newidiadau a fyddai'n gwella ffordd mae'n gweithio i gefnogi amcanion tai a thwf ehangach y Llywodraeth.'*

2.30 Edrychodd yr adolygiad ar faint o refeniw mae CIL yn creu, y mathau o ddatblygiad sy'n talu CIL, effeithiau ar hyfywedd, a sut mae cyfran y cymunedau o CIL yn cael ei weithredu. Cyflwynodd y grŵp adolygu annibynnol ei adroddiad ym mis Hydref 2016 ac fe gafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2017. Enw'r adroddiad ydi "A New Approach to Developer Contributions to Ministers". Roedd hwn yn argymell newidiadau i system Ardoll Seilwaith Cymunedol. Fel rhan o Ddeddf Cymru 2017, daeth CIL yn fater a ddatganolwyd gyda phwerau'n cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018.

2.31 Yn hyn o beth, mae angen Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau i ganiatáu i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth eilaidd bresennol. Ar ôl hynny, os fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i ailysgrifennu'r Rheoliadau CIL, yna mae'n bosibl bydd angen deddfwriaeth ychwanegol er mwyn caniatáu hynny ddigwydd. Fodd bynnag, hyd yma ni chadarnhawyd hyn.

2.32 O ystyried yr uchod, nid yw'n glir ar hyn o bryd sut fydd Llywodraeth Cymru yn dymuno delio efo CIL, ac yn benodol a ydynt am barhau gyda beth sydd yn y Rheoliadau CIL cyfredol, neu ydynt am ddatblygu gwelliannau penodol neu roi'r gorau iddo yn gyfan gwbl. Penderfynodd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Mon ym Medi 2018 i ohirio ymgymryd â’r gwaith a fyddai’n angenrheidiol i roi CIL yn ei le yn ardal y Cynllun hyd nes ceir dealltwriaeth glir am ddyfodol CIL yng Nghymru. Nodir hefyd yng nghyd-destun gwaith a wnaethpwyd yn rhanbarthol ar gyfer CIL bod tebygrwydd ân fyddai’n hyfyw i’w weithredu yn ardal y Cynllun.

**CASGLIAD**

2.33 Fel y nodir uchod, gwelwyd deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro hwn. Efallai bydd gan rhai ohonynt oblygiadau i waith y CDLl ar y cyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw’r un o’r newidiadau cyd-destunol a nodwyd hyd yma ddigon arwyddocaol i awgrymu bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun.




2.34 Bydd AMB dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar y materion cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithrediad y cynllun yn y dyfodol.

DRAFFT

**PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION**

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi asesiad a yw'r polisïau strategol a pholisïau ategol cysylltiedig y CDLl ar y cyd yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLl ar y cyd yn cael eu cyflawni. Mae'r tablau unigol yn y bennod hon yn rhoi casgliadau a chamau priodol (lle bo angen) i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro.

3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| Symbol | Disgrifiad |
|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. |

DRAFT

## 6.1 CYMUNEDAU DIOGEL, IACH, NODEDIG A BYWIOG

### Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

Mae'r Cynghorau wedi bod yn paratoi Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. Cafwyd cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Rhagfyr 2018 a Ionawr 2019 ac adroddwyd i'r Panel ar y Cyd ym mis Mawrth 2019, y sylwadau a dderbyniwyd yn sgil yr ymgynghoriad, ynghyd ac argymhellion swyddogion ar gyfer mân newidiadau i'r Canllaw. Nodir y comisiynwyd Ymgynghorwyr allanol aml-ddisgybledig i gynnal gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw, cyn mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus.

Bydd y Canllaw yma pan gaiff ei fabwysiadu yn rhoi arweiniad manwl gan gynnwys methodoleg newydd a thrylwyr ar gyfer paratoi Datganiadau ac Asesiadau Ieithyddol, fydd yn golygu bod ystyriaeth berthnasol yn cael ei roi tuag at yr iaith Gymraeg, lle bo'n berthnasol i'r cais.

Mae natur ceisiadau tai ar safleoedd o'r newydd sydd wedi cael caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun yn dangos canran sylweddol o dai fforddiadwy efo dros 60% o'r ceisiadau yma ar safleoedd ar gyfer plot unigol. Yn wir ar gyfer y 7 safle sydd efo 11+ o unedau tai mae 5 o'r rhain yn safleoedd wedi ei dynodi yn y Cynllun efo'r 2 safle arall yn darparu 100% tai fforddiadwy.

Golyga hyn fod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma, drwy baratoi canran uchel o dai fforddiadwy yn golygu bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

| **Dangosydd: D1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D1 - % Siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd | Datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd<br><br>(*Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiad newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau unigol ac ardal y* | **AMB 1** | – | Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol a gwblhawyd, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 – Polisi TAI 7, erbyn 2019 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Cynllun yn faes anodd i'w fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau er mwyn monitro effeithiolrwydd polisïau, gan gynnwys y dangosyddion a nodir dan y thema hon.*) | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae rôl cynllunio'n gyfyngedig i geisio creu'r amgylchiadau gorau posib drwy Bolisïau'r Cynllun er mwyn hwyluso datblygiadau cynaliadwy a all gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg.

Ceir nifer o bolisïau yn y Cynllun sydd yn helpu i hwyluso datblygiadau cynaliadwy sef:

- Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Lleol' yn atal unrhyw dai marchnad agored o fewn yr aneddleoedd arfordirol a restrir;
- Polisi TAI 15 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygiadau o 2 neu fwy o unedau tai yn y Canolfannau a'r Pentrefi;
- Polisi TAI 16 'Safle Eithrio' yn cefnogi datblygiadau 100% tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' dim ond yn cefnogi bwriadau ar gyfer tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 8 'Cymysgedd Briodol o Dai' yn sicrhau fod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu tuag at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan;

Polisi CYF 1 'Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer defnydd Cyflogaeth' yn sicrhau fod yna ddigon o diroedd ar gyfer cyfleon cyflogaeth yn cael ei ddarparu o fewn y Cynllun.

Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Gan fod y data yn dod o arolwg a'r canlyniadau yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar sampl mae felly yn ddarostyngedig i wahanol raddau o amrywioldeb samplu.

Mae'r tabl isod yn nodi ffigyrau'r flwyddyn sydd yn darfod 31 Mawrth ar gyfer 2017 (sef y flwyddyn olaf cyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu), 2018 a 2019:

| Awdurdod Lleol | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2018 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ynys Môn | 42,400 | 63.5 | 42,500 | 63.6 | 45,500 | 67.5 |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 87,600 | 74.1 | 89,600 | 75.5 | 91,000 | 76.4 |

Fel y gwelir mae’r ffigyrau yma yn nodi lefel llawer yn uwch na chanlyniadau Cyfrifiad 2011 oedd yn nodi 57% o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn a 65% yng Ngwynedd. Fodd bynnag oherwydd bod y ffigyrau yma ar sail sampl nid ydynt ar sail mor gadarn â ffigyrau’r Cyfrifiad ac yn wastad maent wedi tueddu i roi % uwch na’r Cyfrifiad. Er dylid nodi fod sampl diweddar o faint mwy efo oddeutu 350% o gynnydd yn y sampl o’i gymharu â’r blynyddoedd cynnar.

Fe wnaeth Cyngor Gwynedd gynnal arolwg tai yng Ngwynedd yn ystod 2018 fodd bynnag ni yw canlyniadau’r Arolwg yma wedi cael ei gyhoeddi hyd yma.

Ers mabwysiadu’r Cynllun mae yna 543 o unedau tai o’r newydd (h.y. safleoedd nad oedd efo caniatâd ar ddiwrnod mabwysiadu’r Cynllun) wedi cael caniatâd cynllunio hyd at 31 Mawrth 2019. Mae hyn drwy ganiatâd am dŷ unigol ar 81 o safleoedd efo’r gweddill ar 47 safle yn mynd o safle efo 2 uned hyd at un safle o 134 o unedau. Allan o’r ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy i gael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau neu o fewn Clwstwr neu drosi adeilad allanol sef 465 o unedau tai, fe gafwyd 202 o unedau fforddiadwy ganiatâd sydd y golygu canran fforddiadwy o 43.9%.

Yn y cyfnod ers mabwysiadu’r Cynllun mae yna ddau Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sef astudiaeth 2018 a 2019 wedi cael ei gyhoeddi. Mae'r rhain yn nodi fod 1,010 o unedau tai wedi cael ei gwblhau efo 954 o'r rhain yn rhai oedd efo caniatâd cynllunio cyn i’r CDLl ar y cyd gael ei fabwysiadu.

O’r 56 unedau tai sydd wedi cael caniatâd a’u cwblhau ers mabwysiadu’r Cynllun mae 35 o'r rhain yn unedau fforddiadwy sydd yn 62.5% o’r unedau yma.

Tra nad oes ffigwr pendant ar gael ar gyfer Canran o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun mae’r ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol o’r Boblogaeth yn dangos cynnydd o’i gymharu a ffigwr y Cyfrifiad 2011.

Gellir gweld o’r unedau tai sydd wedi cael caniatâd ers dyddiad mabwysiadu’r Cynllun fod nifer sylweddol o dai fforddiadwy wedi cael caniatâd sef dros 40%. Yn ogystal o’r unedau gafodd ganiatâd a’u cwblhau ers mabwysiadu’r Cynllun mae’r canran o dai fforddiadwy dros 60%. Golyga hyn fod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma, drwy baratoi canran uchel o dai fforddiadwy yn golygu bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

Rhaid nodi nad oedd y Canllaw Cynllunio Atodol : Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy wedi ei fabwysiadu yn ystod cyfnod yr AMB yma, Gweler D4

**Gweithred:**

Dim Gweithred. Parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol gan gynnwys canfyddiadau arolygon tai ar gyfer asesu effaith patrymau gwahanol fathau o ddatblygiadau.

DRAFT

## Dangosydd: D2

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau’r iaith Gymraeg a’r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D2 - Caniatáu ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg | Lle bo angen, osgoi neu liniaru niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn unol â Pholisi PS 1 | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol yn groes i Bolisi PS 1 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Fel yr amlygir yn yr ymateb i Ddangosydd D1 ers mabwysiadu'r Cynllun mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer 543 o unedau tai newydd (h.y. ar safleoedd nad oedd efo caniatâd cynllunio ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun).

Mae'r unedau yma wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a amlygir yn y tabl isod:

| Maint Ceisiadau Tai | Nifer o Safleoedd | Cyfanswm Unedau |
|---|---|---|
| 1 uned | 81 | 81 |
| 2 i 5 uned | 24 | 76 |
| 6 i 10 uned | 16 | 126 |
| 11+ uned | 7 | 260 |

O'r 7 safle sydd o faint 11+ uned mae 5 o'r rhain a'r safleoedd wedi cael ei dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun efo'r ddau safle arall sydd ddim yn ddynodiad tai yn geisiadau ar gyfer 100% tai fforddiadwy.

Golyga hyn nad oes yna geisiadau wedi cael caniatâd cynllunio ers mabwysiadu'r Cynllun ble bod angen mesurau i liniaru unrhyw niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg.

Dylid nodi fod cais am 366 o dai ym Mangor wedi cael ei wrthod ar apêl gan nad oedd yr arolygydd yn argyhoeddedig bod y wybodaeth a gyflwynwyd yn profi na fyddai'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg yn groes i Bolisi Strategol PS1.

Rhaid nodi nad oedd y Canllaw Cynllunio Atodol : Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy wedi ei fabwysiadu yn ystod cyfnod yr AMB yma,   Gweler D4.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## Dangosydd: D3

| **Amcan:** | SO1 | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D3 | Yr holl geisiadau cynllunio | **AMB 1** | – | Un Datganiad iaith Gymraeg neu Asesiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | perthnasol i fod â Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy'n ymdrin a ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned fel y nodir yn y Canllawiau Dylunio Atodol. | **AMB 2** | | Effaith ar yr Iaith Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn unigol nad yw'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned. |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd 19 Datganiad Iaith Gymraeg ond dim Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Derbyniwyd 12 Datganiad Ieithyddol gyda cheisiadau preswyl, 4 gyda cheisiadau yn ymwneud a busnesau newydd a 3 gyda cheisiadau am westai/lletai newydd. Roedd pob un o'r Datganiadau Iaith Gymraeg a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod monitro wedi dilyn prif strwythur y templed ymateb sydd wedi ei gynnwys yn y CCA Iaith Gymraeg mabwysiedig (2009) ar gyfer Gwynedd / (2007) ar gyfer Môn.

Nodir fod CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy yn mynd i gael ei fabwysiadu yn ystod Chwarter 2 o'r AMB 2. Mae'r Canllaw hwn yn cynnwys arweiniad manwl ynglŷn â'r amgylchiadau pryd fydd angen darparu datganiad iaith Gymraeg gyda cheisiadau cynllunio. Mae hefyd yn rhoi manylion cynhwysfawr o ran sut i fynd ati i ymgymryd ag Datganiad / Asesiad Ieithyddol, a'r wybodaeth sydd ei angen i'w gynnwys ynddo. Dylai hyn sicrhau gwelliant mewn ansawdd Datganiadau Iaith Gymraeg sy'n cael eu cyflwyno gan ddatblygwyr yn y dyfodol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## Dangosydd: D4

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D4 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy o fewn 6 mis o | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | fabwysiadu'r Cynllun | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Bu oedi cyn cyhoeddi'r CCA er mwyn caniatáu mewnbwn i ddechrau gan swyddogion datblygu iaith y Cynghorau ac i ddisgwyl am gyhoeddiad canllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd oedi pellach cyn cyhoeddi er mwyn caniatáu mewnbwn gan Bwyllgor Craffu Cymunedau a Gweithgor Craffu (Cyngor Gwynedd), sydd wedi arwain at waith ychwanegol sy'n cynnwys gwerthusiad beirniadol annibynnol o fersiwn ymgynghori drafft y CCA. Credir bod yr oedi wrth lunio'r CCA wedi bod yn fuddiol.<br><br>Bu'r CCA drafft ymgynghorol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019.<br><br>Rhagwelir caiff y CCA ei fabwysiadu yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Gwaith i gynhyrchu'r CCA i gael ei fonitro fel rhan o AMB dilynol. | | | | |

DRAFT

**Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr**

| **Dangosydd: D5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D5 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA1. | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mae Polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth isadeiledd yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Pan nad yw hyn yw'r achos, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i wneud yn siŵr fod capasiti isadeiledd digonol yn bodoli.<br><br>Ni ganiatawyd unrhyw gais cynllunio lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr, ac ni chaniatawyd unrhyw gais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 dros y cyfnod monitro. Mae'r targed i rwystro datblygiadau gael eu caniatáu ble nad oes seilwaith ddigonol mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | |

**Dangosydd: D6**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D6 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol | Cadw cyfleusterau cymunedol hyfyw yn unol â Pholisi ISA 2 | **AMB 1** | ✓ | Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi ISA2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Cyflwynwyd cyfanswm o 18 cais cynllunio ble byddai cyn gyfleuster cymunedol yn cael ei golli fel rhan o'r datblygiad (3 cyn feddygfa, 2 cyn fanc, 2 cyn dafarn, 1 cyn swyddfa bost a 10 cyn gapel). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r ceisiadau hyn yn mynd yn groes i Bolisi ISA 2 gan fod tystiolaeth nad oedd y cyfleusterau dan sylw yn hyfyw ac/neu wedi bod yn ddiddefnydd dros gyfnod o amser.

Fodd bynnag, dylid nodi na chyfeiriwyd at Bolisi ISA2 mewn 10 o'r 18 adroddiad dirprwyedig o'r ceisiadau penodol dan sylw. Awgrymir dylid sicrhau fod cyfeiriad o'r Polisi yn cael ei wneud yn yr adroddiadau yn y blynyddoedd dilynol er mwyn sicrhau tryloywder a chysondeb.

Mae'r targed i rwystro colled cyfleuster cymunedol hyfyw mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr

## Llecynnau Agored

Mae swyddogaeth bwysig llecynnau agored o fewn cymunedau yn ardal y Cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLl ar y Cyd sy'n ceisio diogelu'r llecynnau agored presennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llecynnau agored i ddiwallu anghenion deiliaid datblygiadau tai newydd.

Ers i'r Cynllun cael ei fabwysiadu mae polisïau wedi gwarchod llecynnau agored mewn cymunedau a hefyd wedi sicrhau bod llecynnau agored newydd yn cael ei greu, cynnal a gwella.

### Canllaw Cynllunio Atodol – Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd

Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 21 Medi 2018. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â

swyddogion o Adain Rheolaeth Datblygu'r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA fewnbwn gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 17 Gorffennaf 2018.

Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 11 Hydref a 22 Tachwedd, 2018 a dderbyniwyd 8 sylw. Mabwysiadwyd y canllaw ar y 22ain Mawrth 2019 gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Ers mabwysiadu’r canllaw fe ddefnyddir fel ystyriaeth gynllunio faterol ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol.

## Dangosydd: D7

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA 4 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D7 – Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen ar fannau agored | Swm o fannau agored (ha) a gedwir mewn aneddleoedd unigol yn unol â Pholisi ISA 4 | **AMB 1** | ✓ | Colli man agored mewn unrhyw Ganolfan neu Bentref mewn unrhyw flwyddyn unigol gan arwain at leihad net yn y cyflenwad yn groes i Bolisi ISA 4 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

5 cais wedi ei ganiatáu am ddatblygiadau tai ar rannau o fannau agored sydd wedi ei adnabod yn y cynllun (ar y mapiau cynigion) fel mannau agored i’w warchod. Pob cais yn cydymffurfio gyda meini prawf y polisi:

- 2 gais mewn anheddle, ble, yn dilyn asesiad o’r ddarpariaeth o lecynnau agored daethpwyd i’r casgliad fod yna ormodedd cyffredinol o’r ddarpariaeth yn y gymuned (maen prawf 1)
- 3 cais yn golygu ailddatblygu rhan fechan o’r llecyn agored yn unig (maen prawf 4) a chan hynny daethpwyd i’r casgliad fod y bwriad yn arwain at gadw ac ehangu’r cyfleuster fel adnodd hamdden.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol.

DRAFT

## Dangosydd: D8

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | ISA 5 |
|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D8 – Mannau agored (ha) a sicrheir mewn cyswllt â datblygiad preswyl 10 neu fwy o unedau | Darparu mannau agored newydd os yw defnydd y safon meincnod Meysydd Chwarae (FIT) yn nodi diffyg mannau agored yn unol â Pholisi ISA 5 | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol sydd ddim yn cyfrannu at anghenion mannau agored deiliaid tai newydd fel y'u diffinnir gan safon meincnod FIT yn groes i Bolisi ISA 5 |
| | | AMB 2 | | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae polisi ISA 5 yn dweud bydd disgwyl i ddatblygiadau tai newydd o 10 neu fwy o dai rhoi darpariaeth addas o fannau agored ar y safle mewn ardaloedd ble na all llecynnau agored presennol fodloni'r datblygiad arfaethedig. Cafodd 6 cais am 10 neu mwy o dai wedi ei ganiatáu ers i'r Cynllun cael ei fabwysiadu.

- 4 datblygiad ddim angen darpariaeth/cyfraniad ariannol oherwydd bod digonedd yn y gymuned (cynnwys 1 cais ar apêl),
- 1 cais wedi rhoi darpariaeth o 261m$^2$ a chroesfan newydd i'r llecyn agored dros ffordd i'r datblygiad,
- 1 wedi rhoi cyfraniad ariannol o £3,800.

Gan hynny ystyrir fod Polisi ISA 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon oherwydd nid oes cais wedi ei ganiatáu yn groes i'r polisi. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## Dangosydd: D9

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA4, ISA5 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D9 – Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud â darparu llecynnau agored mewn datblygiadau tai newydd | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â ddarparu llecynnau agored mewn datblygiadau tai newydd o fewn 12 | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun |
| | | AMB 2 | | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | mis o fabwysiadu'r Cynllun | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Cafodd y CCA diwygiedig ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar yr 22ain Mawrth, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (11 Hydref a 22 Tachwedd, 2018).<br><br>Gan fod y Canllaw Cynllunio wedi ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2019, nid yw o fewn y lefel targed o 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun. Serch y ffaith fod y targed heb ei gyrraedd fel y'i rhagwelwyd, fe'i mabwysiadwyd o fewn cyfnod AMB 1. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro. | | | | |

| **Dangosydd: D10** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D10 - Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio. | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Ymgynghorwyd ar fersiwn drafft o'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Ymrwymiadau Cynllunio rhwng y 21ain o Chwefror a'r 4ydd Ebrill 2019 am gyfnod o chwe wythnos.<br><br>Rhagwelir caiff y CCA ei fabwysiadu yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Gwaith i gynhyrchu'r CCA i gael ei fonitro fel rhan o AMB dilynol. | | | | |

DRAFT

**Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd**

| **Dangosydd: D11** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, modern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl. |
| | SO4 | Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>**Prif ganlyniadau:**<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. |

<table>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D11 – Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio</td><td rowspan="4">Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ar hyn o bryd, nid yw targed y polisi wedi'i gyflawni fel y disgwylir, ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithrediad y polisi.<br><br>Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Safonau Parcio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 2 yn 2018/19. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.<br><br>Fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallant hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.<br><br>Gan fod y polisi CDLl newydd ar Safonau Parcio yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad, er y cydnabyddir bod rhaid creu CCA newydd sy'n fwy adlewyrchol</td></tr>
</table>

DRAFT

| | |
|---|---|
| ac sy'n ehangu ar y polisi CDLl newydd ac sydd hefyd yn darparu arweiniad sydd yn cyd-fynd â gofynion y polisi | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

## Dangosydd: D12

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3<br><br>SO4 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, modern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>**Prif ganlyniadau:**<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D12 – Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio | Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol sydd uwchlaw'r trothwyon perthnasol a nodwyd ym Mholisi TRA 1 i gynnwys Asesiad Teithio | **AMB 1** | ✓ | Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn unigol heb Asesiad Teithio fel sy'n ofynnol gan Bolisi TRA 1 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Cafwyd Asesiad Teithio gyda phum cais yng Ngwynedd a 12 cais ym Môn yn ystod y cyfnod monitro. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Teithio pan fo angen.<br><br>Mae'r polisi'n glir, ac yn gofyn am asesiad ar sail y trothwyon a osodir yn 'Nhabl 6: Graddfa'r datblygiad sy'n gofyn am asesiad trafnidiaeth'. Mae swyddogion yn gofyn am asesiad wrth wneud ymholiad cyn gwneud cais neu ar y cam gwneud cais cynllunio. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

DRAFT

| **Dangosydd: D13** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3<br><br>SO4 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, modern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>**Prif ganlyniadau:**<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D13 – Y nifer o geisiadau a ganiateir o fewn safleoedd/ ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth a nodir ym Mholisi TRA 1 | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais yn groes i Bolisi TRA 1 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

<table>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i Bolisi TRA 1.<br><br>Ar 25 Mai 2018, penderfynodd Gweinidogion Cymru barhau â Chynllun Trafnidiaeth Caernarfon i Bontnewydd yr A487, yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod haf 2017.<br><br>Dechreuwyd clirio'r safle fis Chwefror 2019. Mae Gwaith Cloddio ger cylchfannau'r Goat a Phlas Menai hefyd wedi dechrau. Mae'r ffordd osgoi wedi'i hamserlennu i gael ei chwblhau yn hydref 2021. Bydd yn cysylltu cylchfannau y Goat ar yr A499/A487 i gylchfannau Plas Menai gyda ffordd gerbydau 9.8km, sy'n cynnwys dwy draphont, dwy bont fawr, a thair cylchfan newydd.<br><br>Ni fu unrhyw geisiadau yn effeithio ar lwybr y ffordd osgoi.<br><br>Mae un cais yn ymwneud â Ffordd Gyswllt Llangefni wedi cael ei gymeradwyo gydag amodau. FPL/2018/24 yw'r cais hwn, sy'n gais am fynediad amaethyddol i'r ffordd na fyddai'n rhwystro unrhyw welliannau neu estyniadau yn y dyfodol.<br><br>Mae pedwar cais yn ymwneud â'r A5025 wedi cael eu caniatáu gydag amodau. Mae 27C106E/FR/ECON, 27C106F/VAR a 49C342/FR yn ymwneud â gwelliannau i'r briffordd gyfredol. Mae 27C79C yn gynllun trosi sy'n annhebygol iawn o wrthdaro ag unrhyw welliannau i'r briffordd ar yr A5025.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="3">Dangosydd: D14</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO3<br><br>SO4</td><td>Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, modern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>Prif ganlyniadau:<ul><li>Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;</li><li>Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;</li></ul></td></tr>
</table>

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D14 – Cyflenwi Ffordd Gyswllt Llangefni (Cam 4) | Cyflenwi Cam 4 Ffordd Gyswllt Llangefni erbyn diwedd 2018/ 2019 | **AMB 1** | ✓ | Methu â chyflenwi Cam 4 Ffordd Gyswllt Llangefni erbyn diwedd 2018/ 2019 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Agorwyd cam 4 Ffordd Gyswllt Llangefni i'r cyhoedd fis Rhagfyr 2017, a chwblhawyd yr holl waith erbyn mis Mawrth 2018.

Mae cam 3 y ffordd gyswllt i'w gwblhau yn 2019.

**Gweithred:**

Nid oes angen unrhyw fonitro pellach gan fod Cam 4 Ffordd Gyswllt Llangefni wedi cael ei gwblhau.

DRAFT

## Dangosydd: D15

| **Amcan:** | SO3<br><br><br><br><br><br>SO4 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, modern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>**Prif ganlyniadau:**<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned; |
|---|---|---|

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="4">
<ul>
<li>Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu’n rhannol i’w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;</li>
<li>Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy’n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D15 – Cyflawni gwelliannau i’r A5025</td><td rowspan="4">Ceisiadau cynllunio ar gyfer gwelliannau gofynnol i’r A5025 (ar lein neu oddi ar lein) wedi cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn neu fel rhan o’r cais am OCD (lle bo’n berthnasol) erbyn Rhagfyr 2017</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Ceisiadau cynllunio ar gyfer gwelliannau i’r A5025 heb gael eu cyflwyno erbyn Rhagfyr 2017</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae un cais yn ymwneud â'r A5025 wedi cael ei ganiatáu gydag amodau. Dyma 27C106E/FR/ECON, sef cais am welliannau i'r briffordd gyfredol. Cofrestrwyd y cais hwn ar 6 Rhagfyr 2017.<br><br>Gosodwyd y cyfnod ymgynghori ar gyfer ymgynghorwyr proffesiynol/statudol ar 12 Rhagfyr 2017, a chaniatawyd 21 diwrnod i ymgynghorwyr ymateb, hyd at 2 Ionawr 2018. Derbyniwyd nifer o ymatebion ymgynghori, gan gynnwys ymatebion y tu allan i'r cyfnod ymgynghori statudol lleiaf, ac maent wedi cael eu hystyried. Rhoddwyd caniatâd ar 13 Gorffennaf 2018.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

## 6.2 BYW'N GYNALIADWY

### Datblygiadau Cynaliadwy a Newid Hinsawdd

**Dangosydd: D16**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | SO6 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D16 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Bu oedi cyn cyhoeddi'r CCA er mwyn caniatáu mewnbwn i ddechrau gan swyddogion datblygu iaith y Cynghorau ac i ddisgwyl am gyhoeddiad canllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd oedi pellach cyn cyhoeddi er mwyn caniatáu mewnbwn gan Bwyllgor Craffu Cymunedau a Gweithgor Craffu (Cyngor Gwynedd), sydd wedi arwain at waith ychwanegol sy'n cynnwys gwerthusiad beirniadol annibynnol o fersiwn ymgynghori drafft y CCA. Credir bod yr oedi wrth lunio'r CCA wedi bod yn fuddiol.

Bu'r CCA drafft ymgynghorol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019.

DRAFT

| |
|---|
| Rhagwelir caiff y CCA ei fabwysiadu yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2. |
| **Gweithred:** |
| Gwaith i gynhyrchu'r CCA i gael ei fonitro fel rhan o AMB dilynol. |

## Dangosydd: D17

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. | | | |
| | S06 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D17 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan gategori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1 | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C1 heb gwrdd â'r holl brofion a amlinellir yn NCT15 | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol o fewn ardaloedd gorlifdir C1 nad yw'n cwrdd â holl brofion NCT15 | |
| | | **AMB 2** | | | |
| | | **AMB 3** | | | |
| | | **AMB 4** | | | |

**Dadansoddiad:**

Cafodd cyfanswm o 27 cais cynllunio (llawn/amlinellol) eu caniatáu ar safleoedd oedd gyfan gwbl/rhannol o fewn parth gorlifdir C1. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio yn fe gasglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau gyda'r profion a gynhwysir yn Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 15 (Llifogydd). Daethpwyd i'r casgliad fod y ceisiadau caniatawyd yn cydymffurfio â NCT 15 a pholisïau PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2 o'r CDLl ar y Cyd. Gan hynny ystyrir bod y polisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol.

DRAFT

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D18</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5<br><br><br><br><br>S06</td><td colspan="4">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D18 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2.</td><td rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2</td><td>AMB 1</td><td>X</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn unigol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Caniatawyd 1 cais cynllunio (addasu capel gwag yn dŷ annedd) am fath o ddatblygiad byddai'n cael ei hystyried fel 'datblygiad sy'n agored iawn i niwed' yn unol gyda Ffigwr 2 Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 15 (Llifogydd) ac nad yw yn cydymffurfio gyda phrofion a gynhwysir yn Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 15 (Llifogydd). Gafodd y cais cynllunio ei ganiatáu gan y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad y swyddog. Ni gyfeiriwyd y cais i Lywodraeth Cymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Heblaw am y cais uchod, daethpwyd i'r casgliad fod y ceisiadau a ganiatawyd yn cydymffurfio â pholisïau PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, gan hynny ystyrir bod y polisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol.</td></tr>
</table>

DRAFT

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Nodir fod y lefel sbardun wedi ei gyrraedd ond credi'r dylid parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol ac ystyried os oes angen hyfforddiant o ran gweithrediad y Polisi a'r gofynion o ran parth C2 a datblygiadau sydd yn hynod agored i niwed. | |

| **Dangosydd: D19** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. | | | |
| | S06 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D19 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn | Cynnal neu gynyddu'r gyfran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) o'i gymharu â'r % cyfartalog a gofnodwyd yn ystod 2015/ 2016 – 2016/ 2017. | **AMB 1** | – | Gostyngiad yn y gyfran o ddatblygiadau a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) am 2 flynedd yn olynol. | |
| | | **AMB 2** | | | |
| | | **AMB 3** | | | |
| | | **AMB 4** | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

% o ddatblygiadau ar dir a ddatblygwyd o'r blaen:

- **Ynys Môn** 2015-2016 = 20.72ha (61%);
  **Ynys Môn** 2016-2017 = 28.00ha (50%);
  **Ynys Môn** 2017-2018 = 13.81ha (49%);
  **Ynys Môn** 2018-2019 = 4.33ha (21%);

- **Gwynedd 2015-2016** = 14.54ha (44%);
  **Gwynedd 2016-2017** = nid oes data ar gael oherwydd roedd cofnodi'r data hwn yn cael ei adolygu ar y pryd.
  **Gwynedd 2017-2018** = 12.82ha (64%);
  **Gwynedd 2018-2019** = nid yw'r data ar gael oherwydd adnoddau staff/materion technegol.

Oherwydd natur wledig yr ardal, mae cyfleoedd i ddatblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen wedi'i gyfyngu i nifer o safleoedd bach. Er y caiff datblygiad ei dywys i ddefnyddio'r safleoedd hyn yn y lle cyntaf mae'r pwysau ar gyfer datblygu tir gwyrdd yn anochel yn arbennig o ganlyniad i natur y cynigion, e.e. cynlluniau ynni adnewyddadwy, tai lleol, cynlluniau arallgyfeirio gwledig a datblygu cysylltiedig â thwristiaeth.

Dim ddigon o wybodaeth i allu monitro'r dangosydd yma yn llawn yng Ngwynedd am y cyfnod yma.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

## Dangosydd: D20

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | S06 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D20 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir tu allan i ffiniau datblygu. | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad ydynt yn cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun. | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio Tu allan i ffiniau datblygu nad yw'n cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Mae yna gyfanswm o 1226 o geisiadau cynllunio sydd wedi cael caniatâd tu allan i'r ffiniau datblygu. Mae'r mwyafrif helaeth o rain yn geisiadau deiliad tŷ neu yn geisiadau i newid amod caniatadau dilys. Ceir hefyd llawer o geisiadau am y fath o ddatblygiadau lle caniateir datblygiad yng nghefn gwald sef datblygiadau twristiaeth, cyflogaeth, priffyrdd neu waith amaethyddol er enghraifft.

O ran ceisiadau am dai tu allan i ffiniau mae yna:

- 6 safle eithrio sy'n cyd-fynd â pholisi TAI 16;
- 3 cais am godi tai newydd mewn clystyrau sy'n cyd-fynd â pholisi TAI 6;
- 4 cais am ddymchwel ac ail godi tŷ sy'n cyd-fynd â pholisi TAI 13;
- 1 cais am dŷ mewn lleoliad cefn gwlad sydd yn cyrraedd y gofynion am dŷ menter gwledig.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

## Dangosydd: D21

| **Amcan:** | | |
|---|---|---|
| | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | SO6 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed** | **Polisi perthnasol:** | | PS 1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D21 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiateir, fesul Technoleg, ardal (Ardal awdurdod Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd) ac allbwn ynni a gofnodir (GWh) | 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (1,113.35 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am drydan<br><br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br><br>50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (47.3 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am wres | **AMB 1** | – | Swm allbwn ynni a gofnodir o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 10% neu fwy islaw'r gofynion yn y Targed Polisi |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r polisïau a gynhwysir yn y CDLl yn cefnogi ceisiadau ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy priodol. Gan mae dyma AMB cyntaf nid yw'n bosib sefydlu unrhyw dueddiadau mor gynnar yn y broses monitro.

Mae'r tabl a amlinellir isod yn dangos y GWh a ganiatawyd yn ôl y mathau gwahanol o dechnoleg yn ystod y cyfnod monitro yma:

DRAFT

Er bod y cyfanswm yn isel, cydnabyddir y gallai un datblygiad mawr sicrhau swm

| Math | Nifer o geisiadau | GWh |
|---|---|---|
| Hydro | 2 | 0.862 |
| Solar | 3 | 47.2 |
| Gwynt ar y Tir (micro) | 3 | 0.35 |
| Solar (Micro) | 2 | 0.044 |
| **Cyfanswm** | **8** | **48.5** |

sylweddol o ynni adnewyddadwy. Mae'r dangosydd hwn yn un ble mae'r targed angen ei fodloni erbyn 2021, ac felly byddwn yn parhau i fonitro yn yr AMB dilynol. Mae'r lefelau isel o geisiadau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn adlewyrchu dirywiad yn nifer y ceisiadau a gyflwynwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwrthod ceisiadau.

Mae tablau 7 ac 8 o fewn y CDLl ar y Cyd yn nodi capasiti gosodedig o 159.6 (MWe) a 12.4 (MWt) o fewn ardal y cynllun yn 2016. Y fersiwn diweddaraf 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' (ffigurau 2017) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru cyfanswm capasiti gwres a thrydan sydd wedi'i osod ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd oedd 225MW a roddodd genhedlaeth amcangyfrifedig o 381GWh. Mae hyn yn gynnydd o 53MW o'r hyn a nodwyd yn nhablau 7 ac 8 y CDLl ar y Cyd.

Mae'r dangosydd hwn yn un ble mae'r targed angen ei fodloni erbyn 2021, ac felly byddwn yn parhau i fonitro yn yr AMB dilynol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

## Dangosydd: D22

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | SO6 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D22 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol. | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | **AMB 1** | – | Swm allbwn ynni a gofnodir o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 10% neu fwy islaw'r gofynion yn y Targed Polisi |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Bu oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu'r CCA yma oherwydd prinder adnoddau yn yr Uned ar angen i roi blaenoriaeth i CCA eraill wnaeth gymryd yn hirach i'w paratoi a'u hadrodd trwy Bwyllgorau'r ddau Gyngor.<br><br>Mae yna leihad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau am gynlluniau ynni adnewyddadwy annibynnol o fewn ardal y Cynllun sydd o bosib yn adlewyrchu'r symudiad i baratoi datblygiadau yn y môr a lleihad yn y grantiau sydd ar gael ar gyfer fath ddatblygiadau ar y tir.<br><br>Efo proses paratoi CCA eraill yn dod i ben yn gynnar o fewn cyfnod AMB 2 bydd yna gyfle i baratoi CCA ar gyfer y maes yma. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Paratoi CCA Ynni Adnewyddadwy Annibynnol yn ystod cyfnod AMB 2. | | | | |

| **Dangosydd: D23** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 & SO6 | SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

DRAFT

<table>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D23 - Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a ganiateir yn ardal y Cynllun</td><td rowspan="4">Isafswm dwysedd net cyfartalog cyffredinol o 30 o unedau tai'r hectar a gyflawnir yn ardal y Cynllun</td><td>AMB 1</td><td></td><td rowspan="4">Methiant i gyflawni isafswm dwysedd cyffredinol net cyfartalog o 30 o unedau tai'r hectar</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">
<u>Caniatadau o’r newydd yn unig – Holl ganiatadau</u><br><br>
Ardal y Cynllun = 18.51ha/543 uned = 29.3 uned yr hectar<br><br>
<u>Caniatadau o’r newydd yn unig – 5 neu ragor o unedau o’r newydd</u><br><br>
Ardal y Cynllun = 12.2ha/401 uned = 32.9 uned yr hectar<br><br>
Mae’r wybodaeth uchod yn berthnasol ar gyfer caniatadau o’r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi cyn mabwysiadu’r Cynllun, nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau.<br><br>
Ar sail yr holl ddatblygiadau cymwys sydd wedi eu caniatáu, noder fod y dwysedd cyfartalog ychydig yn is na’r targed o 30 uned yr hectar. Ni chredir fodd bynnag bod hyn yn golygu’r angen i adolygu’r Cynllun.<br><br>
Nid yw’r dwysedd cyfartalog llawer yn is na’r ffigwr targed o 30 uned yr hectar. Wrth ystyried y caniatadau ar gyfer safleoedd preswyl mawr yn unig, sef rhai ar gyfer 5 neu ragor o unedau, gweler fod y dwysedd cyfartalog dros y ffigwr o 30 uned yr hectar. Noder felly fod y dwysedd disgwyliedig yn cael ei sicrhau ar ddatblygiadau newydd sylweddol eu maint a bod y dwysedd ar safleoedd llai yn tynnu’r ffigwr cyfartaledd i lawr. Mae dwysedd cyfartalog yr holl unedau sengl perthnasol sydd wedi eu caniatáu yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod yr AMB (80 uned ar 4.71 hectar) ddim ond yn 17.0 uned yr hectar. Mae’r gallu i fynnu dwysedd uwch ar blotiau unigol yn fwy heriol ar sail agweddau megis dwysedd datblygiadau cyfagos a chymeriad anheddle.
</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

## Dangosydd: D24

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO7 | Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PCYFF 2, PCYFF3 & PCYFF4 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D24 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis o fabwysiadu | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Ar hyn o bryd, nid yw targed y polisi wedi'i gyflawni fel y disgwylir, ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithrediad y polisi.

Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Ddylunio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 4 yn 2017/18. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.

Fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallant hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.

Gan fod y polisi CDLl ar y Cyd newydd ar Ddylunio yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad, er y cydnabyddir bod rhaid creu CCA newydd sy'n fwy adlewyrchol ac sy'n ehangu ar y polisi CDLl newydd yn y dyfodol agos.

**Gweithred:**

Mae ymchwil ar safonau dylunio a chanllawiau modern ar y gweill. Bydd y gwaith hwn yn arwain at baratoi CCA Dylunio newydd.

## Dangosydd: D25

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO7 & SO8 | SO7: Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol. |

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="4">SO8: Sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu’r holl anghenion sydd gan eu cymunedau yn unol â’u rôl yn y goeden aneddleoedd:</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4 & PS17</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D25 - Nifer y tai newydd a ganiateir fesul categori yn y Goeden Aneddleoedd a amlinellir ym Mholisi PS 17, wedi’i fynegi fel % o’r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn</td><td rowspan="4">O ddyddiad mabwysiadu, nifer yr unedau tai a ganiateir fesul categori anheddle, wedi’i fynegi fel % o’r holl ddatblygiadau preswyl, yn unol â gofynion Polisi PS 17, sydd fel a ganlyn:<br><br>Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol = 53%<br>Canolfannau Gwasanaeth Lleol = 22%<br>Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad = 25%</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">O ddyddiad mabwysiadu mae nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol, wedi’i fynegi fel % o’r holl ddatblygiadau preswyl, mewn:<br><br>• Canolfan Isranbarthol a Chanolfan Gwasanaeth Trefol a’r Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn disgyn dan y gofyniad %;<br>• Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch na’r gofyniad %</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

**Dadansoddiad:**

Nodir fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol. Gan mai dyma'r AMB cyntaf, bydd yn bwysig sefydlu’r sefyllfa adeg AMB 2 o ran y canran o unedau preswyl sydd wedi eu caniatáu fesul categori anheddle. Bydd yn bwysig ystyried gwybodaeth o 2019/20 ar y cyd â’r wybodaeth isod er mwyn gwneud asesiad llawn o’r dangosydd hwn.

Mae’r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o’r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau.

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o’r holl ganiatadau preswyl |
|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 298 | 55% |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 127 | 23% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 118 | 22% |
| Cyfanswm | 543 | - |

Mae'r wybodaeth yn y tabl yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed a'r hyn a nodir yn y lefel sbardun. Mae'r canran o ganiatadau a roddwyd yn yr haen Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol ychydig yn uwch na'r targed polisi tra bod y canran ar gyfer y Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn cyd-fynd yn union â'r targed yn y polisi. Nodir bod y ganran ar gyfer Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad ychydig yn is na'r ffigwr targed.

Mae hyn sydd wedi ei ganiatáu yn gyson felly â strategaeth y Cynllun a'r hyn mae yn ceisio ei gyflawni o safbwynt yr agwedd hon. Bydd y wybodaeth o safbwynt y dangosydd hwn yn cael ei adolygu ymhellach adeg AMB 2.

Gweler atodiad 3 am fapiau sy'n dangos y dosbarthiad caniatadau cynllunio am unedau preswyl.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## 6.3 ECONOMI AC ADFYWIO

### Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol a Datblygiadau Perthynol

**Wylfa Newydd**

Cyflwynwyd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn datblygu gorsaf niwclear newydd ar y 1af o Fehefin, 2018. Mae'r cais ar hyn o bryd yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ar ddiwedd yr archwiliad, bydd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu ei gasgliadau a'i argymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd. Yr Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Mae'r archwiliad wedi ei raglennu i ddod i ben ar 23 Ebrill, 2019 gyda phenderfyniad ar y cais yn ddisgwyliedig cyn diwedd Hydref 2019 (sydd tu allan i gyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yma).

Ar 17 Ionawr, 2019 cyhoeddodd Hitachi ei bod yn bwriadu oedi gyda'r bwriad o ddatblygu'r Orsaf Niwclear Newydd, fodd bynnag cadarnhawyd gan Horizon i'r Panel (Arolygwyr Cynllunio) ei fod am barhau i roi adnoddau o'r neilltu i sicrhau bod y broses archwilio'r cais yn cael ei gyflawni. Ym marn Horizon, bydd cwblhau'r cam hwn yn y broses o gael caniatâd cynllunio yn helpu i roi'r cyfle gorau o ailgychwyn y prosiect yn amserol, os ellir bodloni amodau hanfodol eraill yng nghylch yr angen am fodel ariannu newydd.

Serch yr oedi gyda'r cynlluniau yn gysylltiedig â datblygu'r orsaf newydd, mae'r safle yn parhau i fod yn un o'r prif safleoedd i adeiladu atomfa niwclear newydd yn y DU.

Ar sail yr wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd, os rhoddir caniatâd cynllunio iddo,, bydd hyn yn ystyriaeth gynllunio faterol ar gyfer ardal y Cynllun a'r rhanbarth. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw sicrwydd cadarn o ran pryd fydd y gwaith o weithredu unrhyw ganiatâd cynllunio yn debygol o gychwyn ac os bydd hyn yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ai peidio.

**Grid Cenedlaethol**

Yn gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd ar gyfer atomfa niwclear newydd fe gyflwynodd y Grid Cenedlaethol gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar 7 Medi, 2018. Roedd y cais hyn yn rhan o Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru ar gyfer gosod cysylltiad trydanol 400kV o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.

Oherwydd penderfyniad Hitachi i oedi gyda'r bwriad i ddatblygu'r Orsaf Bŵer Niwclear Newydd, ar 20 Chwefror, 2019 fe dynnodd y Grid Cenedlaethol ei gais am GCD yn nôl yn ffurfiol. O ganlyniad, ni fydd yr Awdurdod Archwilio na'r Arolygaeth Cynllunio yn ystyried y cais ymhellach.

### Canllaw Cynllunio Atodol – Wylfa Newydd (2018) (perthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn yn unig)

Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol gwreiddiol gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yng Ngorffennaf 2014. Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Canllaw, daeth i'r amlwg fod angen gwneud newidiadau sylfaenol i'r Canllaw drwy gynnal adolygiad o'i gynnwys. Roedd yr angen i ddiwygio'r Canllaw yn seiliedig ar :

- Newidiadau polisi cynllunio lleol – yn sgil mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd a Môn).

- Newidiadau deddfwriaethol - angen sicrhau fod y Canllaw yn cyd-fynd a Deddf Cymru 2017. Deddf Cymru 2017 yn galluogi hyrwyddwyr prosiect (h.y. Horizon) i gynnwys datblygiadau cysylltiedig (megis y maes parcio a theithio, llety gweithwyr dros dro ac ati) o fewn y cais Gorchymyn am Ganiatâd Datblygu (GCD). Mae angen diweddaru'r CCA i adlewyrchu'r newid diweddaraf hwn i'r ddeddfwriaeth. Mae hefyd angen i ddeddfwriaethau allweddol newydd eraill megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 gael eu hadlewyrchu yn y CCA diwygiedig.

- Diweddariadau prosiect - Mae Horizon wedi cynnig nifer o ddiweddariadau i'r prosiect ers mabwysiadu'r CCA yn 2014. Ystyriwyd yn briodol diwygio'r Canllaw er mwyn adlewyrchu ac ymateb i'r newidiadau hyn.

Cafodd y CCA diwygiedig ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn ar yr 15fed o Fai, 2018 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (11 Ionawr – 22 Chwefror 2018).

DRAFT

<table>
<tr><th colspan="5">Dangosydd: D26</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO9</td><td colspan="3">Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS8, PS9, PS10, PS11, PS12</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D26 - Cam yn y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd</td><td rowspan="4">Cais am GCD i Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Cymeradwyo'r cais am GCD i Wylfa Newydd erbyn Rhagfyr 2018.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Horizon Nuclear Power yn methu a chyflwyno cais am GCD erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth i'r cais GCD erbyn Rhagfyr 2018.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar y 1af o Fehefin, 2018. Mae'r Archwiliad Cyhoeddus wedi ei raglennu i ddod i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Mae canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol yn ddisgwyliedig ar neu cyn y 23ain o Orffennaf, 2019. Disgwylir penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol erbyn 23 Hydref, 2019.<br><br>Mae'r llithriad yn yr amserlen o ran cyflwyno'r cais GCD tu hwnt i reolaeth yr Awdurdodau Cynllunio Lleol.</td></tr>
</table>

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D27** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D27 – Statws y cais i DECC am gymeradwyaeth derfynol. | Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth "cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019 | **AMB 1** | ✓ | Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth / "cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019. | |
| | | **AMB 2** | | | |
| | | **AMB 3** | | | |
| | | **AMB 4** | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar y 1af o Fehefin, 2018. Mae'r Archwiliad Cyhoeddus wedi ei raglennu i ddod i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Bydd canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol yn cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda'r penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig erbyn 23ain o Hydref, 2019.<br><br>Yn unol â'r rheoliadau bydd rhaid i'r cais dderbyn cadarnhad gan y DECC o fewn 6 mis i ddyddiad terfyn yr Archwiliad cyhoeddus. Gan hynny, yn unol â'r amserlen fe ddisgwylir i'r cadarnhad gael ei roddi erbyn 23 Hydref, 2019. Bydd diweddariad o ran statws y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn cael ei adrodd arno yn ystod yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol (2019/2020). | | | | | |
| **Gweithred:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | | |

| **Dangosydd: D28** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D28 – Nifer o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd | Ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd yn cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn erbyn Rhagfyr 2017. | **AMB 1** | ✓ | Horizon Nuclear Power yn methu cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol erbyn Rhagfyr 2017. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Ar y 7fed o Ragfyr 2017 fe gyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cynnal gwelliannau i'r A5025 rhwng Y Fali a safle Wylfa Newydd (27C106E/FR/ECON). Cymeradwywyd y cais hynny gydag amodau ar 13 Gorffennaf, 2018. Pwrpas y gwelliannau i'r ffordd yw er mwyn hwyluso llif traffig i safle Wylfa Newydd. Bydd traffig i'r safle yn cael ei gyfeirio ar hyd yr A55 gan droi ffwrdd oddi ar yr A55 yng nghyffordd Y Fali ac yna cysylltu hefo'r A5025.

Mae Adran 43 o Ddeddf Cymru 2017 yn caniatáu i ddatblygiadau perthynol gael ei gynnwys o fewn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, penderfynwyd Horizon Nuclear Power i gynnwys yr holl ddatblygiadau perthynol o fewn y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn hwyluso'r broses caniatáu i'r cyhoedd ac eraill.

Cyflwynwyd y datblygiadau perthynol canlynol fel rhan o'r GCD:-

- Campws y safle o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Safle parcio a theithio dros dro Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu;
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi.
- Garej Offer Argyfwng Symudol (y Mobile Emergency Equipment Garage (MEEG))
- Canolfan Rheolaeth Argyfwng Amgen (Alternative Emergency Control Centre (AECC))
- Creu cynefin gwlypdir a gwella gwaith fel iawndal ar gyfer unrhyw effaith posib ar Safle o Ddiddordeb Arbennig Tre'r Gof (AoDdGA) yn y lleoliadau canlynol:
  - Tŷ Du;
  - Cors Gwawr, a
  - Cae Canol-dydd

Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, ni chyflwynwyd unrhyw gais cysylltiedig arall yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniad arno.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

| **Dangosydd: D29** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
| | | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D29 – Nifer a math o ddatblygiadau perthynol Prosiect Wylfa Newydd a gychwynnwyd | Datblygiadau perthynol unigol Prosiect Wylfa Newydd wedi eu cychwyn yn unol â chaniatâd cynllunio unigol | | **AMB 1** | ✓ | Datblygiad perthynol prosiect Wylfa Newydd heb gychwyn o fewn yr amserlen a osodwyd yn y caniatâd cynllunio unigol a'r Gorchymyn caniatâd Datblygu (lle bo'n berthnasol). |
| | | | **AMB 2** | | |
| | | | **AMB 3** | | |
| | | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Yn sgil y penderfyniad gan Hitachi i ohirio'r cynlluniau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd, nid oes yna unrhyw ddatblygiad perthynol wedi cychwyn. Yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer y gwelliannau i'r A5025 (27C106E/FR/ECON) fe fyddai rhaid i'r gwaith gychwyn o fewn cyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y caniatâd. Gan hynny mae gan y datblygiad perthynol dan sylw gyfnod o hyd at 13 Gorffennaf, 2020 i gychwyn er mwyn sicrhau nad yw'r lefel sbardun o fewn y dangosydd yn cael ei gyrraedd.<br><br>Gan fod y cais GCD yn parhau i fynd yn ei flaen a gan fod y cais hynny bellach yn cynnwys y datblygiadau perthynol, os derbynnir y cais ganiatâd ac os yw Horizon Nuclear Power yn dymuno parhau hefo'r cynlluniau yn y dyfodol fe fydd posib gweithredu ar y datblygiadau cysylltiol yn syth. | | | | | |
| **Gweithred:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | | |

DRAFT

| **Dangosydd: D30** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 8, PS 9, PS 10, PS 11, PS 12 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D30 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio atodol diwygiedig yn ymwneud a Phrosiect Wylfa Newydd | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio atodol diwygiedig yn ymwneud a Phrosiect Wylfa Newydd o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Cafodd y CCA diwygiedig ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn ar yr 15fed o Fai, 2018 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (11 Ionawr – 22 Chwefror 2018).<br><br>Nodir fod yna lithriad yn yr amserlen yn gysylltiedig â mabwysiadu'r Canllaw. Roedd y llithrad hwn yn benodol ymwneud a sicrhau fod y Canllaw yn cyd-fynd ac yn ymateb i'r wybodaeth a oedd yn cael ei gyflwyno gan Horizon Nuclear Power yn gysylltiedig â'i gynlluniau ar gyfer yr orsaf niwclear newydd (Wylfa Newydd). | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro. | | | | |

DRAFT

## Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus

### Ynys Ynni

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r ynys gyfan yn barth menter. Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth ryngwladol ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Y gobaith yw bod dynodi'r Ynys gyfan fel Parth Menter yn fodd o sicrhau fod gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni a sefydlwyd gan y Cyngor yn cael ei wireddu. Y weledigaeth Ynys Ynni yw gwireddu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer creu swyddi a sicrhau ffyniant a thwf economaidd drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn.

Serch y ffaith fod gohiriad yn y cynlluniau i ddatblygu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a thynnu nôl y prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru'r mae'r weledigaeth Rhaglen Ynys Ynni yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Fel rhan o'r Rhaglen mae diddordeb a chynlluniau yn parhau i fodoli gan gwmnïau ynni carbon isel ar yr ynys gan gynnwys datblygiadau Ynni Llanwol Morlais a Minesto ynghyd a datblygiadau arfaethedig ar gyfer fferm Solar.

Mae Coleg Menai yn enghraifft ardderchog o sut y gall yr Ynys fanteisio ar brosiectau trawsnewidiol - Mae'r campws hwn wedi gweld twf sylweddol, gan gynnwys y Ganolfan Ragoriaeth £13.6M ar gyfer peirianneg sydd yn mynd i gael ei agor yn ystod mis Ebrill 2019, yn ogystal â datblygu'r cyswllt £ 11M ffordd i sicrhau cysylltedd gwell i'r safle. Bu i Barc Gwyddoniaeth M-SParc agor ym Mawrth 2018 ac yn darparu gofod i fusnesau o bob maint.

Yn bresennol mae 26 cwmni wedi eu cartrefu yn M-SParc, gan gynnwys ystod eang o gwmnïau a chyfleoedd gyflogaeth arbenigol leol.

**Gweledigaeth Economaidd**

Mae'r Cynghorau yn parhau i weithio'n agos a Llywodraeth Cymru ynghyd ac Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru drwy'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd yn grŵp ar y cyd o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd ar draws yr ardal. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth, sy'n cynnwys chwe chyngor gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion, lansio Bargen Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Mae'r Fargen Twf yn nodi gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth gyda'r nod o greu 5,300 o swyddi a denu buddsoddiad sector preifat gwerth £1 biliwn yn y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf.

| **Dangosydd: D31** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | CYF 1, CYF 3 A CYF 5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D31 – Swm o dir cyflogaeth neu arwynebedd llawr (dosbarth defnydd B1, B2 a B8) a gynhwysir ar safleoedd a amlinellir ym Mholisi CYF 1 sy'n cael eu colli i ddefnyddiau eraill. | Dim colled net o dir cyflogaeth/arwynebedd llawr i ddefnyddiau amgen (defnyddiau heblaw dosbarth defnydd B1, B2 a B8) yn groes i Bolisi CYF 3 neu Bolisi CYF 5. | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio nad yw'n unol a Pholisi CYF 3 neu CYF 5. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Cafodd cyfanswm o 47 cais cynllunio eu caniatáu ar safleoedd cyflogaeth a warchodir yn unol â Pholisi CYF1. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyflogaeth (boed hynny'n rhai a ddynodwyd neu a warchodwyd) ar gyfer defnyddiau amgen nad oeddynt yn cydymffurfio hefo Polisi CYF 3 neu CYF 5.<br><br>Derbyniwyd 2 cais cynllunio yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer gwestai, 1 cais ar gyfer codi stablau ceffylau (yn atodol i fan stopio loriau presennol) , ac 1 cais cynllunio ar gyfer estyniad i gaffi presennol, ar safleoedd sydd wedi ei warchod ar gyfer dibenion cyflogaeth. Wrth ystyried addasrwydd y cynigion hyn yn erbyn meini prawf a gynhwyswyd ym mholisïau CYF3 a CYF 5 ynghyd a pholisïau perthnasol eraill y Cynllun, daethpwyd i'r | | | | |

DRAFT

| |
|---|
| casgliad y byddai'r manteision economaidd yn deillio o'r datblygiadau yn sicrhau na fyddent yn tanseilio'r cyflenwad o dir cyflogaeth.<br><br>Ystyrir bod y polisïau yn cael eu gweithredu'n effeithiol. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. |

## Dangosydd: D32

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | CYF 1, CYF 3 a CYF 5 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D32 – Swm o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodir a gynhwyswyd ym Mholisi CYF 1 a gymerwyd i fyny yn ôl dosbarth defnydd datblygu B1, B2 neu B8. | 6.9 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodwyd a gymerir i fyny fesul blwyddyn yng Ngwynedd.<br><br>14.3 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodwyd a gymerir i fyny fesul blwyddyn yn Ynys Môn. | **AMB 1** | ✓ | Llai na 27.4 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yng Ngwynedd.<br><br>Llai na 57 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yn Ynys Môn. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r sbardun monitro yn ymwneud â faint o dir cyflogaeth a warchodir sydd wedi derbyn caniatâd erbyn 2021.

Yng Ngwynedd mae 4.2 ha o dir wedi derbyn caniatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth (h.y. B1, B2 a B8) gyda 8.29ha o safleoedd cyflogaeth a warchodir yn Ynys Môn wedi derbyn caniatâd ers dyddiad mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Nodir bod y ffigwr ar gyfer Gwynedd yn cynnwys ail leoli uned 0.47 ha ar Stad Cibyn yn gysylltiedig â datblygiad ffordd osgoi Caernarfon*.

Nodir fod y gyfradd caniatâd ar y safleoedd cyflogaeth a warchodir yn ystod y cyfnod byr hwn yn is na'r hyn a ddisgwylir. Ystyrir fod y Cynllun yn hwylusydd yng nghyd-destun darparu safleoedd cyflogaeth a bod llai o geisiadau am ddatblygiad ar y safleoedd cyflogaeth yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion economaidd sydd tu hwnt i reolaeth y Cynllun.

DRAFT

| | |
|---|---|
| *NODER: Mae rhan o linell ffordd osgoi Caernarfon yn rhedeg trwy gornel de dwyreiniol o Stad Ddiwydiannol Cibyn. Bydd rhan fach o'r stad bresennol yn cael ei golli i'r ffordd osgoi. Ni ellir amcangyfrif faint o arwynebedd o'r tir cyflogaeth fydd yn cael ei golli, ond bydd yn rhan fach o gymharu gydag arwynebedd cyfan y stad bresennol. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

DRAFT

| **Dangosydd: D33** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | CYF 1, CYF 3 a CYF 5 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |
| D33 – Swm o dir cyflogaeth (hectar) a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddynodiadau cyflogaeth. | Sicrhau caniatâd cynllunio ar y safle cyflogaeth a ddynodwyd yng Ngwynedd erbyn 2019.<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 64ha o dir cyflogaeth ar safle a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2021.<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio | **AMB 1** ○<br>**AMB 2**<br>**AMB 3**<br>**AMB 4** | Cyfanswm o dir cyflogaeth a ganiatawyd yn disgyn o dan yr angen cronnol a nodwyd yn y targed polisi |
| **Dadansoddiad:** | | | |
| Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar y dynodiadau cyflogaeth yn ystod y cyfnod yma. Mae yna ymholiadau cychwynnol iawn a pheth trafodaethau wedi cael eu cynnal parthed a rhai o'r safleoedd sydd yn dangos fod yna ddiddordeb mewn symud ymlaen hefo rhai o'r dynodiadau. Tra nad oes ceisiadau cynllunio wedi eu derbyn ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y CDLl ar y Cyd, mae ceisiadau ar gyfer cynigion sydd yn ymwneud â datblygiadau cyflogaeth wedi eu caniatáu ar safleoedd sydd wedi eu gwarchod ar gyfer cyflogaeth yn y CDLl ar y Cyd.<br><br>Mae'r targedau sydd wedi ei osod yn nodi'r angen i'r safleoedd ddod yn ei flaen erbyn 2019 yng Ngwynedd a 2021 ym Môn, gan hynny nid yw'r cyfnod asesu ar gyfer y dangosydd hwn wedi ei gyrraedd. | | | |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

## Dangosydd: D34

| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi priodol. | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | CYF 1, CYF 3, CYF 5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D34 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud a defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud a defnyddiau amgen o safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd a neilltuwyd o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mae gwaith cychwynnol yn ymwneud a pharatoi'r CCA hyn wedi mynd rhagddi. Fodd bynnag yn sgil yr angen i flaenoriaethau CCA eraill, nid yw'r CCA wedi bod yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus hyd yma. Mae'r Canllaw wedi ei raglennu ar gyfer cael ymgynghori arno yn ystod hydref/gaeaf 2019/2020. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | |

## Dangosydd: D35

| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 9, ISA 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D35 – Statws cyflogaeth pobl 16+ oed | I gyflawni cynnydd yn y gyfradd o weithgarwch economaidd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017 | **AMB 1** | ✓ | Cyfradd gweithgarwch economaidd yn dirywio am 2 flynedd yn olynol |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Arolwg o'r Llafurlu Lleol: Crynodeb o Weithgarwch Economaidd (16-64)

| | Blwyddyn sy'n dod i ben ym Mawrth 2018 | Blwyddyn sy'n dod i ben ym Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 78.1 | 80.7 |
| Gwynedd | 76.7 | 77.1 |
| Cymru | 76.5 | 76.7 |

Tarddiad: Stats Cymru – Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Lleol a Blwyddyn yng Nghymru

Gan fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd nid oes modd asesu'r dangosydd yma yn llawn. Er hyn mae'r tabl uchod gan Stats Cymru yn dangos bod cynnydd yn y gyfradd o weithgarwch economaidd yn y flwyddyn ddiwethaf yn ardal y Cynllun.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## Dangosydd: D36

| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 9, ISA 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D36 – Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd | Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun, lleihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017. | **AMB 1** | – | Methiant o'i leihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2019. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Yn 2018, roedd 67% o holl gymudwyr Ynys Môn yn cymudo i'w gwaith o fewn y Sir (10fed isaf o'r 23 Awdurdod Lleol yng Nghymru). Mae gan y Cyngor ddyhead i leihau cyfran cymudo o Ynys Môn i Wynedd ac ardaloedd ehangach. Byddai lleihad yng nghyfran cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd yn awgrymu bod cynnydd yn y cyfleon economaidd ar gael yn Ynys Môn fyddai yn ei dro yn arwain at lai o all-gymudo yn digwydd. Mae'r tabl isod yn amlygu patrymau cymudo o Ynys Môn i Wynedd dros y blynyddoedd diweddar.

| Blwyddyn | Cyfanswm cymudwyr Ynys Môn | Nifer cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd | % Cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd |
|---|---|---|---|
| **2016** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **2017** | 31,500 | 7,000 | 22.2% |
| **2018** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |

*(Ffynhonnell: StatsWales, Llywodraeth Cymru)*

Fel y gwelir, er bod cyfran y boblogaeth weithiol oedd yn cymudo o Ynys Môn i Wynedd wedi disgyn o 24.5% i 22.2% rhwng 2016 a 2017, gwelwyd cynnydd yn ôl i 24.5% erbyn 2018. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar y patrymau a nodwyd nac ar effeithiolrwydd y Cynllun wrth geisio cyrraedd y targed, gan mai hwn yw'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf. Fe fydd y ffigwr mwyaf diweddar a nodwyd uchod yn cynrychioli'r waelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y blynyddoedd dilynol er mwyn asesu gwir berfformiad y Cynllun yn erbyn y dangosydd hwn.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

## Dangosydd: D37

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO12 | Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleon cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | CYF 6 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D37 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer busnesau newydd mewn Pentrefi Gwasanaeth/ Lleol/ Gwledig/ Arfordirol neu yn y cefn gwlad | Caniatáu busnesau newydd ar raddfa fach ar safleoedd addas neu mewn adeiladau addas o fewn neu'n agos at bentrefi neu yn y cefn gwlad yn unol â Pholisi CYF 6 | **AMB 1** | ✓ | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau graddfa fach newydd ar safleoedd/ mewn adeiladau o fewn neu'n agos at bentref neu yn y cefn gwlad am ddwy flynedd yn olynol |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Caniatawyd 8 cais cynllunio ar gyfer busnesau newydd mewn pentrefi gwasanaeth/lleol/gwledig/arfordirol sydd wedi cyfeirio at bolisi CYF 6 wrth ystyried egwyddor y bwriad. Mae'r mathau o fentrau busnes sydd wedi eu caniatáu yn cynnwys canolfan ymchwil a menter acwstig, llety cathod, modurdy ac ystafell arddangosfa, salon ymdwtio cŵn, gweithdy, uned storio a chynnal, canolfan arddangos.

Mae'n ymddangos bod polisi CYF 6 yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i ganiatáu ceisiadau busnesau newydd o raddfa fach a chan hynny yn cyfrannu tuag at sicrhau llewyrch economaidd a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D38</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO13</td><td colspan="4">Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td colspan="2" rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>MAN 1, MAN 2 & MAN 3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D38 - Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir (m.sg) o fewn a thu allan i ffiniau sefydledig canol trefi</td><td colspan="2" rowspan="4">Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir o fewn ffiniau canol trefi sefydledig o'i gymharu â'r swm blynyddol a ganiateir tu allan i ffiniau canol trefi sefydledig ar safleoedd ar ymylon y canol a safleoedd tu allan i'r canol</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir ar safleoedd tu allan i ganol trefi sefydledig yn fwy na'r swm blynyddol a ganiateir o fewn canol trefi sefydledig</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim cais cynllunio manwerthu mawr wedi ei ganiatáu yn ystod y cyfnod monitro o fewn neu oddi allan i ganol trefi canolfannau manwerthu Ardal y Cynllun.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

## Canol Trefi a Datblygiad Manwerthu

Mae canolfannau manwerthu o fewn y ddau awdurdod yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddiau manwerthu. Nid oes yna unrhyw geisiadau mawr wedi ei dderbyn yn y cyfnod ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu.

Er mwyn ceisio cadw cofnod o sut mae prif ardaloedd siopa sydd wedi eu hadnabod o fewn y Cynllun yn perfformio mae yna Arolwg Manwerthu blynyddol yn cael ei gynnal. Mae'r Arolwg hyn yn cofnodi defnyddiau'r unedau ynghyd a chofnodi pa ddosbarth defnydd maent ynddo. Bydd y gwaith hwn yn rhoi awgrym i ni o sut mae'r polisïau yn perfformio ac yn ein galluogi i fonitro a chymharu gweithgarwch yn flynyddol.

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D39</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO13</td><td colspan="4">Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy’n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>MAN 1, MAN 2, MAN 3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D39 – Cynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli</td><td rowspan="4" colspan="2">Archwiliad i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli yn cael ei gwneud erbyn diwedd 2017/2018 o fabwysiadu’r Cynllun.<br><br>Dynodi safleoedd manwerthu ym Mangor, Llangefni a Phwllheli i gyfarch casgliadau’r Astudiaeth adeg adolygu’r Cynllun.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i gynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli erbyn diwedd 2016/2017 o fabwysiadu’r Cynllun.<br><br>Methiant i ddarparu safleoedd manwerthu i gyfarch casgliadau’r Astudiaeth.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Ers mabwysiadu’r CDLl ar y Cyd, ymddengys fod y niferoedd o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu (A1) o fewn Bangor Llangefni a Phwllheli yn gymharol isel ac mewn gwirionedd beth sydd yn cael ei gyflwyno ydi ceisiadau er mwyn newid defnydd unedau dosbarth defnydd A1 i ddefnyddiau amgen, er enghraifft defnydd A3 ac C3. Oherwydd y diffyg cynnydd a phwysau ar gyfer defnyddiau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn nid yw’n ymddangos fod y galw ar gyfer defnyddiau manwerthu ddim yn cyd-fynd a chasgliadau’r Astudiaeth Manwerthu (2013) a gynhaliwyd gan Applied Planning. Yn sgil hynny, ni ystyrir yn briodol i gynnal Astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli. Rhagwelir y bydd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) yn cael ei ddiweddaru yn ystod y broses o adolygu’r Cynllun. Bydd casgliadau’r Astudiaeth yn sail i’r polisïau manwerthu yn yr adolygiad ac yn ein galluogi i ragweld os yw’r pwysau a’r galw am ychwaneg o ofod llawr nwyddau cymhariaeth yn parhau i fodoli ym Mangor, Pwllheli a Llangefni.<br><br>Mae’r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun yn hwyluso’r ddarpariaeth o safleoedd manwerthu yn unol â’r galw a phriodoldeb y safle, gan hynny mae yna fecanwaith polisi yn ei le er mwyn cyfarch y galw pe byddai’n codi. Ymhellach, ystyrir yn briodol i gynnal adolygiad o’r Astudiaeth Manwerthu yn ystod y broses o adolygu’r Cynllun er mwyn</td></tr>
</table>

DRAFT

| | |
|---|---|
| canfod os yw'r casgliadau yn parhau i fod yn gyfredol ac asesu'r angen ar gyfer darpariaeth o lawr gofod manwerthu. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D40</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO13</td><td colspan="4">Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal ei rôl neu gail ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS 15, MAN 1, MAN 2, MAN 3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D40 – Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn A1 a ganiateir mewn prif ardaloedd siopa unigol</td><td rowspan="4">Defnyddiau A1 yn parhau i fod y prif ddefnydd o fewn prif ardaloedd siopa unigol o'i gymharu ag astudiaeth arwynebedd llawr manwerthu 2017</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu defnyddiau nad ydynt yn A1 mewn prif ardaloedd siopa unigol yn groes i MAN 2</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Rhoddwyd 8 o ganiatadau cynllunio sydd o fewn y brif ardal siopa. Pob cais yn cydymffurfio hefo meini prawf sydd yn y polisi:<br><br>• 6 cais i drosi o ddefnydd A1 i A3,<br>• 1 cais i ddymchwel ac ail adeiladu (A1),<br>• 1 cais i drosi o ddefnydd A1 i A2.<br><br>Gan hynny ystyrir fod Polisi manwerthu'r cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon oherwydd nid oes caniatâd wedi ei roi i ddefnydd sydd ddim yn ddefnydd canol tref (fel y nodir yn PCC). Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

## Yr Economi Ymwelwyr

Mae twristiaeth yn sector deinamig ac yn newid yn barhaus. Mae'n chwarae rhan sylweddol yn economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion yn ardal y cynllun. Gweler pwysigrwydd twristiaeth yn y tabl[3] isod:

| 2017 | Gwynedd* | Ynys Môn |
|---|---|---|
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth | £1.06 biliwn | £304.23 miliwn |
| Cyfanswm niferoedd ymwelwyr (miliynau) | 7.28 | 1.71 |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 3.53 | 1.03 |
| Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau) | 3.75 | 0.68 |
| Nifer yr FTE [4] swyddi a gefnogir gan wariant twristiaeth | 15,601 | 4,102 |

*yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

**Canllaw Cynllunio Atodol – Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid**

Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn am ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Ebrill 2018. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion o Adain Rheolaeth Datblygu ac Adain Twristiaeth y ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 22 Mawrth 2018.

Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Mai a 28 Mehefin, 2018. Derbyniwyd cyfanswm o 25 o sylwadau: Pum sylwad cyffredinol, 2 yn cefnogi a 27 yn gwrthwynebu.

Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau i'r canllaw cynllunio atodol sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol i ymateb i'r materion a godwyd yn y sylwadau yn fân newidiadau, fodd bynnag, ystyrir bod sylwadau a dderbyniwyd ar ddau fater yn gofyn am newidiadau arwyddocaol i'r CCA sef:

1. Sut i ddiffinio gormodedd o lety hunanwasanaeth, a;
2. Sut i ddelio gyda cheisiadau am newid defnydd a cholli gwestai.

Gan fydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio berthnasol ar ôl ei fabwysiadu, ystyrir y Cynghorau ei fod yn bwysig i rhan-ddeiliaid gael dweud eu dweud ar y newidiadau arwyddocaol yma cyn bod y CCA yn cael ei fabwysiadu. Felly, fe gytunwyd cylchredeg dogfen ymgynghori pellach ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Hydref 2018.

Derbyniwyd 8 sylw ar yr ymgynghoriad pellach. Nid ydy'r canllaw wedi ei fabwysiadu eto ond bydd yn cael ei ystyried ar gyfer ei fabwysiadu yn y cyfnod nesaf.

3 Adroddiad STEAM 2017
4 FTE = Cyfwerth ag Amser Llawn

DRAFT

## Dangosydd: D41

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO14 | Rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n cwrdd ag anghenion cyfoes modern ac yn cynnig budd trwy gydol y flwyddyn. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 14, TWR 1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D41 – Caniatáu nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu welliannau i atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr presennol | Caniatáu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu well ar safleoedd addas yn unol â Pholisi TWR 1 | **AMB 1** | ✓ | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu well am 2 flynedd yn olynol |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

Gan fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd nid oes modd asesu'r dangosydd yma yn llawn. Er hynny rhoddwyd 8 caniatâd cynllunio ar gyfer atyniadau twristiaeth ers i'r Cynllun cael ei fabwysiadu. Ceir caniatâd am atyniadau eang yn cynnwys:

- Cyrsiau Weiren Sip Newydd
- Cyfleusterau newydd mewn parc antur teulu
- Wal dringo newydd
- Canolfan Ymwelwyr newydd
- Gwelliannau i Ganolfan Ymwelwyr
- Clwb Hwylio a Chwaraeon Dŵr
- Lido/Pwll nofio a chaffi

**Gweithred:** (gwyrdd)

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

## Dangosydd: D42

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO14 | Rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n cwrdd ag anghenion cyfoes modern ac yn cynnig budd trwy gydol y flwyddyn. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 14, TWR 3, TWR 5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D42 – Caniatáu nifer o geisiadau am unedau gwersylla parhaol a | Caniatáu unedau gwersylla parhaol a thros dro amgen newydd yn unol â | **AMB 1** | ✓ | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer unedau gwersylla parhaol a thros dro |
| | | **AMB 2** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| thros dro amgen newydd | Pholisi TWR 3 neu Bolisi TWR 5 | **AMB 3** | | amgen newydd am 2 flynedd |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Gan fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd nid oes modd asesu'r dangosydd yma yn llawn. Er hyn rhoddwyd 8 o ganiatadau cynllunio ar gyfer unedau gwersylla amgen newydd: 5 ar gyfer datblygiadau gwersylla amgen dros dro (TWR 5) a 3 ar gyfer datblygiadau gwersylla amgen parhaol (TWR 3) sydd yn cynnig amrywiad o gyfleusterau twristiaeth, gwella'r cynnig i dwristiaid a dod a budd i'r economi lleol. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | |

DRAFFT

## 6.4 CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

**Canllaw Cynllunio Atodol – Cymysgedd Tai (2018)**

Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Hydref, 2018 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (17 Mai a 28 Mehefin 2018). Derbyniwyd 43 o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ers mabwysiadu'r canllaw fe ddefnyddir fel ystyriaeth gynllunio materol ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol.

Cafodd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn ei gyhoeddi i roi mwy o fanylder a gwybodaeth ychwanegol i gynorthwyo'r Awdurdodau yn bennaf i weithredu Polisi TAI 8 ('Cymysgedd Briodol o Dai') mewn modd cyson.

Nodai'r Canllaw fod yr Awdurdodau yn cydnabod pwysigrwydd creu cymunedau cynaliadwy, cynhwysol, nodedig, cymysg a chytbwys ym mhob rhan o ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, boed yn drefi neu'n bentrefi. Mae yna angen pendant nid yn unig i wella fforddiadwyedd cartrefi yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol, ond i gyfrannu hefyd at nifer o allbynnau sy'n cynnwys:

- Cartrefi o safon dda sydd wedi cael eu dylunio'n dda a'u hadeiladu i safon uchel, sy'n cynnwys dyluniad cynaliadwy, gwella mynediad i rai grwpiau, e.e. pobl gydag anghenion gofal neu anghenion am eiddo hygyrch, sy'n addas gydol oes (Tai Gydol Oes);
- Cymysgedd o dai marchnad a thai fforddiadwy er mwyn cefnogi'r aelwydydd amrywiol sy'n byw mewn trefi a phentrefi
- Datblygiadau tai mewn llefydd priodol lle gellir cael mynediad i ystod dda o gyfleusterau cymunedol a lle gellir cyrraedd cyfleoedd gwaith, gwasanaethau ac isadeiledd allweddol yn rhwydd.

Mae'r Canllaw yn darparu ciplun o'r sefyllfa a'r cyflenwad tai presennol (math, maint a deiliadaeth) ac yn ystyried y galw a'r heriau ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi wedi hyn sut y dylid dod a'r wybodaeth a'r dystiolaeth at ei gilydd adeg cyflwyno cais cynllunio er mwyn sicrhau marchnad dai mwy cytbwys.

**Canllaw Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (2019)**

Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 15 Ebrill, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (13 Rhagfyr 2018 a 31 Ionawr 2019). Derbyniwyd 31 o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ers mabwysiadu'r canllaw fe ddefnyddir fel ystyriaeth gynllunio materol ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol.

Mae'r Canllaw yn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â pholisïau tai'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn benodol felly'r rhai sydd yn cyfeirio at ddarpariaeth o unedau fforddiadwy. Mae'r Canllaw, yn gryno, yn ymdrin â'r materion canlynol:

- Beth yw Tŷ Fforddiadwy?
- Canfod yr angen am Dai Fforddiadwy
- Hyfywdra darparu unedau fforddiadwy
- Trothwyon ar gyfer sicrhau darpariaeth fforddiadwy
- Paratoi Tai Fforddiadwy
- Cymhwysedd meddianwyr tai fforddiadwy

**Canllaw Cynllunio Atodol - Tai Marchnad Lleol (2019)**

Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 22 Mawrth, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (11 Hydref a 22 Tachwedd 2018). Derbyniwyd 8 sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ers mabwysiadu'r canllaw fe ddefnyddir fel ystyriaeth gynllunio materol ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol.

Mae'r Canllaw yn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â Pholisi TAI 5 (Tai Marchnad Lleol) gan gynnwys:

- Pryd mae'r polisi yn berthnasol?
- Diffinio pwy sydd yn 'lleol'
- Sut i asesu aelwydydd cymwys?
- Uchafswm maint eiddo o'r fath
- Sut i reoli meddiannaeth unedau marchnad lleol a mecanwaith o ran gwerthu eiddo o'r fath

**Lleoliad Tai (Rhan 1)**

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D43</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D43 Cyflenwad o dir ar gyfer tai yn deillio o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (NCT 1) cyfredol</td><td rowspan="4">Ni ddylai'r cyflenwad o dir ar gyfer tai ddisgyn o dan 5 mlynedd yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (NCT 1) mewn unrhyw un blwyddyn</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Y cyflenwad o dir ar gyfer tai yn disgyn islaw'r 5 mlynedd mewn unrhyw un flwyddyn wedi ei gymryd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (NCT 1)</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Mae'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2019 (sydd yn berthnasol ar gyfer y cyfnod 2018-19) ar gyfer ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn nodi cyflenwad tir o 5.3 mlynedd ar gyfer tai.<br><br>Ar gyfer y cyfnod 2017-18 h.y. Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018, roedd cyflenwad tir ar gyfer tai yn 6.3 mlynedd.</td></tr>
</table>

DRAFT

Mae yna gyflenwad digonol o dir ar gael felly ar gyfer tai yn ardal y Cynllun.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

## Dangosydd: D44

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D44 Nifer yr unedau tai newydd a adeiledir yn ardal y Cynllun | Darparu 7,184 unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun, yn ôl y dadansoddiad a nodir ym Mhapur Pwnc 20B Taflwybr Tai<br><br>Targedau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:<br><br>2016/ 17 = 376<br>2017/ 18 = 505<br>2018/ 19 = 617<br>2019/ 20 = 631<br>2020/ 21 = 647<br>2021/ 22 = 623<br>2022/ 23 = 565<br>2023/ 24 = 527<br>2024/ 25 = 528<br>2025/ 26 = 466 | **AMB 1**<br>**AMB 2**<br>**AMB 3**<br>**AMB 4** | –<br><br><br> | Y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol |

**Dadansoddiad:**

Gweler isod gymhariaeth o ran y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r targed:

| Blwyddyn | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 376 | 402 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2017/ 18 | 505 | 462 |
| 2018/ 19 | 617 | 548 |

Gan mai dyma'r AMB cyntaf sydd wedi ei baratoi mewn perthynas â'r CDLl ar y Cyd, nodir fod angen asesu'r darlun a'r amgylchiadau cyflawn mewn perthynas â'r ddarpariaeth tai. Tra bod y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol (o fewn cyfnod yr AMB 1), ni chredir fod hyn yn golygu'r angen i adolygu'r Cynllun.

Wrth ychwanegu'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn nhair blynedd gyntaf y tabl (h.y. 2016-19) yn y dangosydd hwn i'r ffigwr targed, fe nodir bod 1412 o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â tharged o 1498 o unedau. Mae hyn o fewn 10% i'r ffigwr targed. Credir nad yw diffyg o 86 uned dros gyfnod o 3 mlynedd yn achos pryder.

Mae yn anorfod bod yna beth oedi rhwng mabwysiadu'r Cynllun a darparu'r unedau tai. Nodir yn hyn o beth fod nifer yr unedau tai sydd wedi eu darparu wedi cynyddu yn flynyddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae gwybodaeth mewn perthynas â Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2019 yn dangos bod gwaith wedi dechrau neu yn parhau i gymryd lle ar nifer o ddynodiadau tai'r Cynllun gyda caniatadau cynllunio o'r newydd hefyd wedi ei roi ar rai o'r dynodiadau eraill. Nodir bod mwyafrif helaeth o'r unedau sydd wedi eu hadnabod ar safleoedd sydd wedi eu dynodi wedi eu cynnwys o fewn y cyflenwad 5 mlynedd fel nodir yn yr adroddiad JHLAS terfynol.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith JHLAS, yn cysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun a safleoedd mawr eraill (5+) ble mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar eu cyfer. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur, ble nad oes dim amlwg wedi digwydd gyda hwy. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu er mwyn cynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol.

Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

## Dangosydd: D45

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |

DRAFT

<table>
<tr><td></td><td></td><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D45 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yng Ngwynedd fel % o’r ddarpariaeth dai gyffredinol</td><td rowspan="4">Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - 5 am 1,467 o unedau tai newydd yng Ngwynedd (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy’n cyfateb i 19% o’r ddarpariaeth dai gyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:<br><table><tr><td></td><td>Safleoedd a ddynodwyd</td></tr><tr><td>2016/ 17</td><td>99</td></tr><tr><td>2017/ 18</td><td>144</td></tr><tr><td>2018/ 19</td><td>187</td></tr><tr><td>2019/ 20</td><td>180</td></tr><tr><td>2020/ 21</td><td>166</td></tr><tr><td>2021/ 22</td><td>166</td></tr><tr><td>2022/ 23</td><td>135</td></tr><tr><td>2023/ 24</td><td>117</td></tr><tr><td>2024/ 25</td><td>102</td></tr><tr><td>2025/ 26</td><td>74</td></tr></table></td><td>AMB 1</td><td></td><td rowspan="4">Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Gwynedd yn disgyn islaw’r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

**Dadansoddiad:**

Mae’r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai wedi disgyn islaw’r targedau a’u nodir ar gyfer y ddwy flynedd sydd yn berthnasol i gyfnod yr AMB hwn, ynghyd a’r flwyddyn flaenorol. Gweler hyn isod:

| | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 99 | 70 |
| 2017/ 18 | 144 | 77 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2018/ 19 | 187 | 123 |

Fe nodir fod rhai o'r dynodiadau tai eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun, yn aml ar sail eu bod yn ddynodiadau yn y cynllun datblygu blaenorol, ac mai hyn sydd yn gyfrifol ar gyfer mwyafrif yr unedau a'u nodir yn y tabl uchod h.y. unedau sydd wedi eu cwblhau. Mae hyn yn enwedig yn wir yng Ngwynedd gan fod y cynllun datblygu blaenorol, sef y Cynllun Datblygu Unedol, yn un a oedd a'i gyfnod yn gorgyffwrdd a chyfnod y CDLl ar y Cyd. Fel nodwyd o safbwynt dangosydd D44, mae'n anorfod bod yna beth oedi rhwng mabwysiadu'r Cynllun a darparu'r unedau tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi o'r newydd. Mae'r broses o baratoi ar gyfer cais cynllunio hyd at gwblhau unedau ar safle yn gallu bod yn un gweddol hir. Gweler fod y nifer o unedau a ddarperir ar safleoedd a'u dynodir wedi cynyddu yn flynyddol o ran y tair blynedd gyntaf o safbwynt y dangosydd hwn. Tra nad yw'r nifer o unedau a'u darperir ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cwrdd â'r targed am y tair blynedd hyn (ac felly dwy flynedd yn olynol fel nodir o ran y lefel sbardun), ni chredir bod angen adolygu'r Cynllun.

Ynghyd a chynnydd blynyddol yn y ddarpariaeth ar safleoedd sydd wedi eu dynodi, nodir yn 2018/19 fod cyfran sylweddol (45%) o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Mae gwaith mewn perthynas â Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2019 wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o'r dynodiadau, gyda chaniatâd cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar safleoedd eraill. Nodir bod mwyafrif helaeth yr unedau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi wedi eu cynnwys o fewn y cyflenwad 5 mlynedd fel nodir yn yr adroddiad JHLAS terfynol. Yn aml mae hyn yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan y tirfeddiannwr/datblygwyr adeg gwaith paratoi'r JHLAS.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith JHLAS, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ynghyd a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

DRAFT

## Dangosydd: D46

| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | |
|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |

<table>
<tr><th></th><th></th><th colspan="2">Deilliant:</th><th>Lefel sbardun:</th></tr>
<tr><td rowspan="4">D46 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol</td><td rowspan="4">Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - TAI 5 am 1,655 o unedau tai newydd yn Ynys Môn (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 21% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun<br>:<br><table><tr><th></th><th>Safleoedd a ddynodwyd</th></tr><tr><td>2016/ 17</td><td>8</td></tr><tr><td>2017/ 18</td><td>109</td></tr><tr><td>2018/ 19</td><td>193</td></tr><tr><td>2019/ 20</td><td>215</td></tr><tr><td>2020/ 21</td><td>248</td></tr><tr><td>2021/ 22</td><td>221</td></tr><tr><td>2022/ 23</td><td>185</td></tr><tr><td>2023/ 24</td><td>160</td></tr><tr><td>2024/ 25</td><td>176</td></tr><tr><td>2025/ 26</td><td>134</td></tr></table></td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Ynys Môn yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer y ddwy flynedd sydd yn berthnasol i gyfnod yr AMB hwn, ynghyd a'r flwyddyn flaenorol. Gweler hyn isod:<br><br><table><tr><th></th><th>Targed</th><th>Nifer gwirioneddol</th></tr><tr><td>2016/ 17</td><td>8</td><td>4</td></tr><tr><td>2017/ 18</td><td>109</td><td>49</td></tr></table></td></tr>
</table>

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 2018/ 19 | 193 | 99 |

Fel y sefyllfa yng Ngwynedd, fe nodir fod rhai o'r dynodiadau tai eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun ac mae hyn wedi bod yn gyfrifol am gyfran o'r unedau a'u cwblhawyd fel nodir yn y tabl uchod. Yn wahanol i Wynedd fodd bynnag, fe nodir fod cyfnod y cynllun datblygu blaenorol ar gyfer Ynys Môn wedi dirwyn ben ymhell cyn cyfnod y CDLl ar y Cyd. Nid oedd felly'r un dilyniant yn Ynys Môn o safbwynt safleoedd a oedd wedi eu dynodi yn flaenorol (ac a oedd wrthi yn cael eu datblygu) yn cael eu dynodi yn y CDLl ar y Cyd. Mae'n anorfod felly fod yna beth oedi rhwng mabwysiadu'r Cynllun a darparu'r unedau tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi o'r newydd. Mae'r broses o baratoi ar gyfer cais cynllunio hyd at gwblhau unedau ar safle yn gallu bod yn un gweddol hir. Gweler fod y nifer o unedau a ddarperir ar safleoedd a'u dynodir wedi cynyddu yn flynyddol o ran y tair blynedd gyntaf o safbwynt y dangosydd hwn. Tra nad yw'r nifer o unedau a'u darperir ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cwrdd â'r targed am y tair blynedd hyn (ac felly dwy flynedd yn olynol fel nodir o ran y lefel sbardun), ni chredir bod angen adolygu'r Cynllun.

Mae gwaith mewn perthynas â Cyd-astudaieth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) 2019 wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o ddynodiadau, gyda caniatadau cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar rai eraill. Mae caniatadau sylweddol wedi eu rhoddi ar ddynodiadau yn Ynys Môn ers dyddiad mabwysiadu'r Cynllun e.e. Tyn Coed, Llangefni - caniatâd ar gyfer 144 o unedau; Coleg Menai, Llangefni - caniatâd ar gyfer 153 uned. Yn unol â'r wybodaeth yn adroddiad terfynol JHLAS 2019 byddai'n ddisgwyliedig i gyfran helaeth o'r unedau ar y safleoedd hyn, ynghyd â'r nifer o'r dynodiadau eraill, gael eu datblygu o fewn y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith JHLAS, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

DRAFT

**Tai Fforddiadwy**

| **Dangosydd: D47** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

<table>
<tr><td rowspan="4">D47 Cyfanswm nifer tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun</td><td rowspan="4">Adeiladu 1,572 o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun erbyn 2026<br><br>Targedau adeiladu yn ystod gweddill oes y Cynllun (2015 – 2026):<br><br>Adeiladu 345 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2018<br><br>Adeiladu 575 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2020<br><br>Adeiladu 805 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022<br><br>Adeiladu 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2024<br><br>Adeiladu 1,266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Y nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na’r targed cronnol yn y Targed Polisi</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

DRAFT

Yn y cyfnod 2015-18 nodir fod 224 o unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun sydd yn is na'r targed o 345 ai nodir (a'r lwfans 10% a nodir yn y lefel sbardun).

Mae'r rhaniad hyn fel y ganlyn:

2015-16: 83 uned
2016-17: 80 uned
2017-18: 61 uned

Tra nad yw'r targed wedi ei gyrraedd o safbwynt y ddarpariaeth rhwng 2015-18, ni chredir fod hyn yn golygu bod angen adolygu'r Cynllun. Gan fod hwn yn ddangosydd sydd yn asesu gwybodaeth fesul dwy flynedd, nodir nad yw gwybodaeth ar gyfer 2018-19 wedi ei gynnwys yn y wybodaeth uchod. O safbwynt 2018-19 fe nodir bod 193 o unedau fforddiadwy wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun. Mae hyn yn gynnydd arwyddocaol o'r blynyddoedd blaenorol. Gellir asesu yn AMB 2 y ddarpariaeth yn 2018-19 ar y cyd â'r unedau a'u cwblheir yn 2019-20.

Mae gwybodaeth o arolwg JHLAS 2019 yn nodi bod caniatâd yn bodoli ar gyfer 595 o unedau fforddiadwy yng Ngwynedd ac Ynys Môn (473 o unedau heb eu dechrau a 122 o unedau wrthi yn cael eu datblygu). Yn unol â'r wybodaeth ai nodir yn y CDLl ar y Cyd, nodir bod 462 o'r unedau hyn yn rhai lle mae modd eu datblygu yn ystod oes y Cynllun. Mae yna gyflenwad niferus o unedau fforddiadwy felly eisoes o fewn y banc tir presennol a all gyfrannu i gwrdd â'r targedau a'u nodir yn y dangosydd hwn.

Mae polisïau'r CDLl ar y Cyd yn nodi trothwyon sydd yn aml yn is na'r rhai a nodwyd yn y cynlluniau datblygu blaenorol ar gyfer gofyn am ddarpariaeth fforddiadwy. Gall gymryd amser i'r polisi hwn arwain at gynnydd arwyddocaol yn nifer o unedau fforddiadwy a gaiff eu datblygu yn ardal y Cynllun.

Nodir hefyd fod y ffigwr o ran nifer tai fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr ardal na'r hyn a nodir, gan nad yw'n cynnwys unedau tai sydd yn fforddiadwy oherwydd eu maint a'u lleoliad.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

## Dangosydd: D48

| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth |
|---|---|---|

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D48 % unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal prisiau tai | % darpariaeth tai fforddiadwy yn unol â'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai | **AMB 1** | – | % gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai y'i cyfiawnheir o dan Bolisi TAI 15 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Nodir fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol. Gan mai dyma'r AMB cyntaf, bydd yn bwysig sefydlu'r sefyllfa adeg AMB 2 o ran y dangosydd hwn a'r ardaloedd prisiau tai unigol. Nodir fod y wybodaeth isod yn cyfeirio at safleoedd lle mae'n berthnasol i ofyn am ganran o unedau fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15 h.y. trothwy o 2 neu ragor o unedau a ddim yn ystyried safleoedd mewn clystyrau neu yng nghefn gwlad. Nid yw ychwaith yn ystyried caniatâd ar safleoedd eithrio ble mae'n rhaid i'r bwriad fod ar gyfer 100% tai fforddiadwy.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble y byddai angen ystyried y ddarpariaeth fforddiadwy yn unol â chynnwys Polisi TAI 15. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl.

DRAFT

**<u>Ardal Pris Tai</u>:** Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd

Dim caniatâd cynllunio perthnasol.

**<u>Ardal Pris Tai</u>:** Rhosneigr

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 30% | 1 | 2 | 0 | 0% | X |

Nid yw'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn yr ardal pris tai hwn wedi cwrdd â'r targed dangosol. Yn yr achos hwn rhoddwyd y caniatâd cynllunio heb unrhyw ddarpariaeth fforddiadwy ar sail y ffaith fod yna ganiatâd blaenorol sydd dal yn fyw ar y safle (nad oedd yn cynnwys elfen fforddiadwy). Rhoddwyd pwysau i'r caniatâd hwnnw ar draul gofyniad Polisi TAI 15 ar sail y ffaith ei fod yn dal yn rhesymol ei weithredu.

**<u>Ardal Pris Tai</u>:** Biwmares

Dim caniatâd cynllunio perthnasol.

**<u>Ardal Pris Tai</u>:** Gogledd Orllewin Wledig

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 30% | 1 | 14 | 14 | 100% | X |

Mae’r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â’r targed a’i nodir yn y dangosydd.

**Ardal Pris Tai:** Ardal y Pontydd

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 30% | 2 | 20 | 3 | 15% | X |

Nid yw’r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn yr ardal pris tai hwn wedi cwrdd â’r targed dangosol. Mae un o’r ddau ganiatâd dan sylw wedi darparu'r elfen fforddiadwy ddisgwyliedig (33%), fodd bynnag 12% oedd y ddarpariaeth fforddiadwy ar gyfer y caniatâd arall. Cafodd y ddarpariaeth hon ei gyfiawnhau ar sail asesiad hyfywdra o’r datblygiad. Ar sail canlyniadau’r asesiad hwn fe wnaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol dderbyn darpariaeth fforddiadwy sydd yn is na’r hyn a nodir ym Mholisi TAI 15.

**Ardal Pris Tai:** Trearddur & Rhoscolyn

Dim caniatâd cynllunio perthnasol.

**Ardal Pris Tai:** De Orllewin

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 30% | 1 | 6 | 6 | 100% | X |

Mae’r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â’r targed a’i nodir yn y dangosydd.

**Ardal Pris Tai:** Gogledd-ddwyrain Wledig

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 30% | 1 | 3 | 3 | 100% | X |

Mae’r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â’r targed a’i nodir yn y dangosydd.

DRAFT

**Ardal Pris Tai:** Aneddleoedd Arfordirol Mwy

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 30% | 6 | 75 | 35 | 47% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd â'r targed a'i nodir yn y dangosydd. Tra bod 3 o'r caniatadau yn cwrdd yn effeithiol â'r targed polisi, mae hyn yn cuddio'r ffaith nad oes yr un uned fforddiadwy wedi ei gynnig ar gyfer y 3 caniatâd arall. Mae un o'r rhain wedi ei ganiatáu ar sail gwybodaeth hyfywedd a cafodd un arall ei ganiatáu ar sail yr ystyriwyd yr unedau i fod yn fforddiadwy beth bynnag (ar sail ystyriaethau megis eu maint, dyluniad a.y.b.). Ni ymddengys fod ystyriaeth wedi ei roi i ddarpariaeth fforddiadwy ar y caniatâd arall.

**Ardal Pris Tai:** Canolfannau Gwledig

Dim caniatâd cynllunio perthnasol.

**Ardal Pris Tai:** Y Canol Gwledig

Dim caniatâd cynllunio perthnasol.

**Ardal Pris Tai:** Arfordir Gogleddol a De Arfon

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 20% | 10 | 50 | 24 | 48% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn â'r targed a'i nodir yn y dangosydd. Tra bod 4 o'r caniatadau yn cwrdd yn effeithiol â'r targed polisi, mae hyn yn cuddio'r ffaith nad oes yr un uned fforddiadwy wedi ei gynnig ar gyfer y 6 caniatâd arall. Mae tri o'r rhain wedi eu caniatáu ar sail yr ystyriwyd yr unedau i fod yn fforddiadwy beth bynnag (ar sail ystyriaethau megis eu maint, dyluniad a.y.b.). Ni ofynnwyd am ddarpariaeth fforddiadwy mewn perthynas â un caniatâd ar sail y byddai'n amharu'n ormodol ar integredd adeilad rhestredig. Ar gyfer un caniatâd arall nodwyd y byddai un uned (allan o 2) yn gallu cael ei ganiatau beth bynnag ar sail hawliau datblygu a ganiateir gan olygu na fyddai'n berthnasol ystyried Polisi TAI 15 mewn perthynas â'r 1 uned a oedd yn weddill. Ni ymddengys fod ystyriaeth wedi ei roi i ddarpariaeth fforddiadwy ar y caniatâd arall.

**Ardal Pris Tai:** Gorllewin Gwledig

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|

| | | eu caniatáu | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 20% | 1 | 6 | 6 | 100% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â'r targed a'i nodir yn y dangosydd.

**Ardal Pris Tai:** Llangefni

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 2 | 140 | 25 | 18% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â'r targed a'i nodir yn y dangosydd (y ddau safle perthnasol yn cwrdd yn unigol â'r targed polisi).

**Ardal Pris Tai:** Llŷn

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 4 | 44 | 14 | 32% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â'r targed a'i nodir yn y dangosydd (y pedwar safle perthnasol yn cwrdd yn unigol â'r targed polisi).

**Ardal Pris Tai**: Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 4 | 22 | 13 | 59% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â'r targed a'i nodir yn y dangosydd. Nodir fod y ddarpariaeth fforddiadwy yn cyd-fynd â'r gofynion polisi ar 2 o'r safleoedd ac mae un safle ychwanegol wedi ei ganiatáu ar sail yr ystyriwyd yr unedau i fod yn fforddiadwy beth bynnag (ar sail ystyriaethau megis eu maint, dyluniad a.y.b.). O ran y safle arall, nodir fod caniatâd wedi ei roddi ar gyfer 3 uned marchnad agored o fewn y ffin ddatblygu gyda 6 uned fforddiadwy y tu allan ar safle eithrio. Mae'r

DRAFT

ddarpariaeth fforddiadwy ar y safle hwn yn dderbyniol (66%) ond i bwrpas y dangosydd hwn, ni ystyrir y 6 uned a gafodd eu hystyried yn unol â Pholisi TAI 16 ('Safleoedd Eithrio').

**Ardal Pris Tai**: Caergybi

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 3 | 15 | 6 | 40% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd yn effeithiol â'r targed a'i nodir yn y dangosydd (y tri safle perthnasol yn cwrdd yn unigol a'r targed polisi).

**Ardal Pris Tai**: Amlwch a'r Cefnwlad

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 3 | 15 | 8 | 53% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd â'r targed a'i nodir yn y dangosydd. Tra bo 2 o'r caniatadau yn cwrdd â'r targed fforddiadwy, ni ymddengys fod ystyriaeth wedi ei roi i ddarpariaeth fforddiadwy o safbwynt y caniatâd arall.

**Ardal Pris Tai**: Y Mynyddoedd

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 2 | 20 | 17 | 85% | X |

Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy o fewn yr Ardal Pris Tai hwn yn cwrdd â'r targed a'i nodir yn y dangosydd. Nodir fodd bynnag nad oes unedau fforddiadwy wedi eu darparu mewn perthynas â un o'r caniatadau hyn ar sail canlyniad asesiad hyfywdra a ddangosodd na fyddai'n hyfyw darparu unedau fforddiadwy fel rhan o'r cynnig.

**Ardal Pris Tai**: Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol

Dim caniatâd cynllunio perthnasol.

**Ardal Pris Tai**: Blaenau Ffestiniog

DRAFT

| Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran darpariaeth tai fforddiadwy | Cyfraniad ariannol |
|---|---|---|---|---|---|
| 10% | 1 | 4 | 0 | 0% | X |

Tra nad yw'r ddarpariaeth tai fforddiadwy yn yr ardal pris tai hwn wedi cwrdd â'r targed dangosol, noder fod yr holl unedau a'u caniateir fel rhan o'r bwriad perthnasol yn cael eu hystyried i fod yn fforddiadwy beth bynnag ar sail agweddau megis eu maint, dyluniad a.y.b.

**Casgliad**

Tabl yn crynhoi'r wybodaeth ar gyfer yr holl Ardaloedd Prisiau Tai

| **Ardaloedd Pris Tai** | **Canran o dai fforddiadwy y ceisir** | **Gwir ddarpariaeth tai fforddiadwy (canran)** | **Cwrdd â'r lefel targed?** |
|---|---|---|---|
| Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Rhosneigr | 30% | 0% | X |
| Biwmares | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Gogledd Orllewin Wledig | 30% | 100% | ✓ |
| Ardal y Pontydd | 30% | 15% | X |
| Trearddur & Rhoscolyn | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| De Orllewin | 30% | 100% | ✓ |
| Gogledd-ddwyrain Wledig | 30% | 100% | ✓ |
| Aneddleoedd Arfordirol Mwy | 30% | 47% | ✓ |
| Canolfannau Gwledig | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Y Canol Gwledig | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Arfordir Gogleddol a De Arfon | 20% | 48% | ✓ |
| Gorllewin Gwledig | 20% | 100% | ✓ |
| Llangefni | 10% | 18% | ✓ |
| Llŷn | 10% | 32% | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig | 10% | 59% | ✓ |
| Caergybi | 10% | 40% | ✓ |
| Amlwch a'r Cefnwlad | 10% | 53% | ✓ |
| Y Mynyddoedd | 10% | 85% | ✓ |
| Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Blaenau Ffestiniog | 10% | 0% | X |

Ar wahân i dair Ardal Pris Tai, nodir fod y canran cyffredinol o dai fforddiadwy a'u darperir fel rhan o ganiatadau cynllunio preswyl perthnasol yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed dangosol fel amlygir ym Mholisi TAI 15. Nodir fod y dangosydd hwn yn gofyn am asesu gwybodaeth am 2 flynedd yn olynol, felly bydd yn bwysig ystyried canlyniadau AMB 2 ar y cyd â'r wybodaeth uchod.

Hyd yn oed pan na ddarparwyd unedau fforddiadwy ffurfiol fel rhan o ganiatâd cynllunio, nodir bod nifer o unedau wedi derbyn caniatâd ar sail yr ystyrir yr unedau i fod yn fforddiadwy beth bynnag ar sail agweddau megis eu maint, dyluniad a'u lleoliad. Mae cyfiawnhad bron yn ddieithriad wedi ei roi i ganiatadau eraill ble nad yw'r ddarpariaeth berthnasol o unedau fforddiadwy wedi ei ddarparu, megis ar sail ystyriaethau hyfywdra.

<u>Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 30%</u>

| Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| 12 | 120 | 61 | 51% |

<u>Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 20%</u>

| Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| 11 | 56 | 30 | 54% |

<u>Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 10%</u>

| Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| 19 | 260 | 83 | 32% |

Wrth ystyried ardaloedd prisiau tai ar y cyd (ar sail yr ardaloedd ble mae’r canran o dai fforddiadwy ai geisir yn gyson), nodir bod y ddarpariaeth fforddiadwy yn cyd-fynd yn effeithiol â’r targed polisi.

Noder nad oes unrhyw gyfraniad ariannol wedi ei roddi ar draul peidio darparu unedau fforddiadwy fel rhan o fwriad (fel sydd yn bosib yn unol â chynnwys Polisi TAI 15). Gellir ystyried os oes cyfraniadau o’r fath wedi ei roddi erbyn cyfnod AMB 2.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol.

## Dangosydd: D49

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D49 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig | Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o’i gymharu â’r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 – 2016/ 17 | **AMB 1** | ✓ | Dim cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

<u>Ceisiadau cynllunio a gafodd ganiatâd cynllunio ar safleoedd eithrio gwledig yn ystod cyfnod yr AMB hwn</u> (i gyd yn 2018/19):

Ardal y Cynllun: 6 safle (24 uned)

<u>Gwybodaeth ar gyfer 2015/16 a 2016/17</u>:

<u>2015/16</u>

Ardal y Cynllun: 3 safle (3 uned)

<u>2016/17</u>

Ardal y Cynllun: 2 safle (3 uned)

Noder felly fod cynnydd wedi bod yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yng nghyfnod yr AMB hwn, ac yn benodol felly yn ystod y flwyddyn

DRAFT

| | |
|---|---|
| 2018/19, o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 - 2016/ 17. Mae hyn felly yn cyd-fynd yn effeithiol a'r targed a'i nodir o ran y dangosydd hwn. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D50** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D50 Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodwyd ym Mholisi TAI 15 | Cyflenwi'r lefel uchaf bosib o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â Pholisi TAI 15 | **AMB 1** | ✓ | Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw flwyddyn unigol | |
| | | **AMB 2** | | | |
| | | **AMB 3** | | | |
| | | **AMB 4** | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

Mae Polisi TAI 15 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn adnabod 21 Ardal Pris Tai. Ers mabwysiadu'r Cynllun mae 1,010 o unedau tai wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun. Mae'r astudiaeth hyfywedd gwreiddiol i gefnogi'r canrannau ym Mholisi TAI 15 yn adnabod prisiau gwahanol ar gyfer tai sengl 3,4 a 5 llofft, tai pâr 3 llofft, tai teras 2 a 3 llofft, fflatiau 1 a 2 llofft a byngalos 2 a 3 llofft.

Oherwydd y nifer isel cyffredinol o anheddau newydd sydd wedi eu gwerthu mewn rhai o'r ardaloedd prisiau tai yn ogystal â diffyg mathau penodol o dai a gan gofio mai hwn yw'r AMB cyntaf, nid yw'n bosibl cymharu prisiau tai diweddar gyda thybiaethau 2016 ar gyfer pob ardal prisiau tai. Fodd bynnag, dylai hyn ddod yn gliriach yn yr AMB dilynol.

Yn sgil hyn, fe gomisiynwyd y Cyngor gwaith er mwyn deall y newidiadau yn y costau adeiladu yn erbyn y prisiau tai cyffredinol rhwng Mawrth 2016 a Mawrth 2019.

Rhwng 2016 a 2017 roedd yna ostyngiad bychan o -1.9% yn y prisiau tai cyffredinol yng Ngwynedd a chynnydd bychan o 0.2% ym Môn. Ar gyfer y cyfnod 2017 i 2018 roedd yna gynnydd bychan o 0.6% yng Ngwynedd a Môn yn cynyddu 4.3% yn yr un cyfnod. Yn olaf, rhwng 2018 a 2019 fe welwyd Gwynedd gynnydd o 7% gyda chynnydd o 0.4% ym Môn. Ar gyfartaledd, ar draws ardal prisiau tai'r Cynllun mae yna gynyddu o 5.3%.

DRAFT

Mewn perthynas â chostau adeiladu mae'r rhain yn dangos cynnydd o 7.5% rhwng 2016 a 2017, 3.2% rhwng 2017 a 2018 a 1.9% rhwng 2018 a 2019. Yn gyffredinol mae yna gynnydd o 12.6% yn y costau adeiladu wedi bod ers 2016.

Nid yw’r gwahaniaeth rhwng costau adeiladu ers 2016 o reidrwydd yn golygu fod hyfywedd wedi gwanhau gan y dylai fod gwerth meincnod tir fod wedi disgyn yn unol.

Yn yr ardaloedd gwerth uchel sydd â darpariaeth fforddiadwy o 30% mae’r gwerth gweddilliol yn uchel ac yn parhau i fod yn hyfyw. Yn yr is-farchnadoedd canolig mae darpariaeth 20% fforddiadwy yn ymddangos i fod yn rhesymol gyda darpariaeth fforddiadwy o 10% yn hyfyw ar gyfer y rhan helaeth o’r ardaloedd prisiau tai yn y categori yma. Ar gyfer y tri is-farchnad lleiaf (Y Mynyddoedd, Dwyrain Gwynedd a’r Parc Cenedlaethol a Blaenau Ffestiniog) mae hyfywedd yn ymddangos yn anodd, oni bai fod datblygiad yn cymryd lle mewn man gymharol boblogaidd.

Yn gyffredinol mae’r sefyllfa bresennol yn gymharol debyg i’r astudiaeth hyfywedd diwethaf (2016) gyda’r angen i fod yn fwy hyblyg yn y tair ardal is-farchnad gwanaf.

Mae’r asesiad diwygiedig yn awgrymu fod hyfywedd yn fwy o sialens ers 2016, yn benodol gan fod costau wedi cynyddu yn uwch na gwerthoedd. Serch hynny, mae trosolwg o’r hyfywedd yn awgrymu y dylid parhau hefo’r safiad polisi.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. | |

## Dangosydd: D51

| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |
|---|---|---|
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br>**Prif ganlyniadau**:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D51 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o |
| | | **AMB 2** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy. | Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy o fewn 6 mis o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun. | **AMB 3** | | ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun. |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Bu oedi cyn cyhoeddi'r CCA er mwyn caniatáu mewnbwn i'r broses gan Swyddogion Tai ac Eiddo'r Cynghorau.<br><br>Bu'r CCA drafft ymgynghorol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019. Trafodwyd y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb drafft swyddogion yn y Panel Polisi Cynllunio ar y cyd ar y 22 Mawrth 2019.<br><br>Rhagwelir caiff y CCA ei fabwysiadu yn ystod chwarter cyntaf cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Gwaith i gynhyrchu'r CCA i gael ei fonitro fel rhan o AMB dilynol. | | | | |

**Lleoliad Tai (Rhan 2)**

| **Dangosydd: D52** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D52 Nifer o unedau tai marchnad leol a gaiff eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 | Cyflenwi'r lefel uchaf bosibl o dai marchnad leol mewn aneddleoedd a restrir ym Mholisi TAI 5. | **AMB 1** | – | Llai na 10 o unedau tai marchnad leol yn cael eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 mewn unrhyw flwyddyn unigol |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| 2018/19 = 0 uned tai marchnad lleol wedi eu cwblhau<br>2017/18 = 0 uned tai marchnad lleol wedi eu cwblhau | | | | |

DRAFT

Yng nghyfnod yr AMB hwn, nodir bod caniatâd cynllunio wedi ei roddi ar gyfer 2 gais ar gyfer tai marchnad lleol (ar gyfer 2 dŷ). Tra na fyddai'r gyfradd hon o ganiatadau yn arwain at gwrdd â'r lefel targed, nodir bod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Lleol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol. Mae yna oediad amser felly rhwng mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, derbyn egwyddor polisi sydd yn hollol o'r newydd yn yr aneddleoedd perthnasol ac yna adeiladu tai o'r fath. Ni chredir felly fod y ffaith nad oes yr un uned marchnad lleol wedi ei gwblhau yng nghyfnod AMB 1 yn achos pryder.

Disgwylir felly i Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol ddangos bod cyflenwad addas o dai marchnad lleol yn cael eu darparu.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

<table>
<tr><th colspan="5">Dangosydd: D53</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="3">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D53 Ceisiadau cynllunio ac apeliadau i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amod ar gyfer tai marchnad lleol</td><td rowspan="4">Cadw cytundebau 106 ac amodau i hyrwyddo adeiladu tai marchnad lleol yn unol â Pholisi TAI 5</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol yn cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (fel bo'n berthnasol) mewn unrhyw flwyddyn</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Nid oes yr un cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau adran 106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol wedi cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu.<br><br>Yn unol â Deddf Cynllunio 1990 gellir apelio ymrwymiad cynllunio i'r Arolygaeth Cynllunio ar ôl 5 mlynedd ar sail nad oes rheswm cynllunio perthnasol ar ei gyfer. Cyn hynny fe ellir ail-negodi ymrwymiadau cynllunio os yw'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr yn cytuno i hynny, Fodd bynnag o gofio bod unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer tŷ marchnad lleol yn seiliedig ar bolisi yn y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd yn 2017, mae'n annhebygol iawn y byddai Awdurdod Cynllunio Lleol yn barod i ddiwygio neu gael gwared ag amod/chytundeb 106 sy'n ymwneud a chyfyngu eiddo i fod yn dŷ marchnad leol.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
</table>

DRAFT

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

<table>
<tr><th colspan="5">Dangosydd: D54</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="3">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D54 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai marchnad leol.</td><td rowspan="4">Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai marchnad leol o fewn 6 mis o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Tra bod Canllaw Cynllunio Atodol Tai Marchnad Lleol wedi ei fabwysiadu ym mis Mawrth 2019, nid oedd hyn o fewn y lefel targed o 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun.<br><br>Tra nid yw'r targed polisi wedi cael ei gyflawni fel y'i rhagwelwyd, fe nodir ei fod wedi cael ei fabwysiadu o fewn cyfnod AMB 1.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro.</td></tr>
</table>

**Asesiad Marchnad Tai Lleol**

Yn y gwrandawiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fe wnaeth y Cyngor gyflwyno Asesiad Marchnad Tai Lleol (AMTLI) Drafft 2013 ar gyfer Gwynedd. Roedd yna gydnabyddiaeth bod angen ei adolygu a'i ddiweddaru. Fe wnaeth y Cyngor Gwynedd ymrwymo i adolygu'r AMTLI trwy dderbyn bod hyn yn angenrheidiol i ddarparu digon o fanylion am y math o dai a'r ddeiliadaeth dai sy'n ofynnol i lywio penderfyniadau rheoli datblygu.

Oherwydd prinder Adnoddau bu oedi yn yr amserlen i baratoi'r AMTLI i Wynedd. Fodd bynnag mae copi drafft terfynol wedi cael ei greu ac wedi cael cyfnod o ymgynghoriad rhwng Chwefror a Mawrth 2019 efo disgwyliad y caiff ei gyhoeddi yn chwarter cyntaf cyfnod AMB 2.

Prif neges yr asesiad yw bod angen cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy i gymunedau Gwynedd nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae canfyddiadau allweddol eraill yn dangos y bydd

DRAFT

galw cynyddol am dai fforddiadwy ar draws Gwynedd yn y sectorau perchenogaeth breifat, rent preifat a rhent cymdeithasol, na all y cyflenwad presennol eu bodloni.

Mae'r AMTLl hefyd yn canfod:

- Mae tai gwerth canolrif ac chwartel isaf yn anfforddiadwy i aelwydydd gyda incwm canolrif;
- Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu'n sylweddol yng Ngwynedd dros y degawd diwethaf;
- Mae lefelau rhent preifat yn anfforddiadwy i lawer o gartrefi incwm isel;
- Mae'r galw am dai cymdeithasol yn parhau'n uchel ar draws yr ardal;
- Nid yw'r galw am dai cymdeithasol gydag 1 ystafell wely yn cael ei fodloni gan y stoc Bresennol;
- Rhagwelir y bydd nifer aelwydydd yn cynyddu, a'u maint i ostwng dros y degawd nesaf;
- Gall eiddo gwag hirdymor a safleoedd datblygu wedi eu rhwystro allu darparu cyflenwad ychwanegol ar gyfer y farchnad;
- Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth, bydd 303 o aelwydydd newydd yn cael eu sefydlu bob blwyddyn yng Ngwynedd dros y 5 mlynedd nesaf;
- Mae angen 707 unedau tai cymdeithasol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd a'r galw presennol a'r galw a ragwelir;
- Mae angen 104 tai canolraddol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir.

DRAFT

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D55</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="4">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="4">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D55 Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Leol (LHMA) i Wynedd</td><td rowspan="4" colspan="2">Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Leol i Wynedd erbyn Ebrill 2017.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i baratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Leol i Wynedd erbyn Ebrill 2017.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

**Dadansoddiad:**

Bu oedi yn yr amserlen i baratoi a chymeradwyo'r Astudiaeth Marchnad Dai Leol i Wynedd hyn yn rhannol oherwydd prinder adnoddau o fewn y Gwasanaeth Tai.

Fe ffurfiwyd Bwrdd Prosiect oedd yn cael ei arwain gan Swyddogion Tai Cyngor Gwynedd ac yn cynnwys swyddogion o'r Uned Ymchwil, Swyddog Cynllunio o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a Swyddog Cynllunio o Barc Cenedlaethol Eryri. Cytunwyd ar ba sail tystiolaeth i'w gasglu, ffyrdd i'w ddadansoddi a pa is-ardaloedd sydd yn berthnasol.

Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y drafft terfynol o'r AMTLI yn ystod Chwefror / Mawrth 2019.

Rhagwelir bydd yr Adroddiad yn cael ei gyhoeddi o fewn Chwater 1af cyfnod AMB 2.

**Gweithred:**

Monitro fod yr AMTLI Gwynedd yn cael ei gyhoeddi o fewn cyfnod AMB 2.

## Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Cafodd Asesiad Lletya Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd (2016) ei gymeradwyo gan Gabinet Gwynedd ar y 19 Ionawr 2016 a Phwyllgor Gwaith Ynys Môn ar y 8 Chwefror 2016.

Mae'r ddau Gyngor wedi bod yn gweithio i gyflawni'r Argymhellion o fewn Asesiad 2016 sef darparu estyniad i safle presennol Llandygai Bangor a safle parhaol newydd i anghenion parhaol yn Penhesgyn, Penmynydd a paratoi mannau dros dro yng Nghaernarfon, Canol Ynys Môn a Caergybi.

Ar gyfer lleiniau preswyl mae Cyngor Gwynedd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad a gwella'r lleiniau presennol i safle Sipsiwn Penhesgyn sydd wrthi yn cael ei weithredu. Mae Cyngor Môn wedi ymgymryd ag asesiadau i gadarnhau addasrwydd safle Penhesgyn. Fodd bynnag oherwydd newid yn y galw o'r safle diawdurdodedig ar angen i roi blaenoriaeth i ddatblygu safle dros dro yng Nghanol yr Ynys ni oes cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno hyd yma ar gyfer y safle yma.

Ar gyfer man aros dros dro mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i'r sipsiwn / teithwyr. Ar ôl proses o ymgynghoriad cafodd safle ger Star ei ddewis fel safle addas fel angen dros dro. Cafodd cais llawn (41LPA1041/FR/TR/CC) i newid defnydd tir amaethyddol i'w ddefnyddio fel man stopio dros dro (10 llecyn) ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar dir i'r Dwyrain o Groesffordd Star, Star ganiatâd cynllunio ar y 10 Hydref 2018. Yn dilyn proses o ymgynghori daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr 'run o'r ddau safle a ystyriwyd yng Nghaergybi yn addas i'w clustnodi fel mannau aros dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Bydd angen gwneud rhagor o ymchwiliadau i gwrdd ag anghenion teithwyr sy'n teithio i Iwerddon ac i fesur y defnydd a wneir o'r Porthladd gan Sipsiwn a Theithwyr.

Cafodd Cylchlythyr newydd ei gyhoeddi ar gyfer 'Cynllunio ar gyfer safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn (CLIC 005/2018) sydd yn cynnwys canllawiau ar gyfer nodi safleoedd addas ar gyfer sipsiwn a theithwyr.

DRAFT

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D56</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="4">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="4">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D56 Nifer o leiniau Teithwyr ar gyfer llety preswyl a ddarperir ym Mhenhesgyn, Ynys Môn.</td><td rowspan="4" colspan="2">Darparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i ddarparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Fe wnaeth Pwyllgor Gwaith Ynys Môn benderfynu ar y 31 Mai 2016 fod tir ym Mhenhesgyn ger Penmynydd yn cael ei ddewis fel safle posibl i gwrdd ag anghenion llety sipsiwn a Theithwyr yn amodol ar ganlyniadau ymchwiliadau pellach i gadarnhau addasrwydd y safle o safbwynt diogelwch priffyrdd ac iechyd a’i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cytunwyd hefyd i benodi ymgynghorwyr priodol er mwyn paratoi dyluniad o’r safle a cheisiadau cynllunio dilynol.<br><br>Cafodd Capita ei apwyntio i ymgymryd â’r gwaith asesu addasrwydd y safle, creu dyluniad manwl, ymgymryd ag ymholiad cyn gais, paratoi cais cynllunio, mynd trwy’r broses cynllunio, paratoi dogfennau tender a chaffael contractwr a pharatoi contract adeiladu.<br><br>Sefydlwyd Grŵp Prosiect oedd yn cynnwys swyddogion o’r Gwasanaethau Tai, Eiddo, Iechyd yr Amgylchedd, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, yr Heddlu a hefyd cwmni Capita.<br><br>Cafwyd nifer o asesiadau technegol eu cynnal yn edrych ar werthusiad cyffredinol o’r safle, asesiad o ansawdd yr aer, asesiad sŵn ac asesiad ecolegol. Canfyddiadau'r gwaith yma oedd bod safle Penhesgyn yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad preswyl parhaol ar gyfer teithwyr. Bydd angen ymgorffori rhai mesuriadau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i’r safle ateb rhai gofynion yn enwedig o ran sŵn ac ansawdd yr aer.<br><br>Mae datblygu safle Penhesgyn yn effeithio ar un perchennog tir a bydd yn rhaid i’r Cyngor gaffael rhan o gae amaethyddol er mwyn creu mynediad i’r safle parhaol arfaethedig.</td></tr>
</table>

DRAFT

| | |
|---|---|
| Cafwyd cytundeb gan y Pwyllgor Gwaith ar y 14 Chwefror 2017 i symud ymlaen i gam nesaf y prosiect, sef dylunio safleoedd a gweithio allan y costau ac i ddod ag adroddiad pellach i'r Pwyllgor Gwaith ym Mehefin 2017.<br><br>Yn ystod 2017 fe baratowyd cynlluniau drafft ar gyfer y safle a trafodwyd rhain efo aelodau o'r gymuned Teithio sydd wedi eu lleoli ar safle Lôn Pentraeth.<br><br>Cyflwynwyd cais Sgrinio ar y 6 Ebrill 2017 ar gyfer newid defnydd yn safle i deithwyr gan gynnwys 4 bloc amwynder a datblygiadau cysylltiedig eraill ar dir ger Penhesgyn, Porthaethwy.<br><br>Bu newid yn yr angen am y safle oherwydd dim ond 1 person o'r 4 a adnabuwyd yn Asesiad 2016 sydd dal ar y safle. Mae wedi bod yn anodd cynnal trafodaethau i ail leoli'r unigolyn ac mae wedi datgan yn y gorffennol nad yw eisio symud i safle Penhesgyn.<br>Oherwydd y newidiadau mewn amgylchiadau teithwyr safle Lôn Pentraeth a'r angen i ddatblygu safle dros-dro oddi ar yr A5 ger Star rhoddwyd blaenoriaeth o ochr adnoddau'r ymgynghorwyr i symud ymlaen efo cael caniatâd cynllunio ar gyfer y safle yma (gweler manylion mewn ymateb i ddangosydd D58 islaw).<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i geisio ymgysylltu efo'r unigolyn sydd ar ôl ar safle Lôn Pentraeth i drafod ei ail leoli a chytuno ar amserlen benodol i gyfarch yr angen yma. | |
| **Gweithred:** | |
| Cyngor Ynys Môn i barhau i geisio cael datrysiad i'r angen o safle diawdurdodedig Lôn Pentraeth. | |

| **Dangosydd: D57** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. | | |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br>**Prif ganlyniadau**:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | | **Polisi perthnasol:** | PS1 |
| | | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D57 Nifer o leiniau Sipsiwn ychwanegol a ddarperir ar estyniad i'r safle Sipsiwn presennol, gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor | Darparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Darparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 | **AMB 1** | – | Methiant i ddarparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Methiant i ddarparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno 3 cais cynllunio ar gyfer ail ddatblygu'r safle a chynyddu'r nifer o leiniau ar y safle o 7 i 12 yn ystod 2017 a 2018.

Mae'r Cyngor wedi derbyn grant gan Llywodraeth Cymru i ymgymryd ar gwaith yma. Y bwriad oedd cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Mawrth 2019. Fodd bynnag oherwydd materion bioamrywiaeth a thywydd gwael mae yna lithriad wedi bod yn yr amserlen. Cafwyd cytundeb efo Llywodraeth Cymru ar gyfer ymestyn y cyfnod gwario'r arian.

Mae'r gwaith o ail ddatblygu'r safle yn cymryd lle ar hyn o bryd efo bwriad y caiff ei ddarfod erbyn ail chwarter o gyfnod AMB 2.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol

## Dangosydd: D58

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br>**Prif ganlyniadau**:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai; |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | • bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D58 Yr angen am lain ychwanegol wedi'i nodi mewn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GNCTA) | Darparu nifer a math o leiniau i ymdrin â'r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026 | **AMB 1** | – | Methiant i ddarparu nifer a math o lain ychwanegol i ymdrin â'r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Fe wnaeth Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 adnabod angen ar gyfer mannau aros dros dro sef un safle yn Ardal Caernarfon yng Ngwynedd a 2 safle ar Ynys Môn un yng nghanol Ynys Môn ar llall yn ardal Caergybi. Ar gyfer y safleoedd ym Môn dylai bod lle yn y safle yng nghanol yr Ynys ar gyfer 15 carafán a lle yng Nghaergybi ar gyfer 12 carafán.

<u>Gwynedd</u>

Ar gyfer cyfarch yr angen am safle dros dro o fewn ardal Caernarfon mae'r Cyngor wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i'r sipsiwn / teithwyr.

<u>Ynys Môn – Canol yr Ynys</u>

Dewiswyd safle ger Star fel y lleoliad mwyaf addas ar gyfer man aros dros dro ar gyfer y gymuned sipsiwn a theithwyr yn dilyn proses o ddethol safleoedd ac ymgynghorid cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn 2016.

Cynhaliwyd gwerthusiadau cyffredinol a thechnegol o'r safle gan *Capita Real Estate and Infrastructure* ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2016; cyflwynwyd adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2017 ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cyngor. Nod y gwerthusiadau technegol oedd sefydlu a oedd unrhyw resymau neu gyfyngiadau technegol a allai rwystro'r safle rhag bod yn un addas ar gyfer ei ddefnyddio fel safle dros dro i deithwyr. Yn ychwanegol at y gwerthusiadau technegol penodol, rhoddwyd sylw hefyd i ystyriaethau eraill mwy cyffredinol megis maint y safle, y fynedfa a nodweddion ffisegol eraill.

Canfuwyd bod y safle dros dro arfaethedig i Deithwyr yn dderbyniol o safbwynt cynllunio a hynny wedi cymryd i ystyriaeth nifer o asesiadau technegol a gynhaliwyd, megis asesiadau o ansawdd yr aer, sŵn, ecoleg a'r risg o lifogydd.

Yn wreiddiol, tybiwyd y byddai angen 15 llain gyda lle ar gyfer carafán a cherbyd tynnu. Wedi adolygu'r tueddiadau o ran nifer y Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi ymweld â'r ynys

DRAFT

yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac er mwyn defnyddio'r darn tir yng nghanol y safle'n unig, mae nifer y lleiniau wedi cael eu gostwng i 10 o leiniau ffurfiol gyda gwasanaethau ond gyda chyfle i leoli rhywfaint o garafanau ychwanegol petai angen mae lle ar gyfer hyn ar y darn tir canolog hwn.

Mae'r cynigion ar gyfer y safle yn Star wedi cael eu hadolygu sawl gwaith o ran y gofynion gweithredol a'r anghenion o ran gwasanaethau, darparu cyfleustodau, ystyriaethau mewn perthynas â diogelwch y safle a darparu trefniadau mynediad cyfyngedig ac awdurdodedig addas. Gwnaed hyn drwy waith y Gweithgor Technegol a'r Bwrdd Prosiect. Yn ogystal, cafwyd trafodaethau gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi arwain at fireinio ymhellach y cynigion ar gyfer y cynllun.

Cafodd cais llawn (41LPA1041/FR/TR/CC) i newid defnydd tir amaethyddol i'w ddefnyddio fel man stopio dros dro (10 llecyn) ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar dir i'r Dwyrain o Groesffordd Star, Star ganiatâd cynllunio ar y 10 Hydref 2018.

Disgwylir y bydd gwaith ar ddatblygu'r safle yn dechrau yn Chwarter 4 2019/20.

<u>Ynys Môn – Caergybi</u>

Fe wnaeth y Cyngor ymgynghori ar ddau safle bosib yng Nghaergybi ar gyfer safle dros dro i Sipsiwn a Theithwyr.

Nododd y Cyngor yr ystyrir nad yw'r un o'r ddau safle yn addas i'w clustnodi fel mannau aros dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn dilyn y broses ymgynghori. Mae angen dod o hyd i ddatrysiad tymor byr yng Nghaergybi drwy osod biniau i leihau gwastraff domestig a gwastraff anghyfreithlon mewn lleoliadau yng Nghaergybi lle mae'n ymddangos bod teithwyr yn gwersylla arnynt heb ganiatâd. Bydd angen gwneud rhagor o ymchwiliadau i gwrdd ag anghenion teithwyr sy'n teithio i Iwerddon ac i fesur y defnydd a wneir o'r Porthladd gan Sipsiwn a Theithwyr. Oherwydd diffyg tir mewn perchnogaeth gyhoeddus yng Nghaergybi, bydd angen cynnal trafodaethau gyda pherchnogion tir sector preifat er mwyn nodi tir addas fel Man Aros Dros Dro ar gyfer y Teithwyr Gwyddelig sy'n aros yn achlysurol yng Nghaergybi ar eu ffordd i'r porthladd ac oddi yno.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol

## Dangosydd: D59

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br>**Prif ganlyniadau**:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol; |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D59 Nifer o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod yr adroddir arnynt yn flynyddol a hyd yr arhosiad | Monitro newidiadau yn yr angen am leiniau a chymharu â chyflenwad o leiniau yn y cyfnod rhwng yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr | **AMB 1** | – | Nifer o wersylloedd a hyd yr arhosiad yn awgrymu angen am leiniau ychwanegol |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Yng Ngwynedd cafwyd 11 gwahanol wersyll diawdurdodedig eu hadrodd arnynt. Roedd amrediad yn y nifer o garafanau o 1 hyd at 15 efo hyd yr arhosiad yn mynd o 2 noson hyd at uchafswm o 12 noson.

O ran lleoliad cafwyd y mwyafrif ym Mangor (5 gwersyll) efo lleoliadau yn cael un ymweliad yr un sef Caernarfon, Porthmadog, Morfa Nefyn, Nefyn, Abererch ac Abergwyngregyn.

Credir fod rhai o'r ymweliadau yn ardal Bangor gan Sipsiwn sydd yn hanesyddol wedi bod yn ymweld a safle ar Ynys Môn ond sydd bellach ddim ar gael iddynt. Disgwylir bydd datblygu safle dros dro yn y Star yn helpu efo hyn.

Yn Ynys Môn cafwyd 5 gwersyll diawdurdodedig eu adrodd arnynt. Roedd amrediad yn y nifer o garafanau o 1 hyd at 14 efo hyd yr arhosiad yn mynd o 1 noson hyd at uchafswm o 15.

O ran lleoliad cafwyd y mwyafrif yng Nghaergybi (4 gwersyll) efo un arall yn Mona.

Mae'r rhai a gafodd ei adnabod yn Caergybi i gyd wedi bod yno am 1 noson sydd yn awgrymu eu bod yn disgwyl i ddal y gwch am Iwerddon.

O adolygu'r sefyllfa ni oes dim byd yn mynegi pryder ar hyn o bryd

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol i weld os oes patrymau tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

DRAFT

## 6.5 AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG

### Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol**

Cyhoeddwyd y NCT ym mis Mai 2017 ac felly, mewn gwirionedd mae'n ôl-ddyddio'r polisïau a gynhwysir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, ystyrir bod y polisïau o fewn y cynllun yn gyson â ac yn cynorthwyo'r cyngor a geir o fewn y NCT. Mae'r NCT yn rhoi arweiniad ar sut mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu, gwneud penderfyniadau cynllunio a cheisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig.

Mae'r NCT yn atodol i Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a dylid ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru a Chanllaw Arfer Da Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Dylai pob un dderbyn ystyriaeth gan Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

**Canllaw Cynllunio Atodol**

Nododd y CDLl y bydd dau CCA yn cael ei gynhyrchu sy'n ymwneud a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig (h.y. bioamrywiaeth leol ac asedau hanesyddol). Serch y ffaith fod gwaith cychwynnol o ran y Canllawiau Cynllunio Atodol wedi ei wneud, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar hyn o bryd yn ystyried opsiynau o ran y ffordd fwyaf priodol ymlaen o ran cynnwys a fformat y Canllawiau Cynllunio Atodol.

**Ymgeisydd Safle Treftadaeth y Byd – Diwydiant Llechi Gogledd Cymru**

Mae tirwedd llechi Gogledd-orllewin Cymru wedi eu henwebu ar gyfer statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Anelir i gyflwyno 'bid' ffurfiol i UNESCO rywbryd yn ystod 2019 ac wedyn bydd yn cael ei hystyried gan Gyngor Rhyngwladol Safleoedd a Henebion a Phwyllgor Treftadaeth y Byd yn 2021.

DRAFT

| **Dangosydd: D60** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| | | **AMB 1** | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D60 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol | Cynnal neu wella gwerth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth safleoedd sy'n bwysig yn lleol yn unol â Pholisi AMG 5 a Pholisi AMG 6 | **AMB 2** | | Caniatáu un cais yn groes i Bolisi AMG 5 neu Bolisi AMG 6 |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

Dim caniatâd cynllunio wedi ei ganiatáu yn groes i bolisi AMG 5 & AMG 6 yn ystod y cyfnod monitro.

Ymddengys bod y polisïau'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Serch hynny, dylid sicrhau, bod y drefn amlinellir ym mholisi AMG 6 parthed asesu/arfarnu gwerth bioamrywiaeth safleoedd bywyd gwyllt 'ymgeisiol' yn cael ei ddilyn, ac mai ond safleoedd (yn dilyn asesiad/arfarniad) sy'n gymwys i'w cadarnhau fel 'safleoedd bywyd gwyllt' sy'n cael eu hystyried o dan y polisi yma. Nodir bod y pwynt yma ond yn berthnasol i Ardal Cynllunio Cyngor Gwynedd.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## Dangosydd: D61

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D61 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm o 8 cais cynllunio wedi eu caniatáu oedd yn gyfan gwbl/rhannol o fewn safleoedd werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol (h.y. Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ramsar, Safleoedd o ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol). Serch hynny, ni ystyrir bod y caniatadau hyn yn amharu ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth rhyngwladol/cenedlaethol y dynodiadau hyn. O'r herwydd ystyrir bod y caniatadau hyn cydymffurfio hefo PS 19 a chan hynny fod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D62</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO17</td><td colspan="4">Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D62 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).</td><td rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr sy'n niweidiol i harddwch naturiol AHNE.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 a Pholisi AMG 1</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Caniatawyd 2 gais cynllunio am ddatblygiad mawr yn ystod y cyfnod monitro, sef ceisiadau am 2 westy ar Barc Cybi, Caergybi sy'n cael ei gydnabod yn y CDLl ar y Cyd fel safle cyflogaeth i'w warchod. Yn ystod y broses o ystyried y ceisiadau cynllunio perthnasol hyn, fe roddwyd ystyriaeth briodol effaith y datblygiadau ar yr AHNE. Daethpwyd i'r casgliad fod y ceisiadau yn cydymffurfio a pholisi PS19 a pholisi AMG 1 y CDLl ar y Cyd. O'r herwydd, ystyrir bod y polisïau yma yn cael ei weithredu'n effeithiol.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

## Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth

DRAFT

| Dangosydd: D63 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D63 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir mewn Ardaloedd cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr Ardal Gadwraeth neu Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 20 neu Bolisi AT 1 | |
| | | **AMB 2** | | | |
| | | **AMB 3** | | | |
| | | **AMB 4** | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Ni roddwyd caniatâd cynllunio yn groes i bolisi PS 20 a AT1 yn ystod y cyfnod monitro. Caniatawyd 0 cais cynllunio o fewn Safle Treftadaeth y Byd a chyfanswm o 156 o geisiadau cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardaloedd Cadwraeth Ardal y Cynllun. Ystyrir bod y caniatâdau hyn yn cydymffurfio hefo PS 20 a AT1 a chan hynny fod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol. | | | | | |
| **Gweithred:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | | |

| Dangosydd: D64 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D64 – Paratoi a mabwysiadu | Paratoi a mabwysiadu | **AMB 1** | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Canllawiau Cynllunio Atodol Asedau Treftadaeth, | Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | **AMB 2** | | Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mae gwaith cychwynnol yn ymwneud a pharatoi'r CCA hyn wedi mynd rhagddi. Fodd bynnag yn sgil yr angen i flaenoriaethau CCA eraill, nid yw'r CCA wedi bod yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus hyd yma | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | |

**Rheoli Gwastraff**

| **Dangosydd: D65** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o leihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D65 – Swm o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn ardal y Cynllun | Cynnal digon o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff ardal y Cynllun (i'w gadarnhau ar lefel rhanbarthol yn unol â threfniadau monitro gwastraff NCT21) | **AMB 1** | ✓ | Sbardunau i'w sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â NCT21 |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Yn seiliedig ar Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarth Gogledd Cymru, Ebrill 2017; nid oes angen darparu capasiti tirlenwi gwastraff amheryglus (non-hazardous) ac anadweithiol ychwanegol o fewn Rhanbarth Gogledd Cymru a dylid ystyried yn ofalus y posibilrwydd o orddarpariaeth wrth ddelio â chynigion i ddatblygu capasiti triniaeth gwastraff gweddilliol pellach yn y Rhanbarth.<br><br>Yn unol â gofynion NCT21 mae'n rhaid ymgymryd ag Adroddiadau Monitro Gwastraff er mwyn adnabod os yw capasiti tirlenwi a thriniaeth gwastraff rhanbarthol digonol yn cael ei gynnal; os yw'r ddarpariaeth ofodol yn ddigonol i gwrdd â'r gofyn hyn; a phe bod angen awdurdodau cynllunio lleol ymgymryd â chamau angenrheidiol i gwrdd ag unrhyw fater na ragwelwyd / anrhagweledig ac i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau Cynllunio | | | | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| lleol i roddi trosolwg strategol o dueddiadau yn y sector wastraff i wybyddu CDLl a rhoddi arweiniad wrth ddelio â cheisiadau cynllunio gwastraff. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

## Dangosydd: D66

| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o leihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel. | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D66 – Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a gynhwyswyd ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1 | Cynnydd yn y nifer o gyfleusterau rheoli gwastraff a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth a gynhwyswyd ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1, o'i gymharu â'r nifer a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth yn 2016/2017 | **AMB 1** | – | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a gynhwyswyd ym Mholisi GWA 1 a CYF 1. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Rhoddwyd 4 caniatâd cynllunio ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth oedd yn cynnwys:

- Gweithgareddau treuliad anaerobig
- Tir llenwi
- Gweithgareddau gwastraff cyffredinol
- Orsaf Adfer Agregau

Gan hynny ystyrir fod Polisi CYF 1 a GWA 1 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

DRAFT

## Mwynau

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D67</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO19</td><td colspan="4">Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS 22, MWYN 6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D67 – Swm yr agregau cynradd a enillwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MNCT)</td><td rowspan="4">Cynnal cyflenwad o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Y cronfeydd agregau cerrig mâl yn disgyn islaw 12 mlynedd yn ardal y Cynllun</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Ar ddiwedd 2016 roedd 42.94 miliwn o dunelli o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar gyfer creigiau mâl yn weddill, sydd ymhell dros y lefel trothwy. Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016). Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Adolygiad Cyntaf o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd.<br><br>Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer carreg fâl (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 10 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Mae'r ardaloedd a ffafrir ar gyfer cerrig mâl ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLl ar y Cyd yn fwy na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol sydd wedi ei adnabod yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

**Dangosydd: D68**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 22, MWYN 6 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D68 – Cyflenwad tir tywod a graean yn ardal y Cynllun | Cynnal cyflenwad o leiaf 7 mlynedd o dywod a graean drwy gydol cyfnod y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22. | **AMB 1** | ✓ | Y Cronfeydd tywod a graean yn disgyn islaw 9 mlynedd. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |
| | | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Roedd gan Ogledd Cymru oddeutu 15.70 miliwn o dunelli metrig o dywod a graean yn weddill ar ddiwedd 2016 (cyfraniad ardal y Cynllun tuag at y cyfanswm hwn yn 1.175 miliwn). Gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant dros 10 mlynedd, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn eu llythyr egluro polisi CL-04-14 mae hyn yn gyfwerth â banc tir o 21.8 mlynedd.

Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Adolygiad Cyntaf o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd. Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 22 mlynedd, ar gyfer tywod a grean (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 7 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Tra bod y banc tir tywod a graean ar gyfer ardal y Cynllun yn is na'r trothwy 7 mlynedd, mae'r ardaloedd a ffafrir sydd wedi eu hadnabod ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLl ar y Cyd yn fwy na'r na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

Disgwylir ail adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn gynnar yn 2020 a bydd yn cael adrodd arno yn yr AMB nesaf.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Dangosydd: D69**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 22, MWYN 6 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D69 – Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir o fewn clustogfa mwynau | Dim caniatáu datblygiad o fewn clustogfa mwynau a fyddai'n arwain | **AMB 1** | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 5. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | **AMB 3** | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | at sterileiddio'r adnodd mwynau, oni mai ei fod yn unol â Pholisi MWYN 5. | **AMB 4** | | |

**Dadansoddiad:**

Rhoddwyd 38 o ganiatadau cynllunio ar safleoedd sydd o fewn glustogfa mwynau. Mae'r mathau o ganiatadau yn amrywio o fod yn ddatblygiadau deiliaid tŷ i fod yn ddatblygiadau sydd yn benodol ymwneud a gweithredu'r safleoedd mwynau a gwastraff.

Ni roddwyd caniatâd Cynllunio o fewn clustogfa mwynau sydd yn groes i Bolisi MWYN 5. Gan hynny ystyrir fod Polisi MWYN 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFFT

# PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION

Gan mai dyma'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf, a chan nad oes digon o amser wedi mynd heibio ers iddo gael ei fabwysiadu, mae'n anodd adnabod unrhyw dueddiadau o'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno yn yr adroddiad. At hynny, mae'n anochel bod yr AMB yn cynnwys datblygiad a ganiatawyd o dan bolisïau cynllunio lleol a oedd ar waith yn ardal y cynllun cyn mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd, ond a adeiladwyd yn ystod y cyfnod AMB hwn

Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn darparu'r dystiolaeth waelodlin ar y dangosyddion er mwyn eu cymharu mewn blynyddoedd i ddod fel y gall y Cynghorau nodi unrhyw dueddiadau.

Er yr amlinellwyd uchod ei bod yn anodd pennu unrhyw dueddiadau yn ystod y dyddiau cynnar hyn, mae cynnydd da yn cael ei wneud ar gyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y fframwaith monitro ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ac felly i gyfiawnhau bod angen adolygu yn ystod y cam cynnar hwn.

Er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran gweithredu'r CDLl, mae yna ganlyniadau cadarnhaol gweler amlinelliad ohonynt isod:

Defnyddiwyd Polisi PS1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig mewn apêl cynllunio yn gynnar wedi i'r Cynllun Datblygu Lleol gael ei fabwysiadu i wrthod apêl am 366 o dai ym Mangor gan nad oedd yr Arolygydd Cynllunio'n ystyried bod digon o dystiolaeth wedi'i chyflwyno i brofi na fyddai effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, a hynny'n groes i Bolisi Strategol PS1. Rhaid pwysleisio bod hyn cyn mabwysiadu CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Ffyniannus a Chynaliadwy (i'w fabwysiadu yn ystod chwarter cyntaf Adroddiad Monitro Blynyddol 2) fydd yn darparu canllawiau pellach ar sut i sicrhau bod ceisiadau sy'n bodloni'r trothwyon sydd wedi'u nodi ym mholisi PS1 yn cynorthwyo i gynnal a chreu cymunedau ffyniannus a chynaliadwy. Bydd y CCA yn cynnwys methodoleg ar gyfer paratoi Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg a Datganiadau Iaith Gymraeg. Yn ogystal â chasgliadau ar bolisi PS1, cafodd y polisïau tai eu hystyried gan yr arolygydd, roedd y safle a oedd yn destun apêl yn ddynodiad yn y cynllun datblygu unedol ond ni chafodd ei ddynodi yn y Cynllun ar y Cyd, wrth ystyried hyn a'r polisïau tai newydd yn y Cynllun, casgliad yr arolygydd oedd bod egwyddor y ddatblygu yn annerbyniol o ystyried ei lleoliad, ei raddfa a'r nifer o dai fforddiadwy a chynigiwyd.

Rhoddwyd caniatâd i 202 o dai fforddiadwy ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Cwblhawyd 254 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod 2017-19. Mae hyn yn dangos cynnydd sylweddol yn y nifer o unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2018/19 (193 o unedau) o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun ac felly mae'r ddarpariaeth o dai sy'n fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr hwn.

Mae dosbarthiad tai newydd yn unol â'r strategaeth ofodol a osodwyd yn y CDLl, sy'n sicrhau bod tai yn cael eu dosbarthu yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaethau, swyddogaeth a maint (poblogaeth) anheddiad, ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol, cymdeithasol a seilwaith i ymdopi â'r datblygiad.

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Targed yn y CDLl ar y Cyd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 298 | 53% | 55% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 127 | 22% | 23% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 118 | 25% | 22% |
| Cyfanswm | 543 | - | - |

Ym Mehefin 2018, cyflwynodd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn datblygu atomfa newydd, a chynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus. Cyhoeddodd Hitachi ei fwriad i ohirio'r cynnig i ddatblygu'r atomfa newydd; fodd bynnag, cadarnhaodd Horizon y byddai'n parhau i roi adnoddau i sicrhau bod y broses o archwilio'r cais yn cael ei chwblhau, a disgwylir penderfyniad erbyn diwedd Hydref 2019.

Ar y cyfan mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad yw'r targed polisi yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. Mewn llawer o achosion lle nad yw targed y polisi'n cael ei gyflawni, y rheswm am hyn yw oherwydd nad oes digon o amser wedi mynd heibio ers mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd i alluogi'r polisïau i gyflawni amcanion y cynllun.

Mae gofyn i'r Cynghorau adolygu'r cynllun bob pedair blynedd oni bai bod amgylchiadau sy'n codi o gasgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n nodi bod angen adolygu ynghynt. Nid yw'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf yn nodi hyn ac felly does dim cyfiawnhad bod angen adolygu'n gynnar ac felly bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn 2021 oni bai bod Adroddiadau Monitro Blynyddol eraill yn y dyfodol yn nodi i'r gwrthwyneb.

Mae newidiadau cenedlaethol a lleol wedi'u hamlinellu ym mhennod 2 yr Adroddiad Monitro Blynyddol, ac er y bydd y newidiadau hyn yn cael eu hystyried yn ystod unrhyw adolygiad yn y dyfodol, ni ystyrir eu bod yn effeithio ar y Cynllun i'r fath raddau fel bod angen adolygiad yn ystod y cam yma. Bydd unrhyw Adroddiad Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn adrodd ar unrhyw newidiadau yn genedlaethol ac yn lleol ac yn ystyried p'un a ydynt yn arwain at newid ar raddfa fyddai'n gofyn am adolygu'r cynllun yn llawn neu'n rhannol.

Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen adolygu'r Cynllun yn llawn neu'n rhannol yn ystod y cam hwn am y rhesymau isod:

- Dyma'r AMB cyntaf yn dilyn mabwysiadu ac ni nodwyd unrhyw dueddiadau.
- Nid oes unrhyw bolisïau wedi'u nodi fel rhai sy'n methu â chyflawni amcanion y cynllun
- Mae rhai datblygiadau yr adroddwyd arnynt yn benderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd.
- Mae penderfyniadau apêl ers mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd wedi cefnogi polisïau a strategaeth y cynllun.
- Mae'r tai newydd a ganiatawyd yn unol â'r strategaeth ofodol.
- Mae 254 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau yn 2017-2019 ac mae hyn yn gynnydd sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol, ac mae'r nifer o dai sydd wedi'u cwblhau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed a nodwyd yn y fframwaith monitro.

- Mae gan y cynghorau gyflenwad tir o 5.3 o flynyddoedd yn uwch na'r 5 mlynedd fel sy'n ofynnol gan NCT1.
- Mae cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd ar safleoedd sydd wedi ei ddiogelu wedi'u cefnogi gan y polisïau yn y Cynllun ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae'r dangosyddion a gynhwysir o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad ydynt yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisi.

Bydd y CDLl ar y Cyd yn parhau i gael ei fonitro'n unol â'r fframwaith monitro a nodwyd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd.

DRAFFT

## ATODIAD 1

### 1. MONITRO'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

1.1 Roedd y CDLl ar y Cyd yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun. Bu i'r AC ymgorffori'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Diben yr AC oedd arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu i AC y CDLl ar y Cyd adnabod 11 o amcanion a 29 o ddangosyddion sydd wedi'u bwriadu i fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.

1.2 Dylid nodi mai rhagarweiniol oedd y rhaglen fonitro a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd a'i bod wedi tynnu sylw at ddangosyddion posib yn unig. Canfu'r broses monitro bod cyfle i wella'r dasg o fonitro'r AC i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu. Er nad oes yr un dangosydd yn cael ei ddileu, dylid nodi bod y dadansoddiad yn nodi'n glir lle nad yw gwybodaeth ar gael ac/neu yn amherthnasol. Mewn rhai achosion, nid oes gwybodaeth ar gael mwyach (neu nid yw'n berthnasol); mewn achosion eraill, nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl fel y gellir monitro'n ddefnyddiol.

1.3 Mae nifer o Ddangosyddion AC lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rhai sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain, o reidrwydd, am fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent wedi'u cadw er mwyn darparu gwaelodlin, gwneir gwaith pellach mewn pryd ar gyfer yr AMB nesaf i bennu p'un a oes ffynonellau gwybodaeth amgen ar gael.

1.4 Dylid nodi nad yw'r system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r CDLl wedi'u defnyddio wrth Fonitro'r AC. Mae nifer o'r amcanion AC o natur ddyheadol ac i raddau mae'n wybodaeth fyddai'n cael ei monitro mewn sefyllfa ddelfrydol. Yn ogystal, nid y CDLl ei hun fyddai'r unig ffactor i'w ystyried wrth gyflawni'r nodau. Nid yw'r Monitro AC yn cynnwys Targedau fel y cyfryw, yn wahanol i Fonitro'r CDLl, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwadau mewn system sgorio goleuadau traffig.

1.5 Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf o goladu (2017-2019), ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu, bydd y gwaith monitro'n cael ei ddefnyddio yn bennaf i osod y gwaelodlin ar gyfer y broses fonitro. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol ac mae sylwadau i'w cael o dan bob amcan AC sy'n disgrifio'r cynnydd. Mae pob Amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, ac mae'r casgliadau wedi'u nodi yn y rhannau isod. Mae'r lliwiau isod wedi'u defnyddio i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd:

| Lliw | Effaith |
|---|---|
| ✓ | Effeithiau positif |
| +/- | Effeithiau cymysg |
| × | Effeithiau negyddol |
| 0 | Niwtral / Data ddim ar gael |

**Crynodeb Monitro AC**

1.6 Mae Tabl 1 yn nodi asesiad cryno o ganlyniadau'r Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd. Cynhwysir crynodeb o'r canlyniadau hyn ym mharagraff 1.7.

| Tabl ** Monitro Arfarniad Cynaladwyedd – Crynodeb | | |
|---|---|---|
| | **Amcanion** | **Canlyniad** |
| **1** | Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth | ✓ |
| **2** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol | **0** |
| **3** | Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu | **+/-** |
| **4** | Cadw, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg | ✓ |
| **5** | Cadw, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol | ✓ |
| **6** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol | **+/-** |
| **7** | Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol | ✓ |
| **8** | Gwerthfawrogi, cadw a gwella tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun | ✓ |
| **9** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff | ✓ |
| **10** | Cefnogi a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi | **+/-** |
| **11** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd | **+/-** |

**Crynodeb o'r Canlyniadau**

1.7 Mae canlyniadau'r monitro Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi, o'r 11 Amcan Cynaliadwyedd, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer 6 amcan ac effeithiau niwtral ar gyfer 1 amcan ac effeithiau cymysg ar gyfer 4 amcan. Ni nodwyd unrhyw amcanion gydag effaith negyddol sylweddol. Dengys y tabl bod cynnydd yn cael ei wneud, wrth gydbwyso popeth, gyda mwyafrif yr amcanion cynaliadwyedd a nodwyd, yn erbyn yr amrediad o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad y dangosyddion:

| Amcan AC 1: Bioamrywiaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl. | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 2) Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad. | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 3) % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/ lleol) | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd. | Gwelliant | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 6) Nifer ac arwynebedd SINCs a GNL o fewn y Cynllun. | Cynnal/Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | **0** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Mae'r canlyniadau ar gyfer nifer y ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd dynodedig fel a ganlyn:
   - 0 nifer o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu ar safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y dynodiad
   - 0 nifer o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu ar safleoedd sydd o bwys bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth yn lleol.

2) Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau, mae polisïau o fewn y CDLl yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod.

3) Dim ond ar gyfer ACA ac AGA y mae'r wybodaeth ar gael ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:
- ACA - 40% (8 o'r 20 ACA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o ardal yr holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol';
- ACA - 89% (8 o'r 9 AGA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o'r holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol'.

4) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

5) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

6) Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:
- 392 (7115HA) Safleoedd Bywyd Gwyllt wedi'u cadarnhau (Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur)
- 13 (3137HA) Gwarchodfa Natur Leol

| **Amcan AC 2: Cymuned a Iechyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at wasanaethau allweddol. | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |
| 2) Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru. | Gwelliant | - | Data ddim ar gael | **0** |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |
| 1) Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol<br>2) Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol | | | | |

| Amcan AC 3: Newid Hinsawdd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| % newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a'r sector coedwigaeth. | Gostyngiad | 2018/19 | Gweler esboniad isod | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

- Mae tuedd gyffredinol lle mae gostyngiad wedi'i weld o 2005 hyd 2017 yn Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer y chwe dangosydd allyriadau carbon.
- Mae 'naid' gyffredinol am i fyny mewn allyriadau o 2017 i 2018.

**Ynys Môn**

- O 2005 i 2018, gwelwyd gostyngiad yn y canrannau ar gyfer y chwe dangosydd, gan amrywio o 5.0% i 69.7%.
- Yn 2018, gwelwyd cynnydd amlwg yn y chwe dangosydd o 2017, gan amrywio o 1.7% i 10.0%.
- Mae'r cynnydd hwn mewn allyriadau o 2017 i 2018 yn dangos 'naid' yn y duedd arferol o ostyngiadau graddol mewn allyriadau carbon ym Môn.
- Mae'r duedd ostyngedig hanesyddol mewn allyriadau carbon a'r duedd gynyddol ddiweddar yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd yng Ngwynedd ac yng Nghymru.

**Gwynedd**

- O 2005 i 2018, gwelwyd gostyngiad yn y canrannau ar gyfer y chwe dangosydd, gan amrywio o 0.7% i 38.3%.
- Yn 2018, gwelwyd cynnydd amlwg mewn tri o'r chwe dangosydd o 2017, gan amrywio o 1.7% i 13.2%.
- Mae'r cynnydd hwn mewn allyriadau o 2017 i 2018 yn dangos 'naid' yn y duedd arferol o ostyngiadau graddol mewn allyriadau carbon yng Ngwynedd, er y dylid nodi bod tri o'r chwe dangosydd wedi parhau i weld tuedd o ostyngiadau mewn allyriadau.
- Mae'r duedd ostyngedig hanesyddol mewn allyriadau carbon a'r duedd gynyddol ddiweddar yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd ym Môn ac yng Nghymru.

**Cymru**

- O 2005 i 2018, gwelwyd gostyngiad yn y canrannau ar gyfer y chwe dangosydd, gan amrywio o 3.9% i 75.9%.
- Yn 2018, gwelwyd cynnydd amlwg mewn pump o'r chwe dangosydd o 2017, gan amrywio o 1.7% i 13.2%.
- Mae'r cynnydd hwn mewn allyriadau o 2017 i 2018 yn dangos 'naid' yn y duedd arferol o ostyngiadau graddol mewn allyriadau carbon yng Nghymru, er y dylid nodi bod un o'r chwe dangosydd wedi parhau i weld y tuedd arferol o ostyngiadau mewn allyriadau.

Mae'r duedd ostyngedig hanesyddol mewn allyriadau carbon a'r duedd gynyddol ddiweddar yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd ym Môn ac yng Ngwynedd.

| Amcan AC 4: Iaith Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer/ % siaradwyr Cymraeg | Cynnydd | Blwyddyn yn gorffen Mawrth 31 | Ynys Mon – 42,500 (63.6%)<br>Gwynedd – 89,600 (75.5%) | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Polisi PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Nod Polisïau PS 1, PS 5 a PS 6 yw integreiddio 'datblygiadau cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.

Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg.  Gan fod y data yn dod o arolwg a'r canlyniadau yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar sampl mae felly yn ddarostyngedig i wahanol raddau o amrywioldeb samplu.

Mae'r tabl isod yn nodi ffigyrau y flwyddyn sydd yn darfod 31 Mawrth ar gyfer 2017 (sef y flwyddyn olaf cyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu), 2018 a 2019:

| Awdurdod Lleol | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2018 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ynys Môn | 42,400 | 63.5 | 42,500 | 63.6 | 45,500 | 67.5 |
| Gwynedd | 87,600 | 74.1 | 89,600 | 75.5 | 91,000 | 76.4 |

Fel y gwelir mae'r ffigyrau yma yn nodi lefel llawer yn uwch na canlyniadau Cyfrifiad 2011 oedd yn nodi 57% o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn a 65% yng Ngwynedd. Fodd bynnag oherwydd fod y ffigyrau yma ar sail sampl ni ydynt ar sail mor gadarn a ffigyrau'r Cyfrifiad ac yn wastad maent wedi tueddu i roi % uwch na'r Cyfrifiad. Er dylid nodi fod sampl diweddar o faint mwy efo oddeutu 350% o gynnydd yn y sampl o'i gymharu a'r blynyddoedd cynnar.

| Amcan AC 5: Treftadaeth / Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |
| 0 caniatâd cynllunio wedi ei ganiatáu yn groes i bolisi PS 20 a AT1 yn ystod y cyfnod monitro. Caniatawyd 0 cais cynllunio o fewn Safle Treftadaeth y Byd a chyfanswm o 153 o geisiadau cynllunio oedd yn croesi neu o fewn Ardaloedd Cadwraeth Ardal y Cynllun. Ystyrir bod y caniatâdau hyn yn cydymffurfio hefo PS 20 a AT1 a chan hynny fod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol. | | | | |

| Amcan AC 6: Economi a Chyflogaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Actifedd economaidd fesul sector | Cynnydd | 2017,2018 & 2019 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 2) Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed. | Cynnydd | | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 3) Nifer o bobl yn cymudo i fewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig. | Gostyngiad | 2017 & 2018 | Gweler esboniad isod | ✗ |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |

1 + 2) Dengys ystadegau y gwelwyd cynnydd mewn gweithgarwch economaidd yn ardal Awdurdod Lleol Ynys Môn a Gwynedd ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Mae gweithgarwch economaidd y ddwy ardal yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru.

Arolwg Llafurlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

| | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2018 | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 78.1 | 80.7 |
| Gwynedd | 76.7 | 77.1 |
| Cymru | 76.5 | 76.7 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

3) Dengys ystadegau y bu peth cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n cymudo i mewn ac allan o ardaloedd yr awdurdod - patrwm sy'n cael ei ailadrodd yng Nghymru gyfan.

<u>Patrymau Cymudo fesul Awdurdodau Lleol yng Nghymru</u>

| | Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2017 | Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2018 | Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2017 | Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2018 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 9,200 | 10, 200 | 3,100 | 4,200 |
| Gwynedd | 7,100 | 8,600 | 9,200 | 12,500 |
| Cymru | 94,700 | 95,400 | 42,200 | 47,000 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

Dyma'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ac felly ni ellir sefydlu tueddiadau ac fe barheir i fonitro'r dangosyddion.

**Amcan AC 7: Tai**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o unedau tai fforddiadwy sy’n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o’r holl unedau. | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Mae’r tabl isod yn cymharu'r ganran o dai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2018-19 gyda'r wybodaeth ar gyfer 2017-18. Mae hwn yn berthnasol i'r cyfnod pan fo'r Cynllun wedi cael ei fabwysiadu.

| Blwyddyn | Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd | Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd | Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| 2017-18 | 61 | 463 | 13.2% |
| 2018-19 | 195 | 548 | 35.6% |

Mae'n amlwg y bu i nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd fesul blwyddyn fel canran o'r holl unedau newydd gynyddu'n sylweddol yn 2018-19 o gymharu â 2017-18. Felly, mae hyn yn cydymffurfio'n effeithiol â'r targed a nodwyd.

| Amcan AC 8: Tirlun a Threflun | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Cyfran o'r dirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan LANDMAP | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |
| 2) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |
| 3) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio'n bwysig gan LANDMAP | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffiniwyd dan LANDMAP fel a ganlyn:
   - Gweledol a Synhwyraidd - dosbarthwyd 51% (135 o 267 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Diwylliannol - dosbarthwyd 98% (374 o 382 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Daearegol - dosbarthwyd 62% (133 o 213 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol
   - Tirweddau Hanesyddol - dosbarthwyd 81% (319 o 392 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Cynefinoedd y Dirwedd - dosbarthwyd 47% (592 o 934 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol

2) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn AHNE fel a ganlyn:
   - 540

3) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn ardaloedd a ddosbarthwyd yn rhagorol gan LANDMAP fel a ganlyn:
   - Gweledol a Synhwyraidd - 81
   - Diwylliannol - 1587
   - Daearegol - 724
   - Hanesyddol - 1270
   - Cynefinoedd y Dirwedd - 70

Bydd y dangosyddion uchod yn parhau i gael eu monitro mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

| Amcan AC 9: Tir, Mwynau a Gwastraff | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) % cyfradd datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 2) % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi | Gostyngiad | 2017-2018 | 24% Gwynedd<br>0% Isle of Anglesey<br>11% Wales | ✓ |
| 3) % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol | Cynnydd | 2017-2018 | 72% Anglesey<br>60% Gwynedd<br>63% Wales | +/- |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) mae % cyfran y datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes fel a ganlyn:

- Ynys Môn 2017-2018 13.81ha; Ynys Môn 2018-2019 4.33ha;
- Gwynedd 2017-2018 12.82ha; Gwynedd 2018-2019 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd diffyg adnoddau/problemau technegol;

2) mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei dirlenwi fel a ganlyn:

- 2016-2017 = Ynys Môn (6%) Gwynedd (31%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (0%), Gwynedd (24%)

3) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu fel a ganlyn:

- 2016-2017 = Ynys Môn (66%) Gwynedd (61%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (72%), Gwynedd (60%)

| Amcan AC 10: Trafnidiaeth a Mynediad | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol sy'n teithio gyda char | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | +/- |
| 2) Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafnidiaeth | Cynnydd | 2017/2018/2019 | Gweler esboniad isod | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| trafnidiaeth gyhoeddus) | | | | |
| 3) Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. | Cynnydd | 2016/17 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) % cynnydd yn y thwyfaith beicio | Cynnydd | Transport Topic Paper (2015) | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur. | Cynnydd | 2019 onwards | Gweler esboniad isod | **0** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1)
•Gyrru Car – mae'r cyfran sy'n gyrru car i'w gwaith yng Ngwynedd (38%) yr un fath a chyfartaledd Cymru tra bod y cyfran yn Ynys Mon ychydig yn llai (34%).
•Gweithio o gartref – mae cyfran uwch yng Ngwynedd (9.23%) ac Ynys Môn (8.99%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (6.44%).
•Trên - mae cyfradd is yng Ngwynedd (0.37%) ac Ynys Môn (0.27%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (1.08%).
•Bws – mae cyfran uwch o bobl yng Ngwynedd (2.75%) yn teithio i'r gwaith ar y bws na'r cyfartaledd cenedlaethol (2.71%). Mae cyfran sylweddol is yn Ynys Môn (1.29%), sy'n is na chyfran Gwynedd a'r cyfartaledd cenedlaethol.
•Ar droed - mae'r gyfran yng Ngwynedd (7.22%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (5.79%). Mae cyfran Ynys Môn (5.02%), yn llai na chyfran Gwynedd a'r cyfartaledd cenedlaethol.

2)
•100% o ddatblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud.
•Gan mai dyma'r tro cyntaf i ni fonitro'r cynllun, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin ar gyfer y cyfnod monitro nesaf.

3)
- Ym Môn, ceir y trydydd nifer isaf o ddeiliaid tocyn bws mantais ar gyfer pobl 60 mlwydd oed a throsodd (75.6%).
- Mae'r pedwerydd nifer isaf i'w gael yng Ngwynedd (80.0%).
- Yr ardal gyda'r nifer isaf yw Powys (71.5%).
- Yr ardal gyda'r nifer uchaf yw Caerdydd (98.9%).
- Y cyfartaledd cenedlaethol yw 87.0%. Felly, mae Ynys Môn a Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Gan mai dyma'r tro cyntaf i ni fonitro'r cynllun, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin ar gyfer y cyfnod monitro nesaf.

4)

- Mae Ynys Môn wedi'i chynnwys yn ardal Taith. Mae Gwynedd wedi'i chynnwys yn ardaloedd Taith a Tracc.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Taith yw: 5 - Reading i Gaergybi; 8 - Caerdydd i Gaergybi.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Tracc yw: 8 - Caerdydd i Gaergybi; 42 - Y Clas-ar-Wy i Gaerloyw; 43 - Llanfair ym Muallt i Abertawe; 81 - Aberystwyth i'r Amwythig; 82 - Porthmadog i Aberteifi.
- Gan mai dyma'r tro cyntaf i ni fonitro'r cynllun, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin ar gyfer y cyfnod monitro nesaf.

5)

- Ar hyn o bryd, mae 92 o orsafoedd tanwydd yng Nghymru sy'n gwerthu tanwydd LPG.
- Mae dwy orsaf yn Ynys Môn yn gwerthu LPG. Y rhain yw: Amlwch – 1; Gaerwen – 1.
- Mae deg gorsaf yng Ngwynedd yn gwerthu LPG. Y rhain yw: A496 – 1; A4487 – 1; Bangor – 1; Abermaw - 1; Blaenau Ffestiniog – 1; Caernarfon -2; Machynlleth – 1; Pwllheli – 2.
- Gan mai dyma'r tro cyntaf i ni fonitro'r cynllun, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel gwaelodlin ar gyfer y cyfnod monitro nesaf.

| Amcan AC 11: Dŵr a Pherygl Llifogydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynaladwy. | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |
| 2) % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu botensial | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler yr esboniad isod | ✓ |
| 3) Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15). | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler yr esboniad isod | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Nid yw'r Awdurdodau yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Bydd yr UPC ar y Cyd yn gweithio â'r ddau Awdurdod i ganfod ffordd o gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2) Dyma'r canlyniadau:

   **Llynnoedd**
   - Cylch 1 - 67%
   - Cylch 2 - 78%

   **Afonydd**
   - Dim ond Cylch 1 sydd ar gael ar hyn o bryd ac felly byddwn yn defnyddio hwn fel gwaelodlin ac yn parhau i fonitro'r dangosydd.

3) Dyma'r canlyniadau:

- 27 o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn C1, ac roedd pob un yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Lligofydd).
- 89 o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn C2, ystyriwyd bod 87 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd). Dim ond un cais cynllunio a ganiatawyd (trosi Capel gwag yn annedd) ar gyfer math o ddatblygiad yr ystyrir yn ddatblygiad 'hynod fregus' yn unol â Ffigwr 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd) ac nid yw'n cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd). Caniatawyd y cais cynllunio hwn gan y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad y swyddogion.

**Atodiad 2: Cydymffurfiaeth y CDLl ar y Cyd a'r Deddf Llesiant (2015)**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Wrth ymgymryd â'r ddyletswydd yma, mae'r camau sy'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cymryd yn cynnwys:-

- Gosod a chyhoeddi amcanion ('amcanion llesiant') sydd wedi ei dylunio i uchafu ei gyfraniad i gyflawni bob un o'r goliau llesiant; a,
- Cymryd pob cam rhesymol (wrth ymgymryd â'i swyddogaethau) i gwrdd â'r amcanion hynny.

Mae'r Ddeddf yn gosod saith amcan llesiant gyda'r nod o sicrhau fod cyrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.

Daeth Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Gan fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ei chyflwyno i'r Llywodraeth i'w archwilio cyn y dyddiad yma nid oedd yn ofynnol i'r Cynllun gwrdd â'r amcanion llesiant fel y nodwyd o fewn y ddeddf.

Serch hynny, ystyrir fod y CDLl ar y Cyd yn gydnaws a'r amcanion llesiant. Mae'r tabl canlynol yn amlygu pob amcan llesiant gan nodi sut fo'r Cynllun yn cyflawni'r amcanion hynny, ynghyd a pha amcan strategol a pholisi o fewn y Cynllun sydd yn berthnasol i gyflawni/cydymffurfio a'r amcan hynny.



| Amcan Llesiant | Sut Mae'r Cynllun yn Cyfrannu at yr amcan yma | Amcan Strategol Perthnasol | Polisïau Perthnasol |
|---|---|---|---|
| **Cymru ffyniannus:**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod cyfyngiadau amgylchedd y byd gan felly ddefnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid hinsawdd); sy'n datblygu poblogaeth fedrus a hyddysg mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth gan ganiatáu i bobl gymryd mantais o'r cyfoeth a grëwyd drwy sicrhau gwaith gweddus. | Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau sy'n hybu technoleg garbon isel, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gwarchod adnoddau cyfyngedig a pholisïau sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd ble mae ffyniant poblogaeth ardal y Cynllun yn dibynnu arno.<br><br>Mae'r Cynllun yn rhoi cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus drwy ddiogelu tir cyflogaeth bresennol a dynodi tir cyflogaeth newydd i anghenion cyflogaeth yn y dyfodol a darparu fframwaith polisi cynllunio lleol i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig/cysylltiol gyda'r Wylfa Newydd. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys polisïau ar gyfer ail-ddatblygu tir addas a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau i amryw fathau o ddatblygiad sy'n ffordd | SO2 – SO14, SO17 – SO19 | PS2, ISA1, ISA3, PS3, PS4, PS5, PS6, PCYFF5, PS7, ADN1, ADN2, ADN3, PS10, PS11, PS12, PS13, CYF1, CYF4, CYF6, CYF7, CYF6, PS19, AMG5, AMG6, PS22, MWYN1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | effeithiol iawn o sicrhau adfywio trefol, gan gynnwys y gymysgfa briodol o dai, cyflogaeth, manwerthu, addysg, hamdden a chyfleusterau mwynderol.<br><br>Er bod diddordebau addysgol y tu hwnt i reolaeth y Cynllun, mae yn cynnwys polisïau sy'n cefnogi cynigion ar gyfer cyfleusterau addysg bellach ac uwch gan annog isadeiledd a chyfraniadau'r datblygwr i addysg ble fo hynny'n angenrheidiol. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio cynnal hierarchaeth cymunedau cynaliadwy a'r gwasanaethau maent yn eu darparu. | | |
| **Cymru gydnerth:**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol gyda'r gallu i addasu os oes unrhyw newid (er enghraifft, newid hinsawdd). | Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau penodol sy'n gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth. Mae yn adnabod ac yn gwarchod dynodiadau statudol ac anstatudol.<br><br>Mae yn hyrwyddo defnydd effeithiol o'r adnoddau, technoleg adnewyddadwy, carbon isel neu di-garbon ac yn cynnwys polisïau sy'n ceisio lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.<br><br>Gan fod rhannau mawr o ardal y Cynllun o natur arfordirol rhoddwyd sylw i bolisïau'r Cynllun Rheolaeth y Draethlin.<br><br>Yn ogystal, mae'r Cynllun yn atal datblygiad amhriodol mewn parthau llifogydd. | SO6, SO7, SO8, SO17 | PS6, PCYFF5, PS7, ADN1, ADN2, ADN3, ARNA1, PS19, AMG4, AMG5 |
| **Cymru iachach:**<br>Cymdeithas ble fo lles corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu a ble fo dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol wedi eu deall. | Mae'r Cynllun yn diogelu rhag colli mannau agored gyda gwerth hamdden gan ddarparu cyfle i greu mwy o fannau hamdden gyda datblygiadau tai newydd. | SO2, SO3, SO7, SO15, SO16 | ISA2, ISA4, ISA5, PS4,TRA4, PCYFF3, PS17, TAI8 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae polisïau eraill yn y Cynllun yn cynnwys meini prawf sydd yn nodi (ble fo'n briodol) bydd angen i ddatblygiadau newydd greu mannau cyhoeddus diogel, deniadol ble fo nodweddion pwysig sy'n cynnwys ardaloedd mwynderol, mannau gwyrdd ac isadeiledd gwyrdd yn cael eu cadw a'u gwella.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn hwyluso datblygiad cyfleusterau gofal iechyd sy'n hygyrch i bawb yn Ardal y Cynllun. Mae hefyd yn cyfarwyddo datblygiadau preswyl newydd i fod yn unol â rôl yr anheddiad yn yr Hierarchaeth Anheddau, gan felly symud tuag at sicrhau fod tai newydd wedi eu lleol mewn mannau sy'n hygyrch i gyfleusterau cymdeithasol a gwasanaethau allweddol. | | |
| **Cymru fwy cyfartal:**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys cefndir economaidd cymdeithasol ac amgylchiadau). | *Hil:*<br>Ceir sawl polisi yn y Cynllun sy'n hwyluso cynhwysiant cymdeithasol fydd o gymorth i integreiddio grwpiau i'r cymunedau lleol. Mae gwella hygyrchedd hefyd yn thema bwysig yn y Cynllun sy'n helpu i integreiddio grwpiau lleiafrif, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr i'r gymdeithas.<br><br>*Anabledd:*<br>Mae'r Cynllun yn hwyluso datblygiad tai o ansawdd da sy'n briodol i anghenion pobl anabl. Mae polisi dylunio yn sicrhau fod pob datblygiad yn cyflawni'r dyluniad cynhwysol drwy sicrhau amgylcheddau lle nad oes rhwystrau; sy'n galluogi mynediad i bawb ac sy'n cynnig darpariaeth lawn i bobl ag anableddau;<br><br>Yn ogystal, mae'r Cynllun yn cefnogi'r cynigion sy'n ymwneud â gweithio o adref, a fedrai fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn ardaloedd gwledig sy'n llai hygyrch at | SO1, SO7, SO12, SO15, SO16 | ISA1, ISA2, PS4, TRA4: PCYFF3, CYF6, TAI8, TAI9, TAI11, TAI17, TAI12, TAI18. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | weithleoedd, yn enwedig i bobl sydd â phroblemau symudedd.<br><br>*Rhyw:*<br>Mae diogelwch cymunedol yn fater a allai effeithio grwpiau penodol megis merched a dynion ifanc, sy'n gallu bod yn fwy agored i droseddu treisgar. Ni ragwelir bod y polisïau manwl yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar y grwpiau hyn. Mae'r polisïau sydd yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dylunio, tir cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofni trosedd a allai effeithio ar grwpiau penodol, megis merched. Yn ogystal, mae’r Cynllun yn hyrwyddo mynediad hawdd at gyfleusterau iechyd a'r cyfleusterau hynny i ddynion a merched fel ei gilydd.<br><br>*Cyfeiriadedd rhywiol:*<br>Er bod gan y Cynllun gwmpas cyfyngedig i ddylanwadu ar y grwpiau hyn gall diogelwch cymunedol fod yn fater a allai effeithio’r grŵp hwn. Mae'r polisïau sydd yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dylunio, tir cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofni trosedd.<br><br>*Ail aseiniad rhyw:*<br>Er bod gan y Cynllun gwmpas cyfyngedig i ddylanwadu ar y grwpiau hyn gall diogelwch cymunedol fod yn fater a allai effeithio’r grŵp hwn. Mae'r polisïau sydd yn y Cynllun yn ymdrin yn uniongyrchol â materion megis dylunio, tir cyhoeddus, cludiant cyhoeddus ac ofni trosedd.<br><br>*Crefydd neu Gred:*<br>Mae argaeledd a hygyrchedd rhai cyfleusterau cymunedol yn ystyriaeth bwysig i grwpiau crefyddol. Mae'r Cynllun yn | | |


| | | | |
|---|---|---|---|
| | hwyluso datblygiad cyfleusterau priodol (yn cynnwys tai, cyfleusterau hamdden a chyfleusterau cymunedol), sy'n addas i bob crefydd. Yn ogystal, mae'r Cynllun yn hwyluso datblygu cymysgfa o wahanol fathau o dai sy'n addas i ystod eang o grwpiau.<br><br>*Oedran:*<br>Mae'r Cynllun yn hyrwyddo cymysgfa briodol o dai mewn datblygiadau newydd (gan gynnwys tai marchnad leol a thai fforddiadwy) sydd yn eu tro yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy drwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan. Mae polisïau penodol i gartrefi gofal preswyl, tai gofal ychwanegol neu lety gofal arbenigol i bobl hŷn, sy'n ymdrin yn uniongyrchol gydag anghenion tai pobl hŷn. Bydd polisïau seilwaith yn hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau priodol i bobl o wahanol grwpiau oedran a dylai hyn wella lles a bywiogrwydd cymunedol. Nod y Cynllun yw diogelu safleoedd cyflogaeth a hwyluso twf economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig a dylai hyn helpu i gynnal y boblogaeth oed gweithio yn ogystal â chadw pobl ifanc yn eu cymunedau, gan felly wella lles y gymuned. Bydd polisïau trafnidiaeth gynaliadwy o fudd i grwpiau oedran hŷn ac ifanc drwy hwyluso mynediad at wasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br><br><u>Amcanion y Fframwaith Cynaliadwyedd a gymhwyswyd i'r Cynllun:</u><br>• Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy’n darparu cyfleoedd cyflogaeth leol<br>• Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy’n bodloni angen lleol<br>• Cefnogi a mwynhau cysylltiadau trafnidiaeth dda i gefnogi cymunedau a’r economi | | |
| **Cymru o gymunedau cydlynus:**<br>Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da. | Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio hyrwyddo cymunedau diogel, iach, unigryw a llewyrchus. Nod Strategaeth Ofodol y Cynllun yw gwasgaru datblygiadau'n gymesurol o amgylch ardal y Cynllun gan ganolbwyntio ar y lleoliadau hynny sy'n darparu'r cyfleoedd gorau i gyflawni datblygiad cynaliadwy.<br><br>Mae'r Cynllun yn hyrwyddo cymysgfa briodol o dai mewn datblygiadau newydd sydd yn eu tro yn hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy drwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu’r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan.<br><br>Mae polisïau’r Cynllun yn nodi'r meini prawf sy'n flaenoriaeth y bydd angen i ddatblygiad newydd ei gwrdd i gyflawni datblygiad cynaliadwy wedi ei leoli'n briodol. Mae’r Cynllun yn cynnwys polisïau cludiant cynaliadwy a'u nod yw llesteirio effeithiau negyddol cynlluniau cludiant newydd gan hefyd sicrhau fod cysylltiad da gan gymunedau i gyfleusterau a gwasanaethau. | SO2 – SO16 | PS4, TRA1, TRA4, PS5, PCYFF2, PCYFF3, PS13, PS16 |
| **Cymru ag iddi ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus:**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod | Mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau penodol sy'n cyfrannu at warchod, hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn ardal y Cynllun. Mae polisïau tai yn hwyluso swm digonol o dai cymysg (math a deiliadaeth) i ddiwallu anghenion pob rhan o’r boblogaeth gan gynnwys tai ar | SO1, SO5, SO9 – SO16 | PS1, PS5, PS13, PS16, TAI5, PS18, TAI16, PS17, TAI8, PS20, AT1, AT2, AT3, AT4. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| diwylliant, etifeddiaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. | gyfer pobl hŷn. Bydd y polisïau yn hwyluso tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, tai'r farchnad leol, tai'r farchnad agored a llety wedi ei ddylunio yn benodol i'r genhedlaeth hŷn. Bydd hyn o gymorth i greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol ac ynghyd â pholisïau eraill yn y Cynllun e.e. cyflogaeth a pholisïau tir, dylai strategaeth a chynlluniau bob Cyngor fod o gymorth i leihau allfudo grwpiau oedran iau, denu cyn trigolion yn ôl i'r ardal yn ogystal â phobl newydd o oed gweithio.<br><br>Mae polisïau sy'n ymwneud â datblygu economaidd yn hwyluso darpariaeth cyfleoedd economaidd drwy ardal y Cynllun. Dylai hyn hefyd gynorthwyo i gadw pobl ifanc mewn cymunedau, yn enwedig y rhai mwyaf gwledig, gan felly gynnal neu wella'r cydbwysedd demograffig o fewn cymunedau.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys polisïau sy'n ceisio gwarchod diwylliant a 13 threftadaeth Cymru drwy gydnabod, gwarchod a gwella'r asedau treftadaeth hanesyddol adeiledig a safleoedd archaeoleg. | | |
| **Cymru sy'n gyfrifol am y ddaear:**<br>Cenedl fydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fyddai gwneud hynny yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang. | Er mwyn gostwng effaith negyddol posib yr ardal ar lesiant byd-eang ac i fwyhau unrhyw effeithiau cadarnhaol, mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun yn mwyhau'r cyfraniad a wna tuag at gyfarfod y targedau cenedlaethol i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gostwng carbon.<br><br>Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio gwarchod nodweddion amgylcheddol ehangach fel bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol. | SO3, SO5 –SO8, SO17 | PS5, PS6, PCYFF5, PS7, PS9, ADN1, ADN2, PS19 |

# DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED- 1 AWST 2017 - 31 MAWRTH 2019

# DISTRIBUTION OF RESIDENITAL PERMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL 1 AUGUST 2017 - 31 MARCH 2019







© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

D25

# DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED- 1 AWST 2017 - 31 MAWRTH 2019

# DISTRIBUTION OF RESIDENITAL PERMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL 1 AUGUST 2017 - 31 MARCH 2019




**Allwedd / Key**

Caniatâd / Permission

Dim Caniatâd / No Permissions



© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

# D25 - DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL
# 1 AWST 2017 – 31 MAWRTH 2019

**Canolfan Isranbarthol:**

1. Bangor (53 uned preswyl wedi cael caniatâd)

**Canolfannau Gwasanaeth Trefol:**

Ynys Môn
2. Amlwch (9 uned),
3. Caergyb (17 uned),
4. Llangefni (141 uned)

Gwynedd
5. Blaenau Ffestiniog (9 uned),
6. Caernarfon (56 uned),
7. Porthmadog (12 uned),
8. Pwllheli (3 uned)

**Canolfannau Gwasanaeth Lleol:**

Ynys Môn
9. Biwmares (1 uned),
10. Benllech,
11. Bodedern (4 uned),
12. Cemaes (16 uned),
13. Gaerwen,
14. Llanfair Pwllgwyngyll (21 uned),
15. Pentraeth,
16. Porthaethwy (2 uned),
17. Rhosneigr (2 uned),
18. Y Fali (1 uned)

Gwynedd
19. Abermaw (7 uned),
20. Abersoch,
21. Bethesda (18 uned),
22. Criccieth (12 uned),
23. Llanberis (8 uned),
24. Llanrug,
25. Nefyn (7 uned),
26. Penrhyndeudraeth (11 uned),
27. Penygroes,
28. Tywyn (17 uned)

**Pentrefi Gwasanaeth:**

Ynys Môn
29. Gwalchmai (2 uned),
30. Llannerch-y-medd,
31. Niwbwrch (6 uned)

Gwynedd
32. Bethel (11 uned),
33. Bontnewydd,
34. Botwnnog,
35. Chwilog (40 uned),
36. Deiniolen (10 uned),
37. Rachub,
38. Tremadog,
39. Y Ffôr

**Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol:**

**A) Pentrefi Lleol**

Ynys Môn
40. Bethel,
41. Bodffordd,
42. Bryngwran,
43. Brynsiencyn,
44. Caergeiliog (6 uned),
45. Dwyran (1 uned),
46. Llanddaniel-fab,
47. Llandegfan,
48. Llanfachraeth,
49. Llanfaethlu,
50. Llanfechell,
51. Llanfihangel-yn-Nhywyn,
52. Llangaffo,
53. Llangristiolus,
54. Llanrhuddlad,
55. Pencarnisiog,
56. Pen-y-Sarn (7 uned),
57. Rhos-y-bol (1 uned),
58. Talwrn,
59. Tregele

Gwynedd
60. Abererch,
61. Brynrefail,
62. Caeathro,
63. Carmel (1 uned),
64. Cwm y Glo,
65. Dinas (Llanwnda),
66. Dinas Dinlle,
67. Dolydd a Maen Coch,
68. Efailnewydd,
69. Garndolbenmaen (1 uned),
70. Garreg-Llanfrothen,
71. Groeslon,
72. Llandwrog,
73. Llandygai,
74. Llangybi,
75. Llanllyfni,
76. Llanystumdwy,
77. Nantlle (1 uned),
78. Penisarwaun,
79. Pentref Uchaf,
80. Rhiwlas (1 uned),
81. Rhosgadfan (3 uned),
82. Rhostryfan,
83. Sarn Mellteyrn,
84. Talysarn,

## D25 - DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL
## 1 AWST 2017 – 31 MAWRTH 2019

85. Trefor,
86. Tregarth (2 uned),
87. Tudweiliog,
88. Waunfawr,
89. Y Fron

**B) Pentrefi Arfordirol/Gwledig:**

Ynys Môn
90. Aberffraw,
91. Bae Trearddur
92. Carreg-lefn (1 uned),
93. Llanbedr-goch,
94. Llanddona,
95. Llanfaelog (1 uned),
96. Llangoed (1 uned),
97. Malltraeth,
98. Moelfre (4 uned),
99. Pontrhydybont

Gwynedd
100. Aberdaron,
101. Borth-y-Gest (1 uned),
102. Clynnog Fawr,
103. Corris (1 uned),
104. Edern (1 uned),
105. Fairbourne,
106. Llanaelhaearn,
107. Llanbedrog,
108. Llangian,
109. Llithfaen,
110. Morfa Bychan (1 uned),
111. Morfa Nefyn,
112. Mynytho,
113. Rhoshirwaun,
114. Sarn Bach,
115. Y Felinheli

**Clystyrau:**

Ynys Môn
116. Bodorgan,
117. Bro Iarddur (Bae Trearddur),
118. Bryn Du,
119. Brynminceg (Hen Llandegfan),
120. Brynrefail,
121. Brynteg,
122. Bryn y Môr (Y Fali)
123. Bwlch Gwyn,
124. Capel Coch,
125. Capel Mawr,
126. Carmel,
127. Cerrig-mân,
128. Cichle,
129. Glan-yr-afon (Llangoed),
130. Glyn Garth,
131. Gorsaf Gaerwen,
132. Haulfre (Llangoed)
133. Hebron,
134. Hendre Hywel (Pentraeth),
135. Hermon,
136. Llan-faes,
137. Llangadwaladr,
138. Llansadwrn,
139. Llanynghenedl,
140. Llynfaes,
141. Marian-glas,
142. Nebo,
143. Penlon,
144. Penmon,
145. Pentre Berw,
146. Pentre Canol (Caergybi),
147. Pen y Marian,
148. Porth Llechog,
149. Rhoscefnhir (1 uned),
150. Rhos-meirch,
151. Rhostrehwfa,
152. Rhyd-wyn,
153. Star,
154. Traeth Coch,
155. Trefor,
156. Tyn Lôn (Glan yr Afon),
157. Tyn-y-gongl

Gwynedd
158. Aberdesach,
159. Aberllefenni,
160. Aberpwll,
161. Bethesda Bach,
162. Bryncir,
163. Bryncroes,
164. Caerhun/Waen Wen,
165. Capel y Graig,
166. Corris Uchaf,
167. Crawia,
168. Dinorwig,
169. Gallt y Foel,
170. Glasinfryn (2 uned),
171. Groeslon Waunfawr,
172. Llanaber,
173. Llandderfel,
174. Llanengan,
175. Llanfor,
176. Llanllechid,
177. Llannor,
178. Llanwnda,
179. Llwyn Hudol,
180. Minffordd,
181. Minffordd (Bangor),
182. Mynydd Llandygai,
183. Nebo,
184. Pantglas,

185. Penmorfa,
186. Penrhos,
187. Penrhos (Caeathro),
188. Pentir,
189. Pentrefelin,
190. Pistyll,
191. Pontllyfni,
192. Rhoslan,
193. Saron (Llanwnda),
194. Swan,
195. Tai'n Lôn,
196. Talwaenydd,
197. Talybont,
198. Tan y Coed,
199. Treborth,
200. Ty'n-lôn,
201. Ty'n y Lôn,
202. Waun (Penisarwaun).

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Hydref 2019** |
| **Pwnc:** | **Gostwng Oed mynediad Ysgol Llandegfan** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Mr Rhys Howard Hughes** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Meinir Hughes**<br><br>**01248752947**<br>**MeinirHughes@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Cynghorydd Lewis Wyn Davies**<br>**Cynghorydd Carwyn Elias Jones**<br>**Cynghorydd Alun Roberts** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Cefndir**

Derbyniodd Adran Addysg Cyngor Ynys Môn gais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llandegfan i gynnal ymgynghoriad ynglŷn â gostwng oed mynediad yr ysgol. Golyga hyn y bydd Ysgol Llandegfan yn derbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o Fedi 2020.

Yn bresennol fe dderbynnir disgyblion i Ysgol Llandegfan yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu 4ydd pen-blwydd.

Cred y Corff Llywodraethu y byddai hwn yn esblygiad pwysig yn natblygiad yr ysgol. Yn ogystal â hyn golyga y bydd y disgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth eang a chyfoethog.

Ar hyn o bryd mae Cylch Meithrin a Grŵp Meithrin [cyfrwng Saesneg] yn darparu addysg ar gyfer y grŵp oedran yma. Trwy ostwng oed mynediad mae'r Corff Llywodraethu yn awyddus i sicrhau cysondeb, dilyniant a pharhad yn addysg y disgyblion yn ogystal â darparu addysg feithrin ffurfiol ar gyfer plant y dalgylch. Hyderir y bydd y cynnig hwn yn cynnal y safonau presennol, neu'n eu gwella, o ran yr addysg, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth.

Bydd hyn hefyd yn galluogi'r ysgol i ddarparu gofal plant, fforddiadwy a hyblyg i rieni sydd yn dymuno dychwelyd i'r gwaith.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| **Opsiwn - Parhau gyda'r trefniadau presennol**<br>Nid yw hyn yn opsiwn yn y tymor hir gan y bydd trefniadau moderneiddio yn debygol o effeithio ar y ddarpariaeth fel ag y mae yn bresennol.<br>Ni ellir gwarantu cysondeb yn y ddarpariaeth cyn ysgol yn arbennig o ran y ddarpariaeth ieithyddol sydd yn bodoli yn bresennol.<br><br>Er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i ofynion y Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg bydd y cynnig hwn yn ffafrio gostwng oed mynediad er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn flaenoriaeth barhaus yn ysgolion y dalgylch ac Ynys Môn.<br><br>Mae'r trefniadau presennol hefyd yn golygu nad yw'r ysgol yn gallu cynnig clwb gofal/brecwast i'r disgyblion meithrin ac fel canlyniad mae rhieni yn dewis mynd a'u plant i ysgolion cyfagos er mwyn gallu derbyn y ddarpariaeth hwn. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae newid ystod oedran ysgol yn "newidiad a reoleiddir" o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion, 011/2018.<br>Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r Awdurdod wedi dilyn y broses gydag ysgolion eraill tros y blynyddoedd diwethaf. Bellach mae bron pob ysgol gynradd y sir yn derbyn disgyblion yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Byddai hyn yn sicrhau cysondeb o ran addysg feithrin yn y dalgylch ac ar draws y sir. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Cais y Corff Llywodraethu i ostwng oed mynediad. Rhan o gofnodion y Corff Llywodraethu, 1 Gorffennaf, 2019 pan drafodwyd y mater. |

| FF -Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Dim |

**COFNODION CYFARFOD LLYWODRAETHWYR**

***MINUTES OF THE GOVERNORS' MEETING***
**YSGOL LLANDEGFAN**
**6yh/*6pm* DYDD LLUN 1af o ORFFENNAF 2019 /*MONDAY 1st JULY 2019***

Rhan o gofnodion y Corff Llywodraethu / Part of the Governing Body minutes

| **Meithrinfa yn yr Ysgol** | ***School Based Nursery*** |
|---|---|
| Oherwydd nad yw'r Cynllun Moderneiddio yn mynd yn ei flaen bellach mae'r Awdurdod angen i'r ysgol ail-gadarnhau a oes angen Meithrinfa yn yr ysgol.<br>Cytunwyd yn unfrydol y dylai'r cynlluniau i gael Meithrinfa fynd yn eu blaen.<br>Bydd angen cynnal ymgynghoriad i hysbysu'r Pwyllgor Gwaith o benderfyniad y Corff ac i fod yn eglur iawn ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl.<br>Adroddodd y Pennaeth bod yr ysgol eisoes wedi colli 11 o ddisgyblion drwy beidio â chael clwb brecwast.<br>Cytunodd yr aelodau i gyd mai dyma'r ffordd ymlaen a gosodwyd targed ar gyfer Medi 2020. | *Following the collapse of the Modernisation Plan the Authority now wants the school to re-confirm if they still require a school based Nursery.*<br>*It was unanimously agreed that this should go ahead.*<br>*A consultation will need to take place, to inform the Executive of the Governors decision and be very clear as to what we expect.*<br>*Headteacher reported that by not having a breakfast club which would open at 8am the school have already lost 11 pupils.*<br>*All members agreed that this was the correct way forward and have set a target date for September 2020* |

**YSGOL GYNRADD LLANDEGFAN**
**LLANDEGFAN, YNYS MÔN, LL59 5UW**

Ffôn/Tel: 01248 713431
Ebost/Email: pennaeth.llandegfan@ynysmon.gov.uk
Safle'r Rhyngrwyd/Website: http://ysgolllandegfan.cymru/index.html
Pennaeth / Headteacher: Mr D Hood

Annwyl Mr A Williams,

Yn dilyn cyfarfod diweddar o'r Corff Llywodraethol yma yn Ysgol Llandegfan. Hoffwn ofyn eto am eich caniatad i ddechrau ar broses o ymgynghoriad i fewn i'r posibiliad o agor yr Ysgol i gynnig darpariaeth feithrin oddi mewn i'r Ysgol.Hoffwn i hyn ddechrau mewn modd a fyddai'n ein galluogi, petai'r ymgynghoriad yn ffafriol i agor a chynnig y ddarpariaeth yn Medi 2020.

Teimlwn fel Corff fod ystyried hyn yn hanfodol bwysig ar gyfer datblygiad yr Ysgol wrth iddi symud yn ei blaen, ar gyfer ehangu ar yr hyn sydd gennym i'w gynnig ac i barhau i yrru safonau a sicrhau y ddarpariaeth orau i'n disgyblion yma yn Llandegfan.

Gwerthfawrogwn eich ymateb gyda y camau nesaf fydd angen eu cwblhau.

Yr Eiddoch yn Gywir

Cyng C. Jones

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 28 o Hydref, 2019 |
| **Pwnc:** | Ymateb Drafft Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Richard Dew |
| **Prif Weithedwr:** | Annwen Morgan |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol:** | Dylan Williams |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Swyddfa Rheoli Prosiect<br>(Dylan Ll Jones)<br>01248 752497<br>DylanLlewelynJones@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Pob Aelod |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Rhagarweiniad**

Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn gynllun datblygu newydd a fydd yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru o 2020 i 2040. Mae'n gosod strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi llewyrchus, datgarboneiddio, datblygu eco-systemau gwydn a gwella iechyd a llesiant en cymunedau.

Mae'r FfDC yn gynllun gofodol sy'n golygu ei fod yn gosod cyfeiriad ynghylch ble y dylid buddsoddi a datblygu er lles Cymru a'i phobl.

Y FfDC yw'r haen uchaf o gynllun datblygu ac mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Oherwydd ei natur strategol, nid yw'n neilltuo datblygiad i bob rhan o Gymru ac nid yw ychwaith yn cynnwys polisïau ar bob math o ddefnydd tir.

**Ymateb Drafft Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM)**

Mae'n hanfodol bwysig ymateb i'r FfDC er mwyn sicrhau bod polisi cynllunio ar yr haen uchaf yn addas i'r pwrpas a bod aliniad clir rhwng dyheadau CSYM o'r lefel leol drwodd i'r lefel genedlaethol a fydd yn darparu cyfeiriad teithio ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol yn y seilwaith ac mewn datblygiadau. Mae'n gyfle i CSYM ddylanwadu ar gynnwys yr FfDC a fydd yn siapio datblygiad y genedl am yr 20 mlynedd nesaf.

**Pwyntiau Strategol CSYM**

1. **Cyffredinol**

Mae CSYM yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Llywodraeth Cymru. Mae CSYM yn cefnogi'r egwyddor o sefydlu FfDC ar gyfer Cymru, fodd bynnag mae gan CSYM bryderon ac amheuon difrifol ynghylch nifer o themâu a pholisïau yn y FfDC drafft.

2. **Ymagwedd tuag at Gynlluniau Datblygu Strategol / Cynllunio Rhanbarthol**

Mae CSYM yn ymrwymo i gydweithio rhanbarthol ac yn derbyn yr egwyddor o Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynllunio Rhanbarthol. Fodd bynnag, o fod yn aelod o'r gyntaf a'r unig Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) yng Nghymru, mae manteision y tair haen o bolisi cynllunio yn parhau i fod yn aneglur. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i adnoddau, capasiti ac arbenigedd gael eu gwasgu a lleihau.

3. **Cydnabod y Prosiectau o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) Presennol**

Dylai cydnabyddiaeth o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (Wylfa Newydd a'r National Grid) gael ei chynnwys fel rhan o'r FfDC. Nid yw'r fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad ar y FfDC yn hyrwyddo ynni niwclear mewn goleuni ffafriol a dim ond cyfeiriad wrth basio a geir at y datblygiadau hyn ym Mholisi 22. Mae hyn yn siomedig ac yn annerbyniol ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i ddiweddaru.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol y bydd adeiladu gorsaf niwclear newydd yn holl bwysig, ynghyd a'r holl ddulliau eraill o gynhyrchu ynni carbon isel, er mwyn galluogi'r DU i gwrdd â'i dargedau allyriadau carbon Net Sero erbyn 2050. Dylai'r FfDC adlewyrchu hyn yn gywir ac yn llawn.

Nid oes modd tanbrisio pwysigrwydd y prosiectau hyn, a'r orsaf bŵer niwclear newydd yn arbennig, i dwf economaidd Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru yn y dyfodol. Oni bai bod y datblygiadau hyn, a datblygiadau tebyg eraill yng Nghymru, yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn, mae'r fframwaith yn annhebygol o fod yn gynhwysol, yn gynhwysfawr ac yn addas i bwrpas. Bydd priodoldeb y FfDC yn lleol yn cael ei benderfynu os bydd y datblygiadau hyn yn symud ymlaen, neu pryd y byddant yn symud ymlaen.

4. **Yr Ymagwedd tuag at Ynni Carbon Isel**

Mae CSYM wedi ymrwymo i gyflawni Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn. Mae'r gefnogaeth hon i seilwaith ynni newydd ar Ynys Môn yn seiliedig ar sicrhau cyflogaeth hirdymor a chyfleoedd yn y farchnad gyflenwi, a chreu twf economaidd trawsnewidiol, wrth sicrhau bod yr effeithiau niweidiol yn cael eu lliniaru'n effeithiol.

Cred CSYM fod ymagwedd y FfDC i ynni carbon isel yn rhy gul ac y dylai ymgorffori pob ffurf ar ynni carbon isel. Nid yw'r FfDC drafft yn gwneud hyn ac mae'n canolbwyntio yn lle hynny ar ddatblygiadau gwynt a solar yn unig.

Mae CSYM wedi adolygu'r dogfennau cefndir sy'n cefnogi'r Meysydd Blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer ynni gwynt ac ynni solar. Mae llawer o wybodaeth mewn perthynas â'r meini prawf a ddefnyddir. Mae'r cyfiawnhad a'r dystiolaeth dros ddewis y rhan fwyaf o'r Ynys fel Ardal â Blaenoriaeth yn aneglur. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n peri pryder sylweddol i CSYM. Mae CSYM yn gwrthwynebu'r dynodiad hwn.

O gael ei ddynodi'n Ardal Flaenoriaeth, mae'r polisi newydd arfaethedig (Polisi 10) yn rhagdybio o blaid datblygiad ac yn derbyn y bydd y dirwedd yn newid, gyda phwyslais sylweddol yn cael ei roi ar gyfraniad y cynnig at leihau nwyon tŷ gwydr a chwrdd â thargedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy. Mae CSYM yn deall y bydd rhaid delio gyda cheisiadau cynllunio ar sail achos wrth achos, ond mae'r ymagwedd hon yn creu disgwyliad cryf y bydd y datblygiadau hyn yn dderbyniol, er gwaetha'r effaith ar y dirwedd ac effeithiau eraill. Er bod Ynys Môn yn Ynys Ynni, nid yw'n golygu y dylid ystyried bod y rhan fwyaf o'r Ynys ar gael i gynnal datblygiadau ynni ychwanegol, ni waeth beth fyddai'r effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymunedol, er mai dyma fyddai canlyniad y FfDC ar ei ffurf bresennol ym marn CSYM.

Eisoes mae posibilrwydd y bydd CSYM yn gartref i ddau NSIP a byddai'r datblygiadau gwynt a solar ychwanegol yn gosod baich sylweddol ar y cymunedau a fyddai'n eu lletya. Yn ychwanegol at hyn, mae materion yn ymwneud â chysylltu i'r seilwaith grid trydan y mae angen eu hystyried oherwydd nid yw datblygiad arfaethedig y National Grid ond yn gwasanaethu Wylfa ac nid yw'n glir pa seilwaith ychwanegol fyddai ei angen i gysylltu â chanol yr Ynys.

**5. Ardal Dwf Ranbarthol – Caergybi**

Mae CSYM yn hynod o siomedig ac wedi synnu nad yw Caergybi yn cael ei chydnabod na'i diffinio fel Canolfan Dwf Rhanbarthol ar gyfer Cymru, yn arbennig gan fod y FfDC yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd porthladd Caergybi i wasanaethu Cymru, y DU yn ehangach ac Iwerddon. Nid yw hyn yn dderbyniol.

Mae CSYM yn credu'n gryf bod sail dystiolaeth glir yn bodoli i gyfiawnhau cynnwys Caergybi fel Canolfan Dwf Rhanbarthol o ystyried ei phwysigrwydd strategol posib i Gymru, ac felly mae'n awgrymu bod angen diwygio'r FfDC yn unol â hynny.

**6. Y Weledigaeth ar gyfer Ardaloedd Gwledig**

Oherwydd natur wledig Ynys Môn, mae cefnogi cymunedau gwledig a'u datblygu yn flaenoriaeth allweddol. Ym marn CSYM, nid yw'r FfDc drafft yn darparu cyfeiriad digonol ar gyfer ardaloedd gwledig. Heb weledigaeth o'r fath, mae risg y bydd mwy o anghyfartaledd rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn creu heriau ychwanegol i ardaloedd gwledig.

Byddai'n werthfawr hefyd rhoi mwy o gydnabyddiaeth ac arweiniad ynghylch twf a datblygiad twristiaeth a'r economi ymwelwyr yn y FfDC terfynol hefyd. Twristiaeth yw'r sector economaidd fwyaf ar yr Ynys, gan gynhyrchu £311M y flwyddyn i'r economi. Mae'r sector yn cynnal oddeutu 4,000 o swyddi. Daw ymwelwyr i Ynys Môn i brofi ei chymeriad unigryw a'i hymdeimlad arbennig o le, ei lleoliad tawel a heddychlon, ei thraethau, ei golygfeydd o'r môr a'i thirweddau dramatig. Mae posibilrwydd y byddai dynodi'r rhan helaeth o'r Ynys ar gyfer cynhyrchu ynni solar ac ynni gwynt (gan gynhyrchu bron dim buddiannau cymdeithasol-economaidd) yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ddiwydiant twristiaeth yr Ynys ac ychwanegu ymhellach at y problemau yng Nghymru wledig o ran creu cyfleoedd cyflogaeth, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, cymunedau cydlynol ac ati.

Mae pwysigrwydd y FfDC o ran arwain a hysbysu datblygiad yn ardaloedd gwledig Cymru, yn ychwanegol at y trefi, yn hanfodol.

7. **Polisi Iaith Gymraeg**

Mae'r Iaith Gymraeg fwyaf amlwg yng Nghymru wledig ac er bod CSYM yn cydnabod bwriad y FfDC i gyflawni'r amcan o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n credu bod peidio â chael polisi dynodedig ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn fwlch sylfaenol. Mae'n holl bwysig cyflawni'r targed hwn er mwyn atal allfudo net ymysg pobl ifanc drwy ddarparu tai fforddiadwy, swyddi a chyfleoedd er mwyn i'r ardaloedd gwledig hyn ffynnu fel cymunedau Cymraeg eu hiaith oherwydd mae trefi, pentrefi a chymunedau gwledig yn hanfodol bwysig i gymeriad a ffabrig Cymru a'r trefi a'r pentrefi hyn sy'n siapio ac yn diffinio Cymru.

8. **Cysylltedd a Thrydedd Pont dros Y Fenai**

Mae CSYM yn siomedig na chyfeirir at y drydedd bont arfaethedig rhwng yr Ynys a'r tir mawr. Ystyrir bod hyn yn dangos diffyg gweledigaeth ac uchelgais ac yn creu anobaith. Rydym yn gofyn am i hyn gael ei gydnabod a'i gynnwys yn y FfDC terfynol.

Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o wasanaeth Metro Gogledd Cymru er mwyn cael galluogi mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau, mae CSYM o'r farn y dylai'r seilwaith hwn ymestyn dros ranbarth Gogledd Cymru i Gaergybi er mwyn hwyluso gwell cysylltiad rhwng Gogledd Orllewin Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru (ac i mewn i Loegr).

Yn ychwanegol at hyn, dylai'r FfDC terfynol ystyried amrediad o ddatrysiadau ar gyfer dyfodol gwyrddach ar gyfer teithio carbon isel gan gynnwys pwyntiau gwefru, cludiant cymunedol, cerbydau bio-danwydd a datrysiadau i ostwng y defnydd o gerbydau preifat.

9. **Cysylltiadau Awyr**

Cydnebir pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd fel porth rhyngwladol. Fodd bynnag, ni chyfeirir o gwbl at ei swyddogaeth genedlaethol a phwysigrwydd cysylltu Gogledd a De

Cymru, rhywbeth y cyfeirir ato yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru sydd yn cydnabod bod y gwasanaeth yn chwarae rhan sylweddol yn natblygiad economaidd gogledd orllewin Cymru, gan ddarparu gwell cysylltiad busnes, cyfleoedd twristiaeth a lleihau amseroedd teithio. Mae CSYM o'r farn y dylai'r FfDC adlewyrchu hyn.

### 10. Tai Fforddiadwy

Mae oedi o ran darparu tai fforddiadwy yn fater allweddol. Mae CSYM yn nodi'r cyfeiriad bod angen i 47% ar gyfartaledd o dai ychwanegol fod yn dai fforddiadwy ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2018/19 i 2022/23. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth yr effaith ar hyfywedd ar safleoedd marchnad a'i bod, ar gyfartaledd, yn annhebygol y bydd lefel o tua 50% o ddarpariaeth fforddiadwy yn cael ei gyflawni ar y mwyafrif o safleoedd mewn lleoliadau gwledig ar draws Cymru. Er y cydnebir bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu defnyddio ei bolisïau ariannu, tir, cynllunio a thai i yrru hyn, nid yw'r FfDC yn esbonio sut y bydd materion megis methiant yn y farchnad a chostau seilwaith yn cael eu datrys.

### 11. Ymgysylltiad Parhaus â Llywodraeth Cymru

Mae angen ystyried a rhoi sylw i'r materion a godir, a'r manylion pellach yn Atodiad A, wrth baratoi fersiwn derfynol y FfDC. Os na ddigwydd hynny, yna ni fydd y cynllun yn gweithio i drigolion, cymunedau, economi ac amgylchedd yr Ynys. Mae'r sylwadau a gyflwynir yn rhoi ystyriaeth lawn i'r presennol a'r dyfodol, gan alinio'n llwyr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gobeithir y bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried bod ymateb CSYM i'r FfDC yn adeiladol er mwyn cynorthwyo i greu cynllun datblygu holl gynhwysfawr ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf fydd yn siapio twf a datblygiad y wlad yn y dyfodol er lles ei phobl a'r genhedlaeth nesaf.

Mae CSYM wedi ymrwymo i gydweithio'n lleol, ar draws Gogledd Cymru a gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y FfDC yn addas i bwrpas a bod aliniad clir o'r lefel leol i'r haen gynllunio uchaf.

**Gwneud Penderfyniadau Gweithdrefnol**

**Bydd angen i ymateb CSYM i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol cael ei gyflwyno erbyn 1 Tachwedd, ac o ganlyniad petai'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio, ni fyddai modd cydymffurfio gyda'r amserlen hwn. O ganlyniad, mae Cadeirydd y Cyngor wedi cytuno ei fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau i eithrio'r penderyniad o'r cyfnod galw i mewn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio eisoes wedi cael gwybod am y penderfyniad.**

**Rhesymeg y penderfyniad hwn yw'r amserlen dynn a bennwyd gan Llywodraeth Cymru ac yr angen i adolygu swmp mawr o ddeunydd ymgynghori, ac byddai methu y terfyn amser yn rhagfarnllyd i fuddiannau'r Cyngor a'r Ynys. Fodd bynnag, bydd yr**

| |
|---|
| **ymateb drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar 24 Hydref a bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cael cyfle i wneud sylwadau bryd hynny.**<br><br>**Argymhellion**<br><br>**Gofynnir i'r Aelodau Etholedig gymeradwyo'r llythyr sydd ynghlwm (gan gynnwys Atodiad A) fel ymateb CSYM i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.**<br><br>**Yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau Etholedig, gofynnir hefyd am roddi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwddywr Lle a Llesiant Cymunedol wneud unrhyw fân newidiadau, amrywiadau neu gywiriadau a nodir ac sy'n rhesymol angenrheidiol cyn cyhoeddi'r ymateb ffurfiol**. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r mater hwn yn un y mae angen i'r Pwyllgor Gwaith ei gadarnhau a'i gymeradwyo oherwydd y fframwaith Datblygu Cenedlaethol fydd yr haen uchaf o bolisi cynllunio yng Nghymru a bydd yn weithredol am yr ugain mlynedd nesaf (2020-2040). O'r herwydd, mae angen ystyried y cynllun datblygu arfaethedig yng nghyd-destun Ynys Môn er mwyn asesu'r hyn y byddai'r cynigion yn ei olygu ar gyfer yr Ynys a'i thrigolion. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Sylwadau wedi ei dderbyn gan y Prif Weithredwr ac ymgorfforwyd yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn dilyn ymgynghoriad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Sylwadau wedi ei dderbyn ac ymgorfforwyd yn Adran Gwneud Penderfyniadau Gweithdrefnol |

| | | |
|---|---|---|
| | | (Adran A uchod) |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn dilyn ymgynghoriad |
| **5** | **Eiddo** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn dilyn ymgynghoriad |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn dilyn ymgynghoriad |
| **7** | **Caffael** | Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau yn dilyn ymgynghoriad |
| **8** | **Sgriwtini** | Mae'r ymateb drafft wedi cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio ar 17/10/2019 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar 24/10/2019 er mwyn i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini gael cyfle i wneud sylwadau. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Ddim yn berthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Llythyr CSYM – Ymateb Drafft CSYM i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (2020-2040) |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Amherthnasol |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I
Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol
Director of Place and Community Well-Being

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park
LLANGEFNI
Ynys Môn • Isle of Anglesey
LL77 7XA

ffôn / tel:

Gofynnwch am / Please ask for: XXX
E-bost / Email: XXX
Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: XXX

Annwyl Syr / Madam,

**Ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (2020-2040)**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru (LlC) ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) 2020-2040 drafft.

Mae CSYM yn cefnogi'r egwyddor o greu FfDC ar gyfer Cymru. Mae'n cydnabod bod y FfDC yn gynllun datblygu sy'n canolbwyntio ar faterion a heriau strategol cenedlaethol a chydnabod ei bwysigrwydd gan y bydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer ym mhle y bydd buddsoddiad mewn seilwaith yn cymeryd lle er lles Cymru a'i phobl.

Fodd bynnag, mae gan CSYM bryderon ac amheuon difrifol mewn perthynas â nifer o'r polisïau yn y FfDC drafft. Maent yn adeiladu ar ohebiaeth flaenorol gyda LlC (llythyr CSYM dyddiedig 19eg Gorffennaf 2019). Amlinellir y prif bwyntiau strategol isod (a dylid eu darllen ar y cyd ag Atodiad A sy'n cynnwys manylion ychwanegol).

## 1. Ymagwedd tuag at Gynlluniau Datblygu Strategol / Cynllunio Rhanbarthol

Mae CSYM wedi ymrwymo i gydweithio rhanbarthol ac mae'n bartner rhagweithiol ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) (LINC). Mae gwaith BUEGC yn cael ei yrru a'i lywio gan Weledigaeth Dwf Gogledd Cymru a'r Fargen Dwf er mwyn datblygu rhanbarth hyderus a chydlynus sydd â thwf economaidd cynaliadwy, gan fanteisio ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad gydag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon. Mae'n hanfodol fod y FfDC yn cydnabod y strategaethau hyn ac yn alinio â nhw.

Mae CSYM yn derbyn yr egwyddor o Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynllunio Rhanbarthol. Fodd bynnag, o fod yn rhan o'r gyntaf a'r unig Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) yng Nghymru, mae manteision y tair haen o bolisi cynllunio yn parhau i fod yn aneglur. Mae hyn yn

DRAFT

arbennig o wir wrth i adnoddau, capasiti ac arbenigedd gael eu gwasgu a lleihau. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y manteision i'r holl bartïon o ganlyniad i gyflwyno Cynllun Datblygu ar lefel rhanbarthol yn gwneud y gwaith ychwanegol o baratoi a monitro yn werth chweil heb greu cymhlethdodau, anghysondebau a mannau gwan posib.

## 2. Cydnabyddiaeth o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol Presennol

Mae posibilrwydd y bydd Ynys Môn yn gartref i ddau Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ystod cyfnod y FfDC - gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa a'r rhwydwaith trawsyrru newydd cysylltiedig. Nid yw'r fersiwn Hawdd ei Deall o'r ymgynghoriad ar y FfDC yn hyrwyddo ynni niwclear mewn goleuni ffafriol a dim ond cyfeiriad wrth basio a geir at y datblygiadau hyn ym Mholisi 22. Mae hyn yn siomedig ac yn annerbyniol ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i ddiweddaru.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol y bydd adeiladu gorsaf niwclear newydd yn holl bwysig, ynghyd a'r holl ddulliau eraill o gynhyrchu ynni carbon isel, er mwyn galluogi'r DU i gwrdd â'i dargedau allyriadau carbon Net Sero erbyn 2050. Dylai'r FfDC adlewyrchu hyn yn gywir ac yn llawn.

Mae CSYM yn gofyn i'r ddau ddatblygiad (h.y. gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa a'r gwelliannau posib i'r rhwydwaith drawsyrru trydan) gael eu cydnabod yn llawn yn y FfDC, er gwaetha'r ffaith bod penderfyniadau ynghylch caniatáu'r datblygiad yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU. Nid oes modd tanbrisio eu graddfa a'u harwyddocâd o ran cyfleoedd a bygythiadau (yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu) i genedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Nid oes modd tanbrisio pwysigrwydd y prosiectau hyn, a'r orsaf bŵer niwclear newydd yn arbennig, i dwf economaidd Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru yn y dyfodol. Oni bai bod y datblygiadau hyn, a datblygiadau tebyg eraill yng Nghymru, yn cael eu gwerthfawrogi'n llawn, mae'r fframwaith yn annhebygol o fod yn gynhwysol, yn gynhwysfawr ac yn addas i bwrpas. Bydd priodoldeb y FfDC yn lleol yn cael ei benderfynu os bydd y datblygiadau hyn yn symud ymlaen, neu pryd y byddant yn symud ymlaen.

## 3. Ymagwedd tuag at Ynni Carbon Isel

Mae CSYM wedi ymrwymo i gyflawni Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn (RhYY) (LINC). Gweledigaeth y Rhaglen Ynys Ynni yw creu cyfle unwaith mewn oes i greu swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol fydd yn gosod Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach ar flaen y gad o ran ynni carbon isel, ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu. Mae'r gefnogaeth hon i ynni carbon isel newydd yn seiliedig ar sicrhau cyflogaeth hirdymor a chyfleoedd yn y farchnad gyflenwi, a chreu twf economaidd trawsnewidiol, wrth sicrhau bod yr effeithiau niweidiol yn cael eu lliniaru'n effeithiol.

Mewn perthynas ag ynni cymunedol, nodir bod angen i brosiectau ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth leol gynhyrchu un gigawatt o ynni

adnewyddadwy. Dylid cynnwys eglurhad pellach yn y FfDC terfynol ynghylch yr hyn a ddiffinnir fel perchnogaeth leol o brosiect i sicrhau fod y prosiect yn fanteisiol i'r gymuned sy'n gartref iddo.

Cred CSYM fod ymagwedd y FfDC i ynni carbon isel yn rhy gul ac y dylai ymgorffori pob ffurf ar ynni carbon isel (gan gynnwys ynni llanw i'r Gorllewin o Ynys Môn a Rownd 4 Prydlesu Ynni Gwynt yn y Môr (LINC)). Fel yr amlinellwyd uchod, yn dilyn ymrwymiad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyflawni targed Net Sero erbyn 2050, a'r angen am gymysgedd amrywiol o ynni i gyflawni'r ymrwymiad hwn, dylai'r FfDC roi'r un pwyslais, amlygrwydd a phwysigrwydd i bob dull o gynhyrchu ynni carbon isel. Nid yw'r FfDC drafft yn gwneud hyn ond, yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar ddatblygiadau ynni gwynt ac ynni solar yn unig.

Mae CSYM wedi adolygu'r dogfennau cefndir sy'n cefnogi'r Meysydd Blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer ynni gwynt ac ynni solar. Mae llawer o wybodaeth mewn perthynas â'r meini prawf a ddefnyddir. Mae'r cyfiawnhad a'r dystiolaeth dros ddewis y rhan fwyaf o'r Ynys fel Ardaloedd Blaenoriaeth yn aneglur. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n peri pryder sylweddol. Mae CSYM yn gwrthwynebu'r dynodiad hwn.

O gael ei ddynodi'n Ardal Flaenoriaeth, mae'r polisi newydd arfaethedig (Polisi 10) yn rhagdybio o blaid datblygiad ac yn derbyn y bydd y dirwedd yn newid, gyda phwyslais sylweddol yn cael ei roi ar gyfraniad y cynnig at leihau nwyon tŷ gwydr a chwrdd â thargedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy. Mae CSYM yn deall y bydd rhaid deilio gyda cheisiadau cynllunio ar sail achos wrth achos, ond mae'r ymagwedd hon yn creu disgwyliad cryf y bydd y datblygiadau hyn yn dderbyniol, er gwaetha'r effaith ar y dirwedd ac effeithiau eraill. Wrth ddynodi ardaloedd o'r fath, mae'r FfDC yn creu amlen ofodol sydd yn cael ei chefnogi'n ffurfiol mewn polisi ac sydd eisoes wedi gweld datblygiad sylweddol ar y tir ac yn y môr, ac yn parhau i wneud hynny gyda'r orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa a seilwaith cysylltiedig y Grid Cenedlaethol. Er bod Ynys Môn yn Ynys Ynni, nid yw'n golygu y dylid ystyried bod y rhan fwyaf o'r Ynys ar gael i gynnal datblygiadau ynni ychwanegol, ni waeth beth fyddai'r effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymunedol, er mai dyma fyddai canlyniad y FfDC ar ei ffurf bresennol ym marn CSYM.

Nodir mai ynni gwynt ac ynni solar yw'r unig ardaloedd yn y FfDC lle y dilynir ymagwedd ofodol, yn hytrach nag ymagwedd seiliedig ar feini prawf. Mae CSYM yn ystyried y byddai ymagwedd seiliedig ar feini prawf yn well na chreu Ardaloedd â Blaenoriaeth diffiniedig. Eisoes mae posibilrwydd y bydd CSYM yn lletya i ddatblygiadau Wylfa Newydd a'r Grid Cenedlaethol, a fydd yn gosod baich sylweddol ar y cymunedau, ac nid ymddengys bod hynny wedi'i gymryd i ystyriaeth mewn perthynas a dynodi Ynys Môn fel Ardal Blaenoriaeth. Mae pryderon hefyd mewn perthynas â seilwaith. Er enghraifft, cafodd llinellau uwchben arfaethedig y Grid Cenedlaethol eu cynllunio ar gyfer Wylfa Newydd yn unig ac nid yw'n glir pa seilwaith ychwanegol fyddai'r Grid Cenedlaethol ei angen i gysylltu â chanol yr Ynys. Yn sicr, ni roddwyd ystyriaeth i gapasiti'r grid wrth ddyrannu'r Ardaloedd Flaenoriaeth ac mae hyn yn codi pryderon sylweddol. Mae'n debyg y bydd pryderon sylweddol yn codi ynghylch cludiant o ganlyniad i'r cynnig hwn heb, er enghraifft, drydedd pont dros y Fenai, sydd eto, heb ei godi yn unrhyw un o'r dogfennau cefndir sy'n cefnogi'r FfDC sydd wedi ei hadolygu gan CSYM. Am y rhesymau hyn i gyd, ni all CSYM gefnogi'r dynodiad Ardaloedd Flaenoriaeth arfaethedig.

## 4. Canolfan Dwf Rhanbarthol - Caergybi

Mae CSYM yn hynod o siomedig ac wedi synnu nad yw Caergybi yn cael ei chydnabod na'i diffinio fel Canolfan Dwf Rhanbarthol ar gyfer Cymru, yn arbennig gan fod y FfDC yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd porthladd Caergybi i wasanaethu Cymru, y DU yn ehangach ac Iwerddon. Nid yw hyn yn dderbyniol. Mae CSYM yn credu'n gryf bod sail dystiolaeth glir yn bodoli i gyfiawnhau cynnwys Caergybi fel Canolfan Dwf Rhanbarthol o ystyried ei phwysigrwydd strategol posib i Gymru, ac felly mae'n awgrymu bod angen diwygio'r FfDC yn unol â hynny. Yn ogystal, mae angen rhoi mwy o amlygrwydd i hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Brexit. Nid yw'r goblygiadau i Ynys Môn a'r ardal ehangach pe bai'r DU yn gadael yr UE ar 31ain Hydref (gyda chytundeb neu heb gytundeb) yn glir, ond gellir tybio y byddai cyfnod trosiannol a dylai'r FfDC gymryd hynny i ystyriaeth wrth ystyried y Canolfannau Twf Rhanbarthol. Er nad ydym yn gwrthwynebu canolbwyntio twf economaidd strategol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru; mae CSYM yn ceisio eglurder ynghylch sut bydd y cynllun yn galluogi ac yn dylanwadu ar dwf yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae potensial y Rhaglen Ynys Ynni a phrosiectau megis Wylfa Newydd o ran trawsnewid y dirwedd gymdeithasol-economaidd yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi cael ei anwybyddu.

## 5. Gweledigaeth ar gyfer Ardaloedd Gwledig

Oherwydd natur wledig Ynys Môn, mae cefnogi cymunedau gwledig a'u datblygu yn flaenoriaeth allweddol. Mae CSYM o'r farn nad yw'r FfDC drafft yn darparu digon o gyfeiriad i ardaloedd gwledig. Mae pwysigrwydd y FfDC o ran arwain a llywio datblygiad yn ardaloedd gwledig Cymru'n hollbwysig. Heb weledigaeth o'r fath, mae risg y bydd mwy o anghyfartaledd rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn creu heriau ychwanegol i ardaloedd gwledig. O ganlyniad, mae CSYM o'r farn y dylai'r FfDC gynnwys mwy o arweiniad polisi mewn perthynas â chefnogi cyfleoedd cyflogaeth, diogelu a chryfhau'r Iaith Gymraeg, mynd i'r afael ag anghyfartaledd, hyrwyddo cymunedau gwydn a chydlynus, hyrwyddo cysylltedd (o ran trafnidiaeth a seilwaith ddigidol) a galluogi datblygiad cynaliadwy. Mae angen rhoi mwy o gydnabyddiaeth ac arweiniad ynghylch twf a datblygiad twristiaeth a'r economi ymwelwyr yn y FfDC terfynol hefyd.

Twristiaeth yw'r sector economaidd fwyaf ar yr Ynys, gan gynhyrchu £311M (Adroddiad STEAM 2018) y flwyddyn i'r economi. Mae'r sector yn cynnal oddeutu 4,000 (Ibid.) o swyddi. Daw ymwelwyr i Ynys Môn i brofi ei chymeriad unigryw a'i hymdeimlad arbennig o le, ei lleoliad tawel a heddychlon, ei thraethau, ei golygfeydd o'r môr a'i thirweddau dramatig. Mae oddeutu 95% o arfordir Ynys Môn wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae 50km yn Arfordir Treftadaeth (gan gynnwys Gogledd Môn) ac mae nifer o safleoedd eraill yn safleoedd dynodedig Cenedlaethol ac Ewropeaidd. Mae posibilrwydd y byddai dynodi'r rhan helaeth o'r Ynys ar gyfer cynhyrchu ynni solar ac ynni gwynt (gan gynhyrchu bron dim buddiannau cymdeithasol-economaidd) yn cael effaith niweidiol sylweddol ar ddiwydiant twristiaeth yr Ynys, gan y gallai gael effaith sylweddol ar dirwedd ac elfen weledol ardaloedd gwledig Ynys Môn.

Er bod gwahaniaeth sylweddol rhwng datblygiad trefol a gwledig, mae'n hanfodol bod y FfDC yn galluogi datblygiad priodol i yrru ffyniant a thwf cyffelyb mewn ardaloedd

DRAFT

gwledig. Cred CSYM fod angen ymgysylltu pellach gyda Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i drafod cynllun ar y cyd.

## 6. Polisi Iaith Gymraeg

Mae trefi, pentrefi a chymunedau gwledig yn hollbwysig i gymeriad a gwead Cymru a'r trefi a'r cymunedau hyn sy'n siapio a diffinio Cymru. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwneud Cymru'n unigryw yw'r Iaith Gymraeg. Mae'r Iaith Gymraeg fwyaf amlwg yng Nghymru wledig ac er bod CSYM yn cydnabod bwriad y FfDC i gyflawni'r amcan o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n credu bod peidio â chael polisi dynodedig ar gyfer yr Iaith Gymraeg yn fwlch sylfaenol. Byddai cynnwys polisi o'r fath yn alinio gyda Cymraeg 2050: Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru a dylid mesur perfformiad i gynnal y cymunedau Cymraeg hyn a chyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n holl bwysig cyflawni'r targed hwn er mwyn atal allfudo net ymysg pobl ifanc drwy ddarparu tai fforddiadwy, swyddi a chyfleoedd er mwyn i'r ardaloedd gwledig hyn ffynnu fel cymunedau Cymraeg eu hiaith.

## 7. Tai Fforddiadwy

Mae oedi o ran darparu tai fforddiadwy yn fater allweddol. Mae CSYM yn nodi'r cyfeiriad bod angen i 47% ar gyfartaledd o dai ychwanegol fod yn dai fforddiadwy ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2018/19 i 2022/23. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cymryd i ystyriaeth yr effaith ar hyfywedd ar safleoedd marchnad a'i bod, ar gyfartaledd, yn annhebygol y bydd lefel o tua 50% o ddarpariaeth fforddiadwy yn cael ei gyflawni ar y mwyafrif o safleoedd mewn lleoliadau gwledig ar draws Cymru. Er y cydnebir bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu defnyddio ei bolisïau ariannu, tir, cynllunio a thai i yrru hyn, nid yw'r FfDC yn esbonio sut y bydd materion megis methiant yn y farchnad a chostau seilwaith yn cael eu datrys. Mae angen cynyddol i godi safonau tai cymdeithasol presennol i gwrdd â safonau modern. Fodd bynnag, mae angen adnoddau ychwanegol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## 8. Cysylltedd a Thrydedd Pont dros y Fenai

Mae CSYM yn siomedig na chyfeirir at y drydedd bont arfaethedig rhwng yr Ynys a'r tir mawr. Ystyrir bod hyn yn dangos diffyg gweledigaeth ac uchelgais ac yn siomedig, yn arbennig o ystyried y datblygiadau posib a all ddigwydd ar yr Ynys a fyddai'n arwain at gynnydd cronnus sylweddol yn lefel y traffig. Byddai hyn yn gwneud croesi i'r Ynys, a gadael, yn broblem sylweddol ac yn rhwystro twf. Fel cynllun y bu Llywodraeth Cymru'n ei hyrwyddo yn y gorffennol, dylid cynnwys y drydedd bont yn y FfDC. Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor o wasanaeth Metro Gogledd Cymru er mwyn cael galluogi mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau, mae CSYM o'r farn y dylai'r seilwaith hwn ymestyn dros ranbarth Gogledd Cymru gyfan er mwyn hwyluso gwell cysylltiad rhwng Gogledd Orllewin Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru (ac i mewn i Ogledd Orllewin Lloegr).

## 9. Cysylltiad Awyr rhwng Gogledd a De Cymru

Mae Polisi Drafft 32 yn ymwneud â Maes Awyr Caerdydd ac mae'n cefnogi ei dwf a'i ddatblygiad. Cydnebir ei bwysigrwydd fel porth rhyngwladol, yn cysylltu Cymru â'r byd,

ac mae CSYM yn cefnogi hyn. Fodd bynnag, ni chyfeirir at ei swyddogaeth genedlaethol a phwysigrwydd cysylltu Gogledd a De Cymru, rhywbeth y cyfeirir ato yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru sydd yn cydnabod bod y gwasanaeth yn chwarae rhan sylweddol yn natblygiad economaidd gogledd orllewin Cymru, gan ddarparu gwell cysylltiad busnes, cyfleoedd twristiaeth a lleihau amseroedd teithio. Mae CSYM o'r farn y dylai'r FfDC adlewyrchu hyn.

Mae angen ystyried a rhoi sylw i'r materion a godir, a'r manylion pellach yn Atodiad A, wrth baratoi fersiwn derfynol y FfDC. Os na ddigwydd hynny, yna ni fydd y cynllun yn gweithio i drigolion, cymunedau, economi ac amgylchedd yr Ynys. Mae'r sylwadau a gyflwynir yn rhoi ystyriaeth lawn i'r presennol a'r dyfodol, gan alinio'n llwyr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Gobeithir y bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried bod ymateb CSYM i'r FfDC yn adeiladol er mwyn cynorthwyo i greu cynllun datblygu holl gynhwysfawr ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf fydd yn siapio twf a datblygiad y wlad yn y dyfodol er lles ei phobl a'r genhedlaeth nesaf.

Mae CSYM wedi ymrwymo i gydweithio'n lleol, ar draws Gogledd Cymru a gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y FfDC yn addas i bwrpas a bod aliniad clir o'r lefel leol i'r haen gynllunio uchaf a fydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith a datblygiad. Byddwn yn croesawu trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hynny er mwyn sicrhau bod y sylwadau uchod yn derbyn sylw priodol.

**Yn gywir,**

**DYLAN J. WILLIAMS**
Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol

DRAFT

## ATODIAD A

### 1.0 Llywodraethu a Monitro

1.1 Mae CSYM yn derbyn yr egwyddor o Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynllunio Rhanbarthol. Fodd bynnag, o fod yn rhan o'r gyntaf a'r unig Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) a Chynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) yng Nghymru, mae manteision y tair haen o bolisi cynllunio yn parhau i fod yn aneglur. Mae'r FfDC yn ceisio annog awdurdodau lleol i greu Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) ac i barhau i reoli Cynlluniau Datblygu Lleol. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau llywodraethiant, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn aneglur mewn perthynas â datblygu'r CDS - pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol o ran cydlynu a chyflawni. Yn ogystal, mae'r FfDC yn gwrth-ddweud ei hun mewn perthynas â graddfa'r CDS - a fyddai'n gweithredu ar lefel rhanbarth cyfan neu ar lefel isranbarthol. Mae angen i hyn fod yn fwy eglur o fewn y fframwaith gan y byddai rhywun yn tybio y byddai'n rhaid rhoi'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn eu lle mewn cyfnod byr iawn.

1.2 Rydym yn cwestiynu ymhle mae'r capasiti a'r adnoddau i ymgymryd â'r gweithgareddau uchod. Nid oes gan CSYM y capasiti, y profiad na'r gallu i ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol ar lefel Ranbarthol.

1.3 Mae Pennod 3 yn amlinellu canlyniadau'r FfDC yn seiliedig ar egwyddorion cynllunio cenedlaethol a chanlyniadau siapio lle cynaliadwy cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae'n nodi fod pob rhan o'r ddogfen yn ymwneud â chyflawni 11 canlyniad y FfDC. Mae eu trosi yn gamau gweithredu ac allbynnau yn dasg gymhleth a heriol. Byddai'n fuddiol deall pwy a sut fydd cyflawni yn cael ei fonitro, wedi ei alinio ac yn gyson â'r Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Adolygiadau Perfformiad Blynyddol.

1.4 Mae'r FfDC yn rhan o gyfres newydd o ddogfennau lefel uchel (ochr yn ochr â'r Polisi Cynllunio Cymru newydd, trefn newydd Cydsynio Seilwaith Cymru a'r Cynllun Morol newydd ar gyfer Cymru). Gyda'i gilydd, byddant yn sylfaen i gynlluniau defnydd tir strategol yng Nghymru yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Bydd y cydberthynas rhwng y dogfennau hyn yn holl bwysig (cynnwys, dehongliad, cymhwyso, monitro ayb). Bydd hyn yn gymhleth o safbwynt y sector cyhoeddus, y datblygwr, rhanddeiliaid a chymunedau/trigolion. Bydd cysondeb yn allweddol, gan gynnwys arweiniad a chefnogaeth hygyrch ac effeithiol. Byddem yn elwa o ddeall sut fydd hyn yn cael ei ddatblygu. Mae sicrhau cysondeb rhwng yr holl ddogfennau hyn yn holl bwysig i sicrhau fod y ffordd ymlaen yn glir ac nad oes unrhyw wrthddweud. Bydd hyn yn holl bwysig i gynnal enw da'r system gynllunio defnydd tir yng Nghymru, yn caniatáu gwneud penderfyniadau effeithiol ac effeithlon ac yn lleihau prosesau barnwrol/cyfreithiol.

1.5 Croesewir a chefnogir y bwriad i gynnal adolygiad llawn bob 5 mlynedd. Yn ogystal, byddem yn argymell bod adroddiad monitro blynyddol yn cael ei lunio a'i gyhoeddi. Byddai hyn yn gyson â threfniadau'r Cynllun Datblygu Lleol.

DRAFT

## 2.0 Canolfannau Twf Rhanbarthol - Caergybi (Strategaeth Ofodol)

2.1 Rydym yn siomedig ac yn synnu nad yw Caergybi yn cael ei chydnabod na'i diffinio fel Canolfan Dwf Rhanbarthol ar gyfer Cymru, yn arbennig o ystyried bod Polisi 20 a 21 y FfDC yn cydnabod pwysigrwydd porthladd Caergybi i wasanaethu Cymru, y DU yn ehangach ac Iwerddon. Cydnebir hefyd y potensial sylweddol am dwf a buddsoddiad yng Nghaergybi. Rydym yn gofyn i Gaergybi gael ei hychwanegu, ei chydnabod a rhoddi statws Canolfan Dwf Ranbarthol iddi yn y FfDC terfynol. Rydym o'r farn bod sail dystiolaeth glir yn bodoli i gyfiawnhau cynnwys Caergybi fel canolfan dwf ranbarthol yn y FfDC terfynol:

- Porthladd Caergybi yw un o borthladdoedd prysuraf y DU gyda dros 2 filiwn o deithwyr troed a 450,000 uned o nwyddau'n pasio drwy'r porthladd bob blwyddyn.
- Caergybi yw'r prif borthladd gadael/glanio ar gyfer Gogledd Lloegr, Cymru a Chanolbarth Lloegr i Fôr Iwerddon ac mae'n ffurfio rhan allweddol o lwybrau masnach rhyngwladol.
- Porthladd llongau mordaith prysuraf Cymru ac mae Ynys Gybi yn gyrchfan brysur i ymwelwyr ac yn cael ei nodweddu gan olygfeydd arfordirol deniadol.
- Mae cyfyngiadau o ran manteisio i'r eithaf ar botensial y porthladd, ond mae cynlluniau ehangu sylweddol yn cael eu cydnabod a'u cynllunio fel rhan o Fargen Dwf Gogledd Cymru.
- Ar ôl Brexit, bydd y Porthladd yn borth rhyngwladol allweddol i mewn i'r DU a fydd yn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn borth strategol o Iwerddon drwy'r DU i mewn i Ewrop.
- Potensial sylweddol am dwf mewn swyddi a thai, gyda chysylltiadau ffordd a rheilffordd da.
- Mae ganddi sector manwerthu mawr sy'n ehangu, safle diwydiannol mawr gydag unedau busnes, a pharc busnes strategol ym Mharc Cybi.
- Datblygiad posib Land & Lakes, sy'n cynnwys pentref hamdden gyda hyd at 500 o gabanau, bythynnod a chyfleusterau cysylltiedig.
- Posibilrwydd o ddatblygiad mawr defnydd cymysg ym Marina Caergybi.

2.2 Gwneir nifer o gyfeiriadau at 'arc' o ardaloedd adeiledig yng Ngogledd Cymru yn ymestyn ar draws y rhanbarth lle mae'r boblogaeth, amddifadedd, gwasanaethau allweddol, cyfleusterau, teithio i'r gwaith a gweithgarwch economaidd wedi'u crynhoi. Mae'r 'arc' yn ymestyn ar hyd yr arfordir o Afon Menai i'r ffin gyda Lloegr. Ymddengys fod y penderfyniad i ganolbwyntio'r rhan helaeth o ddatblygiad i'r arc o Gaernarfon i Lannau Dyfrdwy yn rhagfarnu yn erbyn datblygiad economaidd Ynys Môn. Er y gallai dilyn polisi fel hyn greu ffyniant economaidd yn yr ardal yn gyffredinol, ni fydd hynny'n wir am Ynys Môn. Credwn y dylid ymestyn yr 'arc' ymhellach i'r gorllewin ac y dylai gychwyn yng Nghaergybi.

## 3.0 Gweledigaeth ar gyfer Ardaloedd Gwledig

3.1 Mae pwysigrwydd y FfDC o ran arwain a llywio datblygiad mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, ac nid datblygiad trefol yn unig, yn holl bwysig. Mae gan





DRAFT

ardaloedd gwledig yng Nghymru drefi a chymunedau gwledig bywiog sy'n wynebu amddifadedd y mae angen eu cefnogi fel canolfannau pwysig. Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i drefi llai / gwledig yn y FfDC terfynol gan eu bod yn hybiau allweddol.

3.2 Mae Polisi 4 yn datgan mai'r ffordd orau o gynllunio dyfodol ardaloedd gwledig yw drwy wneud hynny ar lefel ranbarthol a lleol – nid yw'r FfDC drafft yn darparu digon o gyfeiriad ar gyfer ardaloedd gwledig. Ychydig iawn o gyfeiriad a geir yn y FfDC drafft at ddatblygiad gwledig ac mae mwy o fygythiad y bydd ardaloedd gwledig yng Nghymru yn cael eu gadael ar ôl a'r bwlch rhwng ardaloedd trefol a gwledig yn tyfu. Byddai hyn yn niweidiol i rannau mawr o Gymru sydd â chymeriad gwledig ac sy'n gartref i 40% o boblogaeth Cymru (aneddiadau o lai na 10,000 o bobl).

3.3 Os bydd dyfodol Cymru weledig yn cael ei gyfyngu i ddatblygiad yn canolbwyntio ar ddiwydiannau traddodiadol (ffermio/twristiaeth) ac ynni carbon isel (sydd ddim yn gyflogwyr mawr), nid yw'n eglur o ble y daw cyfleoedd cyflogaeth hanfodol a dymunol.

3.4 Nid yw'r FfDC drafft yn amlinellu'n glir sut fydd Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru o fewn yr arc arfordirol o Gaernarfon i Lannau Dyfrdwy, mewn rôl isranbarthol bwysig i gefnogi prif ardaloedd twf Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, yn cynnal cymunedau gwledig hyfyw a chynaliadwy. Nid yw'n glir a fydd effeithiau canoli datblygiad yn hwylusydd positif a chyflenwol i'r gefnwlad wledig. Sut fydd y FfDC yn cefnogi ardaloedd gwledig i sicrhau cyfleoedd cyflogaeth o safon i atal allfudo, diogelu a chryfhau'r Iaith Gymraeg, a galluogi datblygiad cynaliadwy?

3.5 Yn gysylltiedig â Thrafnidiaeth a Chysylltedd, sut fyddai LlC yn sicrhau bod cysylltedd a chysylltiadau trafnidiaeth da o'r ardaloedd gwledig i'r ardaloedd a nodwyd fel prif ardaloedd twf?

3.6 Byddai rhoi mwy o gydnabyddiaeth ac arweiniad ynghylch twf a datblygiad pellach twristiaeth a'r economi ymwelwyr yn y FfDC terfynol yn ychwanegu gwerth. Twristiaeth yw'r sector economaidd fwyaf ar yr Ynys, gan gynhyrchu £311M (Adroddiad STEAM 2018) y flwyddyn i'r economi. Mae'r sector yn cynnal oddeutu 4,000 (Ibid.) o swyddi. Daw ymwelwyr i Ynys Môn i brofi ei chymeriad unigryw a'i hymdeimlad arbennig o le, ei lleoliad tawel a heddychlon, ei thraethau, ei golygfeydd o'r môr a'i thirweddau dramatig. Mae oddeutu 95% o arfordir Ynys Môn wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, mae 50km yn Arfordir Treftadaeth (gan gynnwys Gogledd Môn) ac mae nifer o safleoedd eraill yn safleoedd dynodedig Cenedlaethol ac EwropeaiddMae hyn yn holl bwysig i ddyfodol cymunedau gwledig, ac mae angen rhoi ystyriaeth ofalus a chydbwyso'r cyfleoedd a'r heriau.

3.7 Mae sicrhau fod yr holl rannau o Gymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, yn cael eu cefnogi gan seilwaith delegyfathrebu fodern yn cael ei groesawu. Rydym yn awyddus i ddeall yn well sut fydd y Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol yn cael eu diffinio a'u neilltuo.

## 4.0 Yr Iaith Gymraeg

4.1 Rydym yn croesawu'r ffaith bod y FfDC yn cydnabod bod yr Iaith Gymraeg yn gyfle a her allweddol sy'n wynebu'r genedl, a rôl y cynllun o ran sicrhau fod y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn cael ei gyflawni.

4.2 Er mwyn gosod y cyd-destun, mae Ynys Môn yn lle unigryw ac arbennig iawn lle mae'r Iaith Gymraeg a'i diwylliant yn rhan annatod o hunaniaeth Ynys Môn. Mae'r Iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yn holl bwysig. Gall dros dri chwarter o blant sy'n byw ar yr Ynys siarad Cymraeg a dros hanner yr oedolion. Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o gadarnleoedd yr Iaith Gymraeg. Mae'r Iaith Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd ac o gydlyniad cymdeithasol a llesiant yr Ynys. O'r herwydd, mae diogelu a chryfhau'r Iaith yn un o'r prif flaenoriaethau wrth symud ymlaen ac mae CSYM yn awyddus i ddeall sut bydd y FfDC yn cyfrannu tuag at y flaenoriaeth hon yn Ynys Môn a Gogledd Cymru.

4.3 Rydym yn cwestiynu pam nad oes polisi dynodedig ar yr Iaith Gymraeg a'r canlyniad a ddeisyfir o gynyddu nifer y Siaradwyr Cymraeg. Dylai hyn alinio gyda Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru.

4.4 Nid yw'r glir pam fod datblygu'r Iaith Gymraeg yn cael ei gyfyngu i ardaloedd '*lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd'*. Beth yw'r diffiniad o iaith bob dydd? Bydd yr ymagwedd a'r diffiniad presennol yn cyfyngu ar berthnasedd ac ymrwymiad dwyieithrwydd i ardaloedd gofodol diffiniedig.

4.5 Rydym yn cwestiynu a yw'r FfDC yn gwneud digon i hyrwyddo a diogelu'r Iaith Gymraeg, ac ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg a diwylliant i Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru. Dylid ailystyried hyn cyn llunio'r FfDC terfynol.

## 5.0 Ynni Gwynt ac Ynni Solar – Dynodiad Adnewyddadwy

5.1 Rydym yn derbyn yn llwyr yr angen i gynhyrchu ynni carbon isel i gwrdd â newid yn y DU yn dilyn cyhoeddiadau diweddar gan Lywodraeth y DU ynghylch ei darged Net Sero erbyn 2050. Bydd cynhyrchu gwahanol ffurfiau o ynni carbon isel yn hanfodol i gyflawni'r targed hwn a bydd rhaid i Gymru chwarae ei rhan er mwyn cyfrannu at y targed hwn.

5.2 Mae'r FfDC drafft yn amlygu ynni gwynt ac ynni solar fel dull o gynhyrchu ynni carbon isel. Fodd bynnag, dylid rhoi'r un amlygrwydd a phwysigrwydd i ynni llanw, ynni dŵr a datblygiadau yn y môr.

5.3 Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, mae CSYM wedi sefydlu'r rhaglen gymdeithasol-economaidd, Rhaglen Ynys Ynni Môn (RhYY) (LINC). Gweledigaeth y Rhaglen Ynys Ynni yw creu cyfle unwaith mewn oes i greu swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn a rhoi Ynys Môn ar flaen y gad ym maes ynni carbon isel, ymchwil a datblygiad, cynhyrchu a gwasanaethu. Yn ei dro, bydd hyn yn

creu sylfaen gadarn i annog arallgyfeirio a thrawsnewid economaidd, gan greu manteision cadarnhaol yn yr hirdymor.

5.4 Fodd bynnag, mae cefnogaeth ar gyfer y seilwaith ynni newydd ar Ynys Môn yn seiliedig ar sicrhau cyflogaeth hirdymor a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, a chreu twf economaidd trawsnewidiol, wrth sicrhau fod yr effeithiau niweidiol yn cael eu lliniaru'n effeithiol.

5.5 Mae CSYM wedi adolygu'r dogfennau cefndir sy'n cefnogi'r Meysydd Blaenoriaeth arfaethedig ar gyfer ynni gwynt ac ynni solar. Mae llawer o wybodaeth mewn perthynas â'r meini prawf a ddefnyddir. Mae'r cyfiawnhad a'r dystiolaeth dros ddewis y rhan fwyaf o'r Ynys fel Ardaloedd Blaenoriaeth yn aneglur. Nid yw hyn yn dderbyniol ac mae'n peri pryder sylweddol. Mae CSYM yn gwrthwynebu'r dynodiad hwn.

5.6 Mae dogfennau cefndirol y FfDC yn cadarnhau na chynhaliwyd dadansoddiad o gapasiti presennol y seilwaith grid sy'n gwasanaethu'r Ardaloedd Blaenoriaeth a nodwyd. Bydd hyn yn cael effaith ar lefel y seilwaith ychwanegol fydd ei angen a sut y gallai seilwaith o'r fath effeithio ar ddynodiadau amgylcheddol gwerth uchel.

5.7 Mae'r FfDC yn nodi Gogledd a Chanolbarth Ynys Môn fel Ardal Blaenoriaeth ar gyfer ynni gwynt ac ynni solar (Polisi 10). Fodd bynnag, nid oes unrhyw fanylion yn y FfDC i esbonio sut a pham y cafodd y lleoliad hwn ei ddewis na beth oedd y meini prawf. Rydym yn nodi bod gwaith cefndirol wedi digwydd drwy Lywodraeth Cymru - Asesiad o botensial Ynni Solar a Gwynt ar y tir yng Nghymru (Cam 1 a 2) (LINC) sy'n darparu methodoleg, tystiolaeth a chyfiawnhad dros ddewis yr Ardaloedd Blaenoriaeth. Dylid mynegi'r cyfiawnhad dros y dynodiadau yn llawer mwy eglur yn y FfDC terfynol.

5.8 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) yn darparu cyfiawnhad dros faint y tyrbinau gwynt / ffermydd solar y gellir eu derbyn, ac yn rhoi ystyriaeth i'r Astudiaeth Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau. Deallir bod CNC yn gwneud gwaith i gynhyrchu Canllawiau Cenedlaethol mewn perthynas â'r mater hwn. Fydd y FfDC yn ystyried gwybodaeth o'r fath er mwyn rhoi sylw i gyfyngiadau safle penodol ac i weld a yw'r Ardaloedd Blaenoriaeth yn parhau i fod yn lleoliadau dilys?

5.9 Rydym yn bryderus am y rhagdybiaeth o blaid datblygiad ar gyfer y cynlluniau hyn (Polisi 10) a bod newid yn y dirwedd yn cael ei dderbyn fel canlyniad. Mae'r diagram ar dudalen 48 yn nodi'r Gorllewin fel ardal o ansawdd tirweddol ac amgylcheddol uchel. Mae hyn yn gwrthddweud y syniad bod hon yn ardal sy'n gallu derbyn, mewn egwyddor, newidiadau i'r dirwedd.

5.10 Ymddengys bod un o'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd o fewn Ardal â Blaenoriaeth Ynys Môn. Mae ardaloedd o'r fath yn cael eu cefnogi gan Ddatganiad o Werth ac Arwyddocâd sydd yn gosod allan yn glir sut y mae pob ardal yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer dynodiad, ac yn cynnwys set o 'rinweddau arbennig' sy'n sail i'r dynodiad. Mae rhaid i unrhyw gynigion datblygu o fewn yr Ardaloedd Tirwedd

Arbennig gymryd y rhinweddau arbennig i ystyriaeth. Dylid adlewyrchu hynny yn y FfDC hefyd.

5.11 Rhaid rhoi ystyriaeth i effaith y datblygiad ar osodiad y Parc Cenedlaethol a'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae rhan o Ardaloedd Blaenoriaeth 1 yn agos at yr AHNE yng Ngogledd Ynys Môn. Rydym yn nodi'r testun ar gyfer Polisi drafft 12 sy'n datgan bod rhaid i gynigion yn agos i ffiniau'r ardaloedd dynodedig hyn ddangos na fydd y datblygiad yn tanseilio'r amcanion sy'n sail i ddibenion y dynodiad, ond nid yw'n glir sut mae'r agwedd hon yn cydblethu â Pholisi 10 sydd yn rhagdybio o blaid datblygiad o fewn yr Ardal Blaenoriaeth. Y cyfan sy'n ofynnol dan Bolisi 10 yw bod yr effeithiau ar Barciau Cenedlaethol ac AHNEau yn cael eu lleihau, gan awgrymu bod y rhagdybiaeth o blaid datblygu yn cael blaenoriaeth. Nid ddylai'r sefyllfa hon fodoli, a dylai'r FfDC ei gwneud yn glir bod Polisi 12 yn cael blaenoriaeth dros y rhagdybiaeth honno.

5.12 Mae tudalen 11 y FfDC yn datgan nad *'yw'n ceisio nodi'r union leoliad ar gyfer datblygiadau newydd',* ar ôl datgan cyn hynny bod 'rhaid' i gynlluniau datblygu strategol a lleol (sydd yn nodi lleoliadau) gydymffurfio â'r FfDC (td. 10). O ganlyniad, mewn perthynas â dynodiadau ynni gwynt ac ynni solar, mae peth gwrthddweud gan nad yw'r Ardaloedd Cyfleoedd Posib ar gyfer Ffermydd Solar yn y CDLl ar y Cyd yn cyfateb i'r hyn a gynigir yn y FfDC. Yn ogystal, mae'r safleoedd Ynni Gwynt ac Ynni Solar tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a nodwyd yn TAN 8 ac ymddengys, o'r herwydd, bod y FfDC yn gwrthdaro â TAN8 ac, o ganlyniad, yn gwrthdaro gyda Pholisi Cynllunio Cymru. Bydd angen datrys hyn cyn cyhoeddi'r FfDC terfynol.

5.13 Rydym yn croesawu, mewn egwyddor, bod Polisi 22 wedi'i gynnwys – Gogledd Orllewin Cymru ac Ynni (Tudalen 54) ac yn gofyn i'r pwyntiau canlynol gael eu hystyried ymhellach er mwyn dylanwadu a gwella ar y FfDC terfynol:

a) Cyfeiriad uniongyrchol at Raglen Ynys Ynni Môn a'i gweledigaeth / amcanion
b) Rhoi mwy o ystyriaeth ac amlygrwydd i'r angen i fuddsoddi mewn seilwaith trawsgludo ynni
c) Rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r angen i fuddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau; gweithio gyda phrifysgolion a busnesau ar draws y rhanbarth a Gogledd Orllewin Lloegr
d) Croesawu cydnabyddiaeth o'r angen i weithio gydag Arc Niwclear y Gogledd Orllewin
e) Cydnabod yr angen i ddatblygu canolfannau rhagoriaeth mewn Prifysgolion
f) Cydnabod cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, yn arbennig mewn perthynas ag ynni niwclear

5.14 Cyfeirir at gynhyrchu un gigawatt o'r ynni adnewyddadwy a ddefnyddir drwy brosiectau ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth leol erbyn 2020 a bod o leiaf elfen o berchnogaeth leol. Dylid cynnwys eglurhad pellach yn y FfDC ynghylch yr hyn a ddiffinnir fel perchnogaeth leol o brosiect i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r targed hwn a bod y prosiect o fudd i'r gymuned.

## 6.0 Wylfa Newydd

6.1 Ar hyn o bryd, ni roddir sylw a statws digonol i ddatblygiad posib gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn. Nid yw'r fersiwn Hawdd i Ddarllen o'r ymgynghoriad ar y FfDC yn hyrwyddo ynni niwclear mewn goleuni ffafriol a dim ond cyfeiriad wrth basio a geir ar y datblygiadau hyn ym Mholisi 22. Mae hyn yn siomedig ac yn annerbyniol ac rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i ddiweddaru. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud penderfyniad ynghylch y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ym mis Hydref 2019.

6.2 Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflawni allyriadau carbon Net Sero erbyn 2050, o gymharu â lefelau 1990, a dyletswydd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i sicrhau fod allyriadau net Cymru yn 2050 80% yn is na'r waelodlin bresennol yn golygu bod gan Brosiect Wylfa Newydd y potensial i chwarae rhan arwyddocaol o ran cyflawni'r targedau hyn. Fel ffynhonnell ynni carbon isel, mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn glir bod gan gynhyrchu ynni niwclear rôl bwysig i'w chwarae wrth arallgyfeirio a datgarboneiddio'r galw am drydan.

6.3 Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei strategaeth bontio i ynni carbon isel, a CSYM, ill dau'n cydnabod pwysigrwydd y cyfraniad y gall pŵer niwclear newydd ei wneud i gymysgedd ynni'r DU a diogelu'r cyflenwad trydan ac mae'r ddau'n cefnogi'r egwyddor o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa. Maent hefyd yn rhagweld y bydd datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa yn yrrwr sylfaenol ar gyfer twf economaidd hirdymor, cynaliadwy ar Ynys Môn ac yn rhanbarth Gogledd Cymru yn ehangach a dylai'r FfDC roi mwy o bwyslais ar hyn.

6.4 Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol; sy'n nodi sut fydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei Rhaglen Lywodraethu. Mae'n cymryd yr ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu ac yn nodi sut y byddant yn cael eu cyflawni drwy ddwyn ynghyd ymdrechion gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru. Mae'r Strategaeth yn cyfeirio'n benodol at yr angen i fanteisio ar gyfleoedd o Wylfa Newydd a'r angen i gysylltu tai newydd â datblygiadau seilwaith mawr newydd. Mae angen eglurder ynghylch sut bydd y FfDC yn cydblethu â dogfennau lefel uchel eraill Llywodraeth Cymru a'u bod oll yn darparu neges glir a chyson ynghylch yr hyn a gyflawnir. Ar hyn o bryd, nid yw'r FfDC yn alinio gyda'r ddogfen 'Ffyniant i Bawb' mewn perthynas â Wylfa Newydd.

6.5 Mae pwysigrwydd strategol allweddol y Prosiect Wylfa Newydd yn cael ei gydnabod yn llawn yn RhYY CSYM ac Ardaloedd Menter (LINC) Llywodraeth Cymru sydd, gyda'i gilydd, â'r nod o greu hyb rhagoriaeth ddaearyddol ar gyfer datblygu, gweithredu a gwasanaethu mentrau ynni carbon isel.

6.6 O ganlyniad, bydd gan y Prosiect Wylfa Newydd oblygiadau pwysig i economi, cymunedau ac amgylchedd yr Ynys a Gogledd Cymru yn ehangach ac mae angen cydnabod hynny'n llawn yn y FfDC terfynol.

## 7.0 Ardaloedd Parth Menter

7.1 Mae peth cyfeiriad at Ardaloedd Menter Eryri, Glannau Dyfrdwy a Maes Awyr Caerdydd. Rydym yn gofyn i gyfeiriad at Ardal Fenter Ynys Môn (LINC) gael ei gynnwys hefyd, yn arbennig wrth gyflwyno Gogledd Orllewin Cymru ac Ynni ym Mholisi 22.

7.2 Ochr yn ochr â'r Rhaglen Ynys Ynni, mae Parth Menter Ynys Môn yn gyrru twf yr Ynys fel canolfan ragoriaeth fyd enwog ym maes cynhyrchu ynni carbon isel. Yn ogystal, dynodwyd y Parth Arddangos Morol a neilltuwyd i ddyfeisiau ynni'r môr yn nyfroedd dyfnion Porthladd Caergybi – un o brif byrth y DU i Iwerddon. Dylid cynnwys hyn yn y FfDC er mwyn gosod cyd-destun perthnasol a nodi bod Ynys Môn yn gartref i ddenu datblygiadau yn gysylltiedig ag ynni carbon isel, fydd yn darparu cyfleoedd trawsnewidiol mewn perthynas â chyflogaeth a'r gadwyn gyflenwi ac yn cyfrannu at drawsnewid yr economi leol a rhanbarthol.

## 8.0 Cysylltedd a Thrydedd Bont Posib

8.1 Rydym yn cytuno bod cysylltedd trafnidiaeth ranbarthol yn digwydd yn bennaf rhwng y Gorllewin/Dwyrain (ac i'r cyfeiriad arall) sy'n cysylltu Gogledd Cymru gyda Lloegr (yn hytrach nag o Ogledd Cymru i Dde Cymru). Mae'n holl bwysig sicrhau bod Ynys Môn yn cael ei chysylltu â gweddill rhanbarth Gogledd Cymru. Un o'r prif heriau yng Ngogledd Orllewin Cymru yw gwella seilwaith trafnidiaeth o'r Gorllewin i'r Dwyrain (ac i'r cyfeiriad arall).

8.2 Mae'n siomedig nad oes cyfeiriad at y drydedd bont arfaethedig rhwng yr Ynys a'r tir mawr. Ystyrir bod hyn yn dangos diffyg gweledigaeth ac uchelgais ac yn siomedig. Gofynnwn i hyn gael ei gydnabod ac i'r FfDC terfynol gynnwys y trydedd bont. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried y datblygiadau posib all ddigwydd ar yr Ynys a fyddai, gyda'i gilydd, yn creu cynnydd sylweddol mewn traffig, ac a fyddai o ganlyniad yn gwneud croesi ar yr Ynys a gadael yn anodd iawn i drigolion, teithwyr ac ymwelwyr. Yn ogystal, mae'r drydedd bont yn holl bwysig i gludo nwyddau o Iwerddon i'r DU a thu hwnt ac i sicrhau nad yw Ynys Môn yn rhwystr i dwf, buddsoddiad a datblygiad.

8.3 Byddai mwy o eglurder a diffiniad (cwmpas a manteision) ynghylch Metro Gogledd Cymru (Polisi 21) yn fuddiol hefyd. Edrychir ar hwn fel gwasanaeth hanfodol i sicrhau gwell cysylltiad rhwng Gogledd Orllewin Cymru, Gogledd Ddwyrain Cymru, a Gogledd Orllewin Lloegr (yn ddyddiol, yn y ddau gyfeiriad) er mwyn cael mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau. Dylid cryfhau'r rhaglen fuddsoddi sy'n cael ei datblygu gan Trafnidiaeth Cymru, a chryfhau cysylltiadau gyda thai, cyflogaeth ayb yn y FfDC terfynol.

8.4 Byddai'n werthfawr rhoi ystyriaeth bellach i deithio cynaliadwy yn y FfDC er mwyn esbonio pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw i wella trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded / beicio, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Gall gwelliannau mewn teithio llesol hefyd arwain at fanteision i'r rhanbarth mewn perthynas â thwristiaeth, iechyd a llesiant a chydweddu seilwaith gwyrdd.



DRAFT

## 9.0 Cysylltiad awyr rhwng Gogledd a De Cymru

9.1 Mae Polisi drafft 32 yn ymwneud â Maes Awyr Caerdydd ac mae'n cefnogi ei dwf a'i ddatblygiad. Cydnebir ei bwysigrwydd fel porth rhyngwladol, yn cysylltu Cymru â'r byd, ac mae CSYM yn cefnogi hyn. Ni roddir unrhyw gyd-destun na gwybodaeth am sut y gallai'r Maes Awyr gael ei wella o ran llwybrau i gysylltu Ynys Môn â lleoliadau strategol eraill. Ni chyfeirir at ei swyddogaeth genedlaethol a phwysigrwydd cysylltu Gogledd a De Cymru, rhywbeth y cyfeirir ato yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru sydd yn cydnabod bod y gwasanaeth yn chwarae rhan sylweddol yn natblygiad economaidd gogledd orllewin Cymru, gan ddarparu gwell cysylltiad busnes, cyfleoedd twristiaeth a lleihau amseroedd teithio. Mae CSYM o'r farn y dylai'r FfDC adlewyrchu hyn.

9.2 Mae CSYM yn ystyried y dylai Maes Awyr Môn gael ei ddiffinio fel 'Cysylltiad Rhanbarthol' yn y FfDC terfynol i ddangos y cysylltiad awyr rhwng Ynys Môn a Chaerdydd.

## 10.0 Tai a Thai Fforddiadwy

10.1 Mae'r ddogfen yn nodi bod ardaloedd lleiaf ffyniannus/mwyaf difreintiedig Cymru yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a dyna pam fod yr ardaloedd hyn yn gymwys i dderbyn cymorth grant o Ewrop yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, y cyfeiriad strategol yn y FfDC yw targedu datblygiad economaidd a thai yn yr ardaloedd mwyaf ffyniannus yng ngogledd ddwyrain a de ddwyrain Cymru (gan gynnwys dinas Abertawe). Ymddengys bod hyn yn wrthgynhyrchiol o safbwynt dod â ffyniant i'r ardaloedd sydd fwyaf angen help, wrth barhau i gefnogi'r ardaloedd mwyaf ffyniannus. Mae hyn yn achosi cryn bryder.

10.2 Dylai polisi Tai geisio sicrhau cymunedau cymdeithasol cytbwys, osgoi gwaethygu'r rhaniad rhwng ardaloedd cyfoethog a thlawd yng Nghymru drwy gefnogi mwy o dai fforddiadwy mewn ardaloedd lle mae tai yn ddrud, a chefnogi tai ym mhen uchaf y farchnad mewn ardaloedd tlotach er mwyn cadw / cyflwyno cyfoeth a chyfalaf cymdeithasol.

10.3 Mae CSYM yn cytuno bod angen newid y model darparu er mwyn mynd i'r afael â'r 'bwlch cyflenwi' a'r angen am dai. Mae gorddibyniaeth ar y sector preifat i ddarparu tai fforddiadwy wedi golygu bod llai o dai fforddiadwy wedi cael eu hadeiladu ac mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol nid yn unig at ehangu'r 'bwlch cyflenwi', ond mae wedi golygu hefyd bod mwy o bobl/teuluoedd angen tŷ fforddiadwy. Mae costau tir, adeiladu, deunyddiau ayb yn golygu nad yw adeiladu tai fforddiadwy (yn arbennig ar raddfa leol lai) yn hyfyw. Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn ardaloedd gwledig lle mae'r galw'n uwch na'r cyflenwad gan arwain at gynnydd mewn prisiau tai a phobl ifanc yn gadael yr ardal.

10.4 Er bod CSYM yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod gormod o ddibyniaeth wedi bod ar y sector preifat, mae angen mwy o fanylion am sut mae LlC yn bwriadu

annog / cymell awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol ac adeiladwyr bach a chanolig i adeiladu'r tai fforddiadwy hyn er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol.

10.5 Mae hyfywedd yn broblem fawr i adeiladwyr tai, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae nifer fawr o'r tai newydd mewn ardaloedd gwledig yn blotiau hunanadeiladu (safleoedd mewnlenwi a thai ar gyfer mentrau gwledig sy'n cael eu hadeiladu ar dir ym mherchnogaeth y teulu, er enghraifft) gan mai dyma'r unig ffordd y gall pobl leol fforddio i aros yn eu cymuned. Nid yw'n realistig disgwyl i ddatblygwyr preifat gynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy mewn ardaloedd gweledig gan na fyddai'r datblygiadau / safleoedd hyn yn hyfyw heb gefnogaeth ariannol.

10.6 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) Ynys Môn a Gwynedd ym mis Gorffennaf 2017 a chwblhawyd Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) ar y cyd gyfer y ddau awdurdod yn 2019. Roedd y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (LINC) yn dangos bod cyflenwad o 6.3 mlynedd o dir ar gyfer tai. Mae'r CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn cynnwys nifer o ddynodiadau tai ar yr Ynys ac yn darparu cyfleoedd ar safleoedd ar hap. O ganlyniad, nid oes prinder o dir ar gyfer tai ar hyn o bryd.

10.7 Roedd 83 o safleoedd yn Ynys Môn wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer 5 neu fwy o unedau a oedd yn berthnasol i'w hystyried yn yr astudiaeth o argaeledd tir ar gyfer tai yn 2019. Cwblhawyd chwech o'r safleoedd hyn yn ystod y flwyddyn flaenorol ond ni chwblhawyd yr un uned ar 70 o'r safleoedd hyn yn ystod 2017/18. Mae elfen o'r unedau a ganiatawyd ar 28 safle wedi cael eu gosod yng nghategorïau 3 a 4 y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar Gyfer Tai h.y. ni ragwelir y byddant yn cael eu hadeiladu o fewn 5 mlynedd. Gan fod ein CDLl ar y Cyd wedi cael ei fabwysiadu'n ddiweddar nid yw nifer o safleoedd tai dynodedig yn y CDLl ar y Cyd wedi derbyn caniatâd cynllunio eto. Fodd bynnag, mae'r system gynllunio'n dibynnu ar ddatblygwyr i ddarparu'r tai angenrheidiol ar dir sy'n cydymffurfio â pholisi.

10.8 Dengys hyn fod y system gynllunio'n darparu cyfleoedd i adeiladu tai fforddiadwy (h.y. digon o dir a dynodiadau) ond mae angen gwneud mwy i annog pobl i adeiladu tai. Bydd y bwlch cyflenwi hwn yn parhau i ehangu os bydd rhaid i ddatblygwyr ddarparu 47% o dai fforddiadwy i gwrdd â'r galw am dai. Nid yw hwn yn opsiwn hyfyw mewn ardaloedd gwledig ac mae angen gwneud mwy i gymell datblygwyr preifat yn ogystal ag ariannu Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol i adeiladu a gosod unedau fforddiadwy.

10.9 Mae'r testun sy'n cefnogi Polisi 18 yn cyfeirio at gynllunio a chydlynu'r cyflenwad o dai newydd i gwrdd â'r anghenion a nodwyd. Mae LlC yn ganolog yn amcangyfrif bod angen 19,400 o dai ychwanegol (Tudalen 51) yn rhanbarth Gogledd Cymru hyd at 2038 ac yn ystod y cyfnod pum mlynedd cyntaf, o 2018 i 2023, mae angen i 51% o'r tai ychwanegol fod yn dai fforddiadwy. Rydym yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o'r sail dystiolaeth, y cyfiawnhad a'r rhesymeg dros y nifer o dai yn gyffredinol, a niferoedd tai fforddiadwy yn arbennig, oherwydd, er ein bod wedi adolygu'r dogfennau cefndir yn fanwl, nid oedd yn hawdd canfod sut y daethpwyd at y gwahanol ffigyrau. Rhaid i'r Fframwaith fod yn fwy eglur ynghylch beth yw ystyr statws y ffigwr o 19,400 yn

y FfDC ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru fel y gallant ddarparu tystiolaeth ystyrlon a chyd-destun i'r Cynlluniau Datblygu Strategol/Cynlluniau Datblygu Lleol.

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28/10/2019** |
| **Pwnc:** | **Cwrs Golff Llangefni** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Carwyn Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur Jones (Swyddog Datblygu Economaidd)**<br><br>**01248 752 146**<br>**TudurJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yr holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion**

**1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried cynnwys yr adroddiad a'r ymatebion a gafwyd i'r prosesau ymgynghori hyd yma.**

**2. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'n llwyr ac yn cymeradwyo argymhelliad y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i ymgymryd â'r gwaith o baratoi asesiadau effaith pellach (yn gwbl unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol)**

**3. Bod y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi ac yn cymeradwyo cyfnod pellach o ymgynghori â'r cyhoedd**.

**1.0 Cyd-destun a Chefndir**

Agorwyd cwrs golff cyhoeddus Llangefni ym 1983 gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn ar y pryd i ddarparu cyfleuster "talu a chwarae" cost isel ar gyfer golffwyr lefel dechreuwyr a chanolraddol.

Rhwng y blynyddoedd 2007 a 2014 roedd y cwrs golff a'r maes ymarfer golff gyrru yn gwneud colledion o £28,000 bob blwyddyn ar gyfartaledd a bu'n rhaid i'r Cyngor Sir roi cymhorthdal tuag atynt.

Yn dilyn nifer o fynegiadau o ddiddordeb, gwnaed penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith ar 26 Mai 2015 i drosglwyddo rheolaeth y cwrs golff a'r cyfrifoldeb o'i redeg i Bartneriaeth Llangefni.

Ar ôl adolygu ei berfformiad ariannol ac astudiaeth ddichonoldeb annibynnol, penderfynodd Bwrdd Partneriaeth Llangefni yn unfrydol na fyddai'n ariannol ymarferol i gynnal lefelau'r

buddsoddiad y byddai ei angen i ddatblygu a chynnal y cyfleuster. Felly, ni wnaeth Partneriaeth Llangefni gais i estyn y brydles, na gofyn am Drosglwyddiad Ased Cymunedol gan y Cyngor Sir, a dychwelwyd y cyfrifoldeb am y cwrs i'r Cyngor hwn ym mis Hydref 2018.

Ym mis Mai 2018 rhoddwyd cefnogaeth mewn egwyddor gan y Pwyllgor Gwaith i argymhelliad i gael gwared ar yr annedd o'r enw Ffridd, a'r 41 erw o'i gwmpas, ar y farchnad agored (gyda'r arian cyfalaf a dderbynnid yn cael ei neilltuo i'w ailfuddsoddi yn y canolfannau hamdden i wella cyfleusterau).

Er mwyn cael gwared ar gaeau chwarae mae yna broses statudol y mae'n rhaid i sefydliadau ei dilyn i gydymffurfio.

Ers i'r cyfleuster gael ei drosglwyddo'n ôl i'r Cyngor Sir ym mis Hydref 2018, mae'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi:

a) Hydref 2018 - Ionawr 2019: Cynorthwyo'r Gwasanaethau Eiddo i hwyluso cael tenant ar gyfer y maes ymarfer golff, gan ddiogelu dyfodol tymor hir yr ased i'r cyhoedd;
b) Chwefror 2019 - Mawrth 2019: Deall a pharatoi ffiniau a chynlluniau terfynol y safleoedd i'w cynnwys fel rhan o unrhyw ymgynghoriad
c) Ebrill 2019 - Gorffennaf: Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddyfodol y cwrs golff
d) Gorffennaf 2019: Cynnal adolygiad o'r sylwadau a gafwyd a phenderfynu cynnal ymgynghoriad pellach oherwydd y nifer isel iawn o ymatebion
e) Gorffennaf 2019 - Medi 2019: Ymgynghoriad cyhoeddus pellach ar ddyfodol y cwrs golff ond nifer yr ymatebion yn parhau i fod yn isel iawn
f) Hydref 2019: Gwerthuso ac arfarnu'r broses gyda'r bwriad o gymryd camau pellach

**2.0 Trosolwg o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus eang i sicrhau y cydymffurfir â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor Sir (2016) a'r Rheoliadau Meysydd Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedol a Phenderfyniadau Gwaredu (Cymru) 2015.

O ystyried natur gymhleth a sensitif bosib unrhyw broses i gael gwared ar ased, bu'n rhaid i'r Cyngor Sir sicrhau bod yr holl brosesau yn drylwyr ac yn gadarn er mwyn osgoi unrhyw her gyfreithiol bosib.

Er gwaethaf hysbysebu'r ymgynghoriad yn eang ar safle'r cwrs golff, ar-lein a thrwy gyfryngau cymdeithasol a phrint, mae'n siomedig mai dim ond 86 o unigolion a ymatebodd. Roedd 51% o'r ymatebwyr yn cytuno â chynnig y Cyngor Sir i gael gwared ar yr ased, ac roedd 49% yn anghytuno.

Mae'r holl sylwadau wedi'u hystyried yn ofalus ac ymatebwyd iddynt yn fanwl fel rhan o'n rhwymedigaethau statudol. Mae'r rhestr lawn o'r sylwadau ac ymatebion y Cyngor Sir i'w gweld yn Atodiad A.

Crynhoir y sylwadau isod

a) Mae'n opsiwn cost isel i dalu fel rydych chi'n chwarae ar gyfer y rheini sy'n mwynhau golff ond na allant fforddio ymuno â chlwb golff…
b) Pam ddylai trethdalwyr Ynys Môn barhau i roi cymhorthdal tuag at gwrs golff…
c) Mae'n gadarnhaol iawn bod yr unig faes ymarfer golff ar yr Ynys yn parhau i fod ar agor…
d) Dylai fod ymrwymiad pellach bod y maes ymarfer, y llecynnau ymarfer eraill a'r siop yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd yn y tymor hir…
e) Bod cyfran o'r derbynion cyfalaf yn cael ei neilltuo i ddatblygu golff ar yr Ynys…
f) Mae mwy o bobl o bob oed yn defnyddio'r cyfleusterau amrywiol yn Plas Arthur na'r cwrs golff…
g) Dylid ei gadw fel cwrs golff ...
h) Mae'r maes ymarfer golff yn dod yn gyfleuster gwych ....mae Ynys Môn wir angen cwrs golff Llangefni ....
i) Mae'r ffaith ei fod angen cymhorthdal yn dangos nad yw'n gynaliadwy ...
j) Mae'n drueni bod yn rhaid iddo gau ond mae llawer o gyrsiau golff eraill yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r maes ymarfer golff yn ardderchog nawr ...
k) Cynnig cibddall iawn gan fod angen ailadeiladu'r canolfannau hamdden nid dim ond cuddio gwendidau â gwelliannau amhroffidiol…
l) Yn hytrach na chael gwared arno'n llwyr, gofynnwn a oes angen cadw'r safle fel math arall o fan agored cyhoeddus ...

Ar ôl roi ystyriaeth lawn i'r sylwadau a ddaeth i law, mae Swyddogion yn parhau i fod o'r farn cychwynnol bod penderfyniad gwreiddiol y Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2018 yn parhau i fod yr un cywir, a bod cael gwared ar y cwrs golff yn gyfle i fuddsoddi mewn cyfleusterau hamdden lleol i wireddu buddion lles ac iechyd ehangach.

**Asesiadau o'r Effaith**

Mae'r Ddeddfwriaeth a amlinellir uchod yn nodi bod yn rhaid cynnal asesiad digonol o effaith y bwriad i gael gwared ar y cwrs golff, gan gynnwys:

a) Effeithiau ar Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC) y Cyngor Sir
b) Effeithiau ar Asesiad Digonolrwydd Chwarae'r Cyngor Sir, a
c) Effeithiau ar Gynllun Llesiant Lleol Môn a Gwynedd y Cyngor Sir.

Yn ogystal, mae Mesur 44 y Gymraeg (Cymru) 2015, yn nodi'r angen i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg trwy'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**4.0 Y Camau Nesaf**

Bod swyddogion yn ystyried ac yn paratoi asesiadau o'r effaith yn unol â'r gofynion a amlinellir uchod ac yn cynnal ymarfer ymgynghori cyhoeddus pellach. Mae'r rhain yn ofynion statudol i sicrhau y cydymffurfir yn llawn â deddfwriaeth berthnasol (fel yr amlinellwyd).

Yna, cyflwynir adroddiad llawn i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad terfynol.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Ym mis Mai 2018 gwnaed penderfyniad mewn egwyddor gan y Pwyllgor Gwaith i gymeradwyo a chefnogi gwerthu 'Ffridd' a thir y cwrs golff ar y farchnad agored. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Gwnaed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldebau (AEG) ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o'r pecyn ymgynghori.<br><br>Os cynhelir ymgynghoriad pellach, byddwn hefyd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ceisio barn y cyhoedd ar ein canfyddiadau ac yn gofyn yn benodol a yw'r effaith ar y Gymraeg a grwpiau gwarchodedig wedi'i hystyried yn llawn fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| A- Dogfennau Ymgynghori ac Ymatebion CSYM. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

**1. Yn dilyn ymgynghori, mae Cyngor Sir Ynys Môn o’r farn: Y dylai tir Cwrs Golff Llangefni a thŷ’r Ffridd gael eu gwerthu ar y farchnad agored, bod y derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo’n benodol a’u hail-fuddsoddi ym Mhlas Arthur er mwyn ychwanegu at a gwella'r ystod o weithgareddau sydd ar gael a bod y llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn?**

| | | | Canran yr Ymateb | Cyfanswm yr Ymateb |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ydw | | 50.59% | 43 |
| 2 | Nac Ydw | | 49.41% | 42 |

| Sylwadau: (47) | | Sylw a Wnaed | Ymateb y Cyngor Sir |
|---|---|---|---|
| 1 | 09/04/2019 14:38 PM<br>ID: 113677113 | Mae'r cwrs golff yn darparu opsiwn talu wrth ddefnyddio ar gyfer y rhai sy'n mwynhau golff ond sydd ddim yn gallu fforddio i ymuno â chlwb golff. | Cydnabyddir hyn ac aethpwyd i'r afael â’r mater yn yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Credwn fod opsiynau eraill ar gael - Storws Wen a Bae Trearddur a bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i’r cyhoedd ei defnyddio. |
| 2 | 09/04/2019 15:21 PM<br>ID: 113681065 | Pam ddylai trethdalwyr Ynys Môn barhau i sybsideiddio cwrs golff pan mae cyfleusterau eraill eisoes ar gael mewn sawl lleoliad ar draws yr Ynys? Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol ac yn gynaliadwy, bydd angen i'r cyrsiau sy'n weddill yn y sector preifat gynnig gwell darpariaeth ar gyfer dechreuwyr a phobl ifanc. Rwy'n credu ei bod yn wirioneddol gadarnhaol bod yr unig lain ymarfer ar yr Ynys yn cael ei chadw ar agor a bod yr elw a wneir yn sgil cael gwared ar y tir yn cael ei glustnodi’n penodol i bwrpas chwaraeon / hamdden yn lleol. | Rydym wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff eraill ar yr ynys fel rhan o'r broses hon ac mae'r rhai a ymatebodd wedi cadarnhau eu bod yn gwneud mwy i ddenu a dal gafael mewn chwaraewyr.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn cael ei chadw ar agor ac mae cryn fuddsoddiad yn digwydd yno ar hyn o bryd. |
| 3 | 09/04/2019 15:27 PM<br>ID: 113680695 | Dylai fod ymrwymiad pellach i sicrhau fod y llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd yn y tymor hir.<br><br>Dylid hefyd ail-fuddsoddi'r derbyniadau cyfalaf yn y llain ymarfer fel y gellir cynnig gwersi i'r genhedlaeth nesaf (gwryw a benyw) am brisiau gostyngol neu am ddim. Byddai hyn yn hyrwyddo golff fel camp ac yn cynorthwyo i wyrdroi’r tueddiadau cyfredol. Ni ddylid defnyddio gweddill yr arian sydd wedi'i glustnodi i bwrpas cynnal a chadw Plas Arthur a rhaid iddo ychwanegu gwerth / gwella'r darpariaethau cyfredol. | Mae buddsoddiad sylweddol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn y llain ymarfer ac mae'r Cyngor Sir a'i denant yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w lwyddiant.<br><br>Bydd yr holl dderbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo ar gyfer gwella'r ddarpariaeth yn Plas Arthur.<br><br>Rydym yn ymwybodol bod tenant y llain ymarfer wedi ymrwymo i ddenu'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc i'r gêm. Bydd y Cyngor Sir yn trafod hyn gyda'r tenant. |
| 4 | 10/04/2019 08:51 AM<br>ID: 113734551 | Cadarnhaol iawn | Nodwyd y sylw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5 | 10/04/2019 12:03 PM<br>ID: 113756613 | Fodd bynnag, byddwn yn awgrymu bod cyfran o'r derbyniadau cyfalaf yn cael eu neilltuo'n benodol i ddatblygu'r gêm golff ar yr Ynys. Mae'n anfoesol gwneud i ffwrdd â 'chlwb golff sy'n bwydo clybiau eraill' heb ddarparu dewis arall addas. Rwyf hefyd yn gwrthwynebu'r cyfeiriad at golff fel camp elitaidd. Mae Baron Hill yn cynnig aelodaeth iau am £20 y flwyddyn (£40 gyda Cherdyn Maes Golff). Mae dyfodol golff yn dibynnu ar ddod â thalent ifanc ymlaen i sicrhau dyfodol cynaliadwy i golff ar yr Ynys. Rhaid gwneud mwy i weithio gyda'n gilydd (gyda'r Llain Ymarfer) i gynyddu cyfranogiad. | Er ei bod yn gywir bod Llangefni yn "glwb golff sy'n bwydo clybiau eraill", bydd y llain ymarfer yn parhau i fod yn ddarpariaeth i ddysgwyr ddechrau a gwella eu gêm. Mae cyrsiau Storws Wen a Bae Trearddur yn parhau i fod ar agor i ddechreuwyr a'r rhai sy'n dymuno chwarae'n fwy anffurfiol.<br><br>Trwy ein hymgynghoriad â'r clybiau golff eraill ar yr ynys, maent i gyd wedi mynegi parodrwydd i weithio ar y cyd â'r llain ymarfer. |
| 6 | 10/04/2019 19:35 PM<br>ID: 113803975 | Byddwn yn tybio bod mwy o bobl o bob oed yn defnyddio'r cyfleusterau amrywiol ym Mhlas Arthur na'r cwrs golff. Byddai'n syniad da felly buddsoddi mwy yn y ganolfan hamdden. | Barn y Cyngor Sir (fel y cyfeirir at hyn yn ein hadroddiad) yw bod gwella'r ddarpariaeth ym Mhlas Arthur i gynnwys mwy o bobl yn y gymuned yn well defnydd o adnoddau. |
| 7 | 10/04/2019 19:50 PM<br>ID: 113805011 | Pam cau'r cwrs i ariannu'r ganolfan hamdden? Mor siomedig, wedi bod yn mynd ers blynyddoedd | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol. |
| 8 | 10/04/2019 19:58 PM<br>ID: 113805303 | Very disappinted that the golf course has been closed in order to provide more funding for Plas Arthur having been a regular customer for years | Fel uchod. |
| 9 | 10/04/2019 20:52 PM<br>ID: 113808328 | Dylid ei gadw fel cwrs golff, yn lle adeiladu mwy a mwy o dai ar yr ynys. | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Byddai'r tir (41 erw) yn cael ei farchnata ynghyd ag aelwyd y Ffridd fel mân-ddaliad. Mae'r tir y tu allan i'r ffin ddatblygu ar gyfer tai ac mae tir wedi ei ddynodi ar gyfer tai yn Llangefni o fewn y JLDP.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol. |
| 10 | 10/04/2019 21:23 PM<br>ID: 113810705 | Rydym yn talu treth gyngor am y gwasanaethau hyn a dylid eu cadw ar agor, fel arall ni fydd mwy o blant yn cael dysgu'r gweithgareddau hyn oherwydd na fedrwn fforddio talu prisiau uwch i berchnogion cyfleusterau preifat | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol. |
| 11 | 10/04/2019 22:23 PM<br>ID: 113813448 | Mae'r llain ymarfer yn datblygu i fod yn gyfleuster gwych. Mae'r pro PGA yn gwneud ymdrechion mawr i annog golffwyr newydd a fengach. Ond ers cau'r cwrs 9 | Trwy ein hymgynghoriad gyda'r clybiau golff eraill ar yr ynys, maent i gyd wedi mynegi parodrwydd i weithio ar y cyd â'r llain ymarfer ac i groesawu chwaraewyr newydd i'w cyrsiau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | twll yn Llandaniel Fab, dim ond y cwrs 9 twll sydd bellach yng Ngwesty'r Beach, Bae Trearddur iddyn nhw ei ddefnyddio fel y cam nesaf i chwarae'r gêm. Byddai neidio’n syth i mewn i un o'r clybiau golff preifat yn ormod i'r mwyafrif. Mae Ynys Môn wir angen y cwrs yn Llangefni. | Mae Storws Wen hefyd yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd fel cwrs lefel mynediad. |
| 12 | 10/04/2019 22:48 PM<br>ID: 113814659 | Mae’r cwrs golff yn un o'r unig gyfleusterau chwaraeon nad yw'n seiliedig ar bêl-droed. Bydd y cyngor yn torri'r coed i lawr ac yn adeiladu tai ac archfarchnad yn ôl pob tebyg ac yn lladd y dref ymhellach. | Mae'r Cyngor Sir yn annog nifer o chwaraeon ar wahân i bêl-droed. Bydd y derbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn cael eu neilltuo’n benodol a’u gwario ar wella'r ddarpariaeth ym Mhlas Arthur ymhellach er mwyn i bob aelod o'r gymuned eu mwynhau.<br><br>Gan fod y tir y tu allan i ffin ddatblygu Llangefni, bydd y Cyngor Sir yn marchnata'r tir a'r tŷ fel mân-ddaliad bychan. |
| 13 | 10/04/2019 22:50 PM<br>ID: 113814772 | Mae’r cwrs golff yn un o'r unig gyfleusterau chwaraeon nad yw'n seiliedig ar bêl-droed. Bydd y cyngor yn torri'r coed i lawr ac yn adeiladu tai ac archfarchnad yn ôl pob tebyg ac yn lladd y dref ymhellach.<br>Cytuno ag eitem 3. Ond dim pwynt cael y siop os nad oes cwrs golff.<br>Beth wnaeth y cyngor i hyrwyddo'r cwrs? | Mae'r Cyngor Sir yn annog nifer o chwaraeon ar wahân i bêl-droed. Bydd y derbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn cael eu neilltuo’n benodol a’u gwario ar wella'r ddarpariaeth ym Mhlas Arthur ymhellach er mwyn i bob aelod o'r gymuned eu mwynhau.<br><br>Gan fod y tir y tu allan i ffin ddatblygu Llangefni, bydd y Cyngor Sir yn marchnata'r tir a'r tŷ fel mân-ddaliad bychan.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn aros fel y mae a bydd yr hyn sydd gan y siop i’w gynnig yn newid. Mae'r cwrs golff, yn unigol ac mewn cydweithrediad â Menter Gymdeithasol Llangefni wedi buddsoddi er mwyn hyrwyddo'r cwrs. Roedd hyn yn cynnwys adeiladu gwefan. |
| 14 | 11/04/2019 06:56 AM<br>ID: 113823442 | Mae'n darparu cyfleuster hamdden lleol pwysig iawn, gyda lleoliad canolog ar yr ynys. | Bydd y derbyniadau cyfalaf yn cael eu hail-fuddsoddi ym Mhlas Arthur sydd hefyd, fe gredwn yn chwarae rhan sylfaenol o ran hamdden yn yr gymuned ac sydd hefyd mewn lleoliad canolog. |
| 15 | 11/04/2019 09:17 AM<br>ID: 113832002 | Er bod cau'r cwrs yn drist, mae’r ffaith bod angen cymhorthdal arno yn profi nad yw'n gynaliadwy. | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol. |
| 16 | 11/04/2019 10:15 AM<br>ID: 113838028 | The County Council should attempt to get the best possible price for this land be selling it with planning permission. | Bydd ein Tîm Ystadau sydd â phrofiad sylweddol mewn gwaredu asedau yn arwain ar y gwerthiant. Gan fod y tir y tu allan i’r ffin ddatblygu, bydd yn cael ei farchnata fel mân-ddaliad bychan. |
| 17 | 11/04/2019 20:25 PM<br>ID: 113899754 | Ni ddylid bod wedi cau’r cwrs golff. | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol. |
| 18 | 12/04/2019 17:23 PM<br>ID: 113970469 | Gwnaed asesiad annigonol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid yw ddigon dweud y byddwch yn rhoi sylw i’r ddeddf – rhaid gwneud hynny. Mae eich asesiad Llesiant eich hun yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithgareddau hamdden ac | Mae'r Cyngor Sir o'r farn bod asesiad digonol wedi'i gynnal sy'n cymryd i ystyriaeth gwahanol anghenion amrywiol ddefnyddwyr.<br><br>Bydd y derbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn cael eu neilltuo a'u gwario ar wella'r ddarpariaeth ym |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mae golff yn weithgaredd chwaraeon deniadol i genedlaethau amrywiol, yn enwedig yr henoed. Nid yw buddsoddi mewn mwy o leiniau 5 bob ochr yn darparu ar gyfer anghenion y grŵp hwn neu a oedd gennych chi fathau eraill o weithgareddau mwy sidêt mewn golwg? A ydych wedi ymgynghori â grwpiau penodol a allai gael eu heffeithio? Byddai llawer o ddechreuwyr fel fi yn teimlo'n hunanymwybodol iawn ar gwrs iawn ac nid oes gen i unman i fynd yn lleol ers iddo gau. Caniataodd Llangefni i mi ymarfer mewn lleoliad nad yw'n fygythiol. Mae nifer o Gyrsiau Golff rydych chi wedi cysylltu â nhw fel rhan o'r ymarfer hwn wedi mynegi pryder ynghylch cau'r cwrs oherwydd y bydd diffyg clybiau 'bwydo'. Ydych chi wedi meddwl y gallai'r penderfyniad hwn effeithio ar y niferoedd sy'n mynychu'r clybiau hyn a rhoi eu bodolaeth hwythau mewn perygl - gyda'r colledion dilynol o ran swyddi. Roedd y cwrs Golff yn caniatáu cyfle fforddiadwy i'r rheiny oedd â diddordeb mewn golff i gychwyn chwarae. Efallai mai hwn oedd yr unig gyfle i'r rhai ar incwm isel ddilyn y gamp ddrud hon ac felly mae'r penderfyniad yn creu mwy o anghydraddoldeb ac i wneud pethau'n waeth, mae'n gyfagos i un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ar yr ynys. | Mhlas Arthur. Mae'r ddarpariaeth hon yn, a bydd yn parhau i gynnwys gweithgareddau ar gyfer pobl o bob ystod oedran a gallu.<br><br>Bydd y llain ymarfer, fan ofal chwaraewr proffesiynol PGA yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd fel y gallant ddechrau chwarae neu wella eu gêm.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff ac er y codwyd peth pryder, roeddent yn cytuno bod y llain ymarfer yn ased gwych y mae angen manteisio arno i'r eithaf a hefyd bod darpariaeth ddigonol / gor-ddarpariaeth o ran golff ar Ynys Môn.<br><br>Mae Storws Wen a Bae Trearddur yn parhau i fod ar agor fel cyrsiau 'porthi' / cyrsiau i ddechreuwyr. |
| 19 | 22/04/2019 08:48 AM<br>ID: 114545284 | Dyma le ble gallai gwell buddsoddiad gefnogi a gwella iechyd a lles yr hen a'r ifanc. | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol. Nid yw buddsoddi mwy yn y cyfleuster yn opsiwn.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol. |
| 20 | 25/04/2019 06:27 AM<br>ID: 114818943 | Mae'n drueni bod yn rhaid iddo gau ond mae gan Ynys Môn a Gwynedd lawer o gyrsiau golff eraill. Mae'r llain ymarfer yn ardderchog nawr. | Barn y Cynghorau Sir yw bod darpariaeth golff ddigonol ar draws Ynys Môn a Gwynedd i ddarparu ar gyfer pob lefel.<br><br>Mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y llain ymarfer a bydd yn ased i'r cyhoedd. |
| 21 | 25/04/2019 08:54 AM<br>ID: 114825360 | Ar yr amod fod yr HOLL arian a dderbynnir o'r gwerthiant yn cael ei ddefnyddio i wella'r adeilad a'r cyfleusterau yn Plas Arthur ac y rhoddir cyfyngiadau ar y tir fel na chaiff ei ddatblygu ar gyfer tai. | Bydd y derbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn cael eu neilltuo a'u gwario ar wella'r ddarpariaeth ymhellach ym Mhlas Arthur.<br><br>Mae'r tir y tu allan i ffin ddatblygu Llangefni a bydd yn cael ei werthu fel mân-ddaliad bychan. |
| 22 | 30/04/2019 10:28 AM<br>ID: 115252012 | Pam cau cyfleusterau er mwyn ei werthu i ddatblygwr godi tai sy'n rhy ddrud. | Mae'r tir y tu allan i ffin datblygu Llangefni a bydd yn cael ei werthu fel mân-ddaliad bychan. |
| 23 | 30/04/2019 10:38 AM<br>ID: 115253312 | I believe the Council should retain ownership of the Golf Course and promote it, particularly for the benefit of those disadvantaged people who cannot afford the high fees charged by private clubs. | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff ac er y codwyd peth pryder, roeddent yn cytuno |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bod y llain ymarfer yn ased gwych y mae angen manteisio arno i'r eithaf a hefyd bod darpariaeth ddigonol / gor-ddarpariaeth o ran golff ar Ynys Môn.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol. |
| 24 | 30/04/2019 10:40 AM<br>ID: 115253533 | Ar yr amod bod yr HOLL dderbyniadau cyfalaf yn cael eu buddsoddi ym Mhlas Arthur. | Bydd y derbyniadau cyfalaf a dderbynnir yn cael eu neilltuo a'u gwario ar wella'r ddarpariaeth ym Mhlas Arthur ymhellach. |
| 25 | 30/04/2019 11:56 AM<br>ID: 115264529 | Mae angen lleoedd i annog pobl ifanc i gymryd golff i fyny heb gostau gormodol clwb golff. Mae Llangefni yn un o ychydig leoedd sy'n cynnig y cyfle hwn. | Bydd y llain ymarfer gyda chwaraewr PGA proffesiynol yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Bwriad y Cynghorau Sir yw sicrhau bod plant ysgol o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gêm. Byddwn yn trafod hyn gyda'r chwaraewr PGA proffesiynol. |
| 26 | 30/04/2019 12:00 PM<br>ID: 115265109 | Bydd yn drueni mawr colli'r unig llain ymarfer ar yr ynys. I rai, mae rownd lawn o golff yn rhy hir felly mae'r llain ymarfer yn eu helpu i ymarfer a datblygu 'swing' cyson. | Bydd y llain ymarfer gyda chwaraewr PGA proffesiynol yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd ac mae arian wrthi'n cael ei fuddsoddi ynddo. |
| 27 | 30/04/2019 12:20 PM<br>ID: 115267790 | Mwy o dai yn yr ardal a llai o bethau i blant eu gwneud.<br><br>Pam na wnawn ni gynnal twrnameintiau golff neu golff troed i blant ifanc. | Mae'r tir y tu allan i ffin ddatblygu Llangefni a bydd yn cael ei werthu fel mân-ddaliad bach.<br><br>Bydd y llain ymarfer gyda chwaraewr PGA proffesiynol yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Bwriad y Cynghorau Sir yw sicrhau bod plant ysgol o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gêm. |
| 28 | 30/04/2019 12:31 PM<br>ID: 115269318 | Ail-agor y cwrs golff, dim lle tebyg iddo ar Ynys Môn. | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Mae Storws Wen a Bae Trearddur yn parhau i fod ar agor fel cyrsiau bwydo / dechreuwyr.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol. |
| 29 | 30/04/2019 18:43 PM<br>ID: 115318449 | Dylid cau Tŷ Ffridd ac ail-fuddsoddi unrhyw enillion ym Mhlas Arthur. Dylai'r Cwrs Golff gael ei farchnata ar y farchnad agored ac oni bai y gellir ei werthu, a dylid gosod y tir fel tir pori am y tro a'i adolygu o bryd i'w gilydd. Dylai'r Llain Ymarfer, yr ardaloedd Ymarfer a'r siop barhau i fod ar agor i'r cyhoedd. | Rydym yn hyderus y bydd y tir yn cael ei werthu. Bu galw mawr erioed am werthiannau tebyg.<br><br>Bydd yr elw o'r gwerthiant yn cael ei neilltuo a'i ail-fuddsoddi ym Mhlas Arthur.<br><br>Bydd y llain ymarfer gyda chwaraewr PGA proffesiynol yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd ac mae arian wrthi'n cael ei fuddsoddi ynddo. |
| 30 | 30/04/2019 19:12 PM<br>ID: 115319860 | Pam na ellir gwerthu'r Tŷ'r Ffridd ar wahân a chadw'r cwrs golff hyd yn oed pe bai'n talu ei ffordd - mae'n ased y mae pobl yr ynys yn mynd i'w golli am byth ac ni fydd byth yn dychwelyd i fod yn gwrs golff eto. Mae'n gynnig byr ei olwg oherwydd mae angen ailadeiladu'r canolfannau hamdden yn hytrach na masgio'r sefyllfa hefo gwelliannau amhroffidiol. Nid oes digon wedi'i wneud i osgoi'r sefyllfa hon ond rwy'n ofni bod y penderfyniad eisoes wedi'i | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Bydd y llain ymarfer wedi ei reoli gan chwaraewr golff PGA proffesiynol yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Bwriad y Cynghorau Sir yw sicrhau bod plant ysgol o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gêm. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wneud gan fod y llain ymarfer a'r siop eisoes yn gweithredu, mae’r cwrs wedi cau a’r arian wedi'i ddyrannu i Blas Arthur felly nid wyf yn deall pwrpas yr arolwg hwn. Dylai'r arian o werthu'r Tŷ’r Ffridd fod wedi cael ei ddefnyddio os o gwbl i barhau i redeg y cwrs golff. Yn anffodus ni fydd y penderfyniad hwn ond yn arwain at lai o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon gan fod y cyrsiau golff preifat sydd ar gael yn gwbl anfforddiadwy ac elitaidd. Diolch. | Bydd y buddsoddiad ym Mhlas Arthur yn sylweddol a bydd yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir yr adeilad.<br><br>Rydym o'r farn bod darpariaeth ddigonol ar gyfer pob lefel yn bodoli ar Ynys Môn a bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor.<br><br>Dylid nodi hefyd mai gwasanaeth dewisol yw’r cwrs golff. |
| 31 | 30/04/2019 19:13 PM<br>ID: 115321006 | Nifer ddewisol sy'n chwarae golff, mae mwy o bobl yn defnyddio'r gampfa, y pwll, cae 4g felly os yw'n colli arian, ni ddylai’r trethdalwyr dalu. | Nodwyd y sylw. |
| 32 | 30/04/2019 19:34 PM<br>ID: 115322811 | Biti garw !! | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Dylid nodi hefyd mai gwasanaeth dewisol yw’r cwrs golff. |
| 33 | 30/04/2019 19:45 PM<br>ID: 115323666 | As long as the driving range is retained and that there is actual Investment in Plas Arthur. The Llangefni golf course is affordable to those who cannot afford to join another club. Therefore, those who run the driving range must be supported and substantial Investment made in Plas Arthur and the other centres – particularly Amlwch. | Bydd yr elw o'r gwerthiant yn cael ei neilltuo’n benodol a'i ail-fuddsoddi ym Mhlas Arthur.<br><br>Bydd cyfleusterau hamdden eraill hefyd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i’r cyhoedd dan ofal chwaraewr PGA proffesiynol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r tenant i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn llwyddiant. |
| 34 | 30/04/2019 19:57 PM<br>ID: 115324646 | Mae angen i ni gadw'r cwrs golff ar agor i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon awyr agored | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i’r cyhoedd dan ofal chwaraewr PGA proffesiynol. Bwriad y Cyngor Sir yw sicrhau bod plant ysgol o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gêm. |
| 35 | 30/04/2019 20:27 PM<br>ID: 115326648 | Invest time and money in the curent course. Make it attractive. Market the course as an attraction for children/primary schools etc.<br><br>1.A 9 hole golf course as per current facility (which is looked after)<br>2.A driving range as exists now<br>3.Fun Course – Crazy Golf<br>4.High quality 'Foot Golf' facility | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol.<br><br>Dylid nodi hefyd bod y cwrs golff yn wasanaeth dewisol.<br><br>Bydd y llain ymarfer gyda chwaraewr PGA proffesiynol yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Bwriad y Cyngor Sir yw sicrhau bod plant ysgol o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gêm.<br><br>Nid yw'n bosibl ail-fuddsoddi yn y cwrs golff am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiadau cysylltiedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 36 | 03/05/2019 12:07 PM<br>ID: 115602051 | Dim digon o gyrsiau talu a chwarae par 3 yn Ynys Môn. | Mae Storws Wen a Bae Trearddur yn parhau i fod ar agor fel cyrsiau bwydo / cyrsiau i ddechreuwyr a bydd y llain ymarfer hefyd yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. |
| 37 | 08/05/2019 06:23 AM<br>ID: 115987294 | Agree that it needs to be closed as it is losing money. Rates are high enough as they are. | Nodwyd y sylw. |
| 38 | 15/05/2019 11:36 AM<br>ID: 116682845 | Mae Fields in Trust yn elusen annibynnol gyda dros 90 mlynedd o brofiad o amddiffyn parciau a mannau gwyrdd. Rydym yn gweithio gyda pherchnogion tir, grwpiau cymunedol a gwneuthurwyr polisi i hyrwyddo gwerth ein parciau a'n mannau gwyrdd i sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod ar gyfer y dyfodol ar lefel leol a chenedlaethol.<br><br>Mae Fields in Trust yn naturiol yn siomedig o glywed am y bwriad i gael gwared ar y Cwrs Golff yn Llangefni. Nodir y bu gostyngiad parhaus yn y ffigurau cyfranogiad ond efallai y bydd angen cadw'r cyfleuster ar agor fel y dywed y clybiau golff eraill er mwyn darparu mynediad dechreuol fforddiadwy i'r gamp ac i hwyluso gweithgaredd corfforol iach. Mae'n ymddangos fodd bynnag bod y penderfyniad i waredu yn seiliedig ar faterion ariannol yn bennaf ac mae buddion golff i iechyd a lles y defnyddwyr wedi'u hanwybyddu i raddau helaeth.<br><br>Tra'n derbyn efallai na fydd yn bosibl parhau i gynnal cyfleuster o'r fath yn yr hinsawdd sydd ohoni, yn lle ei waredu'n llwyr, byddai Fields in Trust yn gofyn a fyddai modd cadw'r safle fel math arall o lecyn agored cyhoeddus sy'n llai heriol o safbwynt ariannol?<br><br>Er nad yw'n glir nad oes angen y cyfleuster, mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 Llywodraeth Cymru yn nodi "Pan nad ydynt yn angenrheidiol i'w pwrpas gwreiddiol, gellir defnyddio mannau agored i helpu i ddiwallu'r angen am gyfleoedd hamdden anffurfiol neu dir amwynder yn y gymuned ehangach. Dim ond lle gellir dangos yn glir nad oes prinder, y dylid ystyried y posibilrwydd o'u defnyddio ar gyfer datblygiad amgen".<br><br>I grynhoi felly, mae Fields in Trust yn gwrthwynebu'r bwriad i gael gwared ar y cyfleuster hyd nes y darperir asesiad man agored sy'n dangos nad oes angen cadw'r safle i ddefnydd arall. Os dangosir bod digon o lecynnau agored yn yr ardal, rydym yn cydnabod y gallai lleoliad a thopograffi'r atal rhai defnyddiau a byddem yn hapus i ailystyried y gwrthwynebiad hwn. | Nid yw'r cwrs golff fel endid yn ariannol hyfyw, gan golli £ 28,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn yn gynaliadwy felly mae'n rhaid gwneud penderfyniad anodd ar ei ddyfodol. Mae hamdden yn wasanaeth anstatudol / dewisol.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd dan ofal chwaraewr PGA proffesiynol. Bwriad y Cyngor Sir yw sicrhau bod pobl o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gêm.<br><br>O ran eich cyfeiriad at "lecynnau agored eraill yn yr ardal" byddem yn dadlau bod Gwarchodfa Natur 25 erw Nant y Pandy sydd union gyferbyn â'r cwrs golff yn darparu lleoliad agored arall i aelodau'r cyhoedd ei fwynhau.<br><br>Mae buddsoddiad sylweddol yn parhau i ddigwydd i sicrhau bod y warchodfa'n hygyrch ac yn cael ei mwynhau gan bob aelod o'r cyhoedd. Mae gan Llangefni hefyd o nifer o gaeau pêl-droed a rygbi yn ogystal â pharc sglefrio a pharciau eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 39 | 23/05/2019 12:50 PM<br>ID: 117488554 | Mae angen i'r cyhoedd fedru cael mynediad am ddim i fwy, nid llai o fannau agored gwyrdd. | Nodwyd y sylw. Mae Gwarchodfa Natur 25 erw Nant y Pandy sydd union gyferbyn â'r cwrs golff yn darparu lleoliad arall i aelodau'r cyhoedd fwynhau mannau agored. |
| 40 | 07/06/2019 12:00 PM<br>ID: 118750865 | Mae Partneriaeth Adfywio Llangefni yn cytuno bod y llain ymarfer, yr ardaloedd ymarfer a'r siop yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Fodd bynnag, rydym yn anghytuno â gwerthu gweddill y tir a'r Ffridd ac ail-fuddsoddi'r arian ym Mhlas Arthur. Mae angen ymgynghori ymhellach â'r gymuned leol a phartneriaid â diddordeb ynghylch pa ddefnyddiau cymunedol eraill y gellid eu gwneud o'r tir a'r tŷ. | Nodwyd y sylw. Mae Gwarchodfa Natur 25 erw Nant y Pandy erw sydd union gyferbyn â'r cwrs golff yn darparu llecyn agored arall i aelodau'r cyhoedd ei fwynhau. |
| 41 | 07/06/2019 14:33 PM<br>ID: 118766634 | SYLWADAU: CYNGOR TREF LLANGEFNI. Yn dilyn Cyngor Cyfreithiol ar gau'r Cwrs Golff chwe mis yn ôl, hoffai Aelodau Cyngor Tref Llangefni dynnu sylw at y canlynol yn unol â Rheoliadau Meysydd Chwarae (Cyfranogiad Cymunedol mewn Penderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015:<br><br>1. Mae Rheoliadau 2015 yn nodi gweithdrefn y mae'n rhaid i Awdurdod Lleol ei dilyn wrth gael gwared ar gae chwarae oni bai y bydd yn dal i fod ar gael i'r cyhoedd yn dilyn y gwarediad.<br><br>2. Mae Rheoliad 5 o Reoliadau 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir hysbysebu gwerthiant posibl cae chwarae am bythefnos mewn papur newydd lleol cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud. Rhaid i gyfnod ymgynghori o 6 wythnos o leiaf fod ar gael ar gyfer sylwadau ar y gwerthiant arfaethedig a rhaid i fanylion y cynnig fod ar gael i'r cyhoedd.<br><br>3. Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion y gwerthiant arfaethedig gynnwys gwybodaeth am effaith y gwerthiant ar unrhyw "strategaethau, cynlluniau neu asesiadau perthnasol".<br><br>4. Mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir ystyried yr holl sylwadau a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>5. Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir, os ydynt yn bwrw ymlaen â'r gwerthiant, i lunio adroddiad penderfyniad yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd a'i reswm dros benderfynu i barhau â'r gwerthiant. Rhaid i'r adroddiad fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio am o leiaf 6 wythnos a rhaid i'r penderfyniad ac argaeledd yr adroddiad gael ei hysbysebu mewn papur newydd lleol am bythefnos. Rhaid anfon copi o'r penderfyniad a'r | Mae'r Cyngor Sir wedi dilyn Rheoliadau 2015.<br><br>Gweithredwyd hyn yn unol â'r rheoliadau. Rhoddwyd hysbysebion yn y papur newydd, mae'r ymgynghoriad wedi rhagddo am fwy na 6 wythnos a gosodwyd hysbysiadau ar y safle mewn lleoliadau amlwg.<br><br>Gweithredwyd hyn yn unol â'r rheoliadau. Roedd Asesiad manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan o'r broses ymgynghori i'r cyhoedd roi sylwadau arno.<br><br>Bydd y Cyngor Sir yn ystyried ac yn ymateb yn ofalus i'r holl sylwadau a wneir.<br><br>Nodwyd y sylw. Ymgymerir â'r agwedd hon mewn modd a fydd yn cyd-fynd yn llawn â'r rheoliadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adroddiad at bawb a gyflwynodd sylw. Hefyd, rhaid i'r Cyngor Sir beidio â gwerthu'r tir am o leiaf 12 wythnos ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad (mae hyn yn caniatáu cychwyn adolygiad barnwrol cyn i'r gwerthiant fynd drwyddo).<br><br>Mae aelodau Cyngor Tref Llangefni yn siomedig nad yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi dilyn y Rheoliadau uchod ac ar ben hynny, nad yw wedi cynnwys y Cyngor Tref mewn proses benderfynu mor bwysig, sy'n cynnwys ac yn cael effaith uniongyrchol ar boblogaeth Llangefni a ardaloedd cyfagos. | Mae'r Cyngor Sir yn anghytuno nad yw'r rheoliadau wedi'u dilyn. Gan fod yr ymgynghoriad wedi bod yn ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi cael cyhoeddusrwydd mawr, mae'r Cyngor Tref wedi cael cyfle i gymryd rhan fel y dangosir gan yr ymateb hwn. |
| 42 | 10/06/2019 10:50 AM<br>ID: 119066663 | The document compares Llangefni golf course with courses such as Bwrron Hill or Bull Bay... a false comparison as these courses are not open to all (members only and membership is expensive). Llangefni and Storws Wen offer people the opportunity to arrive, pay and play immediately. It would be an useful resource to retain on the Island. | Mae'r Cyngor Sir wedi ymgynghori â'r cyrsiau golff ac er y codwyd peth pryder, roeddent yn cytuno bod y llain ymarfer yn ased gwych y mae angen gwneud y defnydd gorau posibl ohoni a bod darpariaeth ddigonol / gor-ddarpariaeth mewn perthynas â golff ar Ynys Môn.<br><br>Mae Storws Wen a Bae Trearddur yn parhau ai fod ar agor fel cyrsiau bwydo / cyrsiau i ddechreuwyr a bydd y llain ymarfer hefyd yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. |
| 43 | 10/06/2019 11:01 AM<br>ID: 119068201 | Mae argyfwng hinsawdd a bywyd gwyllt - trowch y tir yn goetir brodorol cynaliadwy gyda mynediad agored i bobl gerdded a mwynhau'r amgylchedd. Mae Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd - cefnogwch hyn a gwnewch y peth iawn trwy ddefnyddio tir i glustogi newid yn yr hinsawdd. | Nodwyd y sylw. Mae Gwarchodfa Natur 25 erw Nant y Pandy sydd union gyferbyn â'r cwrs golff yn darparu llecyn agored arall i aelodau’r cyhoedd ei fwynhau.<br><br>Mae'r tir y tu allan i ffin datblygu Llangefni a bydd yn cael ei werthu fel mân-ddaliad. |
| 44 | 10/06/2019 15:18 PM<br>ID: 119106306 | Nid yw pleidlais ie / na syml yn caniatáu ar gyfer mewnbwn adeiladol. Cytuno â 1 a 3 ond nid 2 – dylai’r ynys gyfan elwa. | Gellir gwneud sylwadau drwy’r broses hon neu gysylltu â'r Swyddog yn uniongyrchol. |
| 45 | 10/06/2019 16:57 PM<br>ID: 119119966 | There is nowhere to nuture golfing talent on the Island. We must support this and the golf course in Llangefni provides everybody with the opportunity to play. | Bydd y llain ymarfer gyda chwaraewr PGA proffesiynol yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd. Bwriad y Cyngor Sir yw sicrhau bod plant ysgol o bob oed yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gêm. |
| 46 | 27/07/2019 20:18 PM<br>ID: 123140394 | 1. Codi arian sydd ei angen yn fawr ac mae gan Ynys Môn lawer o gyrsiau golff gyda niferoedd yn gostwng sy'n fwy na pharod i groesawu'r math o chwaraewr a aeth i Llangefni<br><br>2. Dim ond yn deg bod yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn hamdden yn ardal Llangefni gan ei fod yn gyfleuster hamdden sy’n diflannu<br><br>3. Dylai'r maes llain ymarfer a’r siop aros ar agor fel atyniad hamdden i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. | Amlinellodd y cyrsiau golff eraill yn Ynys Môn a ymatebodd y byddant oll yn gwneud mwy i ddenu a chadw chwaraewyr.<br><br>Buddsoddir y dderbyniadau cyfalaf a dderbynnir ynm Mhlas Arthur yn bennaf.<br><br>Bydd y llain ymarfer yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd ac mae buddsoddiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn parhau'n gynaliadwy. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 47 | 28/07/2019 16:45 PM<br>ID: 123170487 | Plenty of golfing venues on Anglesey and it would be better to spend money in order to keep Plas Arthur open. | Mae'r Cyngor Sir o'r farn bod darpariaeth ddigonol ar gael yn Ynys Môn ac y gall buddsoddi ym Mhlas Arthur sicrhau iechyd a llesiant y gymuned. |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank